Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GWYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| DYDD IAU, 23 MAI 2013 | THURSDAY, 23 MAY 2013 |
| am 11.00 o'r gloch | at 11.00am |

R H A G L E N

**[NODYN : Cadeirio Cyfarfod – Mae'r Cynghorydd R.Ll. Jones yn gymwys i gadeirio'r cyfarfod yn unol â Rhan 1, Adran 3(2) (Cadeirydd) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Nid oes gan y Cadeirydd bleidlais ond mae ganddo bleidlais fwrw.]**

## 1 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL 2013 - CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwyniad gan gynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru
**(Copi o Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynghlwm).**

Bydd sesiwn fer i aelodau ofyn a chael atebion.

## 2 COFNODION

Cyflwyno i'w cadarnhau gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 5 Mawrth 2013
- 16 Ebrill 2013 (Arbennig)

## 3 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

## 4 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD NEU'R PRIF WEITHREDWR

## 5 COFNODION ER GWYBODAETH - BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD

Cyflwyno er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfodydd o Fwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth Ynys Môn a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

· 28 Chwefror 2013
· 25 Ebrill 2013

## 6 CYFLWYNO DEISEBAU

Yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad, cyflwyno deiseb gan y Prif Weithredwr ar ran y Cynghorydd Aled Morris Jones, yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i ryddhau swm o £250,000 o'r arian wrth gefn yn awr i gyllido gwaith trwsio brys ar lonydd Ynys Môn.

## 7 NEWID I GYFANSODDIAD Y CYNGOR - NEWIDIADAU I'R RHEOLAU GWEITHDREFN CYNLLUNIO CYN Y WARDIAU AML AELOD YN DILYN ETHOLIADAU 2013

Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill 2013, wedi penderfynu fel a ganlyn:-

"*Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn diwygio Cyfansoddiad y Cyngor fel a nodir yn yr adroddiad ac i awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau dilyniadol i'r*

*Cyfansoddiad".*

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro /Cyfreithiwr Cynllunio fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Ebrill 2013.

## 8 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD - CREU PROTOCOL AR GYFER CYFRYNGAU CYMDEITHASOL MEWN CYFARFODYDD

Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill 2013, wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"Argymell i'r Cyngor llawn bod y Protocol Cyfryngau Cymdeithasol yn cael ei fabwysiadu a'i ymgorffori yn y Cyfansoddiad a bod awdurdod yn cael ei roddi i Swyddogion i wneud unrhyw newidiadau dilyniadol i'r Cyfansoddiad".*

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Ebrill 2013.

## 9 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD - AMLDER Y PWYLLGORAU SGRIWTINI

Adrodd i'r Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill 2013, benderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

• "*Y bydd y ddau Bwyllgor Sgriwtini newydd yn cael eu galw'n Bwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio;*
• *Y bydd cyfarfodydd Cyffredin o bob Pwyllgor Sgriwtini yn cael eu cynnal chwe gwaith ym mhob Blwyddyn Ddinesig;*
• *Bod awdurdod yn cael ei roddi i swyddogion i wneud unrhyw newidiadau dilyniadol i'r Cyfansoddiad."*

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Monitro fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Ebrill 2013.

## 10 MABWYSIADU POLISI GDG NEWYDD YN LLE'R POLISI CRB CYFREDOL

Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 22 Ebrill 2013, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

• *"Ei fod yn mabwysiadu'r polisi GDG newydd (yr hen Bolisi Cofnodiadau Troseddol Corfforaethol) gydag awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro ddiwygio'r drafft yng nghyswllt enwi'r Pwyllgorau Sgriwtini a chyfatebu (os yn bosibl) y cyfnod pryd y gall gwiriadau GDG barhau'n ddilys, a'i fod yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.*

• *Bod trefniadau'n cael eu gwneud i alw gweithdai hyfforddiant i Aelodau".*

Cyflwyno adroddiad gan yr Uwch Gyfreithiwr (Gwasanaethau Plant) fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Ebrill 2013.

## 11 MABWYSIADU PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL YN LLE'R PROTOCOL HUNAN-REOLIAD CYFFREDIN

Cyflwyno adroddiad gan Mr Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

## 12 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2012-13

Cyflwyno adroddiad gan Mr Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

## 13 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2012-13

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 14 ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI 2012-13

Cyflwyno adroddiad gan Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

## 15 HYFFORDDIANT A DATBLYGU AELODAU 2013-14

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

## 16 RHYBUDDION O GYNIGIAD A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.4.2.2.12 Y CYFANSODDIAD

- Cyflwyno'r Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Richard O Jones a W T Hughes:-

*"Rydym ni sydd wedi arwyddo isod, yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i ystyried gosod plac coffa ar Neuadd Cemaes, sef prif gartref y Brigadydd Cyffredinol Syr Owen Thomas KT, AS, DL,YH.*

*Roedd Syr Owen Thomas yn Ddyngarwr, Ffermwr, Entrepreneur, Ynad Heddwch, Aelod o'r Orsedd, Aelod o'r Staff Milwrol a chefnogwr yr Ysgol Sul a'r Aelod Llafur Annibynnol Cyntaf o'r Tŷ Cyffredin o Ynys Môn."*

**I roi ystyriaeth i'r uchod.**

- Cyflwyno'r Rhybudd o Gynigiad isod gan y Cynghorydd Aled Morris Jones a eiliwyd gan y Cynghorydd G.O. Jones ac o lofnodwyd hefyd gan y Cynghorwyr R.A. Dew, Jim Evans, D.R. Hughes, K.P. Hughes, T. Victor Hughes, W.T. Hughes, H.E. Jones, P.S. Rogers, J.A. Rowlands ac Ieuan Williams.

*"Rydym yn gofyn i Gyngor Sir Ynys Môn ganiatáu Rhyddfraint y Sir i'r Llynges Frenhinol.*

*Mae hyn i gydnabod eu cyfraniad o ran cadw llwybrau'r môr o gwmpas ein harfordir yn ddiogel. Dylid ystyried caniatáu'r Rhyddfraint fel un digwyddiad i goffau canmlwyddiant y Rhyfel Mawr rhwng 1914 a 1918.*

*Rydym yn cofio ein harwyr llyngesol, William Williams VC, Amlwch a'r Llyngesydd Syr Max Horton. Byddai'r Rhyddfraint yn rhoi i'r Llynges Frenhinol yr hawl i orymdeithio gyda'r baneri'n hedfan, drymiau'n curo a'r bidog wedi'i osod."*

**I roi ystyriaeth i'r uchod.**

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Ynys Môn

Cyhoeddwyd: Mawrth 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 177A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn wedi'i baratoi ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones ac Andy Bruce o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 7

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ac mae wedi ymateb yn adeiladol i gyngor gan y Comisiynwyr a'r rheoleiddwyr, ond mae angen i fomentwm y newid barhau er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy 8

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i flaenoriaethau ond mae angen iddo ganolbwyntio ar wasanaethau gwannach er mwyn gwella canlyniadau i'r cyhoedd 8

Mae dulliau'r Cyngor o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad a gwerthuso perfformiad yn gwella, ac mae'r Uwch Dîm Arwain yn ychwanegu at allu ac adnoddau'r Cyngor i gyflawni rhagor o welliannau 16

Mae gan y Cyngor gynllun cynhwysfawr ar gyfer gwella a fydd yn heriol i'w gyflawni, ond sydd â rhagolygon realistig i gyflwyno gwelliannau sylweddol i wasanaethau ac i bobl Ynys Môn 20

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 23

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Ynys Môn a Chyngor Sir Ynys Môn 24

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 26

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn 28

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhennir yr adroddiad yn dair prif adran, sy'n cwmpasu'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ac mae wedi ymateb yn adeiladol i gyngor gan y Comisiynwyr a'r rheoleiddwyr, ond mae angen i fomentwm y newid barhau er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy.

3 Canfuwyd bod y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i flaenoriaethau ond mae angen iddo ganolbwyntio ar wasanaethau gwannach er mwyn gwella canlyniadau i'r cyhoedd:

- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â themâu rheolaeth gorfforaethol y Comisiynwyr ac mae wedi cyrraedd trobwynt gan fod yr ymyrraeth yn cael ei chwtogi;
- gwneir cynnydd da o ran sicrhau gwelliant ym mherfformiad gwasanaethau plant ac ymateb i ganfyddiadau arolygiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a gynhaliwyd yn 2011;
- mae'r Cyngor yn ymateb yn adeiladol i ganfyddiadau arolygiad Estyn a gynhaliwyd yn 2012;
- ar y cyfan, mae gwasanaethau budd-dal tai yn gwella;
- mae'r Cyngor yn un o ddim ond dau o gynghorau yng Nghymru sydd wedi cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn y dyddiad targed ac mae'r trefniadau ar gyfer gwneud atgyweiriadau ymatebol i dai yn gwella;
- mae trefniadau'r Cyngor i reoli ei asedau gwybodaeth yn cyfyngu ar ei allu i wella; a
- mae'r Cyngor yn datblygu ei drefniadau gweithio mewn partneriaeth, gan ddechrau ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy effeithiol ac mae'n mynd i'r afael â materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

4 Canfuwyd hefyd bod dulliau'r Cyngor o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad a gwerthuso perfformiad yn gwella, ac mae'r Uwch Dîm Arwain yn ychwanegu at allu ac adnoddau'r Cyngor i gyflawni rhagor o welliannau:

- mae adroddiad hunanwerthuso blynyddol y Cyngor yn gytbwys ond mae lle i gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol i ddarparu sail dystiolaeth gyflawn i'w alluogi i asesu ei berfformiad;
- mae'r trefniadau llywodraethu a monitro yn gwella ac mae'r pwyllgorau craffu ac archwilio'n perfformio'n dda, gydag aelodau etholedig a lleyg yn cynnig her a mewnbwn gwerthfawr;

- mae'r Cyngor yn dysgu i fod yn fwy hunanfeirniadol wrth werthuso'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion; ac
- mae'r Uwch Dîm Arwain yn darparu arweinyddiaeth gref a gweladwy, ac mae wedi ychwanegu'n sylweddol at allu ac adnoddau'r Cyngor i gyflawni rhagor o welliannau.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn amlinellu ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gynorthwyo gwaith gwella. Daethom i'r casgliad canlynol: mae gan y Cyngor gynllun cynhwysfawr ar gyfer gwella a fydd yn heriol i'w gyflawni, ond sydd â rhagolygon realistig i sicrhau gwelliannau sylweddol i wasanaethau a phobl Ynys Môn. Nodwyd y canlynol gennym:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd graddol o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol;
- mae gan y Cyngor gynlluniau ariannol clir a chadarn ond mae'n wynebu nifer o heriau ariannol yn sgil mesurau caledi parhaus; ac
- mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun datblygu sefydliadol i gefnogi gwelliannau hirdymor a moderneiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio.

# Argymhellion

6 Nid ydym yn gwneud rhagor o argymhellion yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* hwn. Mae'r Cyngor wedi pennu agenda heriol iddo'i hun. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff yn monitro cynnydd y Cyngor wrth weithredu'r agenda hon yn ystod y flwyddyn i ddod.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan y Mesur, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei *Adroddiad Gwella Blynyddol* diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon neges e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni'r gwelliannau ac mae wedi ymateb yn adeiladol i gyngor gan y Comisiynwyr a'r rheoleiddwyr, ond mae angen i fomentwm y newid barhau er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy

### Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i flaenoriaethau ond mae angen iddo ganolbwyntio ar wasanaethau gwannach er mwyn gwella canlyniadau i'r cyhoedd

#### Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â themâu rheolaeth gorfforaethol y Comisiynwyr ac mae wedi cyrraedd trobwynt allweddol gan fod yr ymyrraeth yn cael ei chwtogi

11 Yn dilyn argymhelliad gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Mawrth 2011, penododd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol bum Comisiynydd i ddisodli Gweithrediaeth y Cyngor. Roedd ymyrraeth ar y raddfa hon yn unigryw, gan adlewyrchu difrifoldeb problemau hanesyddol y Cyngor. Wedi hynny, datblygodd y Comisiynwyr raglen waith i helpu i arwain at welliant cynaliadwy yn nhrefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae'r rhaglen waith yn cynnwys datblygu 10 thema gwella trefniadau llywodraethu corfforaethol y mae'r Comisiynwyr yn asesu cynnydd y Cyngor yn eu herbyn yn rheolaidd. Mae'r themâu'n gynhwysfawr o ran y modd y maent yn rhoi sylw i'r materion allweddol y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau adferiad cynaliadwy hirdymor.

12 Yn *Adroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd, argymhellwyd y dylai Gweinidogion Cymru:

- hyrwyddo trosglwyddo'r pŵer i wneud penderfyniadau yn raddol o'r Comisiynwyr i'r Weithrediaeth gysgodol; ac
- wrth i'r broses o drosglwyddo pŵer i wneud penderfyniadau fynd rhagddi, ailddiffinio rôl Comisiynwyr er mwyn monitro cynnydd y Cyngor, a chadw'r pŵer i ymyrryd yn ôl yr angen.

13 Yn ei *Lythyr Asesiad Gwella* ym mis Medi 2012, cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol â'r Comisiynwyr bod amodau ar waith yn y Cyngor i alluogi'r Gweinidog i ystyried trosglwyddo rheolaeth ddemocrataidd yn ôl i'r Cyngor gyda mesurau diogelu penodol.

14 Ym mis Hydref 2012, trosglwyddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yr holl bwerau a arferwyd gan y Comisiynwyr gynt yn ôl i'r Cyngor a'i Weithrediaeth. Roedd y penderfyniad yn seiliedig ar y cynnydd a wnaeth y Cyngor a chanfyddiadau'r gwaith a wnaethpwyd gennym eleni. Fodd bynnag, er mwyn diogelu'r gwelliannau y mae'r Cyngor wedi'u cyflawni, rhoddodd y Gweinidog gyfarwyddyd y dylid cadw tri o'r pum Comisiynydd tan 31 Mai 2013. Cam 'gwella a chynaliadwyedd' yr ymyrraeth yw'r enw a roddir ar hyn. Bydd y Comisiynwyr eraill yn monitro cynnydd ac yn cyflwyno adroddiadau i Weinidogion ar hyn ac yn cynnig arweiniad, mentora a chymorth parhaus i'r Cyngor a'i swyddogion. Yn ogystal, mae Comisiynwyr yn cadw'r pŵer i gadarnhau neu ddiystyru unrhyw un o benderfyniadau'r Cyngor sy'n mynd yn groes i gyngor swyddogion statudol.

15 Mae'r Comisiynwyr bellach yn adolygu cynnydd yn ffurfiol drwy gyfarfodydd misol y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd. Mae chweched adroddiad cynnydd y Comisiynwyr a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2013 yn dangos bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn pob un o'r 10 thema gwella trefniadau llywodraethu corfforaethol.

## Gwneir cynnydd da o ran sicrhau gwelliant ym mherfformiad gwasanaethau plant ac ymateb i ganfyddiadau arolygiad AGGCC a gynhaliwyd yn 2011

16 Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd AGGCC ei hadolygiad a'i gwerthusiad o berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2011-12. Mae'r adroddiad yn disgrifio newid a gwelliant cadarnhaol ond mae risgiau o hyd.

17 Nododd AGGCC fod 2011-12 yn flwyddyn o newid sylweddol i adran Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn. Yn benodol, cafwyd gweithgarwch corfforaethol dwys mewn ymateb i bryderon ynghylch gwasanaethau plant, yn enwedig mewn perthynas â diogelu. Penodwyd cyfarwyddwr interim newydd ar ddiwedd mis Ionawr 2012 a phenodwyd cyfarwyddwr parhaol i'r swydd ym mis Awst 2012. Hefyd, penododd y Cyngor Bennaeth Gwasanaethau Plant newydd.

18 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu heriau parhaus o ran ei allu i recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ailstrwythuro ei weithlu ar draws pob gwasanaeth a gwneud cynnydd gyda gwerthuso swyddi a dod i gytundeb ar Statws Sengl. Gallai'r gwaith helpu i ddatrys yr anawsterau presennol mewn gwasanaethau cymdeithasol.

19 Mae'r Cyngor yn wynebu sefyllfa ariannol heriol. Mae wedi cytuno ar yr egwyddorion sydd eu hangen i foderneiddio gwasanaethau oedolion, ond bydd angen cryn oruchwyliaeth a chymorth corfforaethol ar gyfer y penderfyniadau anodd sy'n ofynnol ac i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn. Yn hyn o beth, bydd gan y broses gynyddol o weithredu ac ymgorffori mentrau corfforaethol megis rheoli risg, rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd y potensial i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau cymdeithasol.

20 Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r meysydd i'w datblygu a nodwyd gan AGGCC y llynedd, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau plant. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno canllawiau cryfach, wedi cynyddu staff ac wedi cyflwyno arbenigedd ychwanegol. Cafwyd hefyd ymdrechion sylweddol i wella perfformiad a rheoli ansawdd.

21 Mae'r cynnydd wedi bod yn foddhaol, ac, yn ystod 2011-12, mae'r Cyngor wedi symud o fod yn awdurdod sy'n perfformio'n wael i awdurdod sy'n perfformio'n dda yn erbyn nifer o ddangosyddion perfformiad. Mae adroddiad llawn AGGCC ar gael yn http://cymru.gov.uk/docs/cssiw/publications/121031angleseycy.pdf.

## Mae'r Cyngor yn ymateb yn adeiladol i ganfyddiadau arolygiad Estyn a gynhaliwyd yn 2012

22 Arolygwyd Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Awdurdod Addysg Lleol y Cyngor gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mai 2012. Canfu'r arolygiad fod y gwasanaethau'n anfoddhaol a bod eu gallu i wella yn anfoddhaol. Mae'r adroddiad yn argymell y dylai'r Cyngor:

- godi safonau ym mhob cyfnod allweddol a sicrhau bod pob dysgwr sy'n gallu gwneud hynny'n cyflawni llythrennedd ymarferol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- cynllunio'n fwy effeithiol gyda gweithwyr proffesiynol i wella presenoldeb mewn ysgolion;
- sefydlu prosesau cynllunio busnes, cynllunio prosiectau ac asesu risg cadarn i broffesiynoli'r dull gweithredol o ddarparu gwasanaethau addysg;
- cynllunio effeithlonrwydd yn well wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer y gwasanaeth dysgu gydol oes;
- sicrhau mwy o drylwyredd a chysondeb mewn gofynion hunanarfarnu, yn weithredol ac yn strategol;
- cymryd camau i leihau lleoedd gwag mewn ysgolion; a
- ffurfioli a chryfhau systemau rheoli perfformiad a herio perfformiad ysgolion a swyddogion.

23 Etifeddwyd rhai o'r materion sy'n codi yn sgil trefniadau llywodraethu corfforaethol gwael dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymateb yn adeiladol ac yn gyfrifol, ac wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i wella ansawdd ei wasanaethau addysg. Wedi hynny, penodwyd Bwrdd Adfer gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ddarparu cymorth a her allanol.

24 Mae trefniadau ar waith i'r Bwrdd Adfer gyd-drafod â'r Comisiynwyr er mwyn sicrhau cysondeb o ran gwelliannau corfforaethol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi secondio swyddog i'r Cyngor er mwyn hwyluso'r broses o gynnig her a chymorth.

25 Ers hynny, mae'r Bwrdd Adfer wedi adolygu gwybodaeth strategol a gweithredol fanwl ac wedi cael adroddiadau cynnydd rheolaidd. Cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws hefyd i gasglu mwy o wybodaeth a thystiolaeth, ac i roi cyfeiriad clir o ran yr hyn y mae angen ei wella. Roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys penaethiaid ysgolion uwchradd a chynradd, swyddogion addysg, swyddogion gwella ysgolion, llywodraethwyr ysgolion a'r pwyllgor craffu.

26 Roedd y cyfarfodydd a'r grwpiau ffocws yn gynhyrchiol gan roi dull i'r Bwrdd Adfer gynorthwyo'r Cyngor i wneud gwelliannau ac ymateb yn effeithiol i argymhellion Estyn. Mae'r Bwrdd Adfer wedi nodi'r camau gweithredu canlynol i helpu i gefnogi cynllun gweithredu'r Cyngor:

- trefnu system o weithdai hunanwella i ysgogi a dyfnhau cydweithio rhwng penaethiaid yn Ynys Môn;
- cynnal trosolwg strategol o'r ystâd ysgol gyfan i helpu i ad-drefnu ysgolion a lleihau lleoedd gwag; a
- darparu mentor i gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes.

27 Yn 2012, roedd perfformiad ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella'n sylweddol o gymharu â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol ac o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Mae'r data diweddaraf ar bresenoldeb mewn ysgolion hefyd yn dangos gwelliant. Ers adennill ei phwerau i wneud penderfyniadau, mae'r Weithrediaeth wedi gwneud penderfyniadau anodd ond angenrheidiol i aildrefnu'r ddarpariaeth ysgolion cynradd. Os cânt eu gweithredu, bydd y penderfyniadau hyn yn helpu i ddarparu system addysg gynradd fodern a chynaliadwy ac yn helpu i leihau lleoedd gwag. Mae'r Bwrdd Adfer wedi nodi ei fod yn optimistaidd ynghylch y potensial i'r Cyngor wneud gwelliannau sylweddol.

## Ar y cyfan, mae gwasanaethau budd-dal tai yn gwella

28 Yn debyg i gynghorau eraill yng Nghymru, roedd y cynnydd yn nifer yr hawlwyr budd-dal tai yn ystod 2011-12 wedi arafu o gymharu â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2009 a mis Mai 2011. Cafwyd 7,510 o hawlwyr ym mis Mai 2012, tri y cant yn fwy na'r hyn a gafwyd ym mis Mawrth 2011.

29 Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflymu'r gwaith o brosesu ceisiadau newydd a newid mewn amgylchiadau. Roedd yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i brosesu ceisiadau newydd wedi lleihau o gyfartaledd o 22 ddiwrnod yn 2010-11 i 21 diwrnod yn 2011-12 ac mae bellach yn agos at gyfartaledd Cymru, sef 20 diwrnod. Mae'r amser a gymerir i brosesu hysbysiadau newidiad mewn amgylchiadau hefyd wedi lleihau i naw diwrnod ar gyfer 2011-12 ond mae dal yn hwy na chyfartaledd Cymru, sef saith niwrnod.

30 Er bod cyflymder prosesu'n bwysig, ceir nifer o fesurau eraill sy'n helpu i roi darlun llawn o ba mor dda y mae'r Cyngor yn prosesu ceisiadau am fudd-daliadau. Gan nad yw'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn cyhoeddi'r data hwn, rydym wedi'i gasglu'n uniongyrchol ar gyfer y cynghorau drwy'r proffiliau perfformiad gwasanaeth. Mae dadansoddi'r mesurau hyn ar gyfer 2011-12 yn awgrymu bod gwasanaeth budd-dal tai effeithiol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ar waith:

- Roedd canran y ceisiadau newydd am fudd-dal tai a benderfynwyd o fewn 14 diwrnod wedi gwella i 94 y cant yn 2011-12, sy'n well na chyfartaledd Cymru, sef 91 y cant.

- Roedd canran y ceisiadau newydd a oedd yn aros am fwy na 50 diwrnod am benderfyniad wedi gostwng i dri y cant yn 2011-12. Mae'r lleihad hwn yn dangos bod y gwasanaeth wedi lleihau ei ôl-groniad a'i fod yn darparu gwasanaeth prydlon i fwyafrif yr hawlwyr.

- Mae'r Cyngor hefyd wedi gwella cyflymder y broses o ymdrin ag apeliadau. Cafodd pob un o'r saith apêl a gafwyd yn 2011-12 eu cyflwyno i'r gwasanaeth apeliadau o fewn tri mis a chafwyd lleihad yn yr amser cyfartalog a gymerwyd i ymdrin ag apeliadau o 103 o ddiwrnodau yn 2010-11 i 74 o ddiwrnodau yn 2011-12.

- Cafodd 95 y cant o hawliadau budd-dal tai eu cyfrifo'n gywir yn 2011-12, ychydig yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

- Llwyddodd y Cyngor i adennill canran lai o ordaliadau budd-dal tai yn ystod 2011-12 o gymharu â 2010-11. Fodd bynnag, roedd canran y gordaliadau a ddiddymwyd yn ystod 2011-12 yn is nag yn 2010-11. Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn sylweddoli bod cynnwys camau adennill yn nyletswyddau'r staff prosesu'n cyfrannu at y dirywiad mewn perfformiad yn ystod 2011-12 a bod angen rhywfaint o arbenigedd. Mae aelod arbenigol o staff bellach yn ymdrin ag achosion o ordaliadau cyn iddynt gael eu hanfon i'r Tîm Adfer.

- Llwyddodd y Cyngor i gynnal ei berfformiad o ran canfod achosion a amheuir o hawliadau twyllodrus am fudd-dal tai ac ymchwilio i'r rhain.

31 Mae cyflwyno ATLAS (Trosglwyddiadau Awtomataidd i Systemau Awdurdodau Lleol) wedi creu llwyth gwaith ychwanegol i bob cyngor yng Nghymru. Mae ATLAS yn galluogi data dyfarnu i gael ei drosglwyddo'n awtomatig ar gyfer amrywiaeth o fudd-daliadau DWP a chredydau treth Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn uniongyrchol i systemau awdurdodau lleol. Trosglwyddir gwybodaeth lle y ceir dyfarniad newydd neu newid mewn dyfarniad a bod cwsmer y DWP/Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn derbyn budd-dal tai/budd-dal treth cyngor. Er y dylai ATLAS leihau gordaliadau ymhen amser, efallai y bydd cynghorau'n wynebu gwaith ychwanegol yn y byrdymor. Cadarnhaodd y Cyngor fod cyflwyno ATLAS wedi creu llwyth gwaith ychwanegol i staff i ddechrau, ond yn ystod 2012 gweithredodd drefniadau awtomataidd drwy ddefnyddio system TG Northgate. Mae ATLAS bellach yn gweithio'n effeithiol a phrin yw'r tarfu ar swyddogaethau prosesu arferol. Bydd yn bwysig bod y Cyngor yn parhau i weithredu ar y data a drosglwyddir drwy system ATLAS, oherwydd yn system cymhorthdal 2012-13 ceir posibilrwydd y bydd unrhyw newidiadau 'heb eu gweithredu' yn cael eu hystyried fel gwall gan yr awdurdod lleol.

## Mae'r Cyngor yn un o ddim ond dau o gynghorau yng Nghymru sydd wedi cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn y dyddiad targed ac mae'r trefniadau ar gyfer gwneud atgyweiriadau ymatebol i dai yn gwella

32 Mae Safon Ansawdd Tai Cymru yn safon y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r holl dai cymdeithasol ei chyrraedd erbyn mis Mawrth 2013. Yn ogystal â mynd i'r afael â chyflwr ffisegol adeiladau, mae'r safon hefyd yn integreiddio pryderon cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

33 Mae'r system foderneiddio wedi arwain at welliannau sylweddol i gartrefi tenantiaid sy'n byw mewn bron 4,000 o adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor ar Ynys Môn gyda'r mwyafrif yn cael ceginau, ystafelloedd ymolchi a gwifrau newydd. Cyrhaeddwyd y safon ym mis Rhagfyr 2012, cyn y terfyn amser. Mae'r Cyngor wedi perfformio'n dda drwy fod yn un o ddim ond dau gyngor yng Nghymru a'r unig gyngor yng Ngogledd Cymru i gyrraedd y safon erbyn mis Rhagfyr 2012.

34 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad o ddigartrefedd yn Ynys Môn yn ddiweddar a byddaf yn cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau'r adolygiad yn ddiweddarach eleni ac yn fy *Llythyr Asesu Gwella* yn ddiweddarach yn 2013.

35 Mae darparu atgyweiriadau ymatebol yn un swyddogaeth bwysig i denantiaid y Cyngor. Ymhlith yr enghreifftiau mae trwsio ffenestri sydd wedi hollti, dadflocio draeniau neu gywiro nam gyda gwaith plymio neu nam trydanol. Gan ystyried pryderon y Cyngor ei hun, yn 2012 gwerthuswyd pa mor effeithiol y darparwyd gwasanaeth cynnal a chadw'r Cyngor ar gyfer atgyweiriadau ymatebol.

36 Canfu ein gwaith fod trefniadau'r Cyngor wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd a'u bod wedi eu rhannu rhwng y cleient a'r contractwr. Tîm Gwasanaethau Tai y Cyngor, a leolir yn Llangefni, yw'r cleient ac Uned Cynnal a Chadw Adeiladau'r Cyngor, yn y Gaerwen, yw'r contractwr. Flynyddoedd yn ôl, disodlwyd y gofynion statudol i gynghorau sicrhau bod gwasanaethau'n destun proses Tendro Cystadleuol Gorfodol gan y ddyletswydd i sicrhau gwerth gorau. Felly nid oes gofyniad ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau'n seiliedig ar raniad rhwng y cleient a'r contractwr.

37 Roedd trefniadau ar gyfer Uned Cynnal a Chadw Adeiladau'r Cyngor yn seiliedig ar fodloni gofynion Tendro Cystadleuol Gorfodol nad ydynt yn gyfredol mwyach. Adnabuwyd nifer o fannau gwan yn y fframwaith gan ein hadolygiad, megis anawsterau wrth asesu effeithiolrwydd y gwasanaeth ac os oedd yn darparu gwerth am arian. Ymatebodd y Cyngor yn adeiladol drwy gynnal adolygiad o'r gwasanaeth â chefnogaeth ymgynghorydd allanol. Ym mis Hydref 2012, datblygodd y Cyngor gynllun gweithredu a gaiff ei fonitro'n fisol gan y Pennaeth Gwasanaethau ac uwch-swyddogion. Mae'r Cyngor yn cyflwyno dulliau mwy effeithiol o reoli'r gwasanaeth, gan gynnwys mabwysiadu dull cost canolog, a chyflwyno amserlen graddfeydd cryno a safon gosod newydd. Mae technoleg newydd yn cael ei gyflwyno a fydd yn cefnogi gweithio symudol ar gyfer gwasanaethau tai, ac mae targedau perfformiad wedi eu mabwysiadu.

## Mae trefniadau'r Cyngor i reoli ei asedau gwybodaeth yn cyfyngu ar ei allu i wella

38 Gyda phwysau ariannol cynyddol ar y sector cyhoeddus, mae angen mwyhau'r wybodaeth a gedwir a manteisio i'r eithaf arni i gyflawni a chynllunio gwasanaethau o ansawdd yn effeithiol, gan wneud penderfyniadau gyda'r holl wybodaeth sydd ar gael i gynorthwyo a diogelu pobl sy'n agored i niwed.

39 Nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod llawer o awdurdodau lleol yn cael trafferthion o ran defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i drawsnewid gwasanaethau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. O ganlyniad, yn ystod 2011-12 cynhaliwyd adolygiadau o drefniadau rheoli gwybodaeth ym mhob cyngor yng Nghymru.

40 Daeth ein hadolygiad o drefniadau'r Cyngor, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012, i'r casgliad bod: trefniadau presennol y Cyngor i reoli ei asedau gwybodaeth yn wan ac yn cyfyngu ar ei allu i wella. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- nid oes gan y Cyngor strategaeth wybodaeth, ac nid yw perchenogaeth, atebolrwydd a chyfrifoldebau am wybodaeth wedi'u pennu; a
- ar y cyfan, mae gan y Cyngor wybodaeth dechnegol gadarn ac mae ei berfformiad yn dda mewn perthynas â cheisiadau i weld gwybodaeth yn ymwneud â diogelu data a rhyddid gwybodaeth, ond mae prinder gwybodaeth am ei ased gwybodaeth yn golygu na all ddeall yn llawn feysydd sy'n cynrychioli'r risg fwyaf ac felly ni all ganolbwyntio ei ymdrechion ar y meysydd y mae angen eu gwella fwyaf.

41 Ym mis Medi 2012, cynhaliodd yr Archwilwyr Mewnol adolygiad o ddiogelwch data fel rhan o'i gynllun archwilio mewnol ar gyfer 2011-12. Amlygodd yr adroddiad nifer o wendidau tebyg ar gyfer rheoli data.

42 Mae'r Cyngor yn ymateb yn gadarnhaol ac wedi sefydlu grŵp prosiect a chynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r gwendidau. Bydd y grŵp prosiect yn cyflwyno adroddiadau ar gynnydd i'r Dirprwy Brif Weithredwr.

## Mae'r Cyngor yn datblygu ei drefniadau gweithio mewn partneriaeth, gan ddechrau ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy effeithiol ac mae'n mynd i'r afael â materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

43 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd drwy nifer o fentrau cydweithredol, er bod rhai nad ydynt wedi'u datblygu'n llawn eto. Mae'r trefniadau corfforaethol newydd yn galluogi'r Prif Weithredwr i ganolbwyntio mwy ar ddatblygu arweinyddiaeth a chydweithio rhanbarthol. Ymhlith yr enghreifftiau mae gweithio gyda Chyngor Gwynedd ar ddatblygu:

- Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd
- Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd
- Gwasanaeth Integredig i Gynorthwyo Teuluoedd
- Uned Polisi Cynllunio ar y cyd

44 Mae'r Cyngor hefyd yn ymwneud â chydweithio rhanbarthol yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys datblygu canolfan gomisiynu ar gyfer lleoliadau preswyl

arbenigol i blant. Ymhlith enghreifftiau eraill o waith partneriaeth ar draws y gogledd mae datblygu prosiect trin gwastraff gweddilliol rhanbarthol, partneriaeth mwynau a chynllunio gwastraff a strwythur rheoli trafnidiaeth rhanbarthol.

45 Gwnaeth y Cyngor gynnydd yn ystod y flwyddyn wrth iddo ddechrau ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd unwaith eto. Cynhaliodd y Cyngor sesiynau galw heibio i'r cyhoedd o'r enw *Ein Cyngor, Eich Cyfraniad* ac arolwg o dros 1,000 o drigolion, a defnyddiwyd yr adborth i ailbennu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2012-13 ac i lunio ei gynllun ar gyfer 2012-2015. Mae dinasyddion yn cael eu hannog i barhau i gysylltu â'r Cyngor i helpu i sefydlu amcanion gwella ar gyfer 2013-14. At hynny, sefydlodd y Cyngor banel o 400 o drigolion sy'n barod i fod yn rhan o ymgynghoriad ar amrywiaeth o faterion.

46 Yn ogystal, mae gwefan y Cyngor wedi gwella, yn fwy hygyrch, yn llawn gwybodaeth ac yn ymgynghorol. Mae'r Cyngor hefyd yn cymryd nifer o fentrau eraill i godi ei broffil drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a'r orsaf radio gymunedol leol, *Môn FM*, yn fwy effeithiol.

47 Yn ystod 2012, roedd ansicrwydd ynghylch datblygu atomfa niwclear Wylfa B. Fodd bynnag, cafwyd datblygiad newydd gyda chonsortiwm tramor yn prynu'r safle i'w ddatblygu yn y dyfodol. Yn y cyfamser, mae arwyddion calonogol o'r potensial ar gyfer adfywio economaidd yn dod i'r amlwg drwy fentrau sydd wedi'u cefnogi gan y llywodraeth megis statws Ardal Fenter a'r *Rhaglen Ynys Ynni*.

48 Mae casglu a gwaredu gwastraff yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd ac mae dyletswydd statudol ar gynghorau yng Nghymru i gasglu gwastraff trefol a chael gwared arno. Mae hyn yn cynnwys casgliadau rheolaidd o gartrefi, casgliadau ailgylchu, casglu nwyddau swmpus a gwastraff a dderbynnir mewn safleoedd amwynder dinesig. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed i gynghorau, sef ailgylchu 52 y cant o wastraff trefol erbyn 2012-13, gyda'r posibilrwydd o ddirwyon i'r rhai nad ydynt yn cyrraedd y targed. Mae'r cyngor yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd ei dargedau gwastraff cenedlaethol a rhagorodd ar y targed cenedlaethol, a hynny o dri y cant. Fodd bynnag, nid oedd modd ystyried bod y data ar gyfer y dangosydd hwn yn ddibynadwy am nad oedd y Cyngor yn gallu didoli gwastraff traeth oddi wrth wastraff mwy cyffredinol fel y diffinnir gan y dangosydd cenedlaethol.

49 Mae'n ofynnol i gynghorau yng Nghymru lanhau tipio anghyfreithlon ar raddfa fach neu fynd i'r afael â gadael gwastraff yn anghyfreithlon ar dir cyhoeddus, a hynny o fewn pum niwrnod i'r dyddiad y rhoddwyd gwybod am achos o'r fath. Mae perfformiad y Cyngor ar gyfer clirio achosion o dipio anghyfreithlon wedi gwella ers y llynedd, er ei fod yn dal yn y chwartel is o gymharu ag awdurdodau eraill Cymru.

# Mae dulliau'r Cyngor o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad a gwerthuso perfformiad yn gwella, ac mae'r Uwch Dîm Arwain yn ychwanegu at allu ac adnoddau'r Cyngor i gyflawni rhagor o welliannau

## Mae adroddiad hunanwerthuso blynyddol y Cyngor yn gytbwys ond mae lle i gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol i ddarparu sail dystiolaeth gyflawn i'w alluogi i asesu ei berfformiad

50 Yn *Llythyr Asesiad Gwella* Ionawr 2013 nodwyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio'n llawn â'i ddyletswyddau i gyflwyno adroddiadau am welliant o dan y Mesur; ond gallai cynnwys a strwythur Adroddiad Perfformiad y Cyngor (yr Adroddiad) gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol i roi sail dystiolaeth fwy cyflawn.

51 Mae'r Adroddiad yn cynnwys yr holl elfennau gofynnol. Yn benodol, mae'r Adroddiad yn esbonio sut mae ei gynnwys yn cyfrannu at ddyletswydd statudol y Cyngor i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a bod yn atebol. Mae hefyd yn nodi perfformiad y Cyngor yn erbyn pob dangosydd perfformiad statudol ac yn rhoi asesiad cytbwys o'i berfformiad. Mae'r Adroddiad yn rhoi arfarniad gonest o berfformiad ac nid yw'n rhoi argraff bod y Cyngor yn gorbwysleisio ei gryfderau nac yn tanamcangyfrif ei wendidau. Yn ogystal, mae ein sampl o ddangosyddion perfformiad y Cyngor eleni yn awgrymu bod ansawdd y data yn yr Adroddiad yn gadarn ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oes digon o wybodaeth yn yr Adroddiad i gefnogi gwerthusiad y Cyngor yn erbyn rhai o'i amcanion gwella.

## Mae'r trefniadau llywodraethu a monitro yn gwella ac mae'r pwyllgorau craffu ac archwilio'n perfformio'n dda, gydag aelodau etholedig a lleyg yn cynnig her a mewnbwn gwerthfawr

52 Yn ddiweddar, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor a daeth i'r casgliad fod y datganiadau ariannol yn foddhaol ar y cyfan. Dyma'r tro cyntaf yn ystod y tair blynedd diwethaf i'r broses hon gael ei chwblhau'n unol â'r holl amserlenni statudol. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

53 Ers eu penodi, mae'r Comisiynwyr wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau cynghorwyr a defnyddio'u gwybodaeth leol cyn gwneud penderfyniadau. Yn benodol, ymatebodd y Weithrediaeth gysgodol yn dda a chymerodd ymagwedd aeddfed o ran materion anodd, gan weithio'n dda gyda'r Comisiynwyr, y Prif Weithredwr, yr Uwch Dîm Arwain a swyddogion ar ddatblygiadau allweddol. Mae'r cynnydd hwn wedi'i gynnal ers i'r Weithrediaeth adennill ei phwerau i wneud penderfyniadau ym mis Hydref 2012.

54 Mae trefniadau'r Weithrediaeth a monitro wedi'u sefydlu bellach ac mae'r pwyllgor archwilio a'r cyfarfodydd craffu'n cael eu cynnal yn broffesiynol. Mae ansawdd yr adroddiadau a lefel y drafodaeth yng nghyfarfodydd y Cyngor wedi bod o safon dda ar y cyfan ac mae nifer o faterion, sy'n allweddol i'r adferiad parhaus, wedi mynd drwy'r broses ddemocrataidd. Drwy arsylwi ar gyfarfodydd, mae aelodau etholedig ac aelodau lleyg pwyllgorau'n rhoi mewnbwn gwerthfawr i'r broses lywodraethu.

55 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi nodi bod y trefniadau craffu'n gadarnach ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Cafwyd gwelliant ers sefydlu'r Grŵp Gorchwyl Iaith a chafodd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol y gorchwyl o gadw trosolwg o faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae gweithredu'r *Cynllun Iaith Gymraeg* hefyd yn cael ei ategu gan gynlluniau gweithredu adrannol, ac mae'r Cyngor yn casglu ac yn cofnodi gwybodaeth sy'n ymwneud â sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu. Mae'r gwaith o weithredu'r strategaeth sgiliau iaith a gwella gwybodaeth gorfforaethol am sgiliau iaith y gweithle hefyd yn parhau. Methodd y Cyngor â darparu gwybodaeth am ofynion iaith mewn contractau gyda thrydydd partïon. Fodd bynnag, mae ymrwymiad yn ei le i adolygu arferion caffael mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae gan y Cyngor broses i asesu effaith polisïau ar gydraddoldeb ac mae hyn yn cynnwys ystyried y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd wedi cynghori y bydd angen i brosesau monitro asesiadau gael eu gwella ymhellach yn ystod 2013.

56 Mae'r Cyngor wedi diwygio'i Gyfansoddiad er mwyn gwella'r ffordd y mae'n gweithredu. Dylai'r newidiadau helpu i atal rhai o'r materion a arweiniodd at ansefydlogrwydd gwleidyddol yn y gorffennol a rhoi rhywfaint o gynaliadwyedd i'r Cyngor yn y dyfodol.

57 Yn fy llythyr ym mis Medi, cyfeiriais at y ffaith bod y Cyngor wedi derbyn cynigion y Comisiwn Ffiniau i ad-drefnu ffiniau wardiau a chreu wardiau amlaelod ar gyfer yr etholiadau ym mis Mai 2013. O ganlyniad, bydd aelodaeth y Cyngor yn lleihau o 40 i 30 o gynghorwyr. Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull gweithredu sy'n fwy blaengar drwy ddatblygu fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd democrataidd diwygiedig i adlewyrchu'r Cyngor â 30 o aelodau a fydd yn dychwelyd ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2013.

## Mae'r Cyngor yn dysgu i fod yn fwy hunanfeirniadol wrth werthuso'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion

58 Gyda chymorth y Comisiynwyr dros y 18 mis diwethaf, mae aelodau ac uwch swyddogion yn rhoi mwy o arweinyddiaeth ynghylch nifer o faterion anodd. Ymhlith yr enghreifftiau mae materion sy'n ymwneud â chyllidebau a thoriadau posibl mewn gwasanaethau. Er y cafwyd gwahaniaeth barn yn wleidyddol, ar y cyfan mae'r awyrgylch yn y Cyngor wedi bod yn adeiladol ac yn ffafriol i drefn a disgyblaeth dda, gan arwain at wneud penderfyniadau cadarn a rhesymol. Ni chafwyd arwydd o ddychwelyd i ymddygiad dinistriol y gorffennol a phrin iawn fu'r cyhoeddusrwydd anffafriol yn y cyfryngau lleol. Mae hyn yn gam sylweddol ymlaen i'r Cyngor o ran adennill ei enw da ac ymddiriedaeth ei ddinasyddion.

59 Mae hanes y Cyngor o hunanwerthuso yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anghyson, gydag asesiadau allanol yn rhoi darlun o ddibynadwyedd amrywiol o ran hunanwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2011-12. Ym mis Mai 2012, daeth Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad bod gwasanaethau addysg y Cyngor yn anfoddhaol a bod eu rhagolygon ar gyfer gwella yn anfoddhaol. Wrth ddod i'r casgliadau hyn, barnwyd:

- nad yw'r prosesau cynllunio busnes ac asesu risgiau wedi bod yn ddigon cadarn i nodi arafwch y cynnydd mewn gwasanaethau addysg ac ysgolion a mynd i'r afael â hyn; a
- bod prosesau hunanwerthuso wedi bod yn anghyson a phrin fu'r cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaethpwyd mewn arolygiadau blaenorol.

60 I'r gwrthwyneb, mae AGGCC wedi dyfarnu bod gwerthusiad blynyddol y Cyngor o'i wasanaethau cymdeithasol yn gytbwys ac wedi'i ategu gan adroddiadau o wasanaethau oedolion a phlant. Roedd y dystiolaeth a ategai'r hunanwerthusiad yn eang ei chwmpas ac yn ddefnyddiol wrth asesu perfformiad y Cyngor.

61 Dros y 12 mis diwethaf, mae aelodau a swyddogion wedi mynd i weithdai datblygiadol a hwyluswyd yn allanol. Mae'r adborth a'r dysgu o'r gweithdai wedi helpu i ddatblygu methodoleg newydd ar gyfer hunanasesiad gyda phroses well ar gyfer rheoli perfformiad yn sail iddi.

62 Mae'r Comisiynwyr yn gweithio gyda'r Uwch Dîm Arwain, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a thîm o ymgynghorwyr rheoli newid i ddatblygu Fframwaith Asesu Cynaliadwyedd, a fydd yn sail i asesu a chyflwyno adroddiadau yn y dyfodol. Ar ôl ei gwblhau, bydd y fframwaith yn galluogi'r Cyngor i gasglu a, thrwy broses o hunanasesiad, ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen arno i ddangos ei gyflawniadau a sicrhau mwy o wrthrychedd yn y broses wella barhaus.

## Mae'r Uwch Dîm Arwain yn darparu arweinyddiaeth gref a gweladwy, ac mae wedi ychwanegu'n sylweddol at allu ac adnoddau'r Cyngor i gyflawni rhagor o welliannau

63 Yn fy llythyr ym mis Medi, nodais fod y Cyngor wedi recriwtio tri swyddog newydd a phrofiadol i'w Uwch Dîm Arwain. Gyda chymorth ac arweiniad y Comisiynwyr, mae'r tîm newydd yn rhoi arweinyddiaeth gref a gweladwy, ac mae wedi ychwanegu'n sylweddol at allu ac adnoddau'r Cyngor i sicrhau gwelliant pellach yn y swyddogaethau corfforaethol a swyddogaethau penodol i wasanaethau.

64 Yn sgil ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arwain, defnyddir yr unigolion sy'n rhan ohono i'r eithaf. Er enghraifft, mae'r Dirprwy Brif Weithredwr yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol dros gyfeiriad gweithredol a rheolaeth y Cyngor, ac am sefydlu trefniadau rheoli rhaglenni cadarn. Mae'r rôl hon yn helpu i ryddhau amser y Prif Weithredwr er mwyn gallu canolbwyntio ar faterion strategol o bwys, a chydgysylltu'n effeithiol â'r Weithrediaeth ac aelodau arweiniol.

65 Mae'r trefniadau newydd hefyd yn caniatáu i'r Prif Weithredwr ymwneud yn fwy â datblygu arweinyddiaeth a chydweithio rhanbarthol. Un enghraifft o hyn yw ymateb y Cyngor i gais y Gweinidog bod Ynys Môn yn cymryd rhan flaenllaw wrth fynd i'r afael â masnachu mewn pobl a gwaith gydag asiantaethau traws-sector ledled y gogledd.

66 Dros y 12 mis diwethaf, rhoddodd y Pennaeth Adnoddau interim arweinyddiaeth gadarn wrth helpu'r Cyngor i fynd i'r afael â'r heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu ac wrth ddechrau diwygio'r gwasanaethau Cyllid a TGCh. Er enghraifft, mae'r strwythur staffio yn yr adran Gyllid yn cael ei ddatblygu i ddarparu mwy o allu ac adnoddau i gynorthwyo gwasanaethau yn ogystal â darparu'r gwasanaethau cyllid corfforaethol gofynnol. I gynorthwyo gallu ac adnoddau ymhellach, mae'r Cyngor bellach wedi penodi Pennaeth Adnoddau, Pennaeth TGCh, ac wedi recriwtio Rheolwr Rhaglen i gydlynu gwella gwasanaethau.

# Mae gan y Cyngor gynllun cynhwysfawr ar gyfer gwella a fydd yn heriol i'w gyflawni, ond sydd â rhagolygon realistig i gyflawni gwelliannau sylweddol i wasanaethau ac i bobl Ynys Môn

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

67 Ceir pedwar amcan gwella ar gyfer 2012-13 yng nghynllun y Cyngor ac mae'n esbonio'n glir pam y dewiswyd yr amcanion gwella. Mae'r cynllun yn fwy seiliedig ar ganlyniadau nag o'r blaen ac yn adlewyrchu anghenion dinasyddion yn well. Cynhaliodd y Cyngor arolwg dinasyddion yn gynharach eleni gan ddefnyddio'r adborth i ailosod blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2012-13 ac i lunio ei gynllun ar gyfer 2012-2015. Mae dinasyddion yn cael eu hannog i barhau i gysylltu â'r Cyngor i helpu i sefydlu amcanion gwella ar gyfer 2013-14. Mae'r cynllun ar gael ar ffurf gryno, ac mae'r Cyngor yn ei hyrwyddo.

68 Mae lle o hyd i'r Cyngor wella ansawdd ei gynllun ymhellach. Er enghraifft, mae gan bob amcan gwella ddisgrifiad o'r hyn fydd yn gyfystyr â llwyddiant, ond mae rhai nad ydynt yn ddigon clir o ran sut y cânt eu mesur neu, mewn rhai achosion, yr hyn yw'r safon. Nodir camau gweithredu yn y cynllun, ond mae rhai nad ydynt yn ddigon eglur o ran yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud.

## Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd graddol o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol

69 Mae'r cyngor yn gwneud cynnydd cyson wrth ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella a wnaethpwyd yn ein hadroddiadau blaenorol. Rydym wedi asesu:

- bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â 10 thema gwella rheolaeth gorfforaethol y Comisiynwyr;
- bod eglurder cyfeiriad y Cyngor yn gwella a chafwyd cynnydd rhesymol wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy *Adroddiad Gwella Blynyddol* diweddaf;
- bod ailstrwythuro'r uwch reolwyr yn ychwanegu'n sylweddol at allu ac adnoddau'r Cyngor i gyflawni rhagor o welliannau yn y swyddogaethau corfforaethol a gwasanaethau penodol;
- bod y Cyngor yn ymdrin yn fwy aeddfed nag o'r blaen â materion dadleuol ac mae wedi cymryd camau i sicrhau bod y gwelliannau'n gynaliadwy;
- bod y Cyngor wedi gwella'i waith o ymgysylltu â'r cyhoedd ac mae'n dechrau mynd i'r afael ag adnewyddu democrataidd;
- bod y Cyngor wedi ymateb yn adeiladol ac yn gyfrifol i'r arolygiad diweddar tra beirniadol o'i wasanaethau addysg gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru; a

- bod gwell system rheoli perfformiad wedi'i chynllunio gyda chymorth ymgynghorwyr allanol ac mae'n cael ei defnyddio i reoli cynllun gweithredu'r gwasanaeth addysg.

## Mae gan y Cyngor gynlluniau ariannol clir a chadarn ond mae'n wynebu nifer o heriau ariannol yn sgil mesurau caledi parhaus

70 Ardystiwyd *Datganiad o Gyfrifon* drafft y Cyngor gan y swyddog a151[1] Interim erbyn y terfyn amser, sef 30 Mehefin 2012 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2012. Archwiliwyd a chymeradwywyd y *Datganiad o Gyfrifon* terfynol erbyn 30 Medi 2012. Dyma'r tro cyntaf yn ystod y tair blynedd diwethaf i'r broses hon gael ei chwblhau'n unol â'r holl amserlenni statudol. Ceir mwy o wybodaeth yn Atodiad 3.

71 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol tymor-canolig sydd wedi'u sefydlu'n dda ac sy'n cynnwys ymgynghori helaeth a chryn her. Mae'r strategaeth bresennol ar gyfer cyllideb refeniw tymor canolig 2013-2016 yn dangos arbedion o £2.9 miliwn i'w cyflawni yn 2013-14 a bylchau cyllido o £3.1 miliwn a £4.0 miliwn yn 2014-15 a 2015-16 yn y drefn honno.

72 Pennwyd cyllideb y Cyngor ochr yn ochr â'r cynllun corfforaethol a blaenoriaethau gwella, ac mae'n cynnwys nid yn unig arbedion ond hefyd buddsoddiad mewn meysydd blaenoriaeth megis y fenter *Ynys Ynni*. Fodd bynnag, ceir cydnabyddiaeth bod maint yr her ariannol yn golygu y bydd angen i rai gwasanaethau gael eu darparu'n wahanol.

73 Mae'r Weithrediaeth wedi nodi Addysg, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Hamdden a Llyfrgelloedd fel gwasanaethau i'w hailgynllunio a'u had-drefnu yn ystod 2013-14 er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

74 Disgwylir i'r buddsoddiad diweddar mewn systemau newydd a'r defnydd gwell o dechnoleg sicrhau arbedion yn y dyfodol. Mewn cyllidebau blaenorol, un o'r ffactorau pennaf a oedd yn peri ansicrwydd oedd yr oedi parhaus wrth werthuso swyddi. Erbyn hyn, mae amserlen wedi'i chytuno ar gyfer gwerthuso swyddi erbyn mis Ebrill 2014. Mae'r strategaeth cyllideb refeniw tymor canolig yn cynnwys costau gweithredu disgwyliedig a fydd yn cael eu hariannu'n rhannol gan gronfeydd a neilltuwyd dros nifer o flynyddoedd er mwyn talu'r gost hon.

75 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn defnyddio £0.5 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i gwmpasu gorwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13. Mae angen cynnal prosesau rheolaeth gyllidebol cryf er mwyn sicrhau nad oes unrhyw alwadau pellach ar y cronfeydd cyffredinol, y disgwylir y byddant yn £4.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2012-13.

1 Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol ac yn ei gwneud yn ofynnol enwebu un swyddog i fod yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Mae gan y swyddog Adran 151 nifer o ddyletswyddau statudol, gan gynnwys y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithgarwch ariannol anghyfreithlon sy'n ymwneud â'r awdurdod neu achosion o fethu â phennu cyllideb fantoledig na chadw ati.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun datblygu sefydliadol i gefnogi gwelliannau hirdymor a moderneiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio

76 Gyda chymorth y Comisiynwyr ac ymgynghoriaeth allanol, mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun datblygu sefydliadol cynhwysfawr yn sail i'w ddatblygu a gwella strategol dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cynllun, o'r enw *Y Map Ffordd i Ynys Môn Newydd*, wedi cael cymeradwyaeth y Cyngor a pherchenogaeth lawn gan yr Uwch Dîm Arwain a'r Weithrediaeth. Mae'r cynllun datblygu sefydliadol yn dwyn ynghyd flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella ac yn cynnwys cynllun gweithredu.

77 I ategu'r cynllun datblygu sefydliadol, mae'r Cyngor wedi creu Swyddfa Rheoli Rhaglen, wedi'i chydlynu gan y Rheolwr Rhaglen. Bydd y swyddfa hon yn gweithredu fel y prif ddull ar gyfer cyflawni'r cynllun, rhaglen drawsnewid, a chyflawni'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws yr amrywiaeth o brosiectau a chynlluniau gwella.

78 Mae'r broses o weithredu'r cynllun datblygu sefydliadol wedi dechrau ac mae'r cam cyntaf yn cynnwys dwy agenda 90 diwrnod sy'n nodi'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni fel isafswm erbyn diwedd mis Ebrill 2013. I helpu i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun, mae fframwaith rheoli rhaglen sy'n cynnwys tri bwrdd cyflawni a chyfres o brosiectau dan arweiniad swyddogion wedi'u sefydlu i gyflawni'r cynllun datblygu sefydliadol, sef:

- Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd y Comisiynwyr
- Bwrdd Adfer Addysg a benodwyd gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
- Bwrdd Gwella'r Gwasanaeth Plant

79 Mae cynllun datblygu sefydliadol y Cyngor yn allweddol i gam gwella a chynaliadwyedd y broses ymyrraeth ac o ran mynd i'r afael â phroblemau sylweddol, megis: bylchau mewn gallu ac adnoddau corfforaethol; yr her ariannol; datblygu partneriaethau; a gwelliannau i wasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

80 Mae gan gynllun y Cyngor y potensial i sicrhau manteision gwirioneddol i ddinasyddion Ynys Môn. Mae'r Uwch Dîm Arwain wedi cydnabod pwysigrwydd cynnwys staff drwy'r sefydliad cyfan wrth gyflawni'r cynllun datblygu sefydliadol ac, wrth wneud hynny, ddatblygu sgiliau a galluoedd newydd, sefydlu systemau a phrosesau newydd, a thrawsnewid y diwylliant blaenorol.

81 Yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi pwysleisio bod gwelliant parhaus a chynaliadwyedd hirdymor y Cyngor yn dibynnu ar ganlyniad yr etholiadau ym mis Mai. Bydd angen i'r Cynghorwyr newydd ddangos eu bod yn gallu arfer eu pwerau'n effeithiol er budd pobl Ynys Môn, drwy ymddwyn yn gyfrifol a chynorthwyo gyda'r gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau a pheidio â dychwelyd i ymddwyn yn y modd a arweiniodd at ymyrraeth.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Ynys Môn a Chyngor Sir Ynys Môn

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £156.7 miliwn y flwyddyn (2012-13). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,241 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £21.6 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Ynys Môn oedd £1,094.41 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 4.14 y cant i £1,139.68 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 73.3 y cant o dai'r Cyngor yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 40 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 19 Annibynnol Gwreiddiol
- 8 Plaid Cymru
- 5 Llafur
- 3 Llais i Fôn
- 5 heb fod yn aelod o unrhyw blaid

Er 1 Ebrill 2011 roedd pum Comisiynydd, a benodwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yn cyflawni swyddogaeth Gweithrediaeth y Cyngor. Roedd y Comisiynwyr fel a ganlyn:

- Alex Aldridge, OBE
- Byron Davies, OBE
- Margaret Foster, OBE
- Mick Giannasi
- Gareth Jones

Ers Hydref 2012, mae tri Chomisiynydd yn dal i fod yn rhan o ail gam yr ymyrraeth, sef y cam 'gwella a chynaliadwyedd', sef: Alex Aldridge, OBE; Byron Davies OBE; a Mick Giannasi.

Richard Parry Jones yw Prif Weithredwr y Cyngor. Fe'i cefnogir gan Ddirprwy Brif Weithredwr, Bethan Jones, a thri chyfarwyddwr corfforaethol: Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes – Dr Gwynne Jones; Cyfarwyddwr Cymuned – Gwen Carrington; a Chyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy – Arthur Owen

## Gwybodaeth arall

Yr Aelod Cynulliad dros Ynys Môn yw:

- Ieuan Wyn Jones, Ynys Môn, Plaid Cymru

Yr Aelod Seneddol dros Ynys Môn yw:

- Albert Owen, Ynys Môn, Llafur

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cygnor yn www.ynysmon.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor:

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gododd o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cywir o gyfrifon;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA/LASAAC. Mae'r cod hwn wedi'i seilio ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 28 Medi 2012, cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Cyflwynwyd adroddiad ar y materion allweddol a gododd o'r archwiliad cyfrifon i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Medi 2012.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cryn gynnydd o ran mynd i'r afael â materion yn ymwneud â llunio'r datganiad o gyfrifon a bodloni terfyn amser cyhoeddi'r cyfrifon, sef 30 Medi. Mae'r Cyngor yn haeddu cydnabyddiaeth a chanmoliaeth am y ffordd y mae wedi mynd i'r afael â'r gwelliannau gofynnol a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch am y cymorth a gafwyd gan swyddogion y Cyngor yn ystod yr archwiliad. Er mor dderbyniol yw hyn, hoffwn bwysleisio hefyd bwysigrwydd sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu cynnal. Ar hyn o bryd mae staff dros dro'n parhau i lenwi uwch swyddi cyfrifeg. Mae'n hanfodol bod adnoddau digonol a phriodol yn cael eu neilltuo i baratoi'r cyfrifon statudol wrth symud ymlaen yn unol ag amserlenni gofynnol.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009). Ar y cyfan, rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u dangos hyd yma neu lle gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol. Hoffwn dynnu sylw at y meysydd penodol canlynol yn y llythyr hwn:

- Mae rhagolwg ariannol y Cyngor yn heriol iawn o hyd ac mae trefniadau cynllunio a monitro ariannol ar waith i nodi'r bwlch cyllido a hwyluso'r arbedion sy'n ofynnol. Bydd angen gwneud penderfyniadau anodd yn y byrdymor i sicrhau'r arbedion sy'n ofynnol.

- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd yn ystod y flwyddyn o ran datblygu prosesau rheoli risg ac mae'n bwysig bod hyn yn cael ei gynnal.

- Ers nifer o flynyddoedd, mae'r archwilydd allanol wedi adrodd nad oes cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb cadarn ar waith ac mae hyn yn parhau i fod yn wir.

- roedd 50% o'r ceisiadau grant a ardystiwyd gan PwC o ran 2010/11 yn destun llythyr cymhwyso (48% yn 2009/10). Cyflwynwyd 10% o'r ceisiadau am grant gan y Cyngor ar ôl y terfyn amser ar gyfer cyflwyno, o gymharu â 66% ar gyfer 2009/10.

- Rydym yn parhau i allu dibynnu ar y gwaith Archwilio Mewnol.

Nid wyf wedi cyflwyno tystysgrif cwblhau oherwydd rwy'n ystyried gwrthwynebiad gan etholwr lleol.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn uwch na'r ffi a gytunwyd ac a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol oherwydd y gwaith ychwanegol sy'n ofynnol i ymdrin â'r gwrthwynebiad i'r cyfrifon.

Yn gywir

**Lynn Hine (PwC LLP)**
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
29 Tachwedd 2012

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r archwilydd os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei *Gynllun Busnes Corfforaethol 2012-15*, y gellir ei ddarllen ar wefan y Cyngor yn www.ynysmon.gov.uk. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

### Amcanion gwella ar gyfer 2011-12

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12 yn ei gynllun busnes corfforaethol, y gellir ei ddarllen ar wefan y Cyngor yn **www.ynysmon.gov.uk**. Mae'r amcanion gwella yn cael eu gosod o dan bedwar pennawd bras:

- Gweithredu'n Fwy fel Busnes
- Y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy
- Gwireddu ein Cytundeb Canlyniadau
- Adnewyddu Democrataidd

### Amcanion gwella ar gyfer 2012-13

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei *Gynllun Busnes Corfforaethol 2012-15*, y gellir ei ddarllen ar wefan y Cyngor yn **www.ynysmon.gov.uk**. Mae'r amcanion gwella yn cael eu gosod o dan bedwar pennawd bras:

- Gwella Gwasanaethau Plant
- Adfywio ein Cymunedau
- Gwella Rheolaeth Gorfforaethol
- Cyflawni ein Cytundebau Canlyniadau

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2011-12 *Cynllun Gwella - Adolygu Perfformiad 2011-12* i'w weld ar wefan y Cyngor yn http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/cynllun-busnes-corfforaethol/cynllun-gwella-2011-2012/.

| Wales Audit Office | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|
| 24 Cathedral Road | 24 Heol y Gadeirlan |
| Cardiff CF11 9LJ | Caerdydd CF11 9LJ |
| Tel: 029 2032 0500 | Ffôn: 029 2032 0500 |
| Fax: 029 2032 0600 | Ffacs: 029 2032 0600 |
| Textphone: 029 2032 0660 | Ffôn Testun: 029 2032 0660 |
| E-mail: info@wao.gov.uk | E-bost: info@wao.gov.uk |
| Website: www.wao.gov.uk | Gwefan: www.wao.gov.uk |

# CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth, 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.Ll. Jones – Cadeirydd<br>Y Cynghorydd E.G. Davies - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W.J.Chorlton, Lewis Davies; R.A.Dew; Jim Evans; K.Evans; Ff.M.Hughes; K.P.Hughes; R.Ll.Hughes; T.Ll.Hughes; W.I.Hughes; W.T.Hughes; Vaughan Hughes; Aled M Jones; Eric Jones; G.O.Jones; H.Eifion Jones; O.Glyn Jones; Raymond Jones; R.Dylan Jones; T.H.Jones; C.McGregor; A.Mummery; Bryan Owen; J.V.Owen; R.L.Owen; Bob Parry OBE; G.O. Parry MBE; J.Arwel Roberts; Eric Roberts; P.S. Rogers; E.Schofield; Ieuan Williams; S.Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden<br>Cyfarwyddwr Cymunedol<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)<br>Uwch Ymgynghorydd Ariannol<br>Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddol)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Adnoddau Dynol (Eitem 18 yn unig)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Swyddog Cyfathrebu. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr D.R. Hughes, T. Lloyd Hughes, Rhian Medi, G. W. Roberts, OBE. |

### 1. COFNODION

Cadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod:-

- 6 Rhagfyr 2012
- 14 Rhagfyr 2012 (Arbennig)
- 24 Ionawr 2013 (Arbennig)

### 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr Eric Jones a Selwyn Williams yn eitem 7 y cofnodion (Cynllun Integredig Sengl) ac fe arhosodd y 2 yn y cyfarfod ond heb gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth na phleidlais ar yr eitem. *(Y ddau yn aelodau o CAB).*

Datganodd y Cynghorwyr W.J.Chortlon, W.T.Hughes, R.Ll.Jones, A.W.Mummery, G.O. Parry, MBE, R.G.Parry, OBE, J.A.Roberts ac E.Schofield ddiddordeb yn eitem 17 y cofnodion hyn (Datganiad ynghylch Polisi Tâl), arhosodd pob un ohonynt yn y cyfarfod ond ni chymerasant ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar yr eitem (*Perthnasau yn gweithio i'r Awdurdod*).

Datganodd y Tîm Uwch Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Swyddogaeth Adnoddau a Chyfreithiol a Gweinyddol ddiddordeb yn eitem 17 y cofnodion hyn (Datganiad Polisi Tâl), fe arhosodd pob un yn y cyfarfod ond heb gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth ar yr eitem. (*Cael eu crybwyll yn yr adroddiad).*

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y PWYLLGOR GWAITH, NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL.**

Roedd y Cadeirydd am longyfarch Mr. Martin Roberts yr Adran Gyllid sydd wedi cael ei ddewis fel un o dri chynrychiolydd Cymru i ymuno â phrosiect CORE (Canolfan Ardderchowgrwydd Canolwyr Pêl-Droed) UEFA. Byddai hyfforddiant arbenigol yn cael ei gynnal yn y cwrs fydd yn cael ei gynnal ym mhencadlys UEFA yn Genefa, y Swistir rhwng 27 Awst a 5 Medi 2013. Bwriad prosiect CORE UEFA yw nodi swyddogion gemau ifanc sydd â'r potensial i gael eu cynnwys ar y rhestr ryngwladol o fewn 18 mis i 2 flynedd.

Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i staff y Cyngor fu'n ymwneud â phrosiect yr Oriel Sied Frics. Lle amlbwrpas yw'r oriel ar gyfer arddangos gwaith celf lleol a lle i egluro hanes cyfoethog Ynys Gybi a Pharc Morglawdd Caergybi. Dyma benllanw misoedd o waith gan staff y Cyngor a phartneriaid lleol i droi'r hen sied frics yn adnodd awyr agored y gellir ei ddefnyddio gan grwpiau cymunedol, ysgolion ac unigolion sy'n ymweld â Pharc Gwledig y Morglawdd. Roedd partneriaid yn y prosiect yn cynnwys Gwasanaeth Cefn Gwlad ac AHNE yr Awdurdod, Oriel Ynys Môn ac Amgueddfa Forwrol Caergybi yn ogystal â thîm BRAND ac Ymweld â Môn.

Diolchodd y Cadeirydd i bob un oedd wedi mynychu noson elusen y Cadeirydd iawn yn y Trearddur Bay Hotel ar Chwefror 22 - achlysur llwyddiannus iawn - ac i'r staff fu'n helpu i wneud y noson yn un mor wych.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at wraig oedd yn enwog am fod yn breswylydd hynaf Caergybi ac a oedd wedi cael ei phen-blwydd yn 106 yn ystod yr haf. Roedd Gladys Roach, sydd erbyn hyn yn hen, hen nain, wedi treulio'r rhan fwyaf o'i bywyd yn y dref. Fe aeth i Fanceinion pan oedd yn 14 oed i weithio fel morwyn fach cyn dychwelyd i Gaergybi bum mlynedd yn ddiweddarach. Bydd Mrs Roach yn ymddangos ar raglen S4C O'r Galon nos yfory am 9:00pm.

Estynnwyd dymuniadau gorau am adferiad llawn a buan i'r Cynghorydd G.Winston Roberts, OBE yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Ar ran y Cyngor, mynegodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad llwyraf gyda theulu a chyfeillion Phillip Pilbeam gafodd ei ladd mewn damwain ffordd yn Llanfaethlu yn ystod oriau cynnar bore dydd Sadwrn.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o'u parch.

\- - - - - - - - - - - -

Cymerodd y Prif Weithredwr y cyfle i atgoffa aelodau o'r dyddiadau allweddol yn amserlen yr Etholiad gyda'r diwrnod pleidleisio ei hun ar 2 Mai 2013. Cynhelir Diwrnod Cyfri'r Etholiad ar 3 Mai yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur, Llangefni, gyda'r cyfrif ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned i ddilyn.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor hefyd y byddai cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir yn cael ei gynnal ar 16 Ebrill 2013 i ddelio â materion oedd angen eu penderfynu cyn yr Etholiad. Byddai cyfle yn y cyfarfod hwnnw i'r Cyngor dalu teyrnged i'r Cynghorwyr oedd wedi mynegi eu bwriad i ymddeol fel Cynghorwyr cyn etholiadau'r Cyngor ac fe fyddai yna hefyd fater cyfrinachol yn ymwneud â'r bwriad i ailstrwythuro swyddi'r Penaethiaid Gwasanaeth.

## 4. COFNODION ER GWYBODAETH – BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfodydd o'r Bwrdd Gwella a Chynalidwyedd a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol: -

- 1 Hydref 2012
- 9 Tachwedd 2012
- 20 Rhagfyr 2012
- 31 Ionawr 2013

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cofnodion o'r cyfarfodydd o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd**

## 5. CYFLWYNO DEISEBAU

Dim wedi eu derbyn.

## 6. STRATEGAETH CYLLIDEB TYMOR CANOL, CYLLIDEB, TRETH GYNGOR, RHEOLI TRYSORLYS A DANGOSYDDION PWYLLOG 2013/14

**6.1** Cyflwynodd y Cynghorydd W.J. Chorlton, y Deilydd Portffolio Cyllid gynigion y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â strategaeth gyllideb refeniw tymor canol, cynllun cyfalaf dros dro a chyllidebau refeniw a chyfalaf am 2013/14.

Yn ei anerchiad, crybwyllodd y Cynghorydd Chorlton mai'r arfer fu yn y gorffennol i swyddogion siarad ar eitemau 6.4 a 6.5 ond gan fod y materion hyn eisoes wedi cael eu trafod ar lawer achlysur, roedd teimlad nad oedd ond angen i swyddogion ateb unrhyw gwestiynau arnynt. Yn ei farn ef, hwn oedd y cyfarfod mwyaf pwysig yr oedd y Cyngor wedi ei gynnal mewn amseroedd diweddar gan ei fod yn dangos y cynnydd mawr yr oedd y Cyngor wedi ei wneud ers yr ymyrraeth. Roedd yn dangos bod y Cyngor wedi symud yn ei flaen a'i fod bellach yn gallu delio gyda materion o'r fath mewn dull tryloyw ac effeithiol fel busnes.

Cyllideb y flwyddyn hon oedd y gyllideb fwyaf tryloyw yr oedd ef fel Cynghorydd wedi cymryd rhan ynddi ers iddo ymuno â'r Cyngor. Roedd gwaith ymgynghori wedi ei gynnal gyda nifer o gydranddeiliaid a phartïon oedd â diddordeb ac roedd hysbysebion wedi eu cylchredeg i hysbysu'r cyhoedd. Roedd dau weithdy hefyd wedi eu cynnal gydag aelodau'r Awdurdod lle cafwyd trafodaethau agored a di-flewyn-ar-dafod. (**Roedd cyfeiriad at fanylion y gwaith ymgynghori ar gynigion y gyllideb yn eitem 6.3 y rhaglen oedd gerbron y Cyngor heddiw**)

Tynnodd sylw arbennig at y gyllideb Priffyrdd. Dywedodd y byddai trafodaethau'n dechrau yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf ar eu strategaeth wario, oherwydd bod y Pwyllgor Gwaith o'r farn eu bod eisoes yn gwario yn uwch na chyfartaledd y rhan fwyaf o gynghorau eraill pro rata. Roedd yn ymwybodol bod rhai o'r aelodau o'r farn bod yn rhaid i Briffyrdd arbed oddeutu 21% ond nid oedd y ffigur hwn yn gywir oherwydd fe ofynnwyd iddynt arbed 7.2%, yr un ffigwr â phob gwasanaeth arall.

Roedd swm o £500k wedi ei roi yn yr arian wrth gefn oherwydd bod teimlad ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn cymryd sylw dyledus o sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol ar arian wrth gefn y Cyngor. Wrth osod Treth Gyngor o 86c yr wythnos (5%) roedd y Cyngor hwn yn parhau i fod y 6ed awdurdod isaf yng Nghymru a £2.59 y person yr wythnos yn llai na chyngor cyfagos Gwynedd ar eiddo Band D.

Roedd yn ymwybodol iawn y byddai'n well gan aelodau osod graddfa is ond ni fyddai hynny ond yn rhoi o'r neilltu'r hyn a fyddai ei angen y flwyddyn nesaf gan wneud bywyd yn hynod o anodd i'r Cyngor newydd allu cynnal gwasanaethau ar y lefel bresennol.

Diolchodd i'r Adran Gyllid am eu gwaith yn paratoi'r gyllideb o dan amgylchiadau ariannol anodd.

Adroddwyd – Bod cynigion cyllideb derfynol y Pwyllgor Gwaith am 2013-14 wedi eu cynnwys fel a ganlyn:-

- Tabl A - Strategaeth Gyllideb Refeniw Tymor Canol
- Tabl B - Cyllideb Refeniw 2013-14 a newid o 2012-13
- Tabl C - Cyllideb Gyfalaf 2013-14
- Tabl Ch -Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys

Roedd y manylion canlynol wedi eu darparu yn adroddiad y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â dilyn Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb:-

- os oedd y Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol, a oedd y gyllideb flynyddol arfaethedig yn cydymffurfio gyda'r strategaeth honno, a manylion am unrhyw eithriadau;
- y Dreth Gyngor arfaethedig am y flwyddyn;
- unrhyw drosglwyddiadau arfaethedig i mewn neu allan o'r arian wrth gefn;
- crynodeb o'r gwariant arfaethedig fesul gwasanaeth;
- manylion am newidiadau sylweddol i ddarpariaeth gwasanaeth oedd ymhlyg yn y gyllideb;
- y graddau yr oedd y cynigion yn cymryd i ystyriaeth adroddiadau i bwyllgorau;
- y graddau yr oedd y cynigion yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ymgynghori oedd wedi ei wneud;
- manylion am unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y cynigion cychwynnol a'r rhai terfynol;
- cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer darpariaethau newid penawdau ariannol yn ystod y flwyddyn;
- cynigion i fenthyca;
- unrhyw faterion statudol eraill i'w penderfynu gan y Cyngor llawn.

Holodd rhai o'r Aelodau oedd yn bresennol beth oedd y rhesymeg y tu ôl i gynyddu'r balansau cyffredinol £500k a'r toriadau y bwriedir eu gwneud i'r gyllideb cynnal a chadw priffyrdd. Lleisiwyd pryderon hefyd ynglŷn â chyflwr isadeiledd y ffyrdd yn dilyn y tywydd hynod o wael a gafwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd cyflwr rhai o'r ffyrdd gwledig ar yr ynys yn eithaf gwael ac roedd angen gwneud gwaith adfer ar unwaith arnynt. Fe allai'r swm ychwanegol o £500k oedd wedi ei roi o'r neilltu ar gyfer arian wrth gefn cyffredinol fod wedi cael ei ddefnyddio i liniaru rhai o'r materion priffyrdd hynny.

Ymatebodd y Deilydd Portffolio i'r sylwadau a wnaed ac roedd am sicrhau'r Cyngor y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried lefel y balansau cyffredinol yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd hefyd yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu helpu fel yr oeddent wedi gwneud yn y gorffennol gyda mwy o gyllid tuag at gynnal a chadw ffyrdd.

**6.2 BLAENORIAETHAU GWELLA 2013-14**

Adroddwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) - Bod angen, dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) i'r Cyngor nodi ei flaenoriaethau gwella yn flynyddol a'u cyhoeddi mor fuan ag yr oedd hynny'n ymarferol bosibl ar ôl 1 Ebrill. Cyfrifoldeb y TUA fyddai darparu'r blaenoriaethau hynny a byddai'n atebol i swyddogaethau Sgriwtini a Phwyllgor Gwaith y Cyngor.

**PENDERFYNWYD fel rhan o gynigion y Gyllideb, i gymeradwyo a mabwysiadu'r Blaenoriaethau Gwella am 2013-14 a bod awdurdod yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr gwblhau'r blaenoriaethau hynny erbyn 1 Ebrill 2013, yn dilyn y cylch cynllunio busnes blynyddol.**

**6.4** Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Uwch Ymgynghorydd Ariannol/Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn delio â materion statudol ynglŷn â'r gyllideb.

Adroddwyd - er mwyn mabwysiadu ei gyllideb am 2013-14 ac er mwyn penderfynu lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn, roedd angen i'r Cyngor Sir fabwysiadu penderfyniad ffurfiol oedd yn delio mewn peth manylder gyda'r holl faterion cysylltiol. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi argymell cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 5% oedd yn cyfateb i eiddo Band D o £939.15.

Wrth iddo ystyried cyllideb arfaethedig y Pwyllgor Gwaith fe ddylai'r Cyngor hefyd ystyried a chymryd i ystyriaeth yr adroddiad gan y swyddog Adran 151 dros dro gan ei fod yn delio gyda materion statudol a materion eraill yr oedd eu hangen i gwblhau'r cyngor ar y gyllideb. Bwriadwyd i'r penderfyniad ar y gyllideb ddrafft roi grym i gynigion y Pwyllgor Gwaith a chymryd y cyngor hwn i ystyriaeth.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Cyngor heddiw yn delio gyda Chadernid Amcangyfrifon (Para 2), Digonolrwydd yr Arian Wrth Gefn (Para 3), Cyflawni'r Gyllideb (Para 4), Côd Pwyllog a Rheoli Trysorlys (Para 5) a'r ffioedd ffurfiol (Para 6).

Roedd hefyd yn nodi – gan roi sylw i Strategaeth y Gyllideb, y rhagamcanion economaidd a'r sefyllfa yr adroddwyd amdani ar gadernid rhagolygon a digonolrwydd yr arian wrth gefn, argymhelliad y Swyddog Adran 151 oedd na ddylai'r cynnydd yn y dreth gyngor am 2013-14 fod yn is na 5% ac na ddylai lefel darged y balansau cyffredinol fod yn is na £5m.

Roedd y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2013-14 fel oedd wedi ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith (wedi ei diwygio) wedi ei chynnwys y flwyddyn hon yn yr atodiad i'r adroddiad hwn ac fe gynigiwyd ac eiliwyd y dylid derbyn y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r dogfennau cysylltiol am 2013-14.

**6.5** Ystyriwyd – Y penderfyniad ffurfiol fel yr ymddangosai yn adroddiad yr Uwch Ymgynghorydd Ariannol/Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).

Cymerodd y Deilydd Portffolio, y Cynghorydd W.J.Chorlton, y cyfle i fynegi ei werthfawrogiad i'r Gwasanaeth Cyllid am ei waith yn paratoi'r gyllideb. Diolchodd hefyd i Mrs. Gill Lewis, Uchel Ymgynghorydd Ariannol a fyddai'n darfod ei gwaith gyda'r Awdurdod y dydd Mercher hwn. Cyflwynwyd anrheg gwydr iddi a thusw o flodau.

Yn dilyn ystyried y papurau fel un pecyn a'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod heddiw, cymerwyd pleidlais ar y mater a chariwyd cyllideb 2013-14 oedd wedi ei chynnig gan y Pwyllgor Gwaith o 26 pleidlais i 5.

**PENDERFYNIAD DRAFFT Y DRETH GYNGOR SIR**

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu'r Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol yn Nhabl A, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol gyda'r eithriad o'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cyllideb refeniw 2013/14 fel y gwelir honno yn Nhabl B.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu cynllun a chyllideb cyfalaf fel y gwelir hwnnw yn Nhabl C.

**(ch)** Ddirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn Nhabl B er mwyn rhoi effaith i benderfyniadau'r Cyngor ar ailstrwythuro a'r penderfyniadau ar ganoli cyllidebau TGCh a fflyd.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2013/14, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:

**(i)** pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Nhabl B yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;

**(ii)** pwerau i ddyrannu symiau o'r arian wrth gefn heb ei ddyrannu ac arian wrth gefn cost newid yn Nhabl B;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo o'r arian wrth gefn diswyddo yn Nhabl B i'r graddau fod y trafodion yn adlewyrchu'r costau gwirioneddol o gyflawni arbedion staff;

**(iv)** pwerau i drosglwyddo o'r arian wrth gefn ar gyfer Gwella a'r Bwrdd Adfer Addysg i bwrpas gwella perfformiad ac i roddi sylw i'r risgiau uchel a nodir yn y Cynllun Gwella ac i weithredu ar gytundebau canlyniad ac i ddarparu systemau fydd yn moderneiddio'r awdurdod ac yn hwyluso'r proses o reoli perfformiad ac i gyllido'r Bwrdd Adfer Addysg;

**(v)** y pŵer i drosglwyddo o'r Arian Wrth Gefn Gwelliannau Hamdden i bwrpas cefnogi cynigion fydd yn cynnal neu wella'r asedion yn y gwasanaeth hamdden neu yn datblygu cyfleusterau chwaraeon strategol;

**(vi)** pwerau i drosglwyddo o ffynonellau newydd neu gynyddol o incwm.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith yn 2013/14 ac ar gyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i ryddhau hyd at £300k o falansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau yn codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2015, dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pwerau a ganlyn:

**(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw blynyddoedd y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol;

**(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn Nhabl C ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu'r dangosyddion pwyllog sy'n amcangyfrifon am 2013/14 ymlaen fel sy'n ymddangos yn Nhabl Ch gan gadarnhau'r terfynau ar fenthyca a buddsoddi sydd wedi eu nodi yn eitemau 10,11 a 14 i 17 yn y tabl.

**(ff)** Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am y flwyddyn.

**(g)** Mabwysiadu fersiwn diwygiedig Côd Ymarfer CIPFA 2011 ar Reoli Trysorlys.

**(ng)** Cadarnhau y bydd eitemau 1 (b) i (ff) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**2.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2013/14 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:

Dosbarth Penodedig A    Dim Disgownt
Dosbarth Penodedig B    Dim Disgownt

**3.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2013/14, benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n briodol i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004, fel a ganlyn:

Dosbarth Penodedig C    Dim Disgownt

**4.** Nodi fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin y costau'r â'r Cyngor iddynt yn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw gais neu gais arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

**5.** Y dylid nodi i'r Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2012 bennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2013/14 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd da n Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

**a)** 29,662.00 yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol â rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995, yn sail y Dreth Gyngor am y flwyddyn.

**b)** **Rhan o Ardal y Cyngor**

| | |
|---|---|
| Amlwch | 1,429.69 |
| Biwmares | 1,051.62 |
| Caergybi | 3,707.82 |
| Llangefni | 1,864.25 |
| Porthaethwy | 1,381.95 |
| Llanddaniel-fab | 357.46 |
| Llanddona | 356.82 |
| Cwm Cadnant | 1,113.66 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,275.20 |
| Llanfihangel Esceifiog | 648.77 |
| Bodorgan | 424.02 |
| Llangoed | 609.56 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 579.09 |
| Llanidan | 400.16 |
| Rhosyr | 951.37 |
| Penmynydd | 226.13 |
| Pentraeth | 537.11 |
| Moelfre | 599.74 |
| Llanbadrig | 641.08 |
| Llanddyfnan | 479.47 |
| Llaneilian | 529.04 |
| Llannerch-y-medd | 489.92 |
| Llaneugrad | 170.72 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,705.03 |
| Cylch y Garn | 398.81 |
| Mechell | 526.49 |
| Rhos-y-bol | 455.72 |

| | |
|---|---|
| Aberffraw | 284.10 |
| Bodedern | 405.05 |
| Bodffordd | 408.51 |
| Trearddur | 1,191.96 |
| Tref Alaw | 247.95 |
| Llanfachraeth | 220.61 |
| Llanfaelog | 1,181.44 |
| Llanfaethlu | 268.50 |
| Llanfair-yn-neubwll | 558.16 |
| Y Fali | 952.34 |
| Bryngwran | 345.42 |
| Rhoscolyn | 333.93 |
| Trewalchmai | 353.33 |

sef y symiau a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol â rheoliad 6 y Rheoliadau, yn symiau sail y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**6.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2013/14 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

**a)** £190,368,853 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £ 60,931,280 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) ac (c) y Ddeddf.

**c)** £129,437,573 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 6(a) uchod a chyfanswm 6(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £100,634,828 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i gronfa'r cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, grant cynnal refeniw a grant arbennig gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £ 971.03 sef y swm yn 6(c) uchod llai'r swm yn 6(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 5(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £ 945,678 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

**e)** £ 939.15 sef y swm yn 6(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 6(dd) uchod â'r swm yn 5(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34 (2) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

f) **Rhan o Ardal y Cyngor**

| Rhan o Ardal y Cyngor | | D |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 993.51 |
| Biwmares | £ | 964.29 |
| Caergybi | £ | 1,014.14 |
| Llangefni | £ | 995.25 |
| Porthaethwy | £ | 986.18 |
| Llanddaniel-fab | £ | 955.94 |
| Llanddona | £ | 953.58 |
| Cwm Cadnant | £ | 964.74 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 966.60 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 961.58 |
| Bodorgan | £ | 956.60 |
| Llangoed | £ | 954.47 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 946.30 |
| Llanidan | £ | 959.02 |
| Rhosyr | £ | 959.65 |
| Penmynydd | £ | 952.42 |
| Pentraeth | £ | 963.35 |
| Moelfre | £ | 957.65 |
| Llanbadrig | £ | 964.11 |
| Llanddyfnan | £ | 953.50 |
| Llaneilian | £ | 956.16 |
| Llannerch-y-medd | £ | 951.16 |
| Llaneugrad | £ | 959.65 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 962.90 |
| Cylch y Garn | £ | 952.06 |
| Mechell | £ | 953.81 |
| Rhos-y-bol | £ | 952.32 |
| Aberffraw | £ | 963.79 |
| Bodedern | £ | 955.81 |
| Bodffordd | £ | 951.39 |
| Trearddur | £ | 961.51 |
| Tref Alaw | £ | 954.07 |
| Llanfachraeth | £ | 957.62 |
| Llanfaelog | £ | 956.08 |
| Llanfaethlu | £ | 960.57 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 957.60 |
| Y Fali | £ | 961.94 |
| Bryngwran | £ | 962.89 |
| Rhoscolyn | £ | 951.13 |
| Trewalchmai | £ | 954.72 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 6(e) uchod symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 5(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

| ff) Rhan o Ardal y Cyngor | | Bandiau Prisiau A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 662.34 | 772.73 | 883.12 | 993.51 | 1,214.29 | 1,435.07 | 1,655.85 | 1,987.02 | 2,318.19 |
| Biwmares | £ | 642.86 | 750.01 | 857.15 | 964.29 | 1,178.58 | 1,392.87 | 1,607.16 | 1,928.59 | 2,250.02 |
| Caergybi | £ | 676.10 | 788.78 | 901.46 | 1,014.14 | 1,239.51 | 1,464.88 | 1,690.24 | 2,028.29 | 2,366.34 |
| Llangefni | £ | 663.50 | 774.08 | 884.67 | 995.25 | 1,216.42 | 1,437.58 | 1,658.75 | 1,990.50 | 2,322.25 |
| Porthaethwy | £ | 657.46 | 767.03 | 876.61 | 986.18 | 1,205.34 | 1,424.49 | 1,643.64 | 1,972.37 | 2,301.10 |
| Llanddaniel-fab | £ | 637.29 | 743.51 | 849.72 | 955.94 | 1,168.37 | 1,380.80 | 1,593.23 | 1,911.87 | 2,230.52 |
| Llanddona | £ | 635.72 | 741.68 | 847.63 | 953.58 | 1,165.49 | 1,377.40 | 1,589.31 | 1,907.17 | 2,225.03 |
| Cwm Cadnant | £ | 643.16 | 750.35 | 857.55 | 964.74 | 1,179.13 | 1,393.52 | 1,607.90 | 1,929.48 | 2,251.06 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 644.40 | 751.80 | 859.20 | 966.60 | 1,181.40 | 1,396.20 | 1,610.99 | 1,933.19 | 2,255.39 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 641.05 | 747.89 | 854.74 | 961.58 | 1,175.26 | 1,388.94 | 1,602.63 | 1,923.15 | 2,243.68 |
| Bodorgan | £ | 637.73 | 744.02 | 850.31 | 956.60 | 1,169.18 | 1,381.76 | 1,594.34 | 1,913.20 | 2,232.07 |
| Llangoed | £ | 636.31 | 742.36 | 848.42 | 954.47 | 1,166.57 | 1,378.67 | 1,590.78 | 1,908.93 | 2,227.09 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 630.87 | 736.01 | 841.15 | 946.30 | 1,156.59 | 1,366.88 | 1,577.17 | 1,892.60 | 2,208.03 |
| Llanidan | £ | 639.34 | 745.90 | 852.46 | 959.02 | 1,172.13 | 1,385.25 | 1,598.36 | 1,918.03 | 2,237.71 |
| Rhosyr | £ | 639.76 | 746.39 | 853.02 | 959.65 | 1,172.90 | 1,386.16 | 1,599.41 | 1,919.29 | 2,239.18 |
| Penmynydd | £ | 634.94 | 740.77 | 846.59 | 952.42 | 1,164.06 | 1,375.71 | 1,587.36 | 1,904.83 | 2,222.31 |
| Pentraeth | £ | 642.24 | 749.28 | 856.31 | 963.35 | 1,177.43 | 1,391.51 | 1,605.59 | 1,926.71 | 2,247.83 |
| Moelfre | £ | 638.43 | 744.84 | 851.24 | 957.65 | 1,170.46 | 1,383.27 | 1,596.08 | 1,915.30 | 2,234.52 |
| Llanbadrig | £ | 642.74 | 749.86 | 856.98 | 964.11 | 1,178.35 | 1,392.60 | 1,606.85 | 1,928.22 | 2,249.59 |
| Llanddyfnan | £ | 635.66 | 741.61 | 847.55 | 953.50 | 1,165.39 | 1,377.27 | 1,589.16 | 1,906.99 | 2,224.83 |
| Llaneilian | £ | 637.44 | 743.68 | 849.92 | 956.16 | 1,168.64 | 1,381.12 | 1,593.60 | 1,912.32 | 2,231.04 |
| Llannerch-y-medd | £ | 634.11 | 739.79 | 845.48 | 951.16 | 1,162.53 | 1,373.90 | 1,585.27 | 1,902.32 | 2,219.38 |
| Llaneugrad | £ | 639.77 | 746.40 | 853.02 | 959.65 | 1,172.91 | 1,386.16 | 1,599.42 | 1,919.30 | 2,239.19 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 641.93 | 748.92 | 855.91 | 962.90 | 1,176.87 | 1,390.85 | 1,604.83 | 1,925.79 | 2,246.76 |
| Cylch y Garn | £ | 634.71 | 740.49 | 846.28 | 952.06 | 1,163.63 | 1,375.20 | 1,586.77 | 1,904.13 | 2,221.48 |
| Mechell | £ | 635.87 | 741.85 | 847.83 | 953.81 | 1,165.77 | 1,377.72 | 1,589.68 | 1,907.62 | 2,225.55 |
| Rhos-y-bol | £ | 634.88 | 740.69 | 846.50 | 952.32 | 1,163.94 | 1,375.57 | 1,587.19 | 1,904.63 | 2,222.07 |
| Aberffraw | £ | 642.53 | 749.61 | 856.70 | 963.79 | 1,177.96 | 1,392.14 | 1,606.32 | 1,927.58 | 2,248.84 |
| Bodedern | £ | 637.21 | 743.41 | 849.61 | 955.81 | 1,168.22 | 1,380.62 | 1,593.02 | 1,911.63 | 2,230.23 |
| Bodffordd | £ | 634.26 | 739.97 | 845.68 | 951.39 | 1,162.81 | 1,374.23 | 1,585.65 | 1,902.78 | 2,219.91 |
| Trearddur | £ | 641.00 | 747.84 | 854.67 | 961.51 | 1,175.18 | 1,388.84 | 1,602.51 | 1,923.01 | 2,243.52 |
| Tref Alaw | £ | 636.05 | 742.06 | 848.06 | 954.07 | 1,166.09 | 1,378.10 | 1,590.12 | 1,908.14 | 2,226.17 |
| Llanfachraeth | £ | 638.41 | 744.81 | 851.22 | 957.62 | 1,170.42 | 1,383.22 | 1,596.03 | 1,915.23 | 2,234.44 |
| Llanfaelog | £ | 637.39 | 743.62 | 849.85 | 956.08 | 1,168.54 | 1,381.00 | 1,593.46 | 1,912.16 | 2,230.85 |
| Llanfaethlu | £ | 640.38 | 747.11 | 853.84 | 960.57 | 1,174.02 | 1,387.48 | 1,600.94 | 1,921.13 | 2,241.32 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 638.40 | 744.80 | 851.20 | 957.60 | 1,170.40 | 1,383.21 | 1,596.01 | 1,915.21 | 2,234.41 |
| Y Fali | £ | 641.29 | 748.17 | 855.06 | 961.94 | 1,175.70 | 1,389.47 | 1,603.23 | 1,923.88 | 2,244.52 |
| Bryngwran | £ | 641.93 | 748.91 | 855.90 | 962.89 | 1,176.86 | 1,390.84 | 1,604.82 | 1,925.78 | 2,246.74 |
| Rhoscolyn | £ | 634.09 | 739.77 | 845.45 | 951.13 | 1,162.49 | 1,373.85 | 1,585.21 | 1,902.26 | 2,219.30 |
| Trewalchmai | £ | 636.48 | 742.56 | 848.64 | 954.72 | 1,166.88 | 1,379.03 | 1,591.19 | 1,909.43 | 2,227.67 |

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 6(e) a 6(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu a'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

**7.** Y dylid nodi ar gyfer y flwyddyn 2013/14 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:

| **Awdurdod Praeseptio** | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | 148.74 | 173.53 | 198.32 | 223.11 | 272.69 | 322.27 | 371.85 | 446.22 | 520.59 |

**8.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 6(ff) a 7 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn, yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor yn y flwyddyn 2013/14 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir isod:

| **Rhan o Ardal y Cyngor** | | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Amlwch | £ | 811.08 | 946.26 | 1,081.44 | 1,216.62 | 1,486.98 | 1,757.34 | 2,027.70 | 2,433.24 | 2,838.78 |
| Biwmares | £ | 791.60 | 923.54 | 1,055.47 | 1,187.40 | 1,451.27 | 1,715.14 | 1,979.01 | 2,374.81 | 2,770.61 |
| Caergybi | £ | 824.84 | 962.31 | 1,099.78 | 1,237.25 | 1,512.20 | 1,787.15 | 2,062.09 | 2,474.51 | 2,886.93 |
| Llangefni | £ | 812.24 | 947.61 | 1,082.99 | 1,218.36 | 1,489.11 | 1,759.85 | 2,030.60 | 2,436.72 | 2,842.84 |
| Porthaethwy | £ | 806.20 | 940.56 | 1,074.93 | 1,209.29 | 1,478.03 | 1,746.76 | 2,015.49 | 2,418.59 | 2,821.69 |
| Llanddaniel-fab | £ | 786.03 | 917.04 | 1,048.04 | 1,179.05 | 1,441.06 | 1,703.07 | 1,965.08 | 2,358.09 | 2,751.11 |
| Llanddona | £ | 784.46 | 915.21 | 1,045.95 | 1,176.69 | 1,438.18 | 1,699.67 | 1,961.16 | 2,353.39 | 2,745.62 |
| Cwm Cadnant | £ | 791.90 | 923.88 | 1,055.87 | 1,187.85 | 1,451.82 | 1,715.79 | 1,979.75 | 2,375.70 | 2,771.65 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 793.14 | 925.33 | 1,057.52 | 1,189.71 | 1,454.09 | 1,718.47 | 1,982.84 | 2,379.41 | 2,775.98 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 789.79 | 921.42 | 1,053.06 | 1,184.69 | 1,447.95 | 1,711.21 | 1,974.48 | 2,369.37 | 2,764.27 |
| Bodorgan | £ | 786.47 | 917.55 | 1,048.63 | 1,179.71 | 1,441.87 | 1,704.03 | 1,966.19 | 2,359.42 | 2,752.66 |
| Llangoed | £ | 785.05 | 915.89 | 1,046.74 | 1,177.58 | 1,439.26 | 1,700.94 | 1,962.63 | 2,355.15 | 2,747.68 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 779.61 | 909.54 | 1,039.47 | 1,169.41 | 1,429.28 | 1,689.15 | 1,949.02 | 2,338.82 | 2,728.62 |
| Llanidan | £ | 788.08 | 919.43 | 1,050.78 | 1,182.13 | 1,444.82 | 1,707.52 | 1,970.21 | 2,364.25 | 2,758.30 |
| Rhosyr | £ | 788.50 | 919.92 | 1,051.34 | 1,182.76 | 1,445.59 | 1,708.43 | 1,971.26 | 2,365.51 | 2,759.77 |
| Penmynydd | £ | 783.68 | 914.30 | 1,044.91 | 1,175.53 | 1,436.75 | 1,697.98 | 1,959.21 | 2,351.05 | 2,742.90 |
| Pentraeth | £ | 790.98 | 922.81 | 1,054.63 | 1,186.46 | 1,450.12 | 1,713.78 | 1,977.44 | 2,372.93 | 2,768.42 |
| Moelfre | £ | 787.17 | 918.37 | 1,049.56 | 1,180.76 | 1,443.15 | 1,705.54 | 1,967.93 | 2,361.52 | 2,755.11 |
| Llanbadrig | £ | 791.48 | 923.39 | 1,055.30 | 1,187.22 | 1,451.04 | 1,714.87 | 1,978.70 | 2,374.44 | 2,770.18 |
| Llanddyfnan | £ | 784.40 | 915.14 | 1,045.87 | 1,176.61 | 1,438.08 | 1,699.54 | 1,961.01 | 2,353.21 | 2,745.42 |
| Llaneilian | £ | 786.18 | 917.21 | 1,048.24 | 1,179.27 | 1,441.33 | 1,703.39 | 1,965.45 | 2,358.54 | 2,751.63 |
| Llannerch-y-medd | £ | 782.85 | 913.32 | 1,043.80 | 1,174.27 | 1,435.22 | 1,696.17 | 1,957.12 | 2,348.54 | 2,739.97 |
| Llaneugrad | £ | 788.51 | 919.93 | 1,051.34 | 1,182.76 | 1,445.60 | 1,708.43 | 1,971.27 | 2,365.52 | 2,759.78 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 790.67 | 922.45 | 1,054.23 | 1,186.01 | 1,449.56 | 1,713.12 | 1,976.68 | 2,372.01 | 2,767.35 |
| Cylch y Garn | £ | 783.45 | 914.02 | 1,044.60 | 1,175.17 | 1,436.32 | 1,697.47 | 1,958.62 | 2,350.35 | 2,742.07 |
| Mechell | £ | 784.61 | 915.38 | 1,046.15 | 1,176.92 | 1,438.46 | 1,699.99 | 1,961.53 | 2,353.84 | 2,746.14 |
| Rhos-y-bol | £ | 783.62 | 914.22 | 1,044.82 | 1,175.43 | 1,436.63 | 1,697.84 | 1,959.04 | 2,350.85 | 2,742.66 |
| Aberffraw | £ | 791.27 | 923.14 | 1,055.02 | 1,186.90 | 1,450.65 | 1,714.41 | 1,978.17 | 2,373.80 | 2,769.43 |
| Bodedern | £ | 785.95 | 916.94 | 1,047.93 | 1,178.92 | 1,440.91 | 1,702.89 | 1,964.87 | 2,357.85 | 2,750.82 |
| Bodffordd | £ | 783.00 | 913.50 | 1,044.00 | 1,174.50 | 1,435.50 | 1,696.50 | 1,957.50 | 2,349.00 | 2,740.50 |
| Trearddur | £ | 789.74 | 921.37 | 1,052.99 | 1,184.62 | 1,447.87 | 1,711.11 | 1,974.36 | 2,369.23 | 2,764.11 |
| Tref Alaw | £ | 784.79 | 915.59 | 1,046.38 | 1,177.18 | 1,438.78 | 1,700.37 | 1,961.97 | 2,354.36 | 2,746.76 |
| Llanfachraeth | £ | 787.15 | 918.34 | 1,049.54 | 1,180.73 | 1,443.11 | 1,705.49 | 1,967.88 | 2,361.45 | 2,755.03 |
| Llanfaelog | £ | 786.13 | 917.15 | 1,048.17 | 1,179.19 | 1,441.23 | 1,703.27 | 1,965.31 | 2,358.38 | 2,751.44 |
| Llanfaethlu | £ | 789.12 | 920.64 | 1,052.16 | 1,183.68 | 1,446.71 | 1,709.75 | 1,972.79 | 2,367.35 | 2,761.91 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 787.14 | 918.33 | 1,049.52 | 1,180.71 | 1,443.09 | 1,705.48 | 1,967.86 | 2,361.43 | 2,755.00 |
| Y Fali | £ | 790.03 | 921.70 | 1,053.38 | 1,185.05 | 1,448.39 | 1,711.74 | 1,975.08 | 2,370.10 | 2,765.11 |
| Bryngwran | £ | 790.67 | 922.44 | 1,054.22 | 1,186.00 | 1,449.55 | 1,713.11 | 1,976.67 | 2,372.00 | 2,767.33 |
| Rhoscolyn | £ | 782.83 | 913.30 | 1,043.77 | 1,174.24 | 1,435.18 | 1,696.12 | 1,957.06 | 2,348.48 | 2,739.89 |
| Trewalchmai | £ | 785.22 | 916.09 | 1,046.96 | 1,177.83 | 1,439.57 | 1,701.30 | 1,963.04 | 2,355.65 | 2,748.26 |

## 7. CYNLLUN INTEGREDIG SENGL

Adroddwyd – Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2013, wedi ystyried y mater uchod ac wedi penderfynu "*cyfeirio'r fersiwn derfynol o'r Cynllun Integredig Sengl i'r Cyngor i'w gymeradwyo.*"

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith a nodi y bydd y gwaith o gyfuno'r Cynllun gyda Chynllun Gwynedd yn dechrau o 1 Ebrill 2013.**

## 8. NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR

Newidiadau i rannau canlynol y Cyfansoddiad:-

1. Strwythur Pwyllgorau
2. Protocol Swyddog Aelod
3. Protocol Wardiau Aml Aelod
4. Hyfforddiant Gorfodol

Adroddwyd – Bod y Pwyllgor Gwaith, yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror 2013, wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn diwygio Cyfansoddiad y Cyngor fel a nodir yn yr adroddiad (sef mewn perthynas â Hyfforddiant i Aelodau, y Strwythur Pwyllgorau, Protocol ar gyfer Wardiau Amlaelod a Phrotocol ar gyfer Aelodau/Swyddogion) a rhoi'r awdurdod i Swyddogion wneud unrhyw newidiadau dilyniadol i'r Cyfansoddiad."*

Lleisiwyd pryderon gan rai o'r aelodau ynglŷn â'r cynnig i leihau nifer y Pwyllgorau Sgriwtini ar ôl mis Mai 2013 o 5 i 2 Bwyllgor Sgriwtini. Roedd yr aelodau'n deall y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig ond ystyriwyd barn bod hynny'n gynamserol ar hyn o bryd ac y byddai'n gwneud cam mawr â'r Cyngor nesaf. Roedd barn y dylid gohirio'r cynnig hwn i'w ystyried gan y Cyngor newydd. Roedd yna bryder hefyd y byddai'r aelodau oedd yn gwasanaethu ar Fyrddau Rhaglen yn sgriwtineiddio eu hunain yn y pen draw a bod angen cael elfen o annibyniaeth yn y broses.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr ei fod am ei gwneud yn glir nad oedd yna unrhyw fwriad i leihau cyfrifoldebau sgriwtini yn y Cyngor. Wrth gyflwyno'r cynnig hwn a'r argymhellion ynddo, roedd gwaith ymgynghori manwl wedi ei wneud gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, y ddau gorff oedd wedi barnu'r gwendidau Sgriwtini yn y Cyngor hwn yn y gorffennol. At hynny, roedd y cynigion wedi eu trafod gyda'r Arweinyddion Grwpiau a Chadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini perthnasol. Roedd Arweinydd y Cyngor wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn pan ddatblygwyd y strwythur.

Roedd y Prif Weithredwr yn cydnabod nad oedd digon o wybodaeth wedi ei darparu ar y strwythur mewn ffordd ddealladwy. Nid oedd yn fwriad lleihau sgriwtini a byddem yn peryglu'r cynnydd a wnaed pe baem yn gwanhau neu'n lleihau sgriwtini. Yn sicr, gyda'r Cyngor yn parhau mewn ymyrraeth, ni fyddai eisiau cael ei weld fel pe bai'n cerddded i ffwrdd o ddatrys y sefyllfa, gyda hynny'n un o'r prif faterion a nodwyd yn y Cyngor ac a oedd wedi arwain at yr ymyrraeth yn y lle cyntaf.

Bu'n dasg fawr i ffurfio'r strategaeth hon o gofio y bydd gostyngiad 25% yn aelodaeth y Cyngor hwn. Fe fyddai yna fwy o waith yn y Cyngor newydd nag sydd ar hyn o bryd a phwysau gwaith a chyfrifoldeb mawr ar aelodau etholedig ar ôl mis Mai. Yn un peth, byddai'r rhaglen Ynys Ynni yn creu ffrydiau gwaith sylweddol, yn arbennig yn y maes cynllunio. Er mai awdurdod bychan oedd Ynys Môn o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru, roedd y baich gwaith craidd yn parhau'r un fath. Y bwriad oedd y byddai un Pwyllgor Sgriwtini yn delio gyda materion mewnol, gyda phwyllgor sgriwtini allanol ar gyfer sgriwtineiddio cydweithio, partneriaethau a gwaith comisiynu.

Roedd y Prif Weithredwr yn credu mai un o'r prif wahaniaethau rhwng y Cyngor presennol a'r un newydd oedd y byddai gwasanaethau'n gorfod cael eu darparu mewn ffordd hollol wahanol, gyda llawer o'r gwaith hwnnw drwy bartneriaethau a chydweithio gyda Chynghorau eraill a chydag asiantaethau preifat a gwirfoddol ar yr Ynys. Pe byddai gwasanaethau'n cael eu hallanoli, fel oedd yn cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru, yna byddai angen rhoi mwy o bwyslais ar ddal y bobl hynny yn atebol neu byddai Ynys Môn yn colli ei dylanwad yn y cyd-destun rhanbarthol.

Un esiampl o hyn oedd y Bwrdd Ynys Fenter lle nad oes un aelod etholedig o Fôn wedi ei benodi i wasanaethu ar y Bwrdd hwnnw, sy'n delio gydag adfywio economi Ynys Môn. Mae'r economi yn un o brif amcanion yr Awdurdod hwn gyda chreu gwaith a chodi safon byw, yn arbennig ymysg pobl ifanc yr Ynys. Felly roedd yn bwysig dal y Bwrdd hwnnw yn atebol a dyna paham yr oedd angen cael pwyllgor sgriwtini allanol.

Y gwendid yn yr adroddiad oedd nad oedd yn dangos beth fyddai'n dod o dan y ddau Bwyllgor Sgriwtini arfaethedig. Y bwriad oedd sefydlu 3 Bwrdd Rhaglen lle byddai aelodau a swyddogion yn cydweithio i ddatblygu polisïau, gweithredu trefniadau a chodi lefel perfformiad, proses a alwyd gan y Prif Weithredwr yn gyd-adeiladu. Yn hytrach na bod swyddogion yn gweithio yn y tywyllwch gan ddod â pholisïau i bwyllgor i'w cymeradwyo neu eu gwrthod, fe fyddai yna berchnogaeth o'r gwaelod i fyny ar gyfer datblygiadau. Felly i bob pwrpas, byddai sgriwtini eisoes wedi digwydd ar y siwrnai honno a byddai aelodau'r meinciau cefn yn cael eu hannog i gymryd mwy o rôl yng ngweithgareddau'r Cyngor a dylanwadu ar benderfyniadau o'r cychwyn. Byddai gan y ddau bwyllgor sgriwtini hawl i alw penderfyniadau i mewn. Pe bai'r cyd-adeiladu'n digwydd, y gobaith yw y bydd achosion o alw i mewn yn digwydd yn llai aml nag yn y gorffennol.

Wrth reswm, pe bai digon o adnoddau staff yn eu lle, yna byddai'r 5 Pwyllgor Sgriwtini wedi cael eu cadw ond gyda 30 aelod ni fyddai cadw'r status quo wedi bod yn bosibl o gwbl. Bydd y strwythur newydd yn rhoi system bwyllgor addas i'r pwrpas i Gyngor modern wedi ei drawsnewid. Yr allwedd i hyn oedd y 3 Bwrdd Rhaglen. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion mewn ffordd fwy effeithiol na'r broses sgriwtini ragweithiol sydd yn ei lle ar hyn o bryd. Byddai'n rhaid i'r Cyngor newydd fod yn effeithiol o'i ddiwrnod cyntaf.

Byddai gan y Cyngor newydd hwnnw'r cyfle o fewn 6 mis i ddadwneud unrhyw benderfyniad a gymerwyd gan y Cyngor presennol. Roedd cyfrifoldeb i sicrhau y bydd y trawsnewid i'r Cyngor newydd yn un mor llyfn ag sy'n bosibl ac a fydd yn galluogi i'r Cyngor gyflawni ei weithgareddau'n effeithiol. Nid oedd yn gweld sut y gallai cyfansoddiad presennol y Pwyllgor hwn gyda 10 yn llai o aelodau allu cyflawni hynny. Pe byddai yna angen i newid pethau ar frys, ni fyddai ond angen i 10 aelod o'r Cyngor alw cyfarfod arbennig i ddiwygio'r cynigion.

(*Roedd y Cynghorydd Selwyn Williams yn dymuno iddo gael ei nodi yn y cofnodion ei fod wedi ymatal ei bleidlais ar y mater*)

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn y mater hwn.**

**9. POLISI CWYNION A PHRYDERON**

Adroddwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddu) - Bod Llywodraeth Cymru wedi argymell yn gryf fod yr holl ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn mabwysiadu'r Polisi Pryderon a Chwynion er mwyn safoni profiad y cyhoedd o ddelio â chwynion. Yng ngoleuni'r argymhelliad cryf hwn, gofynnwyd i'r Cyngor fabwysiadu polisi newydd yn seiliedig ar y model a awgrymir yn yr adroddiad

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Polisi Pryderon a Chwynion newydd ynghyd â'r polisi Gweithrediadau Annerbyniol gan Achwynwyr gyda dyddiad cychwyn o 1 Ebrill 2013.**

**10. ADOLYGU POLISI INDEMNIADAU'R CYNGOR**

Adroddwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddu) - Bod y Cyngor ar 9 Mehefin 2011 wedi ymarfer ei ddisgresiwn i fabwysiadau Polisi Indemniadau oedd yn cynnwys indemniad i Aelodau i amddiffyn camau a ddygir gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn cysylltiad â thoriadau honedig o'r Côd Ymddygiad.

Ers Mehefin 2011, roedd yr Is-Bwyllgor Indemniadau wedi rhoi 3 indemniad ac er nad oedd y Polisi yn cynnwys cap ariannol, roedd yr Is-bwyllgor hyd yn hyn wedi gosod cap o £10k ym mhob achos. Fodd bynnag, nid oedd yr agwedd hon wedi cael ei hadlewyrchu mewn Cynghorau eraill, a hynny'n golygu bod Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryderon mewn llythyr i'r Arweinydd dyddiedig 15 Ionawr 2013. Roedd y mater wedi ei drafod gydag Arweinyddion Grwpiau'r Cyngor ac roeddent o blaid diwygio'r Polisi i gyflwyno cap o £20k yn yr achosion hynny oedd yn ymwneud ag amddiffyn cwynion Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

(*Roedd y Cynghorydd Elwyn Schofield y dymuno iddo gael ei gofnodi ei fod wedi ymatal ei bleidlais ar y mater hwn*).

**PENDERFYNWYD**

- **Diwygio Polisi Indemniadau'r Cyngor er mwyn gosod uchafswm indemniad o £20,000 i amddiffyn trafodaethau a ddygir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan y Côd Ymddygiad.**
- **Bod uchafswm yr indemniad yn cael ei osod drwy'r newidiadau a awgrymwyd yn Atodiadau 2 a 3 yr adroddiad.**

**11. STRATEGAETH RHEOLI LLIFOGYDD A DŴR**

Adroddwyd – Bod y Pwyllgor Gwaith, yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2013, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir "ei fod yn cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol".

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn hyn o beth.**

**12. ADOLYGIAD O BOLISI GAMBLO'R AWDURDOD**

Adroddwyd gan y Prif Swyddog Safonau Masnach – Bod angen i'r Awdurdod, dan delerau Deddf Gamblo 2005, adolygu ei Bolisi Gamblo bob tair blynedd. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r broses ymgynghori. Oherwydd bod cred bod y Polisi wedi gweithio'n dda ac na chafwyd unrhyw her iddo, bychan iawn oedd yr ymatebion a hefyd y newidiadau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a mabwysiadu'r Polisi Gamblo diwygiedig.**

**13. ADOLYGU POLISI TRWYDDEDU'R AWDURDOD**

Adroddwyd gan y Prif Swyddog Safonau Masnach - Bod angen i'r Awdurdod hwn, dan delerau Deddf Trwyddedu 2003, adolygu ei Bolisi Trwyddedu bob pum mlynedd. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r broses ymgynghori. Oherwydd yr ystyriwyd bod y Polisi wedi gweithio'n dda ac nad oedd wedi wynebu unrhyw heriau, ychydig iawn o ymatebion a gafwyd a bychan iawn oedd y newidiadau, ar wahân i ddwyn sylw at gyflwyno deddfwriaeth newydd dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a'r opsiynau rheoli ychwanegol oedd ar gael i'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a mabwysiadu'r Polisi Trwyddedu diwygiedig.**

**14. CARCHAR YNG NGOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Prif Weithredwr ynglŷn â'r trafodaethau a gynhaliwyd ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar yr achos dros leoli'r carchar newydd arfaethedig yng Ngogledd Cymru a gofyn am ymrwymiad y Cyngor i weithredu ar y telerau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyfiawnder.

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo cynigion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a chefnogi'r Bwrdd trwy :-**
    - **Ryddhau datganiad i'r wasg yn croesawu'r cyfle i gystadlu am garchar i'w leoli yng Ngogledd Cymru;**
    - **I ohebu gyda Swyddfa Cymru, y Gweinidog Carchardai a Llywodraeth Cymru i groesawu'r cyhoeddiad a chynnig cefnogaeth i leoli carchar yng Ngogledd Cymru.**

- **I nodi y bydd Swyddogion o bob un o Gynghorau Gogledd Cymru yn cyfarfod â Swyddogion yr Adran Cyfiawnder i nodi meini prawf safle a chael gwybodaeth am droseddwyr (y categorïau i'w lletya, carcharorion a niferoedd remandio yn cynnwys dedfrydau o dan 12 mis ac ati);**

- **Nodi y bydd Swyddogion o bob un o'r Cynghorau yng Ngogledd Cymru yn cyfarfod gyda'i gilydd i nodi safleoedd tebygol a thrafod yr ewyllys wleidyddol i hyrwyddo safleoedd a galluogi i'r rhanbarth gynnig i'r Adran Gyfiawnder restr fer o safleoedd sy'n cyfarfod a'u meini prawf.**

- **I nodi bod cynllunio yn broses ar wahân i'r broses o nodi safle ac y bydd hyn yn cael ei drafod a'i egluro gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder.**

- **I nodi y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn llunio achos busnes sy'n nodi'r manteision i gymunedau Gogledd Cymru o allu lletya troseddwyr o Ogledd Cymru mewn carchar wedi ei leoli yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn gofyn am i gyswllt gael ei drefnu gan swyddogion y Cyngor gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder.**

- **I nodi y bydd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn adolygu'r cynnydd yn rheolaidd ym mhob un o'i gyfarfodydd.**

**15. RHYBUDD O GYNNIG A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.2.2.12 Y CYFANSODDIAD**

Cyflwynwyd – Y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorwyr Richard A. Dew ac Aled Morris-Jones: -

*"Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i ystyried gosod plac coffa ym mhentref Rhosneigr, fel y lle y ganwyd, ym 1883, y Llyngesydd Syr Max Kennedy Horton, GCB, DSO, Cadbennaeth Ardaloedd y Gorllewin yn ail hanner yr Ail Ryfel Byd.*

*Roedd y Llyngesydd, Syr Max Kennedy Horton, GCB, DSO yn gyfrifol am ran Prydain ym Mrwydr Môr Iwerydd, ac ym mis Mai eleni byddir yn coffau 70 o flynyddoedd ers y frwydr honno."*

**PENDERFYNWYD y dylid gofyn i'r Arweinydd anfon y cais ymlaen i'r Panel Placiau Coffa gydag argymhelliad o'r Cyngor hwn y dylid ei gefnogi.**

**16. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

**17. DATGANIAD POLISI TÂL 2013-14**

Adroddwyd gan y Pennaeth Dros Dro Adnoddau Dynol - Bod Deddf Lleoliaeth 2011 yn dweud fod yn rhaid i Awdurdodau yng Nghymru a Lloegr gynhyrchu a chyhoeddi datganiad polisi tâl am 2013-14 ac am bob blwyddyn ariannol wedi hynny. Roedd y Ddeddf yn dweud bod angen i Awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi eu polisi tâl ynghylch pob agwedd o Gyflogau Prif Swyddogion. Er budd tryloywder ac atebolrwydd, roedd y Cyngor wedi dewis cymryd agwedd

ehangach a chynhyrchu datganiad polisi yn delio â phob grŵp o weithwyr, ac eithrio athrawon ysgol oherwydd nad yw eu cyflogau o fewn rheolaeth yr awdurdod lleol.

Roedd y Cyngor wedi cyhoeddi ei ddatganiad polisi cyflog cyntaf y flwyddyn ddiwethaf ac roedd newidiadau bychain wedi eu gwneud yn adroddiad y flwyddyn hon er mwyn adlewyrchu strategaeth gyfredol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl oedd ynghlwm wrth yr adroddiad fel Datganiad Polisi Tâl y Cyngor am 2013-14.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4: 10 p.m.

**CYNGHORYDD R.LI.JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Mawrth,16 Ebrill 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Eurfryn Griffith Davies (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr W J Chorlton, R Dew, Jim Evans, Keith Evans, C Ll Everett, Mrs Fflur Hughes, K P Hughes, R Ll Hughes, W I Hughes, W T Hughes, Eric Jones, G O Jones, O Glyn Jones, Raymond Jones, R Dylan Jones, T H Jones, Rhian Medi, Alun W Mummery, B Owen, J V Owen, R L Owen, R G Parry OBE, G O Parry MBE, J A Roberts, Eric Roberts, P S Rogers, E Schofield, Ieuan Williams a H W Thomas |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151<br>Pennaeth Swyddogaeth Cyfreithiol a Gweinyddiaeth (Eitemau 1-5 yn unig)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)(Eitemau 1-5 yn unig)<br>Uwch Gyfreithiwr (Gwasanaethau Plant)(Eitemau 6+7 yn unig)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr T Ll. Hughes, A M Jones, H E Jones, C McGregor, G W Roberts OBE a Selwyn Williams;<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy) |

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi a offrymwyd gan y Cynghorydd G.O.Jones

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaeth y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) a'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 7 y cofnodion hyn ac nid oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth neu bleidlais arni.

**2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TALEDIG**

Dim i'w datgan.

**3 CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD I'R AELODAU OEDD YN YMDDEOL**

Talodd y Prif Weithredwr deyrnged i'r Cynghorwyr isod a oedd wedi datgan eu bwriad i ymddeol fel Cynghorwyr cyn etholiadau'r Cyngor ym mis Mai:-

**Y Cynghorydd Cliff Everett**

Etholwyd y Cynghorydd Cliff Everett yn Aelod Llafur dros Ward Tref Caergybi yn 1991 a bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Prif Bwyllgor Sgriwtini ac yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

**Y Cynghorydd Fflur M. Hughes**

Etholwyd y Cynghorydd Fflur M.Hughes yn aelod Plaid Cymru member dros Ward Cefni ym mis Mai 1999 a bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Dysgu Gydol Oes a Diwylliant a'r Pwyllgor Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Y Cynghorydd W.I.Hughes**

Etholwyd y Cynghorydd W.I.Hughes yn aelod Plaid Cymru dros Ward Bodffordd yn 1999. Bu'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith fel yr Aelod Portffolio Tai.

**Y Cynghorydd Eric Jones**

Etholwyd y Cynghorydd Eric Jones yn aelod dros Ward Llanfihangel Ysgeifiog yn 2007 a bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol ac yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**Y Cynghorydd Tom Jones**

Etholwyd y Cynghorydd Tom Jones yn aelod dros Ward Llanfechell yn 2004. Bu'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith fel yr Aelod Portffolio Cyllid. Bu hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Penodiadau.

**Y Cynghorydd Clive McGregor** (nid oedd yn gallu bod yn bresennol heddiw)

Etholwyd y Cynghorydd Clive McGregor fel Cynghorydd Sir ym mis Mai 2008 fel cynrychiolydd Ward Llanddyfnan, Fe'i penodwyd yn Aelod Portffolio Priffyrdd, Trafnidiaeth a Materion Arforol ar ôl ymuno â'r Cyngor. Ym mis Ebrill 2009, cafodd ei ethol yn Arweinydd y Grŵp Annibynwyr Gwreiddiol a bu'n Arweinydd y Cyngor rhwng Mai 2009 a Mai 2011.

**Y Cynghorydd Rhian Medi**

Etholwyd y Cynghorydd Rhian Medi yn aelod Plaid Cymru ar gyfer Ward Cyngar yn 2008. Bu'n Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden ac yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith ar adeg ei sefydlu yn 2000.

**Y Cynghorydd J.V.Owen**

Etholwyd y Cynghorydd J.V.Owen yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn yn 1976 ac fe'i etholwyd yn Faer y Cyngor Bwrdeistref rhwng 1985-86. Cafodd ei ethol fel aelod ar gyfer Ward Parc a'r Mynydd, Caergybi yn 2008. Ef yw Cadeirydd presennol y Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo.

**Y Cynghorydd R.L.Owen**

Etholwyd y Cynghorydd R.L.Owen yn aelod dros Ward Biwmares ym mis Mai. Bu'n Gynghorydd ar Gyngor Tref Biwmares ers 1986 ac ef oedd Maer Biwmares rhwng 1996-97. Y Cynghorydd Owen oedd Cadeirydd y Cyngor Sir yn 2002-03, yn ystod ymweliad Ei Mawrhydi Y Frenhines â Biwmares fel rhan o ddathliadau'r Jiwbilî Aur. Bu hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Sgriwtini yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol ac ef yw'r Is-gadeirydd cyfredol.

**Y Cynghorydd G.O.Parry,MBE**

Mae'r Cynghorydd G.O.Parry,MBE wedi bod yn aelod o Gyngor Cymuned Y Fali ers 1976. Bu'n Gadeirydd Cymdeithas y Cynghorau Lleol, Gwynedd am bum mlynedd. Bu'n aelod o Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn ers 1982 ac yn aelod o'r Cyngor hwn ers 1996.

Bu'n Faer y Fwrdeistref yn ystod 1990-91 a bu'n ymwneud â Cyngor Ar Bopeth ers 1974 ac yn Gadeirydd CAB Gogledd Cymru ynghyd â CAB Caergybi. Ef oedd Arweinydd y Cyngor Sir rhwng 1999 a 2002 a'r Aelod Portffolio cyfredol ar gyfer Addysg.

**Y Cynghorydd G.Winston Roberts,OBE** (nid oedd yn gallu bod yn bresennol heddiw)

Cafodd y Cynghorydd G.Winston Roberts, OBE ei ethol gyntaf fel aelod o'r hen Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn yn 1976 a bu'n aelod o'r Awdurdod hyd adeg sefydlu'r Awdurdodau Unedol yn 1996. Yn

ystod y cyfnod hwnnw, bu'n flaenllaw yn y Cyngor ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thwristiaeth, Pwyllgor Iechyd yr Amgylchedd a'r Pwyllgor Staff ac Adolygu Perfformiad.

Ym mis Mai 1995, fe'i etholwyd yn aelod o'r Cyngor hwn ac ef oedd Cadeirydd ac Arweinydd cyntaf y Cyngor. Bu'n Faer Cyngor Tref Amlwch ar ddau achlysur. Ef yw Cadeirydd cyfredol Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau oedd yn ymddeol am eu cyfraniadau gwerthfawr a dymunodd yn dda iddynt am y dyfodol.

Ar ran y Cyngor, cyflwynodd y Cadeirydd i'r aelodau blaciau gwydr crisial ac arnynt logo'r Cyngor fel cofrodd o'u gwasanaeth i Lywodraeth Leol ac, yn ogystal, cyflwynodd dusw o flodau i wragedd/partneriaid yr aelodau a oedd yn bresennol heddiw.

Talodd Arweinydd y Cyngor deyrnged i'r aelodau a oedd yn ymddeol a diolchodd iddynt am eu cefnogaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda'r broses adfer.

Rhoddwyd i'r Cynghorydd Keith Evans hefyd y cyfle i dalu ei deyrnged ei hun i'r aelodau a oedd yn ymddeol a dymunodd yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

**4 HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Rhoes y Cadeirydd groeso cynnes i Gomisiynydd yr Heddlu.

Rhoes y Comisiynydd Heddlu a Throsedd sydd newydd ei benodi ar gyfer Gogledd Cymru, Mr. Winston Roddick, CB, QC, gyflwyniad mewn perthynas â'r gwahoddiad a roddodd i drigolion Gogledd Cymru i rannu eu teimladau ynghylch plismona a throsedd yn lleol.

Byddai'r sylwadau a fynegwyd yn cael eu defnyddio i ddatblygu Cynllun Heddlu a fyddai'n gosod cyfeiriad clir ar gyfer y gwasanaeth heddlu yng Ngogledd Cymru dros y ddwy flynedd nesaf.

Roedd y Comisiynydd Heddlu eisiau i'r Cynllun hwn adlewyrchu anghenion y cyhoedd yng Ngogledd Cymru a cheisiodd farn y gymuned leol am y materion plismona a oedd yn eu pryderu.

Yn dilyn anerchiad y Comisiynydd, cafwyd sesiwn fer ar gyfer cwestiynau ac atebion yn arbennig felly mewn perthynas â'r problemau y daethpwyd ar eu traws ar yr Ynys. Soniwyd hefyd am y ffaith y dylid ystyried codi plac coffa yn yr Orsaf Heddlu newydd yn Llangefni efallai er cof am y diweddar Dr.Tom Parry Jones o Borthaethwy, a ddyfeisiodd yr anadliedydd electronig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd am ei anerchiad ac ar ran y Cyngor, dymunodd yn dda iddo yn ei swydd newydd ac roedd yn edrych ymlaen at ymweliadau pellach gan y Comisiynydd yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

**5 RHEOLI TRYSORLYS - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 2**

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ar y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol: Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn ar gyfer 2012/13. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Cyngor er mwyn cydymffurfio gydag argymhellion Côd Ymddygiad CIPFA ar Reoli Trysorlys.

Roedd y Cyngor wedi penderfynu y dylai'r adroddiad hwn gael ei ystyried hefyd gan y Pwyllgor Archwilio. Trafododd y Pwyllgor Archwilio gynnwys yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2012 a phenderfynwyd derbyn ei gynnwys a'i gyfeirio i'r Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad sydd hefyd wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Archwilio.**

6 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

7 **STRWYTHUR PENAETHIAID GWASANAETH**

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar yr argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith ddoe mewn perthynas â'r eitem hon a'r penderfyniad a wnaed, sef *'cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad a'u cymeradwyo i'r Cyngor llawn'.*

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr – Bod adolygu strwythur rheoli Penaethiaid Gwasanaeth y Cyngor yn elfen hanfodol o'r Cynllun Trawsnewid a hynny'n unol â'r blaenoriaethau sy'n esblygu o'r Cynllun a'r modd y byddai'n rhaid i'r Cyngor weithredu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn ystod tymor y Cyngor nesaf ar ôl Mai 2013.

Ailddylunio'r Strwythur Penaethiaid Gwasanaeth oedd cam nesaf y broses. Yn yr adroddiad, nodwyd yr achos, yr egwyddorion dylunio, yr ystyriaethau allweddol, y strwythur newydd arfaethedig (gyda rhesymeg) a'r manylion ar gyfer gweithredu strwythur newydd ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth.

Yna, byddid yn ymgynghori'n gyffredinol gyda staff a chydranddeiliaid ar ôl yr etholiad ar y newidiadau i'r gwasanaethau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor a llunio cynllun gweithredu manwl.

Fel y dywedwyd yn yr adroddiad, mynegwyd pryderon ynghylch gweithredu'r Adolygiad PG cyn cwblhau'r ymarfer Arfarnu Swyddi. O'r herwydd, cynigiwyd y dylid pennu dyddiad o 1 Hydref ar gyfer gweithredu'r strwythur PG newydd ac ar gyfer gweithredu Arfarnu Swyddi hefyd a hynny i bwrpas ôl-gyflog a threfniadau diogelu cyflog.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion yn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr.**

*(Roedd y Cynghorydd Rhian Medi yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei bod wedi ymatal rhag pleidleisio ar y mater).*

Daeth y cyfarfod i ben am 3:50 p.m.

**Y CYNGHORYDD R.LI. JONES**
**CADEIRYDD**

**BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2013 (11:00 am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Alex Aldridge (Cadeirydd)<br>Y Comisiynydd Mick Giannasi<br>Prif Weithredwr<br><br>Pwyllgor Gwaith : Y Cynghorwyr W.J.Chorlton; K.P.Hughes; R.Ll.Hughes; T.Lloyd Hughes;Bryan Owen; G.O.Parry,MBE; R.G.Parry,OBE.<br><br>Cadeiryddion Sgriwtini : Y Cynghorwyr Lewis Davies; Selwyn Williams.<br>Dirprwy Brif Weithredwr; Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy; Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes; Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau); Rheolwr Rhaglen Gwella'r Gwasanaethau Plant (JD) |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor; Rheolwr Prosiect |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr.Steve Pomeroy (Llywodraeth Cymru); Y Mri. Andy Bruce a Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru); Yr Athro Mel Ainscow (Cadeirydd Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Keith Evans; O.Glyn Jones; Y Comisiynydd Byron Davies; Mr.Mark Roberts (AGGCC); Cyfarwyddwr Cymuned. |

Rhoes y Cadeirydd groeso cynnes i'r Athro Mel Ainscow, Cadeirydd Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn ac i Ms.Danielle Edwards, y Rheolydd Prosiect sydd newydd ei phenodi a dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Eglurodd y Prif Weithredwr i'r Bwrdd na fu modd darparu adroddiadau eithriad ar gyfer cyfarfod heddiw oherwydd nad oedd strwythur y Bwrdd Rhaglen yn ei le yn iawn. Byddai'r tri Bwrdd Rhaglen arfaethedig ag arnynt aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i lunio polisïau mewn perthynas â gwella llif gwaith y Cyngor a sicrhau ei weithrediad effeithiol. Byddai adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Cynaliadwyedd hwn ynghylch unrhyw faterion yn codi o'r Byrddau Rhaglen hyn a byddai'r Bwrdd yn gyfrifol am gymryd trosolwg cyffredinol o berfformiad a gosod cyfeiriad ar gyfer perfformiad y Cyngor. Byddai rhedeg busnes y Cyngor o ddydd i ddydd yn digwydd yn y Byrddau Rhaglen hyn. Unwaith y bydd y drefn hon wedi ei sefydlu, byddai'r trefniadau ar gyfer adrodd a chyflwyno adroddiadau eithriad yn gweithio'n effeithiol.

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim i'w datgan.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Fel yr uchod.

## 3. COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 31 Ionawr, 2013.

## 4. Y STRATEGAETH TRAWSNEWID - ADRODDIAD GWAITH Y TÎM UWCH ARWEINYDDIAETH (TUA) AR GYNNYDD

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr - Er mwyn canolbwyntio rhwng rŵan a mis Mai 2013, roedd Comisiynwyr Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni ganolbwyntio ar weithgareddau gwella mewn dau gylch o 90 diwrnod. Roedd y TUA wedi gwneud gwaith mewn ymgynghoriad gyda'r Comisiynwyr a Hay i fapio allan nifer o elfennau allweddol i gychwyn y trawsnewid ac amlinellwyd y rhain yn y ddau gylch gwaith 90 diwrnod yr oedd y TUA wedi eu pennu a'u cytuno arnynt.

Yn gyffredinol roedd cynnydd da yn cael ei wneud ym mhob maes. Ers y cyfarfod diwethaf, roedd y Rheolwr Rhaglen Dros Dro wedi bod yn casglu gwybodaeth ynghyd, datblygu cylch gorchwyl gan gynnwys aelodaeth ac edrych ar y dull o reoli rhaglen. Cynhaliwyd Cynhadledd i reolwyr yn gynharach yr wythnos hon gyda 45 o reolwyr canol yn bresennol yn trafod y cynllun trawsnewid a'r rhaglen effeithlonrwydd. Bu'n gyfarfod cadarnhaol a chalonogol iawn gydag unigolion yn gwirfoddoli i arwain ar y 6 thema allweddol.

Yn ogystal, cynhaliwyd diwrnod datblygu yn ddiweddar gyda Phenaethiaid Gwasanaeth i symud ymlaen a pharatoi ar gyfer y cynllun corfforaethol newydd a'r strategaeth effeithlonrwydd ar gyfer eu cymeradwyo gan y Cyngor newydd yn ystod yr Hydref 2013.

Yna, cafodd y Dirprwy Brif Weithredwr gyfle i roi crynodeb o'r cynnydd a wnaed ers y cyfarfod diwethaf o'r Bwrdd hwn mewn perthynas â phob un o'r 16 o themâu yr oedd angen gwneud cynnydd yn eu cylch fel rhan o'r ddau gylch gwaith 90 diwrnod. Ar gyfer pob un o'r 16 maes gwaith hynny, roedd crynodeb a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a rhai o'r meysydd y bydd yn rhaid gweithio arnynt nesaf.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y modd y mae pethau yn gwella yn awr yn y Cyngor ac achubodd ar y cyfle i longyfarch y Gwasanaeth Tai a'r Aelod Portffolio Tai oherwydd bod y Cyngor hwn, ddwy flynedd yn ôl, yn y chwarter isaf o ran perfformiad awdurdodau lleol mewn perthynas ag atal digartrefedd a'i fod yn awr y perfformiwr gorau ond un yng Nghymru.

Cydnabu'r Prif Weithredwr y gwnaed gwaith anferthol o gofio'r problemau capasiti yn yr awdurdod a diolchodd i'r Gwasanaethau am eu gwaith yn hyn o beth. Aeth rhagddo i gadarnhau ei fod ef hefyd wedi mynychu'r cyfarfod cadarnhaol iawn gyda Rheolwyr Canol yr wythnos hon. Yn ei farn ef, hwn oedd un o'r cyfarfodydd pwysicaf iddo eu mynychu fel rhan o'r rhaglen drawsnewid ac roedd yn bwysig cynnal y momentwm hwnnw.

Dywedodd y Cynghorydd G.O.Parry, MBE ei bod yn glir bod amryfal gyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda staff y Cyngor ar bob lefel ac roedd ef o'r farn y byddai o fantais i'r Aelodau Portffolio fod yn gwybod pryd y mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal, ynghyd a bwriad nodau ac amcanion y cyfarfodydd hynny. Efallai y bydd y cyfarfodydd hyn yn trafod materion nad yw'r Aelodau Portffolio yn ymwybodol ohonynt

a byddai'n ddefnyddiol cael gwybod beth yw ymateb y swyddogion i rai materion penodol yn yr Awdurdod.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n arwydd o fethiant petai Aelodau Portffolio ddim yn rhan o'r trafodaethau a'i bod yn bwysig iddynt fod â gafael cadarn yn eu portffolios. Byddai Aelodau a swyddogion yn y dyfodol yn gweithio ochr yn ochr ar y tri Bwrdd Rhaglen ac roedd hi'n hynod bwysig i Aelodau Sgriwtini ac aelodau meinciau cefn fod yn rhan o'r siwrne drawsnewid honno hefyd.

Dywedodd y Comisiynydd Mick Giannasi bod gan y Gweinidog, ym mhen tri mis, benderfyniad pwysig iawn i'w wneud ynghylch a oedd am ddod â'r ymyrraeth i ben ai peidio. Un o'r pethau yr oedd y Comisiynwyr wedi ymrwymo iddo oedd seilio eu hasesiad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cylch 180 diwrnod cyntaf o'r cynllun trawsnewid. Gofynnodd am sicrwydd gan y Dirprwy Brif Weithredwr a fedrai'r Awdurdod gyflawni hyn erbyn 31 Ebrill ac a oedd unrhyw risgiau neu rwystrau yn esblygu a fyddai'n cael effaith ar hynny?

Mewn ymateb dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr ei bod yn weddol hyderus bod yr Awdurdod am gyflawni'r targed o ran y cylch 180 diwrnod. Fodd bynnag, efallai y bydd llithro mewn rhai meysydd megis y model comisiynu ond roedd hi'n amlwg bod cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwnnw. O ran y strategaeth gweithlu a phobl, roedd angen cynnal arolwg staff i ddarparu gwaelodlin. Byddai angen darparu adnoddau ar gyfer pethau sylfaenol megis adolygiadau perfformiad a rheoli salwch dros yr ychydig fisoedd nesaf er mwyn sicrhau gwelliant erbyn y flwyddyn nesaf. Gan fod Rheolwr Rhaglen wedi ei phenodi yn awr, roedd hi'n llawer mwy hyderus y byddai pethau yn mynd yn eu blaenau yn gyflymach.

*Cymeradwyodd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran datblygu'r Rhaglen Drawsnewid gan gefnogi cyfeiriad y daith fel y nodir hynny yn yr adroddiad cynnydd a oedd ynghlwm.*

**5. (a) Y DIWEDDARAF AR DDATBLYGU BWRDD ADFER ADDYSG YNYS MÔN**

Dywedodd Yr Athro Mel Ainscow, Cadeirydd Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn bod y Bwrdd yn cyfarfod bob mis a'i fod yn cynnwys ef ei hun, Pennaeth Ysgol Gynradd a Phennaeth Ysgol Uwchradd o Gymru, cydweithiwr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac uwch was sifil o Gaerdydd. Ms Tannis Cannick, y Rheolydd Rhaglen a oedd yn gyfrifol am gydlynu'r Bwrdd.

Yn y cyfnod cychwynnol, roedd y Bwrdd wedi bod yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa ym Môn. Adroddiad Estyn oedd y man cychwyn ac roedd yn cael ei ddefnyddio i arwain y Bwrdd yn y tymor byr. Fodd bynnag, roedd angen dealltwriaeth well o realiti pethau yn y maes. I'r perwyl hwn, cafwyd trafodaethau gyda swyddogion y Cyngor, grwpiau o brifathrawon a llywodraethwyr ysgolion ac, yn anffurfiol, gyda rhai aelodau etholedig hefyd. Roedd y Bwrdd o'r farn bod rheswm mawr i fod yn optimistaidd a bod rhai nodweddion cadarnhaol iawn yn sustem Addysg Ynys Môn.

Roedd cryn dipyn o dystiolaeth o arferion da o ran nifer o'r pethau a nodwyd yn adroddiad Estyn. Roedd llawer o'r wybodaeth a'r arbenigedd sydd eu hangen yma ar Ynys Môn ond gellid ychwanegu gwerth neu brofiad pellach o fan arall. Roedd o dan yr argraff bod cyfathrebu da iawn o fewn cymuned Ynys Môn, roedd pobl yn adnabod ei gilydd ac yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd ar yr Ynys. Wedi ymweld â rhai ysgolion ar yr Ynys, roedd o'n meddwl bod dawn yr athrawon a'r disgyblion o newid rhwng y naill iaith a'r llall yn aruthrol.

Oherwydd bod pawb yn adnabod ei gilydd mor dda, roedd pryderon nad oedd pobl yn siarad am broblemau pan oeddynt yn codi oherwydd byddai'n wybodaeth gyffredin yn fuan a gallai diwylliant o'r fath ganiatáu i anawsterau ddatblygu. Roedd y Bwrdd yn teimlo bod yna deimlad bod "boddhaol" yn ddigon da. O'r herwydd, roedd angen codi'r bar oherwydd bod ein plant yn haeddu mwy ac yn debol o gyflawni mwy. Y nodau tymor byr oedd ticio'r blychau mewn perthynas â'r 7 maes gwella a adnabuwyd gan Estyn. Roedd rhai cydweithwyr yn anfodlon ac yn ddig ynghylch rhai o'r pethau y soniwyd amdanynt yn yr adroddiad.

Yn y tymor hwy nid oedd yn gweld rheswm pan na fedrai Ynys Môn gael sustem addysgol wych y byddai gweddill Cymru yn ei hefelychu. Rôl y Bwrdd ar ddiwedd y dydd oedd bod yn atebol i'r Gweinidog ynghylch cynnydd yn y tymor byr. Yn bwysicach, swyddogaeth y Bwrdd oedd cefnogi pobl leol drwy ychwanegu syniadau, ynni ac adnoddau i'r hyn yr oeddynt eisoes yn ei wneud. Os oedd y sustem am wella, byddai'n rhaid i bobl leol gymryd cyfrifoldeb am y rhaglen. O'r herwydd, roedd angen newid diwylliant.

Roedd dan yr argraff bod uwch reolwyr mewn rhai ysgolion yn Ynys Môn yn disgwyl i rywun arall ddod i mewn a gwella'r ysgolion ar eu rhan. Roedd angen i'r ysgolion wella eu hunain a chefnogi a herio'r naill a'r llall er mwyn sicrhau gwelliant. Roedd hynny â goblygiadau pellach i swyddogaeth yr Awdurdod Lleol oherwydd bu'n rhaid iddynt ailfeddwl a pheidio â syrthio i'r trap o roddi'r argraff eu bod yno i wella'r ysgolion. Ei swyddogaeth nhw oedd gwneud yn siŵr bod gwelliant yn digwydd ac os nad ydoedd, pam nad oedd yn digwydd.

Soniodd am weithdy a gynhaliwyd yn ddiweddar lle roedd bron y cyfan o'r prif athrawon cynradd ac uwchradd yn bresennol ynghyd a rhai o swyddogion allweddol yr Awdurdod. Yn y gweithdy hwnnw, gofynnwyd iddynt ystyried goblygiadau defnyddio strategaeth i ddefnyddio'r arbenigedd gorau, gwella eu hysgolion eu hunain a chefnogi eu cydweithwyr i wella eu hysgolion. Cafwyd trafodaethau hefyd gyda swyddogion yr Awdurdod Lleol yn gofyn iddynt asesu beth yr oedd hynny'n ei feddwl ar lefel ymarferol.

Soniodd y <u>Comisiynydd Mick Giannasi</u> iddo ef a'r Cadeirydd gael cyfarfod gyda'r Athro Mel Ainscow yr wythnos ddiwethaf er mwyn cael trafodaeth gyffredinol ynghylch sut y gallent weithio gyda'i gilydd yn y dyfodol mewn perthynas â materion megis rheoli asedau a materion stadau, TG a chanolbwyntio ar y gymuned a'r cwsmer. Roedd llawer o bethau tebyg rhwng yr her o ran addysg a'r her ehangach o ran y trawsnewid yr oedd y Cyngor yn ei wynebu ac roedd y naill yn rhan annatod o'r llall. Yn ei farn ef, roedd angen cynnal y berthynas honno a pheidio â delio gyda'r ddau beth ar wahân.

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn rhoddi diweddariad ar ddatblygiadau ynghylch agweddau penodol ar gynllun gweithredu ôl-arolwg Estyn o ran yr argymhellion canlynol:-

- Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol a sicrhau bod yr holl ddysgwyr a fedr wneud hynny yn ymarferol llythrennog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;
- Cynllunio'n fwy effeithiol gyda phobl broffesiynol berthnasol i wella lefelau presenoldeb yn yr ysgolion;
- Gweithredu i leihau nifer y llefydd gweigion.

Dywedodd y <u>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes</u> mai barn fewnol oedd yn yr adroddiad ynghylch y cynnydd a wnaed a bod disgwyl i'r Bwrdd Adfer a'r Rheoleiddwyr gyflwyno sylwadau. Roedd yn ddiolchgar iawn i'r Athro Mel Ainscow a'i Fwrdd am y gwaith yr oeddynt yn ei wneud ac am y modd y gwnaethant eu gwaith. Roedd yn her ymateb i

Estyn ond hefyd i ymateb i'r her i sefydlu system a sefydliad a fyddai'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Roedd y seminar i brifathrawon yn bendant wedi codi ymwybyddiaeth o'r hyn yr oedd angen ei wneud a hefyd wedi gosod her ar lefel yr Awdurdod i sicrhau fod ysgolion yn mynd i'r afael â'r rhaglen hon ac yn cymryd y camau angenrheidiol i sefydlu sustem ar Ynys Môn lle gallai ysgolion weithio gyda'i gilydd a hefyd herio'r naill a'r llall.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi ei galonogi'n arw o ran y modd y gallai'r Bwrdd Adfer ychwanegu gwerth at yr hyn yr oedd yr Awdurdod yn ei wneud ar hyn o bryd. Roedd ef o'r farn bod cyfarfod heddiw wedi cael arweiniad clir a chadarn. Bwriad y Bwrdd Adfer oedd rhannu eu harbenigedd a datblygu arferion da a chael ein sefydliad i weithio gyda'i gilydd er mwyn helpu eu hun a thorri'r cylch o orddibyniaeth ar y canol.

*Diolchodd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd i'r Athro Mel Ainscow am ddod i'r cyfarfod heddiw ac fe nododd gynnwys yr adroddiad a hefyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes.*

.

**(b)Y DIWEDDARAF AR Y CYNNYDD YN Y GWASANAETHAU PLANT**

Cyflwynwyd - Adroddiad gwaith gan y Cyfarwyddwr Cymuned yn erbyn y Cynllun Darparu Gwasanaeth. Roedd y Bwrdd Gwella Gwasanaeth yn monitro ac yn sgriwtineiddio'r Cynllun Gwella ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gwnaed cynnydd sylweddol hyd yma a hynny o fewn cyd-destun o gynnydd mawr yn nifer y cyfeiriadau, nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r niferoedd ar y Gofrestr DP. Disgrifiwyd y cynnydd hwn yn y Llythyr Adolygiad Blynyddol gan AGGCC ac yn yr Adroddiad Terfynol gan y Tîm Cefnogaeth Annibynnol.

Gwnaed newidiadau strwythurol a strategol i gynnal y broses wella. Yn ogystal gwnaed gwelliannau i'r trefniadau llywodraethu gwasanaeth a rheoli risg, lluniwyd strwythur ffeiliau newydd, diweddarwyd polisïau/gweithdrefnau, cyflwynwyd system ffeilio electronig, datblygwyd Fframwaith Sicrhau Ansawdd, penodwyd rheolydd Sicrhau Ansawdd ac edrychwyd ar weithio symudol a gweithio hyblyg. Gwelwyd cynnydd yn nifer y staff yn sgil penodi 12 o weithwyr cymdeithasol newydd a gwelwyd gostyngiad o 55% yn nifer y staff asiantaeth. Yn ogystal, gwelwyd gostyngiad o 50% yn nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd salwch ac roedd y cyfraddau cadw staff wedi gwella.

Cyfeiriwyd at y meysydd sy'n parhau i achosi pryder a'r heriau ym Mharagraff 3 yr adroddiad.

I gloi, dywedwyd bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf o ran gwella'r Gwasanaeth ac, mewn sawl maes, roedd yr Awdurdod yn dangos y canlyniadau gorau yng Nghymru ac roedd yn perfformio cystal neu'n well na'r cyfartaledd trwy Gymru gyfan yn y rhan fwyaf o'r meysydd. Roedd y rhaglen ar gyfer gwella wedi symud ymlaen o adferiad a sefydlogrwydd i gynnal a gwreiddio'r gwelliannau a sicrhau eu bod yn welliannau meintiol yn ogystal â rhai ansoddol.

Diolchodd yr Aelod Portffolio K. P. Hughes i'r staff am eu gwaith yn y cyswllt hwn. Gwnaed cynnydd sylweddol yn y 18 mis diwethaf ac mae'r Gwasanaeth bellach yn symud yn y cyfeiriad iawn.

Canmolwyd y Gwasanaeth gan aelod o'r Bwrdd Gwella Gwasanaeth, sef y Cynghorydd Lewis Davies, am y cynnydd a wnaed.  Soniodd hefyd am y clod i'r Gwasanaeth yn y wasg leol yr wythnos hon mewn perthynas â'r gwelliannau a wnaed yn y Gwasanaethau Plant.

Dywedodd y Cynghorydd G.O.Parry,MBE fod plant sy'n derbyn gofal yn bwysig iawn a bod angen i'r Awdurdod sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth orau posib a'u bod yn gadael gofal y Cyngor gyda sicrwydd bod ganddynt y cymwysterau iawn i fedru byw yn annibynnol gyda'r sgiliau addysgiadol a chymdeithasol angenrheidiol.

Yn ei ymateb dywedodd Mr.James Dawson fod cyraeddiadau addysgiadol yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth a'u bod yn destun adroddiadau cyson i gyfarfodydd y Panel Rhiant Corfforaethol.

*Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd.*

## 6. 6^ED ADRODDIAD CYNNYDD GAN Y COMISIYNWYR

Er bod yr adroddiadau blaenorol wedi eu cyhoeddi ar sail chwarterol, dywedodd y Comisiynydd Mick Giannasi bod y 6^ed adroddiad cynnydd hwn yn adlewyrchu datblygiadau a ddigwyddodd yn ystod cyfnod o bedwar mis o ddechrau Hydref 2012 i ddiwedd Ionawr 2013.  Gwnaed yr addasiad hwn gyda chytundeb y Gweinidog er mwyn sicrhau bod cylch adrodd y Comisiynwyr yn cyd-fynd gyda'r cylch adrodd 90 diwrnod ar gyfer y Cynllun Datblygu Sefydliadol a oedd wrth wraidd rhaglen drawsnewid y Cyngor i'r tymor hir.

Roedd yr adroddiad yn un arwyddocaol oherwydd mai hwn oedd yr asesiad cyntaf o gynnydd ers 1 Hydref 2012 pan ostyngwyd yr ymyrraeth gan y Gweinidog fel bod modd rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos ei fod yn gallu rheoli ei fusnes ei hun bellach a'i fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb ei hun dros arferiad cynaliadwy tymor hir ym mherfformiad y Cyngor.

Er bod rhai heriau sylweddol ar ôl a rhai risgiau yr oedd angen eu monitro a'u lliniaru, roedd y Comisiynwyr yn credu bod y Cyngor wedi troi'r gongl a'i fod bellach yn bell ar y ffordd tuag at sicrhau adferiad cynaliadwy tymor hir am resymau a nodir yn yr adroddiad.

Unwaith y bydd y cylch gwaith 180 diwrnod wedi ei gwblhau a rhai rhwystrau sylweddol wedi eu goresgyn dros y 3 mis nesaf (e.e. setliad cyllidebol anodd iawn i'w gymeradwyo gan y Cyngor; heriau gwleidyddol a democrataidd sy'n gysylltiedig â'r etholiad a'r ffordd yr oedd y Cyngor newydd yn ymsefydlu yn y 2-3 wythnos gyntaf ei fodolaeth) ac yn absenoldeb datblygiadau nad oedd modd eu rhagweld a allai dynnu'r adferiad oddi ar y cledrau, roedd y Comisiynwyr yn credu bod cynnydd digonol wedi ei wneud yn erbyn y Cynllun Trawsnewid iddynt fedru dweud gyda hyder rhesymol y byddent yn gallu argymell i'r Gweinidog y gallai ystyried dod â'i ymyrraeth ffurfiol i ben pan oedd yn adolygu'r sefyllfa ar 31 Mai 2013.

Byddai'r Gweinidog yn gwneud ei benderfyniad yn seiliedig ar sylwadau'r Comisiynwyr, asesiad yr Archwilydd Cyffredinol, cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Adfer Addysg ac ati. Roedd y Comisiynwyr yn gobeithio mai hwn fyddai eu hadroddiad chwarterol olaf a'r gobaith oedd y byddai'r Awdurdod yn awr yn paratoi'r adroddiad nesaf trwy broses hunanasesu.  Yna, mewn ymgynghoriad gyda SAC a rheoleiddwyr eraill, byddai'r Comisiynwyr yn sicrhau safon yr hunanasesiad ac yn cynnwys eu dehongliad eu hunain ohono cyn ei gyflwyno i'r Gweinidog.  Roedd yn hollbwysig ein bod yn gwbl glir

dros yr ychydig wythnosau nesaf ynghylch y broses hunanasesu a sut byddai'r canlyniadau yn edrych.  Byddai'r Comisiynwyr angen yr adroddiad hwnnw erbyn 25 Ebrill i'w drosglwyddo wedyn i'r Gweinidog cyn pen 7 diwrnod.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Comisiynwyr am y gwaith yr oeddynt wedi ei wneud yn ystod eu cyfnod yn Ynys Môn.  Mae'n debyg mai hwn oedd yr ymyrraeth waethaf a wynebwyd gan unrhyw Awdurdod yn y wlad, ond roedd y ffordd yr oedd pethau wedi eu trawsnewid yn glod anferth i'r Comisiynwyr.  Roedd yn credu'n gryf bod y Cyngor wedi adfer dros y 6 mis diwethaf ac y byddai adferiad yn y tymor hir hefyd yn gynaliadwy.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd am ei sylwadau ac aeth ymlaen i ddweud fod ei gyfnod yn Ynys Môn wedi bod yn un o uchafbwyntiau ei yrfa wleidyddol.  Roedd wedi dysgu llawer gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau a Swyddogion y Cyngor hwn yn ystod ei gyfnod yma, ac roedd wrth ei fodd ei fod wedi cael y cyfle i gyfrannu at adferiad y Cyngor.

Roedd y Cynghorydd G.O.Parry,MBE yn dymuno diolch i swyddogion y Gwasanaethau Pwyllgor a'r Adain Gyfieithu am eu gwaith yn paratoi gwaith papur angenrheidiol ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

Rhoddwyd awdurdod i'r Prif Weithredwr aildrefnu cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 28 Mawrth 2013 pe byddai egwyl y Pasg yn achosi problem i rai aelodau o ran mynychu.

*Nodwyd cynnwys adroddiad chwarterol y Comisiynwr gan y Bwrdd Gwella a Chynaladwyedd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12:50 p.m.

**Y COMISIYNYDD ALEX ALDRIDGE**
**(CADEIRYDD)**

This page is intentionally left blank

# BWRDD GWELLA A CHYNALIADWYEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2013 (11:00 am)

**PRESENNOL:** Cynghorydd Alex Aldridge (Cadeirydd)
Prif Weithredwr

Pwyllgor Gwaith : Cynghorwyr W. J. Chorlton; K. P. Hughes; R. Ll. Hughes; O. Glyn Jones; Bryan Owen; G. O. Parry,MBE; R. G. Parry,OBE.

Cadeiryddion Sgriwtini : Cynghorydd Selwyn Williams.
Dirprwy Brif Weithredwr; Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy; Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes; Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau); Rheolwr Rhaglen Wella Gwasanaethau Plant (JD)

**WRTH LAW:** Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mr.Steve Pomeroy a Ms. Lisa Hughes (Llywodraeth Cymru); Mri. Andy Bruce a Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru); Mr.Mark Roberts (Arolygydd Awdurdod Lleol, AGGCC).

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr L. Davies, K. Evans, T. Lloyd Hughes, Comisiwynwyr Byron Davies a Mick Giannasi; Yr Athro Mel Ainscow (Cadeirydd Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn); Ms.Tanis Cannic (Rheolwr Prosiect Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn).

Dywedodd y Cadeirydd mai hwn mae'n debyg fyddai'r cyfarfod olaf y byddai'r Comisiynwyr yn rhan ohono fel rhan o'r Ymyrraeth yn y Cyngor hwn. Roedd am fynegi ei werthfawrogiad cywiraf i'r Arweinydd, y Pwyllgor Gwaith, y Cadeiryddion Sgriwtini, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Bwrdd Adfer Addysg Ynys Môn a'r swyddogion perthnasol am eu gwaith yn trawsnewid yr Awdurdod hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Talodd deyrnged arbennig hefyd i'r Cynghorydd G.O.Parry,MBE am ei wasanaeth a'i ymrwymiad i lywodraeth leol dros nifer o flynyddoedd a dymunodd yn dda iddo yn ei ymddeoliad. Byddai'r Comisiynwyr yn mynychu'r cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar 23 Mai 2013 lle y gobeithir y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi bod yr Ymyriad ym Môn wedi dod i ben. Dymunodd bob llwyddiant i'r Awdurdod i'r dyfodol.

## 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim i'w ddatgan.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Fel yr uchod.

## 3. COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a Chynaladwyedd a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2013.

## 4. HUNANASESU CYNGOR SIR YNYS MÔN - EBRILL 2013

Dywedodd y Cadeirydd fod y Comisiynwyr wedi paratoi eu hunan asesiad eu hunain ac ar sail yr wybodaeth oedd yn eu hadroddiad a rhai blaenorol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, byddent yn argymell i'r Gweinidog fel a ganlyn:-

- *Y byddai'r Gweinidog yn dod ag Ymyriad Llywodraeth Cymru yng Nghyngor Sir Ynys Môn i ben pan ddaw'r Gorchymyn Gweinidogol cyfredol i ben ar 31 Mai 2013;*

- *Bod y Gweinidog yn gohirio gwneud penderfyniad ffurfiol hyd 9 Mai 2013 fel y gall wneud asesiad pellach oddi wrth y Comisiynwyr i nodi unrhyw faterion fydd yn codi o anwythiad y Cyngor newydd.*

Cafwyd adroddiad gan Y Dirprwy Brif Weithredwr – Yr adroddiad hwn oedd yr adroddiad hunanasesu cyntaf a baratowyd gan y Cyngor ac roedd yn delio â'r cyfnod rhwng Tachwedd 2012 i Ebrill 2013 a'r trawsnewid yn ôl i reolaeth wleidyddol leol.

Roedd yr adroddiad yn nodi cynnydd yn erbyn cylch 180 diwrnod y TUA oedd wedi ei lunio i gyfarfod ag anghenion blaenoriaeth pob un o'r chwe thema allweddol ac yn amlinellu meysydd gwaith blaenoriaethol fyddai'n canolbwyntio sylw'r cyfnod gwella a chynaliadwyaeth oedd ar ddod. Tra bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud, roedd yna hefyd beth llithriad ac roedd y rhain wedi eu nodi o fewn yr adroddiad gan eu statws CAG. Nid oedd yr un ohonynt yn goch ond fe nodwyd ychydig fel rhai amber ac roedd angen gwneud mwy o waith arnynt.

Yn unol â datblygiadau parhaol yr Archwilydd Cyffredinol byddai hunan asesiad blynyddol o'r fath yn cael ei integreiddio o fewn cylch cynllunio busnes y Cyngor er mwyn gallu gwneud hunan arfarniad beirniadol o berfformiad ac er mwyn nodi ffrydiau gwaith blaenoriaethol yn y dyfodol.

Roedd nifer o heriau sylweddol yn wynebu'r sefydliad yn ystod y cyfnod gwella a chynaliadwyaeth cyfredol ond byddai'r syniad clir o bwrpas a chyfeiriad o fewn y TUA yn galluogi i'r sefydliad gymryd agwedd ffocysedig at wneud penderfyniadau a rheoli risg i ddod dros y rhwystrau y byddai'n sicr o'u hwynebu. Byddai anwytho gweinyddiaeth wleidyddol newydd yn brawf y byddai'r pwysigrwydd a roddwyd ar Bwyllgor Gwaith newydd ar ôl yr etholiad yn gweithio'n agos gyda'r TUA i berchenogi a gyrru'r newid trawsnewidiol yn allweddol i sicrhau y bydd adferiad cynaliadwy tymor hirach yn cael ei gyflawni.

Roedd y newid a welwyd dros y chwe mis diwethaf yn dangos yr awch a'r parodrwydd am newid ymysg y TUA. Roedd llwyddiant yr hyn sydd angen ei ddarparu dros y chwe mis nesaf yn dibynnu lawer iawn ar reolaeth weithredol y Cyngor.

Gyda'r ynni, brwdfrydedd a'r synnwyr pwrpas clir yn datblygu o dan gyfarwyddyd y Byrddau Rhaglen fe all y Cyngor hwn, ac fe fydd, yn parhau i reoli ei waith yn annibynnol o ymyrraeth allanol. Byddai'r Byrddau Rhaglen yn gyrru'r cynllun trawsnewid ymlaen dros y 4 blynedd nesaf. Cylchwyd esiamplau yn y cyfarfod o'r math o wybodaeth fyddai'n cael ei chyflwyno ym mhob Bwrdd Rhaglen. Roedd disgwyl y byddai rhai o aelodau'r Pwyllgor Gwaith a rhai aelodau Sgriwtini yn aelodau o'r byrddau hyn. Byddai gan rai rheolwyr canol hefyd ran yn parhau'r ethos hwn drwy'r holl sefydliad. Gallai pob Bwrdd Rhaglen hefyd ofyn am gefnogaeth allanol, h.y. gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Roedd Ffactorau Llwyddiant Critigol wedi eu nodi i ddangos y gwelliannau sef:-

- Moderneiddio gwasanaeth yn cynnwys trawsnewid gwasanaeth cymdeithasol, gwell darpariaeth hamdden a moderneiddio ysgolion;
- Ailstrwythuro'r Tîm Rheoli wedi ei alinio i'r cynllun trawsnewid;
- Cynllun Anwytho Aelodau cynhwysfawr i roi gwybodaeth i Aelodau newydd am y cynllun trawsnewid, ei raglenni gwaith cysylltiol a'r cof corfforaethol;
- Sicrhau cynllun corfforaethol ffocysedig wedi ei alinio i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolog;
- Strategaeth TG effeithiol i allu gwireddu'r cynllun trawsnewid;
- Cwblhau'r prosiect Arfarnu Swyddi o dan y strwythur llywodraethu rhaglen a sefydlwyd.

Yn waelodol i allu cyflawni'r ffactorau hyn oedd y dull o sicrhau ymgysylltiad cydranddeiliaid. Nodwyd hyn fel y cam pwysig nesaf oedd yn torri ar draws terfynau ac ar draws y sefydliad ac yr oedd angen iddo fod yn bellgyrhaeddol i wella credinedd y Cyngor dros y cyfnod gwella a chynaliadwyaeth oedd ar ddod.

Roedd yna hefyd risgiau i gyflawni'r ffactorau llwyddiant critigol hyn fel oedd i'w weld dan bob thema yn yr adroddiad ac wedi eu casglu yn Atodiad 2. Byddai darparu ar yr uchod trwy reoli'r risgiau hyn yn dangos ymhellach bod y Cyngor yn arwain ac yn datblygu'r cydrannau oedd yn hanfodol mewn sefydliad sector cyhoeddus aeddfed yn gweithredu yn yr hinsawdd economaidd gyfredol.

Cylchodd y Dirprwy Brif Weithredwr ganlyniadau'r adborth o'r sesiynau staff Rhaglen Trawsnewid a gynhaliwyd yn ddiweddar, oedd yn dangos yn glir bod y neges o ran newid a thrawsnewid bellach yn treiddio ei ffordd i lawr drwy'r Awdurdod ac roedd y staff at ei gilydd yn frwd iawn ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

Roedd ailstrwythuro'r Penaethiaid Gwasanaeth wedi ei gymeradwyo mewn egwyddor gan y Cyngor ar 16 Mai a byddai proses cynghori fewnol yn cychwyn yn awr ar y newidiadau Gwasanaeth arfaethedig. Y dyddiad targed i gwblhau'r broses oedd 1 Hydref 2013.

Dywedodd Mr. Huw Lloyd Jones y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn atal rhag gwneud sylw ond eu bod i raddau helaeth wedi eu plesio gan yr hyn oedd wedi ei gyflawni hyd yn hyn.

Nododd Mr.Steve Pomeroy na fyddai gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb yn y rhai fyddai'n cael eu hethol nac yn y Grwpiau Gwleidyddol yn dilyn yr Etholiad. Yr hyn oedd ei angen oedd sefydlogrwydd yn y Cyngor.

Roedd y gwaith oedd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad yn uchelgeisiol i unrhyw sefydliad, heb sôn am un bychan fel Ynys Môn. Roedd cynnydd yn edrych yn dda ond roedd yna lawer o waith i'w wneud. Roedd yn siŵr y byddai yna ddrws agored gan sefydliadau fel Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru, ac ati o safbwynt unrhyw gefnogaeth neu arbenigedd yn y dyfodol.

O safbwynt adborth gan staff, roedd yn credu fod nifer o'r ymatebion yn rhai wedi eu dosbarthu fel 'efallai'. Efallai bod staff yn amharod yn y cyfarfod cyntaf i roi adborth cadarnhaol na negyddol. Roedd yn bwysig i'r Awdurdod bod staff yn ffurfio barn yn hyn o beth.

Roedd hefyd yn credu y byddai'n syniad da pe bai gwahoddiad yn cael ei roi i groestoriad o staff o'r Awdurdod i fynychu cyflwyniad y Gweinidog ar 23 Mai 2013.

Mewn ymateb dywedodd y Prif Weithredwr mai un rhan allweddol o anwytho'r Cyngor newydd fyddai'r angen i ddod yn sefydliad a fyddai'n edrych fwyfwy tuag allan ac a fyddai angen cynyddu'r lefel o gydweithredu a chydweithio ag awdurdodau eraill a hefyd dderbyn yr angen y byddem angen cefnogaeth allanol ac y byddai rhyngweithio gydag asiantaethau allanol i sicrhau y byddai momentwm y rhaglen drawsnewid yn parhau.

Diolchodd yr Arweinydd ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith a'r Prif Weithredwr i'r Comisiynwyr am y cymorth gwerthfawr yr oeddent wedi ei roi i'r Cyngor hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn symud y rhaglen drawsnewid yn ei blaen.

*Cymeradwyodd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth y cynnydd sy'n cael ei wneud yng nghyswllt y broses hunan arfarnu gan yr Awdurdod.*

**5. DIWEDDARIAD AR DDATBLYGU BWRDD ADFER ADDYSG YNYS MÔN.**

Dywedodd y Cynghorydd G.O.Parry, MBE, bod ganddo rai pryderon. Yn gyntaf, bu newid yn aelodaeth y Bwrdd Adfer Addysg. Roedd yn teimlo ei bod yn bwysig cael cysondeb fel y gellid cefnogi'r digwyddiadau cyfredol. Roedd hefyd yn ystyried y byddai'r awdurdod mewn sefyllfa, pe bai cyllid ar gael ar gyfer dwy ysgol 21 Ganrif newydd, i drawsnewid y ffordd yr oedd y cyhoedd yn gweld y rhaglen resymoli ysgolion.

Roedd yn ddiolchgar iawn i'r Cyfarwyddwr am y gwaith yr oedd wedi ei wneud ac am drawsnewid sawl agwedd o'r gwasanaeth addysg ym Môn.

(a) Ar ran Rheolwr Prosiect y Bwrdd Adfer Addysg, cafwyd adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes ar gyflwyniad Estyn i'r Bwrdd Adfer Addysg oedd wedi ei gynnal ddydd Mercher diwethaf. Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol a gyflwynwyd gan Estyn:- Yn y cyfnod ers yr archwiliad fe ymddengys bod y sylfeini cadarn a roddwyd yn eu lle mewn ymateb i'r argymhellion, wedi cryfhau'r gwasanaeth.

- Penodiadau allweddol ar lefel strategol sydd wedi ychwanegu capasiti perthnasol.
- Prosiectau trawsnewid allweddol fel ad-drefnu ysgolion yn cael eu rheoli'n gorfforaethol. Rhwystrau allweddol i gynnydd yn cael eu nodi'n well a'r awdurdod wedi cymryd camau i'w symud ymaith.
- Aelodau taledig gyda gwell gwybodaeth ac yn cryfhau eu dealltwriaeth o welliannau mewn ysgolion.
- Penodiad dros dro i swydd Uwch Reolwr Gwella Ysgol a chynhwysiad wedi ychwanegu capasiti.
- Safonau yn codi ym mhob maes allweddol, ond gormod o ysgolion a phynciau'n perfformio yn is na'r disgwyl.
- Presenoldeb mewn ysgolion wedi gwella ar lefel awdurdod ond mae hyn yn wir am bob awdurdod yng Nghymru.
- Cynllunio Busnes, rheoli risg a hunan arfarnu ar lefel y gwasanaeth wedi gwella.
- Mae gan aelodau etholedig farn fwy cywir am lefydd gweigion mewn ysgolion ac maent yn derbyn bod angen newid. Mae gwaith gwerthuso a chynllunio y stad ysgolion yn cael sylw'n gorfforaethol. Ymddengys bod strwythurau a rheoli rhaglen ac atebolrwydd effeithiol yn eu lle i yrru gwelliant.

Ymddengys bod yr awdurdod wedi gwneud ymdrechion sylweddol ers yr archwiliad a'i fod wedi gwneud cynnydd priodol yn erbyn yr holl argymhellion allweddol.

*Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd yr adroddiad gan groesawu'r cynnwys.*

(b) Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes yn tynnu sylw at y gwaith oedd wedi ei wneud ers archwiliad Estyn ac yn pwysleisio'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r canlyniadau disgwyliedig a nodwyd yn y cynllun gweithredu ôl arolwg.

Yr asesiad cyffredinol oedd bod cynnydd boddhaol iawn wedi ei wneud mewn perthynas â'r holl argymhellion. Fodd bynnag roedd angen sefydlu record o gyflawni mewn perthynas â materion allweddol fel codi safonau, presenoldeb a moderneiddio ysgol a'i ddatblygu cyn yr ymweliad nesaf gan Estyn.

*Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth yr adroddiad gan groesawu ei gynnwys.*

**6. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD YN Y GWASANAETHAU PLANT.**

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd gan y Rheolwr Gwella Gwasanaeth yn erbyn y Cynllun Darparu Gwasanaeth.

Adroddwyd – Roedd diwedd 2012-13 wedi gweld sefydlogrwydd parhaol yn y Gwasanaeth a gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd gynaliadwy. Roedd hyn yn erbyn cefndir o alw ar wasanaethau oedd wedi parhau'n uchel ac o ran y niferoedd oedd ar y Gofrestr Diogelu Plant, roedd wedi cynyddu'n sylweddol.

Roedd Para 2 yr adroddiad yn cyfeirio at y cynnydd a oedd wedi ei wneud gyda chyfeiriad ym Mhara 3 yr adroddiad at rai meysydd o bryder a heriau oedd yn parhau.

Roedd yna ystod o heriau y byddai'n rhaid i'r Gwasanaeth ymateb iddynt dros y flwyddyn i ddod a thu hwnt, ac roedd Cynllun Busnes 2013-14 wedi ei ddatblygu a'i gytuno gan Fwrdd Gwella'r Gwasanaeth ac roedd y manylion i'w gweld ym Mhara 3.2 yr adroddiad.

Yr her i'r Gwasanaethau Plant oedd parhau gyda'r gwelliant ar draws yr holl feysydd, gan wneud hynny yn broses barhaol a chynaliadwy, tra hefyd yn mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r pryderon parhaol a difrifol ynglŷn â recriwtio gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr. Roedd yna heriau sylweddol i'r gwasanaeth fel ym mhob rhan o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth i fodelau darparu a phatrymau galw altro. Yn ogystal â chynnal ei ddyletswyddau statudol rhaid i'r Cyngor hefyd roi ei hun mewn sefyllfa i allu ymateb a hefyd arwain ar ystod o sialensiau newydd.

Gofynnwyd cwestiynau gan rai o'r aelodau ac ymatebwyd iddynt gan y Rheolwr Gwella Gwasanaeth mewn perthynas â ffigurau trosiant a chadw o fewn y Gwasanaeth. Roedd problemau recriwtio'n cael eu gweld ac un o'r materion allweddol gyda hyn oedd cyflogau.

Diolchodd y Deilydd Portffolio i'r Gwasanaeth am eu gwaith yn hyn o beth gan longyfarch y gweithwyr ar y cynnydd a'r gwelliant sylweddol oedd wedi digwydd dros yr 18 mis diwethaf. Roedd yn bwysig bod y cynnydd hwn yn cael ei gynnal a'i wella lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl.

*Nododd y Bwrdd Gwella a Chynaliadwyaeth gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11:55 a.m.

**COMISIYNYDD ALEX ALDRIDGE**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Y Pwyllgor Safonau, Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn |
| **Dyddiad** | Pwyllgor Safonau 13.03.13<br>Pwyllgor Gwaith 22.04.13<br>Cyngor Llawn 23.05.13 |
| **Pwnc** | Gwneud y newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Cynllunio (Adran 4.6 y Cyfansoddiad) i baratoi am Wardiau Aml-Aelod wedi Etholiadau 2013 |
| **Deilydd Portffolio** | Yn flaenorol Y Cynghorydd Robert Lloyd Hughes |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Swyddog Cyswllt** | Robyn Jones (x2134) |

**Rheswm am yr adroddiad:**

1.1 Gwneud y newidiadau i'r Cyfansoddiad, adran 4.6: Rheolau Gweithdrefn Cynllunio, er mwyn cymryd i ystyriaeth y wardiau aml-aelod wedi etholiadau'r Cyngor Sir yn 2013.

1.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn mewn perthynas â'r newidiadau bwriededig a gofynnir i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad i wneud y newidiadau fel y danghosir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma. Ymgynghorir efo'r Pwyllgor Safonau ar y bwriad.

## A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

2.1 Bydd etholiadau'r Cyngor Sir yn 2013 yn creu 11 o wardiau aml-aelod.

2.2 Bydd y newid i wardiau aml-aelod yn cael effaith ar y Rheolau Gweithdrefn Cynllunio ("y Rheolau") yn rhan 4.6 o Gyfansoddiad y Cyngor.

2. Mae'r Rheolau wedi eu hadolygu i gymryd i ystyriaeth creu'r wardiau aml-aelod ac mae'r newidiadau a fwriedir wedi eu gosod allan a'u tracio yn yr Atodiad i'r adroddiad yma.

## B – Ystyriaethau

3.1 Bwriad y newidiadau i'w i fod mor oddefol a sy'n bosib. Byddent yn caniatau unrhyw 'aelod lleol' dros ward newydd i alw i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gais cynllunio ar gyfer safle sydd wedi ei leoli o fewn y ward yna a byddent yn caniataui unrhyw aelod ar gyfer y ward yna i siarad fel aelod lleol o flaen

| |
|---|
| y Pwyllgor ar y cais sydd wedi ei alw i mewn.<br>3.2 Mae nifer o fân newidiadau eraill a rhai sy'n dilyn wedi eu gwneud hefyd fel y dangosir ar yr Atodiad sydd ynghlwm. |

| **C – Goblygiadau ac Effaith** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | Dim sylwadau wedi eu derbyn |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Mae swyddog cyfreithiol y Pwyllgor yn gyd-awdur yr adroddiad ac mae ei sylwadau wedi ei fynegi ynddi |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | Dim yn berthnasol |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 5 | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | Dim yn berthnasol |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Ni fydd y newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim sylwadau |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Mae'r mater wedi ei ddwyn i sylw aelodau etholedig drwy ohebiaeth ac mae'r adroddiad a'r Atodiad wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau. Adroddir ar lafar ar unrhyw sylwadau. |
| 10 | **Economaidd** | Dim yn berthnasol |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 13 | **Cytundebau Canlyniadau** | Dim yn berthnasol |

| CH – Crynodeb |
|---|
| 4.1 Ar ôl etholiadau Mai 2013:<br><br>4.1.1 I ganiatau unrhyw un o'r aelodau lleol ar gyfer ward newydd i alw i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio cais cynllunio wedi ei leoli yn y ward honno.<br><br>4.1.2 I ganiatau yr holl aelodau lleol ar gyfer ward newydd i siarad fel aelod lleol (os y dymunant) yn y Pwyllgor Cynllunio ar gais cynllunio wedi ei leoli yn y ward honno.<br><br>4.1.3 I wneud y newidiadau uchod a rhai mân a dilynol eraill i ran 4.6 o'r Cyfansoddiad fel y danghosir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma. |

| D – Argymhelliad |
|---|
| 5.1 Dyma'r argymhellion:<br><br>I'r Pwyllgor Gwaith:<br>5.2 Argymell i'r Cyngor llawn bod y newidiadau i'r Rheolau yng Ngyfansoddiad y Cyngor fel y manylir arnynt yn yr Atodiad i'r adroddiad yma yn cael eu gwneud.<br><br>I'r Cyngor llawn:<br>5.3 Gwneud y newidiadau i'r Rheolau yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel y manylir arnynt yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn, a<br>5.4 Dirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) y grym i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad er mwyn gweithredu penderfyniad y Cyngor. |

**Enw awdur yr adroddiad: Robyn W. Jones**
**Teitl Swydd: Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Dyddiad: 22 Chwefror 2013**

| Atodiadau: |
|---|
| Copi o'r Rheolau yn dangos y newidiadau bwriedig. |

| Papurau Cefndirol: |
|---|
| Dim. |

## ATODIAD

**4.6 Rheolau Gweithdrefn ~~Materion~~ Cynllunio**

**Cynnwys**

**4.6.1 Cyflwyniad**

**4.6.2 Penderfynu ar geisiadau cynllunio**

**4.6.3 Trafodaethau rhagarweiniol (cyn gwneud penderfyniad) Swyddogion gydag Ymgeiswyr**

**4.6.4 Cynghorwyr yn lobïo ac yn cael eu lobïo**

**4.6.5 Trefniadau siarad ac eistedd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.6 Cyfarfodydd cyhoeddus yn ymwneud â chynigion datblygu**

**4.6.7 Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a hefyd yn gynghorwyr tref neu gymuned**

**4.6.8 Gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gynghorwyr**

**4.6.9 Cofrestru a datgan diddordeb**

**4.6.10 Cynghorwyr a Swyddogion yn cyflwyno cynigion datblygu**

**4.6.11 Adroddiadau Swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.12 Penderfynu yn groes i argymhellion Swyddogion a/neu y cynllun datblygu**

**4.6.13 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor**

**4.6.14 Ymddygiad Swyddogion**

**4.6.15 Y berthynas rhwng Cynghorwyr a Swyddogion**

**4.6.16 Ymweliadau safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion**

**4.6.17 Anrhegion a lletygarwch**

**4.6.18 Hyfforddiant**

**Atodiad**

**4.6.19 Protocol ar gyfer ymweliadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion â Safleoedd**

PL-16745-RWJ/165287

**4.6.20 Rôl Cadeirydd y Pwyllgor**

**4.6.21 Y Cyhoedd yn siarad**

PL-16745-RWJ/165287

4.6.1 **CYFLWYNIAD**

4.6.1.1 Un o ddyletswyddau pwysig y Cyngor Sir yw penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r rheolau hyn yn pennu sut y bydd y Cyngor, fel awdurdod cynllunio lleol, yn delio â cheisiadau cynllunio ac maent yn berthnasol i Gynghorwyr a Swyddogion gan ddibynnu ar y cyd-destun.

4.6.1.2 Swyddogion Cynllunio, yn gweithredu ar ran yr awdurdod cynllunio lleol, fydd yn penderfynu ar y rhan fwyaf o'r ceisiadau a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (y Pwyllgor) fydd yn penderfynu ar bob cais arall. Mae'r rheolau sy'n pennu pa un ai Swyddogion ynteu'r Pwyllgor fydd yn penderfynu ar geisiadau yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn~~ ym mharagraff .......~~. ~~o~~O'r achosion hynny lle gall y Pwyllgor wneud y penderfyniad, yr un mwyaf arwyddocaol yw lle y gall ~~y~~ Cynghorydd lleol (sef unrhyw un~~yr un~~ sy'n cynrychioli'r ardal leol lle mae'r tir sy'n destun cais cynllunio) fynnu ar gyflwyno cais i'r Pwyllgor benderfynu arno (un a allai fel arall gael ei benderfynu gan Swyddogion). Yn yr achosion hyn, rhaid i'r cynghorydd lleol 'alw i mewn' yn ysgrifenedig gais o'r fath a gan gyfeirio'r cais galw i mewn at y Prif Swyddog Cynllunio o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr yn rhoi gwybod iddo/iddi am y cais. Yn achos y ceisiadau hynny a elwir yn rhai economaidd "gyda brys" caniateir 14 diwrnod yn unig i chi i'w trosglwyddo i'r Pwyllgor. Gall y cynghorydd lleol sydd wedi galw'r cais cynllunio i mewn dynnu'n ôl eu cais i alw penderfyniad i mewn ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi Rhaglen y Pwyllgor drwy roi gwybod i'r swyddog achos a chadarnhau'n ysgrifenedig bod y cais yn cael ei dynnu'n ôl.

4.6.1.3 Nid yw cynllunio yn wyddor fanwl. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar farn gytbwys oddi mewn i gyd-destun polisi cadarn. Mae hefyd yn dra dadleuol oherwydd bod ypenderfyniadau'n cael effaith ar fywyd bob dydd pawb a buddiannau preifat unigolion, tirfeddianwyr a datblygwyr. Caiff hyn ei ddwysáu gan natur agored y drefn (mae'n mynd o'i ffordd i wahodd y farn gyhoeddus cyn penderfynu) a natur gyfreithiol cynlluniau datblygu a rhybuddion penderfyniad. Mae'n bwysig, felly, bod y broses o wneud penderfyniadau yn agored ac eglur.

4.6.1.4 Un o amcanion allweddol y drefn gynllunio yw rheoli datblygiadau er lles y cyhoedd. Wrth gyflawni hyn, mae cynllunio o reidrwydd yn cael effaith ar fuddiannau tir ac eiddo, gwerth ariannol tiroedd ac ansawdd yr amgylchedd. Mae'n bwysig, felly, bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud penderfyniadau cynllunio yn agored pan gânt effaith ar y buddiannau hyn a bod y penderfyniadau yn ddiduedd, yn seiliedig ar farn ddoeth ac wedi eu gwneud am resymau y mae modd eu cyfiawnhau. Ni ddylai'r broses adael dim lle i awgrymu, gydag unrhyw gyfiawnhad, bod penderfyniad yn rhagfarnllyd, yn unochrog neu heb fod yn deg.

4.6.2 **PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

4.6.2.1 Weithiau bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu galw yn benderfyniadau rheoleiddiol neu led-farnwrol ac mae hyn yn golygu fod raid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r fath

- ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol
- anwybyddu ystyriaethau amherthnasol neu rai y tu allan i'r maes cynllunio
- gweithredu'n ddiduedd, yn deg a pheidio ystyried unrhyw ystyriaethau gwleidyddol

PL-16745-RWJ/165287

4.6.2.2 Mae cyfraith cynllunio yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Statudol oni bai fod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dangos fel arall. Mae'r pwyslais wrth benderfynu ar geisiadau ar drefn 'yn ôl cynllun'.

4.6.2.3 Dibynna'r gyfundrefn gynllunioar ystyried cynigion preifat yn erbyn lles cyffredinol y cyhoedd. Yn aml mae llawer yn y fantol yn y broses hon a bydd y rhai sy'n rhan ohoni yn aml yn tynnu'n groes iawn i'w gilydd.

4.6.2.4 Mae'n ddyletswydd ar y bobl hynny sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio i ystyried sylwadau ddaw i olwg yr awdurdod cynllunio lleol o ganlyniad i ymgynghori gyda chyrff â diddordeb neu o ganlyniad i rybudd cyhoeddus neu hysbysu cymdogion. Wrth bwyso a mesur mae angen penderfynu pa sylwadau sy'n berthnasol i'r penderfyniad a pha bwysau i osod arnynt. Ni ddylai'r Pwyllgor ddod i gasgliad hyd oni fydd holl ffeithiau wedi'u cyflwyno yn adroddiad y Swyddog i'r Pwyllgor.

4.6.2.5 Rhaid i Gynghorwyr beidio â gwneud ymrwymiad ynghylch unrhyw fater cynllunio cyn ei ystyried yn y Pwyllgor. Mae'n cael ei dderbyn, fodd bynnag, y bydd ymgeiswyr, asiantiaid~~au~~ a gwrthwynebwyr o bryd i'w gilydd yn mynd i ben Cynghorwyr unigol ynghylch cynigion cynllunio. Amcan y rheolau hyn yw cynorthwyo Cynghorwyr ~~ar sut~~ i drin digwyddiadau o'r fath a chawsant eu llunio i sicrhau cadw cywirdeb y drefn benderfynu.

4.6.2.6 Gallai peidio â dilyn y Rheolau hyn, heb reswm da, fod yn ystyriaeth mewn ymchwiliadau i achosion posibl o gamweinyddu neu~~–~~mewn ymchwiliad i ymddygiad Cynghorwyr ac/neu Swyddogion.

4.6.3 **TRAFODAETHAU RHAGARWEINIOL (CYN GWNEUD PENDERFYNIAD) SWYDDOGION GYDAG YMGEISWYR**

4.6.3.1 Mewn unrhyw drafodaethau ar faterion cynllunio, eglurir bob amser ar y dechrau na fydd trafodaeth o'r fath :

- yn ymrwymo'r~~rhwymo'r~~ awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad penodol~~arbennig~~, a
- bod unrhyw sylwadau yn cael eu mynegi ar sail barn broffesiynol y Swyddogion ar y pryd ond heb ymrwymo'r awdurdod cynllunio lleol i unrhyw benderfyniad arbennig.

4.6.3.2 Bydd unrhyw gyngor a roddir :

- yn gyson ac yn seiliedig ar y Cynllun Datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill.
- yn ddiduedd a'r~~, y~~ gorau y gall swyddog ei roddi dan yr amgylchiadau, a
- bydd yn ceisio dwyn sylw at unrhyw broblemau amlwg.

4.6.3.3 Ni chaiff Cynghorydd gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Swyddogion gydag ymgeiswyr ar unrhyw adeg cyn penderfynu ar y cais. Pan fo hynny'n digwydd, mae modd cyflwyno cwyn am y Cynghorydd i Swyddog Monitro'r Cyngor.

4.6.4 **CYNGHORWYR YN LOBÏO AC YN CAEL EU LOBÏO**

4.6.4.1 Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor

(i) Mae ymgeiswyr, gwrthwynebwyr ac eraill â diddordeb yng nghanlyniad ceisiadau cynllunio yn debygol o gysylltu gyda Chynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor. Oherwydd natur led-farnwrol neu reoleiddiol penderfyniadau cynllunio, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ganiatáu i neb eu lobïo - pa un ai o blaid neu yn erbyn cais. Os digwydd hynny, dylent hysbysu'r person sy'n ceisio pwyso arnynt, os bydd iddynt drafod y cais gyda'r person hwnnw, y gall hynny eu gwahardd rhag cymryd rhan yn y penderfyniad ar y cais. Yn lle hynny, dylid cynghori darpar lobïwyr i gysylltu gyda'u Cynghorydd lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio.

(ii) Ni ddylai cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor drefnu cefnogaeth neu wrthwynebiad lleol i gynnig cynllunio os ydynt am gymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais yn ddiweddarach.

(iii) Wrth ystyried yr angen i wneud penderfyniadau'n ddiduedd, ni ddylai Cynghorwyr ar y Pwyllgor ffafrio, na rhoi'r argraff o ffafrio, unrhyw berson, cwmni, grwp nac ardal, na datgan cyn y cyfarfod pa ffordd y bwriadant bleidleisio. Byddai gwneud hynny heb gael yr holl wybodaeth a sylwadau perthnasol yn annheg a niweidiol. Os bydd Cynghorydd yn teimlo y byddai'r cyhoedd yn credu iddynt ddod i farn bendant ar y mater neu gais cynllunio cyn y cyfarfod, neu fod person â diddordeb wedi pwyso arnynt, ni ddylent gymryd rhan yn y drafodaeth, na phleidleisio ar y mater. Nid yw hyn yn cael effaith ar eu hawl i annerch y Pwyllgor yn ôl darpariaeth adran 5.2 y rheolau hyn (4.6.5.2).

(iv) Pan fo'r Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn credu bod Cynghorydd wedi gwneud drwg i'w sefyllfa trwy fynegi barn bendant ar gais cyn i'r Pwyllgor benderfynu arno, bydd y Swyddog Monitro neu gynrychiolydd yn hysbysu'r Cynghorydd y byddai'n amhriodol iddo gymryd rhan yn y drafodaeth, neu bleideisio ar y cais. Gyda'r Cynghorydd, fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol - ond bydd yn wynebu sgriwtini o'r tu allan.

4.6.4.2 Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor

Ni ddylai ymgeiswyr, gwrthwynebwyr nac unrhyw un sydd â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar gais cynllunio lobïo Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor. Os oes rhywun yn cysylltu gyda'r Cynghorwyr hyn yna dylai'r Cynghorwyr roi gwybod i'r sawl sy'n lobïo y dylent un ai gysylltu gydag~~'~~ un o'u Cynghorwyr~~ydd~~ lleol (gweler 4.6.4.3 isod) neu gyda'r Swyddog priodol yn yr Adran Gynllunio. Os ydyw cynghorydd o'r fath yn cael ei lobïo yna ni ddylai lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor ac ni fydd â'r hawl i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

4.6.4.3 Cynghorwyr Lleol

(4.6.4.3.1 Mae gwahaniaethau i'r rheolau I sy'n ymddangos yn 4.6.4.1 (i) a 4.6.4.2 yng nghyswllt y Cynghorydd lleol, h.y. unrhyw un ~~y~~o'r Cynghorwyr~~dd~~ y mae'r datblygiad arfaethedig yn eu~~i~~ ward.

(4.6.4.3.2) Os nad yw'r Cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor yna mae'n iawn i ymgeisydd, i wrthwynebydd neu unrhyw un arall â diddordeb yn y penderfyniad terfynol ar y cais cynllunio lobïo'r Cynghorydd lleol hwnnw. Os ydyw'r cynghorydd lleol yn cael ei lobïo a chyda'r amod nad oes ganddo

PL-16745-RWJ/165287

ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr, yna bydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor a siarad yn y Pwyllgor. Fodd bynnag, ni ddylai ef/hi ei hunni chaiff fel unigolyn lobïo, naill ai'nc yn uniongyrchol neu'nnac yn anuniongyrchol, gcynghorwyr sydd ar y Pwyllgor.

(4.6.4.3.3.) Os oesydyw'r cynghorydd lleol yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, yna bydd darpariaethau rheol 4.6.4.3.2. uchod yn berthnasol iddynt a gall o/hi annerch y Pwyllgor ond **ni** fydd ganddo/ganddi'r hawl naill ai i gynnig neu i eilio unrhyw argymhelliad nac ychwaith i bleidleisio ar y cais. Ond gall o/hi os ydynt yn dymuno, gyfeirio'r person sy'n ceisio eu lobïo i gynghorydd arallsy'n cynrychioli ward gyfagos ac sydd ddim ar y Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, bydd cynghorydd o'r fath yn cael ei ystyried fel cynghorydd lleol. ystyrir mai cynghorydd o'r fath fydd y cynghorydd lleol,

(4.6.4.3.4.iv) Ni all y Cynghorwyr lleol gyflwyno sylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor na chwarae rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio os oes ganddynt ddiddordeb i'w ddatgan yn unol â' a'r Côd Ymddygiad i Gynghorwyr. Bydd hyn yn berthnasol - pa un a ydynt yn aelodau ai peidio o'r Pwyllgor. Os ydyw cynghorydd lleol yn cael ei hun yn y sefyllfa hon dylai gyfeirioyrru unrhyw lobïwr at gynghorydd arallsy'n cynrychioli ward gyffiniol ond sydd ddim yn aelod o'rheb fod ar y Pwyllgor ac i bwrpas y rheolau hyn, bydd cynghorydd o'r fath yn cael ei ystyried fel cynghorydd lleol ystyrir bod cynghorydd o'r fath yn gynghorydd lleol.

4.6.4.4 Pan fo llythyrau hysbysu cymdogion yng nghyswllt cais cynllunio yn cael eu hanfongyrru i eiddo heb fod yn yr un ward â safle'r cais yna gall y Cynghorwyrydd sy'n cynrychioli'r eiddo dan sylw siarad fel cynghorwyrydd lleol yn y Pwyllgor. Dim ond yr hawl i siarad yn y Pwyllgor a roddir dan y rheol hon ac nid yw'n rhoddi unrhyw hawliau eraill i'r cynghorydd dan sylw fel cynghorydd lleol.

## 4.6.5 TREFNIADAU SIARAD AC EISTEDD YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

"4.6.5.1.1 Pryd bynnag y byddant yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor dylai cynghorwyr sydd heb fod ar y Pwyllgor eistedd yn hollol ar wahân i gynghorwyr sydd ar y Pwyllgor - pa un a ydynt yn bwriadu annerch y Pwyllgor ai peidio. Ni ddylent siaradgysylltu â'r cynghorwyr hynny sydd ar y Pwyllgor ac a fydd yn gwneud penderfyniadau. Pwrpas y rheol hon yw pwysleisio natur lled-farnwrol trafodaethau'r Pwyllgor ar geisiadau cynllunio.

4.6.5.1.2. Ac eithrio siarad fel cynghorydd lleol, ni chaniateir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gymryd rhan yn y drafodaeth ar gais onid ydynt wedi bod yn bresennol yn yr holl ystyriaethau sylweddol blaenorol gan y Pwyllgor ar y cais hwnnw. Mae ystyriaeth sylweddol yn golygu lle cafwyd cyflwyniad gan y swyddog ar y cais, unrhyw drafodaeth gan y Pwyllgor ar rinweddau'r cais neu ymweliad swyddogol â'r safle y mae wnelo'r cais â fo."

4.6.5.2 Bydd yr hawl i annerch y Pwyllgor yn berthnasol hefyd i aelodau o'r Pwyllgor (gan gynnwys yr cynghorydd lleol):

- sydd wedi cael ei lobïoy pwyswyd arnynt, neu

PL-16745-RWJ/165287

- all fod eisoes wedi mynegi barn bendant ar gais, neu
- sydd wedi siarad ar y cais ar lefel Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned a hefyd bydd yn berthnasol i'r cynghorydd lleol, neu'r
- unrhyw cgynghorydd sy'n cynrychioli'r ward arallgyffiniol fel y cyfeiriwyd at hynny yn 4.6.4.3(iii)(2).

Fodd bynnag, os caiff yr hawl hon ei hymarfer, dylai'r cynghorwyr ar y Pwyllgor gydymffurfio â pharagraff 4.6.5.1 uchod pan fydd y mater arbennig yn cael ei ystyried. Ni allant gymryd rhan yn y penderfyniadu a dylent ddatgan yn y cyfarfod pam nad ydynt yn cyfranogi yn y penderfyniad.

4.6.5.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cynnal busnes y cyfarfod yn unol â'r Atodiad sydd ynghlwm.

4.6.6 **CYFARFODYDD CYHOEDDUS YN YMWNEUD Â CHYNIGION DATBLYGU**

4.6.6.1 Ni ddylai swyddogion sy'n ymwneud â phrosesu neu benderfynu ar faterion cynllunio fynychu cyfarfodydd cyhoeddus mewn perthynas â chynigion datblygu neu geisiadau cynllunio a gyflwynwyd, onid yw'r cyfarfodydd hynny wedi eu trefnu gan yr Awdurdod, neu gyda'i gytundeb pendant. Gallai mynychu arwain at honiadau o ochri neu ragfarn o ran safbwynt arbennig. O'u cael yn y fath sefyllfa o fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan, neu gyda chydsyniad, yr Awdurdod, neu trwy ddamwain, yna dylai Swyddogion fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd, yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ffeithiol, yn gwrando ar sylwadau ac yn osgoi rhoi barn ar fanteision neu anfanteision y cynnig.

4.6.6.2 Yn yr un modd, dylai cynghorwyr sy'n ymwneud â phenderfynu ar geisiadau cynllunio fod yn ofalus iawn eu bod yn aros yn ddiduedd pan yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion cynllunio. Mewn cyfarfodydd o'r fath rhaid peidio â datgan unrhyw farn ar fanteision nac ar anfanteision cynnig.

4.6.7 **CYNGHORWYR SY'N AELODAU O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION A HEFYD YN GYNGHORWYR TREF NEU GYMUNED**

Dylai'r cynghorwyr hyn benderfynu pa beth y dymunant ei wneud yng nghyswllt pob cais cynllunio all gael ei ystyried gan Gyngor Tref neu Gymuned (neu bwyllgor neu is-bwyllgor ohono).Y dewis yw:-
**un ai :**

4.6.7.1 cymryd rhan yn nhrafodaeth y Cyngor Tref neu Gymuned ac yna, os dymunant, siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ôl y ddarpariaeth yn y Rheolau ymaRheol 5.4 ond i beidio a chymryd rhan fel arall yn nhrafodaethau'r Pwyllgor na phleidleisio ar y cais, neu

4.6.7.2 peidio â chwarae rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor Tref neu Gymuned (a, gorau oll,c, o ddewis, peidio â bod yn yr ystafell pan fydd y mater yn cael ei drafod) ac yna gyfranogi'n llawn yn y Pwyllgor.

4.6.7.3 **Sylwer:** Mae gan y cynghorwyr hynny sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor ond sydd heb fod yn aelodau o'r Cynghorau Tref a Chymuned hawliau, fel aelodau eraill o'r cyhoedd, i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus y Cynghorau Tref a Chymuned. Mewn achosion o'r fath, sylwedyddion yn unig fydd y Cynghorwyr yng

PL-16745-RWJ/165287

nghyfarfodydd y Cynghorau Tref neu Gymuned ac ni allant gymryd~~chwarae~~ rhan ynddynt.

4.6.8 **GOHEBIAETH Y MAE CYNGHORWYR YN EI DERBYN**

Os bydd cynghorwyr yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn uniongyrchol oddi wrth bobl â diddordeb yng nghanlyniad cais cynllunio, bydd raid iddynt sicrhau fod copi yn cael ei anfon i'r Adain Rheoli Cynllunio. Yna bydd yr Adain yn gwneud y canlynol:

4.6.8.1 os bydd amser yn caniatáu, anfon copi at yr ymgeisydd neu ei asiant/hasiant er mwyn rhoi'r cyfle iddo/iddi ymateb;

4.6.8.2 rhoi copi o'r holl sylwadau ar y ffeil Gynllunio;ac

4.6.8.3 os bydd amser yn caniatáu, sicrhau fod yr adroddiad i'r Pwyllgor yn cyfeirio at yr ohebiaeth a dderbyniwyd.

4.6.9 **COFRESTRU A DATGAN DIDDORDEB**

Mae'r Gyfraith a Chodau Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Cynghorwyr a swyddogion ar y materion hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheiny sy'n ~~d~~delio â cheisiadau cynllunio a rhaid eu dilyn bob amser.

4.6.10 **CYNGHORWYR A SWYDDOGION YN CYFLWYNO CYNIGION DATBLYGU**

4.6.10.1 Gall cynigion Cynghorwyr mewn gwasanaeth (pa un a ydynt yn gynghorwyr ar y Pwyllgor ai peidio) a Swyddogion a'u cyfeillion agos a pherthnasau agos yn hawdd beri amheuon o afreoleidd-dra. Mae'n hanfodol trin y cyfryw gynigion mewn ffordd sy'n osgoi amgylchiadau a allai beri cyhuddiadau o ffafriaeth. Yn y rheolau hyn, mae "perthnasau" yn golygu gwr/gwraig neu bartner, rhiant, nain/taid, mab/merch, wyr/wyres, brawd neu chwaer.

4.6.10.2 Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor eu hystyried ar geisiadau cynllunio sydd yn y categorïau isod ac ni fydd swyddogion yn delio gyda nhw dan 'bwerau dirprwyol':

- ceisiadau gan gynghorydd cyfredol neu rywun sy'n perthyn iddo/iddi
- ceisiadau lle mae cynghorydd cyfredol yn gweithredu fel asiant neu pan fo wedi paratoi unrhyw ran o'r cais neu'r cynlluniau
- ceisiadau gan swyddog perthnasol neu berthynas iddo/iddi. Dan y rheol hon, mae "swyddog perthnasol" yn golygu'r Prif Weithredwr~~Rheolwr-gyfarwyddwr~~, y Dirprwy Brif Weithredwr, yr holl Gyfarwyddwyr Corfforaethol, yr holl Benaethiaid Gwasanaeth, yr holl swyddogion sy'n gweithio yn yr Adran Gynllunio a'r holl swyddogion eraill y mae eu gwaith yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses rheoli datblygu (megis swyddogion yn yr Adran Briffyrdd ac Iechyd Amgylchedd yr ymgynghorir â nhw neu gyfreithwyr sy'n cynghori ac yn cynrychioli'r Adran Gynllunio mewn materion rheoli datblygu),
- ceisiadau lle mae'r ymgeisydd yn ffrind agos i Gynghorydd cyfredol neu swyddog perthnasol

Dan y rheol hon, bydd "cais cynllunio" yn golygu pob cais y mae'n rhaid ei wneud trwy statud ac a fyddai (oni bai am y rheol hon) yn cael eu penderfynu dan Gyfansoddiad y Cyngor gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio. Byddai'r rhain yn cynnwys ceisiadau

am ganiatâd amlinellol, cymeradwyo materion a gadwyd, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, caniatâd dan Orchmynion Cadw Coed ac ati.

4.6.10.3 Bydd Swyddogion Cynllunio yn ymdrechu i ganfod a dwyn sylw at geisiadau o'r fath a byddant wedyn yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio a Swyddog Monitro'r Awdurdod.Ni ddylai cynghorwyr cyfredol sy'n cyflwyno ceisiadau, sy'n gweithredu fel asiantiaid neu sy'n paratoi cynllunio neu y mae eu perthnasau'n cyflwyno cieisiadau, gymryd unrhyw rhan yn y broses o wneud penderfyniad ynglyn â'r cais hwnnw.

4.6.10.4 Dylai'r Swyddog Monitro gadarnhau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor hwnnw fod cais o'r fath wedi cael ei brosesu yn y modd arferol ac, felly, rhaid i'r Swyddog gael cyfle i adolygu'r ffeil.

4.6.10.5 Ni ddylai Swyddogion sy'n ymwneud â'r broses rheoli datblygu baratoi cynlluniau na gweithredu fel asiant i unrhyw berson na chorff (gan gynnwys Aelodau o'u teuluoedd eu hunain) sy'n ~~dilyn~~ mynd ar ôl mater cynllunio gyda'r Cyngor. Os byddant yn cyflwyno cynnig ar eu rhan eu hunain, ni ddylent fod yn rhan o brosesu'r cais hwnnw.

4.6.11 **ADRODDIADAU SWYDDOGION I'R PWYLLGOR**

4.6.11.1 Bydd adroddiad ysgrifenedig llawn, gan gynnwys asesiad rhesymedig o'r cynnig ac argymhelliad gyda chyfiawnhad, ynghlwm wrth bob cais cynllunio sy'n mynd gerbron y Pwyllgor.

4.6.11.2 Bydd unrhyw faterion newydd sydd wedi codi rhwng adeg paratoi'r adroddiad a dyddiad cyfarfod y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno ar lafar a bydd cyfeiriadau at hynny yn y cofnodion.

4.6.11.3 Bydd ffeil pob cais cynllunio yn cynnwys adroddiad manwl ar ddigwyddiadau drwy gydol oes y cais; yn arbennig bydd yn cynnwys canlyniad cyfarfodydd neu sgyrsiau arwyddocaol ar y ffôn.

4.6.11.4 Bydd yr un egwyddorion o gadw cofnodion da hefyd yn cael eu~~i~~ dilyn gyda materion gorfodi. Bydd rheolwyr yn yr Adain Rheoli Datblygu yn goruchwylio'r broses o gadw cofnodiadau yn barhaus.

4.6.12 **PENDERFYNU YN GROES I ARGYMHELLION SWYDDOGION**

4.6.12.1 Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu naill ai cymeradwyo neu wrthod datblygiad arfaethedig yn groes i argymhelliad Swyddog, bydd yr eitem yn cael ei gohirio hyd y cyfarfod dilynol fel bod cyfle i'r Swyddogion gyflwyno adroddiad pellach ar y mater. Rhaid i'r Pwyllgor nodi'r rhesymau dros ddymuno penderfynu yn erbyn argymhelliad y Swyddog. Dylai aelodau'r Pwyllgor lynu wrth y Rheolau hyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio a chymryd i ystyriaeth arweiniad a rydd swyddogion cynllunio a phleidleisio yn erbyn eu hargymhellion dim ond yn yr achosion hynny lle mae modd nodi rhesymau cynllunio gwirioneddol ac o bwys.

PL-16745-RWJ/165287

Cedwir cofnod manwl o reswm(rhesymau) y Pwyllgor gan osod copi ar ffeil y cais. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud ar fater yn groes i argymhelliad, gall hynny arwain at gostau apêl a bydd y Pwyllgor yn cofnodi'r bleidlais wrth benderfynu ar y cais waeth beth fo gofynion paragraff 4.1.18.5 y Cyfansoddiad

4.6.12.2 Yn adroddiad pellach y swyddog, ceir manylion am y rhesymau a gyflwynwyd gan yr aelodau, nodir a ydyw'r rhesymau hynny, yn eu barn nhw, yn faterion cynllunio gwirioneddol ac o bwys a thrafodir y materion defnydd tir a godwyd.

4.6.12.3 Pan fo Cynghorwyr eisiau ychwanegu neu newid amodau a argymhellwyd gan Swyddogion, dylid gwahodd y Swyddogion i lunio amodau a'u cyflwyno, i'w cymeradwyo, yn y cyfarfod dilynol oni bai fod y llunio yn rhwydd a bod modd cytuno arno yn y cyfarfod gwreiddiol.

4.6.12.4 Pan fo swyddogion cynllunio yn methu ag amddiffyn penderfyniadau o'r fath ar apêl (oherwydd gofynion rheolau ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi) byddant yn egluro'r mater hwn i'r Pwyllgor cyn cymryd pleidlais derfynol ar y mater. Mewn achosion o'r fath, bydd y Pwyllgor yn enwebu (o leiaf) dau o aelodau a bleidleisiodd yn groes i'r argymhelliad i fynychu unrhyw apêl ac egluro yn yr apêl benderfyniadau'r Pwyllgor a'r rhesymau amdanynt. Y ddau hyn fel arfer fydd cynigydd ac eilydd y cynnig sy'n groes i argymhelliad y swyddog.

4.6.13 **APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R CYNGOR**

4.6.13.1 Bydd y swyddogion yn trefnu ac yn gyffredinol yn ymddangos fel tystion mewn apeliadau cynllunio ac mewn cyfarfodydd eraill ar ran y Cyngor. Dan rai amgylchiadau, efallai y bydd raid penodi ymgynghorwyr i ymddangos ar ran y Cyngor.

4.6.13.2 Wrth gyflwyno tystiolaeth, bydd swyddogion yn cyflwyno'r achos gorau bosib ar ran y Cyngor ond ar yr un pryd, bydd yn cydymffurfio gyda chôd ymddygiad proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi.

4.6.13.3 Pan fo'n bosib apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed yn groes i argymhelliad swyddogion a'r swyddogion eisoes wedi dweud wrth y Pwyllgor na fedrant amddiffyn penderfyniad o'r fath, bydd y swyddogion yn cyflwyno adroddiad ar yr apêl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Y Cynghorwyr fydd yn gyfrifol wedyn am gyflwyno achos y Cyngor yn yr apêl.

4.6.14 **YMDDYGIAD SWYDDOGION**

4.6.14.1 Mae Côd Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol (RTPI) yn ganllaw i Swyddogion sy'n Gynllunwyr Trefol Siartredig. Bydd raid i'r holl Swyddogion, pa un a ydynt yn Aelodau o'r Sefydliad ai peidio, gadw at yr un egwyddorion sef –

(4.6.14.1.1 Gweithredu yn fedrus, yn ddidwyll ac yn gywir;

(4.6.14.1.2) Ymarfer eu barn broffesiynol annibynnol yn eofn ac yn ddiduedd hyd eithaf eu gallu a'u dealltwriaeth;

PL-16745-RWJ/165287

(4.6.12.1.3) Cyflawni eu dyletswydd i'w cyflogwyr, cleientiaid, cydweithwyr ac eraill gyda dyledus ofal ac ymroddiad yn unol â darpariaethau'r Côd uchod;

(4.6.12.1.4) Peidio â dwyn anfri ar y proffesiwn nac ar y Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefol;

(4.6.12.1.5) Peidio â datgelu na defnyddio gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol yn ystod eu gwaith i'w mantais eu hunain na'r Awdurdod;

(4.6.14.1.6) Gwrthod pob disgownt, anrheg neu gomisiwn sy'n cael ei gynnig gan unrhyw drydydd person mewn perthynas â'u gwaith fel cynllunwyr proffesiynol.

4.6.15 **Y BERTHYNAS RHWNG CYNGHORWYR A SWYDDOGION**

4.6.15.1 Er mwyn creu perthynas broffesiynol gadarn rhwng Swyddogion a chynghorwyr, bydd raid i'r naill barchu a deall swyddogaethau'r llall yn y broses benderfynu.

4.6.15.2 Rhaid i gynghorwyr barchu cyngor swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor neu pan fônt yn delio gyda cheisiadau dirprwyol ac ni chânt bwyso ar swyddogion am argymhelliad neu benderfyniad arbennig. Dylai unrhyw swyddog sy'n ystyried bod hyn wedi digwydd ddelio gyda'r mater yn unol ag adran 5.3.4 y Cyfansoddiad hwn (Bwlio ac Ymddwyn yn Ymosodol neu'n Fygythiol).

4.6.16 **YMWELIADAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD**

4.6.16.1 Mae protocol ar ymweliadau safle yn yr Atodiad sydd ynghlwm wrth y rheolau hyn.

4.6.17 **ANRHEGION A LLETYGARWCH**

4.6.17.1 Mae cyngor i gynghorwyr ar gofrestru anrhegion a lletygarwch yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau a bydd raid glynu wrth y Côd.

4.6.17.2 Yn ystod gwneud eu gwaith, mae'n bosib y cynigir i Swyddogion letygarwch gan bobl â diddordeb mewn cynigion cynllunio. Rhaid i Swyddogion wrthod pob cynnig o'r fath. Onid oes modd osgoi derbyn lletygarwch, rhaid i Swyddogion sicrhau nag fyddant yn derbyn mwy na sydd raid a datgan ei dderbyn i'r Swyddog Monitro mor fuan ag y bo modd.

4.6.18 **HYFFORDDIANT**

4.6.18.1 Ni all yr un aelod ymuno â'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion hyd oni fydd wedi mynychu hyfforddiant cynefino~~cyflwyniadol~~. Y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fydd o bryd i'w~~ŵ~~ gilydd yn penderfynu ar gynnwys yr hyfforddiant cynefino~~flwyniadol~~. Wedyn, cyflwynir hyfforddiant i ddiweddaru'r wybodaeth a'r sgiliau – bydd hynny'n digwydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn rhoi sylw i

PL-16745-RWJ/165287

**Formatted:** Indent: Left: 1.77 cm

**Formatted:** Indent: Left: 1.77 cm, First line: 0 cm

newidiadau i’r ddeddfwriaeth neu i’r weithdrefn.

4.6.18.2 Sicrha Cynghorwyr eu bod yn mynychu o leiaf 3 achlysur hyfforddi dros gyfnod o ddwy flynedd er mwyn cadw ar y blaen i'r materion cynllunio ac yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol yn y broses benderfynu. Bydd cofnodion presenoldeb yn cael eu monitro a’u cyflwyno i’r Cyngor. Bydd unrhyw aelod o’r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion sy’n methu â mynychu nifer benodol a sylfaenol o sesiynau hyfforddi yn cael ei dynnu oddi ar y Pwyllgor neu’n cael ei atal rhag bod arno am gyfnod trwy bleidlais yn y Cyngor llawn pan gyflwynir i’r Cyngor adroddiad ar y cofnod mynychu.

**ATODIAD -**

4.6.19 **<u>PROTOCOL AR GYFER YMWELIADAU’R PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION Â SAFLEOEDD</u>**

4.6.19.1 **MEINI PRAWF AR GYFER YMWELIADAU SAFLE**

4.6.19.1.1 ~~(i)~~ Mae’n bwysig bod meini prawf yn cael eu sefydlu ar gyfer penderfynu pryd mae modd cyfiawnhau ymweliad â safle ac ystyried dull gweithredu ymweliadau o’r fath. Yn hyn o beth, dylid ystyried y pwyntiau canlynol.

(i) Gall ymweliadau safle :

- oedi’r broses benderfynu, ac
- efallai arwain at apêl i’r ‘Arolygiaeth Gynllunio’ ar sail ‘methu â phenderfynu’;
- gall effeithio ar berfformiad y gwasanaeth o ran ei darged 8 wythnos a pheri costau ychwanegol i’r Gwasanaeth ac efallai i’r ymgeis(-ydd/-wyr) fel ei gilydd.

(ii) Mae angen cysondeb wrth benderfynu ar ymweld â safle a sut i gynnal ymweliad o’r fath. Fel arall, gall adael yr Awdurdod yn agored i’r cyhuddiad fod ymweliadau safle yn fympwyol neu efallai yn ddyfais lobïo.

- (iii) Rhaid trefnu ymweliadau â safleoedd yn ofalus a’u mynychu yn dda a sefydlu'n glir ar y cychwyn cyntaf beth yw eu diben, eu ffurf a'u trefniadau a chadw at hynny wedyn.

- (iv) Rhaid osgoi ymweliadau â safleoedd onid yw'r manteision yn sylweddol. Dylai’r prawf ‘mantais sylweddol’ fod yn berthnasol ym mhob achos. Ni ddylai ymweliadau â safleoedd fod yn angenrheidiol onid yw'n anodd gweld a dirnad beth fydd effaith y datblygiad arfaethedig h.y. pan fo aneglurder y cais yn gwneud asesiad gweledol yn angenrheidiol.

- (v) Gall ymweliadau â safleoedd fod yn briodol i ystyried ceisiadau mawr, mwy cymhleth.

PL-16745-RWJ/165287

Formatted: Numbered + Level: 1 + Numbering Style: i, ii, iii, … + Start at: 1 + Alignment: Left + Aligned at: 2 cm + Indent at: 3.6 cm

- (vi) os yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen ymweld â safle cyn y gellir gwneud penderfyniad ar y cais, yna dim ond yr aelodau hynny a aeth ar yr ymweliad swyddogol â'r safle fedr gymryd rhan a phleidleisio ar y cais pan fydd yn cael ei drafod ymhellach gan y Pwyllgor.

ByddBydd cyfeiriad at argymhelliad swyddog i ymweld â safle yn ymddangos yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.6.19.1.2**Ni ddylid** ymweld â safle yn yr achosion canlynol:

Formatted: Font: Bold

- (i) I ystyried anghydfod ynghylch ffiniau neu rhwng cymdogion yn unig
- (ii) I ystyried gwrthwynebiadau ar sail cystadleuaeth.
- (iii) I ystyried gwrthwynebiadau a godwyd ar sail gostwng gwerth eiddo.
- (iv) I ystyried unrhyw faterion eraill sydd heb fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol
- (v) Pan fo'r cynghorwyr eisoes wedi ymweld â'r safle yn y 12 mis cynt, onid yw'r amgylchiadau yn eithriadol.

## 4.6.19.2 CEISIADAU AM YMWELIADAU Â SAFLEOEDD

I bwrpas sefydlu trefn strwythuredig i'r ymweliadau a safleoedd bydd raid glynu wrth y drefn ganlynol:-

4.6.19.2.1 Rhaid cyflwyno pob cais am ymweliad â safle yn ysgrifenedig i'r Prif Swyddog CynllunioPennaeth Rheoli Datblygu / Rheolwr Rheoli Cynllunio erbyn 1.00pm ar y diwrnod gwaith olaf cyn Cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid i unrhyw gais llafar ddaw cyn cyfarfod y Pwyllgor gael ei ddilyn gyda chais ysgrifenedig cyn i Gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ddechrau. Bydd y rheswm dros gynnal yr 'ymweliad safle' yn cael ei ddatgan yn eglur a'i gyflwyno felly i'r Pwyllgor Cynllunio.

4.6.19.2.2(ii) Os bydd cais yn cael ei wneud am 'ymweliad safle' yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, unwaith eto, bydd y rhesymau dros gynnal yr ymweliad yn cael eu cofnodi yn y cofnodion.

## 4.6.19.3 DULLIAU GWEITHREDU YN YSTOD YR YMWELIAD Â'R SAFLE

4.6.19.3.1Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am yr ymweliad â'r safle ond ni fydd yn cael bod yn bresennol yn ystod yr ymweliad i gyflwyno unrhyw sylwadauachos.

4.6.19.3.2 Prif ddiben yr ymweliad â'r safle fydd i'r Swyddogion Cynllunio egluro'r materion cynllunio sy'n berthnasolynol i'r achos ac i'r cynghorwyr weld y safle.

4.6.19.3.3) Ni fydd unrhyw drafodaeth yn ystod yr ymweliad â'r safle o ran rhinweddau'r cais. Rhaid peidio â defnyddio'r ymweliad â'r safle fel fforwm i drafodaethau.

PL-16745-RWJ/165287

4.6.19.3.4 Y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd fydd yn cynnal ac yn arwain yr ymweliad â'r safle. Os bydd naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn absennol, bydd yr Aelodau yn cytuno ar Gadeirydd dros dro.

4.6.19.3.5 Bydd y Cadeirydd yn agor y Cyfarfod yn ffurfiol a nodi'r rhesymau dros gynnal yr ymweliad.

4.6.19.3.6 Gofynnir i'r swyddog cynllunio amlinellu'r cynnig a'r prif faterion.

4.6.19.3.7 Bydd y cynghorwyr yn edrych ar y safle, ar yr adeiladau perthnasol a'r cyffiniau yn ôl yr angen.

4.6.19.3.8 Bydd y cynghorwyr yn cael cyfle i godi cwestiynau neu ofyn am eglurhad ar ffeithiau gyda'r swyddog cynllunio a/neu cynghorydd(-wyr) lleol.

4.6.19.3.9 Bydd cynghorwyr~~dd~~ ~~L~~lleol y Ward y mae'r cais ynddi (os yn bresennol) yn cael cyfle i roi sylwadau ar y cynnig.

4.6.19.3.10 Cedwir nodiadau o'r cyfarfod ar y safle a chânt eu cofnodi felly yng nghyfarfod dilynol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion pan fydd y cais yn cael ei drafod.

4.6.19.4 **ADOLYGU PENDERFYNIADAU'N RHEOLAIDD**

(i) Mae Adroddiad y Comisiwn Archwilio '*Building Quality*' yn argymell bod cynghorwyr yn ymweld â sampl o hawliau cynllunio sydd wedi eu gweithredu i asesu ansawdd y penderfyniadau. Dylai adolygiad o'r fath wella ansawdd a chysondeb penderfyniadau a, thrwy hynny, atgyfnerthu ymddiriedaeth y cyhoedd, a chynorthwyo gydag adolygiadau o bolisïau cynllunio.
(ii) Dylid cynnal yr adolygiad yn flynyddol. Dylai gynnwys enghreifftiau o amrywiaeth o gategorïau o ddatblygiad gan gynnwys ceisiadau y penderfynodd Swyddogion arnynt trwy bwerau dirprwyol.

4.6.20 **SWYDDOGAETH CADEIRYDD Y PWYLLGOR A CHYNNAL BUSNES Y PWYLLGOR**

4.6.20.1 **Ethol Cadeirydd / Is-Gadeirydd**

4.6.20.1 (i) Bydd y cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn cyfarfod blynyddol y Cyngor. Ar yr~~Yr~~ un pryd, bydd y cynghorwyr yn ethol Is-Gadeirydd am yr un cyfnod neu hyd oni fydd y naill neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn ymddiswyddo.

(ii) Pan fo'r Cadeirydd yn absennol am y cyfan o gyfarfod y Pwyllgor neu am ran ohono, yna bydd yr Is-Gadeirydd yn cymryd y Gadair. Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd bydd y Pwyllgor yn dewis un o'u haelodau sy'n bresennol i fod yn Gadeirydd am y cyfarfod hwnnw neu am ran ohono hyd oni fydd y Cadeirydd (neu'r Is-Gadeirydd) yn dychwelyd.

PL-16745-RWJ/165287

4.6.20.2 **Cyfrifoldeb y Cadeirydd**

Y rhain fydd cyfrifoldebau'r Cadeirydd :

4.6.20.2.1llywyddu yn y cyfarfodydd fel bod modd gwneud gwaith y Pwyllgor yn effeithiol gan roddi sylw priodol i hawliau'r Cynghorwyr, y swyddogion ac i fudd y gymuned yn gyffredinol.

4.6.20.2.2 sicrhau bod cyfarfod y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn briodol fel Fforwm i drafod materion cynllunio a gorchmynion statudol yn unig.

4.6.20.2.3 sicrhau fod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal yn unol â'r darpariaethau perthnasol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

4.6.20.2.4 cefnogi'r swyddogion cynllunio a chynrychiolydd y Swyddog Monitro i atgoffa'r aelodau ynglyn â'u dyletswydd i lynu wrth drafodaethau cynllunio gwirioneddol ac o bwys yn ystod y broses o wneud penderfyniad.

4.6.20.3 **Swyddogaeth Swyddogion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor**

4.6.20.3.1 Bydd y swyddogion yn rhoddi cyngor proffesiynol i'r Cadeirydd fel bod modd iddo gyflawni ei ddyletswyddau yn y swydd.

4.6.20.3.2 Bydd y swyddogion yn darparu cyngor fel a ganlyn :

(i) yn y cyfarfodydd rhagarweiniol cyn y Pwyllgor er mwyn briffio'r Cadeirydd yn llawn ar faterion a allai godi yn y cyfarfodydd;

(ii) mewn unrhyw gyfarfodydd ar ôl y Pwyllgor (os oes gofyn).

(iii) yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor pan fo cwestiynau'n cael eu gofyn i'r Cadeirydd i bwrpas ymateb.

(iv) mewn unrhyw gyfarfod a elwir gan swyddogion i drafod materion sy'n berthnasol i bynciau 'cynllunio' neu i bynciau 'gorchmynion'.

4.6.20.4 **Cynnal Cyfarfodydd o'r Pwyllgor**

(4.6.20.4.1) Bydd pob eitem sydd ar y rhaglen i bwrpas trafodaeth neu wybodaeth yn cael ei chyflwyno gan y Cadeirydd.

(4.6.20.4.2) Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cyflwyno'r eitem, bydd yn sicrhau cyfle i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem. Lle mae'r drefn siarad cyhoeddus yn berthnasol i gais penodol, bydd hyn yn digwydd cyn i'r swyddog gyflwyno adroddiad ar yr eitem.

(4.6.20.4.3) Yn gyntaf, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr~~ydd~~ lleol siarad yn dilyn adroddiad y swyddog. Ond gan ddibynnu ar a ydyw'r cynghorwyr~~ydd~~ lleol yn dymuno siarad o blaid yr eitem neu yn ei herbyn a chan ddibynnu ar a ydyw ar y Pwyllgor ai peidio.

PL-16745-RWJ/165287

(4.6.20.4.4) Wedyn bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynghorwyr ymuno yn y drafodaeth yn y drefn honno sy'n cynrychioli dymuniad y cynghorwyr yn ôl dehongliad y Cadeirydd.

(4.6.20.4.5) Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn cydymffurfio gyda darpariaethau Cyfansoddiad y Cyngor a chyda darpariaethau perthnasol y Rheolau Gweithdrefn hyn.

(4.6.20.4.6) Bydd pob cynghorydd sy'n dymuno siarad yn cael cyfle i wneud hynny. Ni fydd cynghorwyr yn cael gwneud areithiau a bydd raid iddynt annerch y Pwyllgor ar faterion 'cynllunio' (h.y. ystyriaethau cynllunio perthnasol) a 'gorchmynion' yn unig. Gall y Cadeirydd dorri ar draws Cynghorydd sy'n gwneud datganiadau ailadroddus neu rai amherthnasol.

(4.6.20.4.7)Pan fo raid i swyddogion ymateb i sylwadau neu i gwestiwn gan gynghorydd, yna bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y swyddog yn cael cyfle i wneud hynny.

(4.6.20.4.8)Os ydyw'r Cadeirydd yn dymuno siarad fel cynghorydd lleol ar eitem benodol, yna bydd darpariaethau'r Cyfansoddiad yn ymwneud ag ef fel Cadeirydd yn union fel yr ymwnânt â'r holl gynghorwyr eraill.

(4.6.20.4.9)

(i) Ar ddiwedd y drafodaeth, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor bleidleisio ar y mater dan drafodaeth. Onid yw'r cynghorwyr yn anghytuno gydag argymhelliad y swyddog, byddant yn pleidleisio trwy godi dwylo.

(ii) Pan fo gwelliant yn cael ei gynnig a'i eilio yng nghyswllt argymhelliad swyddog, yna bydd raid pleidleisio ar y gwelliant yn gyntaf.

(4.6.20.4.10) Bydd raid i'r holl gynghorwyr a'r holl swyddogion barchu swyddogaeth y Cadeirydd. Bydd arweiniad y Cadeirydd ar yr holl faterion trefn yn y Pwyllgor yn derfynol ac ni fydd modd trafod ei benderfyniad. Bydd y Cadeirydd, bob amser, yn sicrhau y bydd yr holl gynghorwyr~~pob cynghorydd~~ (gan gynnwys ef ei hun) a phob swyddog yn parchu'r protocol ar y berthynas rhwng aelodau a swyddogion a sicrhau hefyd bod y cyngor a roddo'r swyddogion yn y Pwyllgor yn cael ei barchu.

**4.6.21 Y Cyhoedd yn Siarad**

Hawl i Siarad

4.6.21.1 Rhaid i'r cais cynllunio fod ar raglen y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Os bydd y cais yn cael ei ohirio, ni fydd hawl i'r cyhoedd siarad os bydd cyfle wedi ei roi yn barod mewn Pwyllgor blaenorol lle cafodd y cais ei ystyried yn llawn.

4.6.21.2 Fe all y ddau ymgeisydd (neu eu hasiantiaid), a'r gwrthwynebwyr (neu eu hasiantiaid), siarad a does yna ddim meini prawf i'w bodloni ac eithrio cydymffurfio gyda gweithdrefn y Cyngor.

PL-16745-RWJ/165287

4.6.21.3 Fel arfer, dim ond un person sy’n cael siarad o blaid ac un person yn erbyn cais. Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn defnyddio ei ddisgresiwn i adael un siaradwr arall i’r ddwy ‘ochr’. Fel arfer, ni fydd yn gwneud hyn ond pan fydd ceisiadau mawr lle mae yna wahaniaeth barn o fewn un ‘ochr’ (e.e. dau yn siarad yn erbyn cais am siop fawr lle mae un yn cynrychioli barn y gwerthwyr a’r llall yn cynrychioli barn rhai sy’n byw gerllaw). Mewn achosion o’r fath bydd yr ‘ochr’ arall yn cael caniatâd i ddau siaradwr neu ddwywaith yr amser arferol os ydynt eisiau defnyddio’r amser hwnnw.

4.6.21.4 Rhaid i unrhyw un sydd eisiau siarad roi’r hawl i’r Cyngor gyflwyno’i enw a’i rif cyswllt i bobl eraill (o’r un farn) sydd eisiau siarad fel y gallant gytuno pwy sy’n mynd i siarad a pha bethau sydd angen eu dweud ac ati. Os na fyddant yn cytuno, y person cyntaf ofynnodd i’r Cyngor am gael siarad fydd yn cael ei ddewis fel arfer.

4.6.21.5 Rhaid cyflwyno cais am y cyfle i siarad i’r Swyddog Gweinyddol yn yr Adran Gynllunio cyn yr amser cau sy’n cael ei nodi yn y llythyr o rybudd sy’n cael ei anfon at ymgeiswyr a phobl sy’n byw yn ymyl safle’r cais.

Faint o amser i Siarad

4.6.21.6 Bydd y siaradwr yn cael siarad am hyd at 3 munud gerbron y Pwyllgor.

Lluniau ac ati

4.6.21.7 Does dim hawl gan yi’r siaradwr rannu na dangos papurau yn y Pwyllgor. Rhaid i bob dim ar bapur fod wedi’i gyflwyno i’r Cyngor yn ystod y cyfnod statudol o roddi cyhoeddusrwyd i’r cais a byddant yn cael eu crynhoi yn adroddiad y Swyddog.

Y Drefn

4.6.21.8 Mae’r drefn lle mae aelodau’r cyhoedd yn siarad yn y Pwyllgor yn cael ei ddisgrifio yn y dogfennau priodol.

PL-16745-RWJ/165287

This page is intentionally left blank

**RHIF YR EITEM**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad** | **22 Ebrill 2013** |
| **Pwnc** | **Cyflwyno Protocol Cyfryngau Cymdeithasol i reoleiddio'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig yn eu swyddogaethau swyddogol a phreifat. Mae'r Protocol hefyd yn ymwneud â'r defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd gan y cyhoedd.** |
| **Deilydd Portffolio** | **Y Cynghorydd John Chorlton** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Pennaeth Swyddogaeth Cyfreithiol a Gweinyddol/Swyddog Monitro<br>Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Huw Pierce Pritchard(x1806)** |

**Rheswm am yr adroddiad:**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno fersiwn ddrafft o Brotocol Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer Aelodau Etholedig, ac a fwriedir i reoleiddio'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol ganddynt fel Cynghorwyr ac unigolion preifat.

Gall defnydd amrhiodol o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig arwain at dorri'r Côd Ymddygiad. O'r herwydd, mae'n bwysig bod Aelodau Etholedig yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â chyfryngau cymdeithasol a'u bod yn sicrhau nad ydynt yn eu defnyddio mewn ffordd sy'n torri'r Côd Ymddygiad. Yn y cyswllt hwn, bwriedir y bydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn ystyried y Protocol pan fydd yn rhoi sylw i honiad bod cyfyngau cymdeithasol wedi eu defnyddio mewn ffordd a oedd yn torri'r Côd Ymddygiad.

Nid oes gan y Cyngor bolisi ar hyn o bryd ar y defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan y cyhoedd yn ystod cyfarfodydd.

**A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion**

Gall cyfryngau cymdeithasol chwarae rhan bwysig yng ngweithrediad cymdeithas ddemocrataidd trwy gynnig cyfleon cadarnhaol i'r Cyngor ac Aelodau Etholedig ymgysylltu gyda dinasyddion Ynys Môn. Gall Aelodau Etholedig wneud defnydd

effeithiol hefyd o gyfryngau cymdeithasol i ryngweithio gydag etholwyr a chefnogi democratiaeth leol. Mae cyfryngau cyfryngau cymdeithasol yn rhoi cyfleon i'r Cyngor ac yn gosod heriau iddo hefyd.

Cydnabyddir bod absenoldeb datganiad swyddogol ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig a'r cyhoedd yn ystod cyfarfodydd wedi arwain at rywfaint o ansicrwydd ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried yn ymateb derbyniol i faterion penodol, fel ffilmio cyfarfodydd gan y cyhoedd.

Bwriad y protocol yw nodi'n glir sut y dylai Aelodau Etholedig ryngweithio gyda chyfryngau cymdeithasol yn rhinwedd eu swyddi fel Cynghorwyr Sir ac fel unigolion preifat. Mae'r protocol hefyd yn ymwneud â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan y cyhoedd sy'n dod i gyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a Phwyllgorau eraill. Mae'r Protocol hefyd yn cyfeirio at hawliau'r cyfryngau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yng nghyfarfodydd y Cyngor.

## B – Ystyriaethau

Mae caniatáu defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan newyddiadurwyr a'r cyhoedd yng nghyfarfodydd cynghorau yng Nghymru yn rhan o drafodaeth sy'n parhau. Yn ddiweddar, trefnwyd ymgyrch gan y Daily Post i godi ymwybyddiaeth o'r mater hwn.

Mae Gweinidog Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi ysgrifennu'n ddiweddar at awdurdodau lleol Cymru i fynegi ei gefnogaeth i wella tryloywder cyfarfodydd trwy hyrwyddo mynediad ar-lein.

Bwriedir i'r Protocol hwn fod mor ganiataol â phosib. Bydd hyn yn sicrhau na fydd disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch y defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd yn cael eu llyffetheirio ac y bydd Aelodau Etholedig yn gallu ymgysylltu gyda'u hetholwyr trwy Gyfryngau Cymdeithasol.

## C – Goblygiadau ac Effaith

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | Ni chafwyd unrhyw sylwadau |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Mae awdur y Protocol yn adrodd i'r Swyddog Monitro. Mae'r Protocol yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnwys cyngor cyfreithiol. |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | Amherthnasol |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Amherthnasol |
| 5 | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | Mae sylwadau wedi eu derbyn a'u cynnwys. |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Ni fydd gan y prosiect effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r grwpiau sy'n cael eu gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Amherthnasol |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Mae sylwadau wedi eu derbyn a'u cynnwys |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Cyflwynwyd y Protocol i'r Pwyllgor Safonau ar 13 Mawrth 2013. Roedd sylwadau am y Protocol yn gefnogol. |
| 10 | **Economaidd** | Amherthnasol |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Amherthnasol |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | Amherthnasol |
| 13 | **Cytundebau Canlyniadau** | Amherthnasol |

**CH – Crynodeb**

Nid oes gan y Cyngor ddatganiad polisi ar hyn o bryd ar y defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan Aelodau Etholedig neu'r cyhoedd. Bydd mabwysiadu'r Protocol gan y Cyngor llawn yn darparu canllawiau ar y defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan Aelodau Etholedig, yn arbennig mewn meysydd a allai olygu torri'r Côd Ymddygiad.

Mae'r Protocol:

- Yn caniatáu'r defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan y cyhoedd yn ystod cyfarfodydd.
- Yn caniatáu'r defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan y wasg yn ystod cyfarfodydd.

- Yn gwahardd defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol gan Aelodau yn ystod cyfarfodydd.
- Yn sefydlu canllawiau ar gyfer defnydd effeithiol o Gyfryngau Cymdeithasol gan Aelodau.

| **D – Argymhelliad** |
| --- |
| Argymell i'r Cyngor llawn ei fod yn mabwysiadu'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol. |

| | |
| --- | --- |
| **Enw awdur yr adroddiad:** | **Huw Pierce Pritchard** |
| **Teitl Swydd:** | **Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **2 Ebrill 2013** |

| **Atodiadau:** |
| --- |
| Copi o'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol |

| **Papurau Cefndirol:** |
| --- |
| |

## 1. Cyflwyniad

### 1.1 Diffinio cyfryngau cymdeithasol

**1.1.1.** Term cyfunol yw cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir i ddisgrifio cyfryngau ar-lein sy'n cynnig ffyrdd hawdd i gyhoeddi cynnwys ar-lein a hefyd i hwyluso a chymryd rhan mewn sgyrsiau ar-lein, a all wahodd postio sylwadau neu gyfraniadau neu fel arall wahodd trafodaeth.

**1.1.2.** Gall cyfryngau cymdeithasol ymwneud â rhwydweithiau cymdeithasol (ee *Facebook)*; rhwydweithiau proffesiynol (ee *LinkedIn*); safleoedd cynnwys cymunedau (ee *Flickr* ac *Youtube*); blogiau (ee drwy safleoedd fel *Wordpress* a *Blogger*); safleoedd meicroflogio (ee *Twitter*). Gellir cael mynediad i gyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio amrywiaeth o offer digidol fel gliniaduron, ffonau deallus a llechen, y gellir eu defnyddio hefyd i ddal gwybodaeth glyweledol.

### 1.2. Cwmpas

**1.2.1.** Bwriadwyd y protocol hwn i nodi'n glir sut y dylai Aelodau Etholedig ryngweithio â chyfryngau cymdeithasol, fel Cynghorwyr Sir ac fel unigolion preifat. Mae'r protocol hefyd yn ymwneud â'r defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol gan aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor, cyfarfodydd Pwyllgor Gwaith a phwyllgorau eraill. Cydnabyddir bod y ffaith nad oes datganiad terfynol ar y sefyllfa ynglŷn â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig a'r cyhoedd yn ystod cyfarfodydd wedi arwain at rywfaint o ansicrwydd ar ran Cadeiryddion o safbwynt cynnig ymateb derbyniol i faterion megis ffilmio cyfarfodydd gan y cyhoedd. Y bwriad, felly, yw y bydd y Protocol yn darparu cyfarwyddyd ynghylch y defnydd a ganiateir o gyfryngau cymdeithasol i Gadeiryddion yn ystod cyfarfodydd.

**1.2.2.** Nid yw'r Protocol yn ymwneud â Swyddogion y Cyngor - mae polisïau TGCh ar wahân yn berthnasol iddynt hwy.

**1.2.3.** Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig wedi'i gynnwys dan ran 2.1 y Protocol. Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig yn ystod cyfarfodydd yn cael ei drafod yn 2.1.5.

**1.2.4.** Mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan aelodau o'r cyhoedd yn ystod cyfarfodydd yn dod dan ran 2.2 y Protocol.

### 1.3. Cefndir

**1.3.1.** Gall cyfryngau cymdeithasol chwarae rhan bwysig yng ngweithrediad cymdeithas ddemocrataidd drwy gynnig cyfleoedd cadarnhaol i'r Cyngor a'i Aelodau Etholedig ymgysylltu gyda dinasyddion Ynys Môn. Er enghraifft, gall cyfryngau cymdeithasol fod yn ffordd effeithlon a chost effeithiol i'r Cyngor gadw mewn cysylltiad â thrigolion a busnesau. Gall Aelodau Etholedig hefyd wneud defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol i ryngweithio ag etholwyr ac i gefnogi democratiaeth leol. Mae

tystiolaeth y gall cyfryngau cymdeithasol, o'u defnyddio'n effeithiol, ymgysylltu â'r rhai na fyddent fel arall yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol neu yn rhyngweithio gyda'u Haelodau Etholedig.

**1.3.2.** Mae'n amlwg fod y defnydd o gyfryngau cymdeithasol hefyd yn cyflwyno risgiau a heriau penodol i'r Cyngor a'i Aelodau Etholedig. Yn benodol, gall y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig o bosibl arwain at dorri'r Côd Ymddygiad. Felly, mae'n bwysig bod Aelodau Etholedig yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau cymdeithasol a sicrhau nad ydynt yn eu defnyddio mewn ffordd sy'n torri'r Côd Ymddygiad.

**1.3.3.** Y bwriad yw y bydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn ystyried y Protocol wrth benderfynu ar honiadau o dorri'r Côd Ymddygiad yn cynnwys y defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

## 2. Cyfryngau Cymdeithasol a'r Cyngor

### 2.1. Defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig

**2.1.1.** Mae'n debygol y gall y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau Etholedig gynnwys cymryd rhan mewn cyfryngau a noddir gan y Cyngor, megis Blog yr Arweinydd; defnydd a wneir mewn capasiti preifat, neu sy'n ymddangos yn breifat, drwy gyfrif preifat; cyfranogiad dienw gyda, neu gyfraniad i flogiau, fforymau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol eraill.

**2.1.2.** Mae Aelodau wedi eu hymrwymo i lynu wrth delerau ac amodau'r safleoedd cyfryngau cymdeithasol unigol. Yn ogystal, dylai Aelodau gydnabod y gallai eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol ddod dan y Côd Ymddygiad, ac mae'n debygol y gallai unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r gyfraith a chytundebau defnyddwyr y safleoedd hyn dorri'r Côd Ymddygiad. Yn benodol, dylai Aelodau osgoi defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd sy'n awgrymu rhagfarn a rhagbenderfyniad.

2.1.3. Yn ogystal â materion sydd wedi'u cynnwys yn y Côd Ymddygiad, rhaid atgoffa Aelodau y gall eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol fod â goblygiadau dan y gyfraith gyffredinol, a all fod â chanlyniadau difrifol i Aelod Etholedig.

2.1.4. Awgrymir y gall yr anawsterau posibl sy'n deillio o'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gael eu hosgoi os yw'r wybodaeth a gyhoeddir gan Aelodau yn wrthrychol, yn gytbwys, yn llawn gwybodaeth ac yn gywir. Gall effeithiau cyhoeddi gwybodaeth ar-lein fod yn rhai hirbarhaol, gan fod mynediad i gynnwys a gyhoeddir ar-lein yn hollbresennol, ac i bob pwrpas wedi ei gyhoeddi am byth.

2.1.5. Ni ddylai Aelodau ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd. Mae'r cyfyngiad hwn yn cynnwys gwaharddiad ar wneud sylwadau ar y pryd ar unigolion neu faterion eraill a hefyd ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd.

2.1.6. Yn ogystal, dylai Aelodau geisio osgoi rhoi'r argraff i eraill nad ydynt yn rhoi sylw llawn i weithgareddau'r cyfarfod. Gellid gwneud hyn drwy sicrhau fod dyfeisiau symudol yn cael eu defnyddio'n ddarbodus ac yn ddiffwdan yn ystod cyfarfodydd.

2.1.7. Dylai Aelodau osgoi defnyddio dyfeisiau symudol i anfon neu i dderbyn gwybodaeth nad yw'n gysylltiedig â'r materion dan ystyriaeth yn y cyfarfod. Dylai'r defnydd a wneir o ddyfeisiau symudol i anfon neu dderbyn negeseuon preifat neu anfon e-bost yn ystod cyfarfodydd fod yn rhesymol ac yn synhwyrol. Dylai Cadeiryddion geryddu unrhyw Aelod y mae ei ddefnydd o ddyfeisiau symudol yn ystod cyfarfodydd yn cael ei ystyried yn ormodol.

2.1.8. Bydd y paragraffau canlynol o'r Côd Ymddygiad yn berthnasol i'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol ac ymddygiad arall ar-lein. Mae hawliau Aelodau dan Erthyglau 8 a 10 (Atodlen 1) Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi cael eu hystyried.

2.1.8.1. Mae paragraff 5.4(a) "*cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd*";

Dylai'r Aelodau sicrhau nad yw eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn torri egwyddorion cydraddoldeb y Cyngor. Bydd datganiadau gwahaniaethol hefyd yn debygol o fod yn anghyfreithlon

2.1.8.2. Paragraff 5.4 (b) "*dangos parch ac ystyriaeth at* eraill";

Dylai Aelodau fod yn ymwybodol nad yw sylwadau gwleidyddol a mynegi safbwyntiau a dadleuon gwleidyddol yn cael eu llesteirio gan y Côd Ymddygiad, ond ei bod yn debygol y gallai sylwadau personol a anelir at unigolyn gael eu gweld fel rhywbeth amharchus a allai olygu torri'r Côd.

Atgoffir yr Aelodau y gallai eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol arwain at enllibio unigolyn arall. Mae hyn yn berthnasol hefyd os yw Aelod sydd â safle cyfryngau cymdeithasol personol yn caniatáu i unrhyw unigolyn gyhoeddi cynnwys enllibus arno.

2.1.8.3. Paragraff 5.4 (c ) "*peidio ag ymddwyn fel bwli neu aflonyddu ar unrhyw berson*"

Dylai Aelodau fod yn ofalus pan yn gwneud sylwadau personol am unigolion ac ni ddylid byth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i adolygu a thrafod perfformiad staff y Cyngor. Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw ddefnydd dienw o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau sy'n cael ei ystyried yn fwlio neu yn aflonyddu ar unrhyw berson.

Dylai Aelodau sy'n cynnal blog neu safle rhwydweithio (fel *Twitter*) fod yn ymwybodol y gallai sylwadau eraill ar y safleoedd hynny gael eu priodoli i'r Aelod drwy gysylltiad. Dylai Aelodau sicrhau bod sylwadau difenwol neu anweddus yn cael eu tynnu oddi ar eu safleoedd personol.

2.1.8.4. Paragraff 5.5 (a) "*datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb dderbyn caniatâd penodol person a awdurdodwyd i roi caniatâd o'r fath, neu oni bai fod y gyfraith yn dweud fod yn rhaid gwneud hynny"*

Dylai Aelodau fod yn sicr bob amser nad yw gwybodaeth y maent yn ei thrafod neu'n ei datgelu ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn wybodaeth gyfrinachol a'i bod yn briodol i wneud hynny. Dylai Aelodau gofio fod y wybodaeth a roddir ar wefan, boed yn ddienw neu beidio, ac na ellid bod wedi ei chael ond gan Aelod, yn debygol o ddisgyn o dan y Côd.

Ni ddylai Aelodau fyth gyhoeddi data personol unigolion ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998.

Dylai Aelodau osgoi torri hawlfraint drwy gyhoeddi delweddau neu destun ar safle cyfryngau cymdeithasol sydd yn eiddo deallusol rhywun arall.

2.1.8.5. Paragraff 10 (2)(c )(1) Diddordeb personol: "*neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi"*

Defnyddir termau amrywiol i ddiffinio cysylltiadau a chyfeillach ar amrywiol safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Mae'r termau hyn yn cynnwys 'ffrindiau' (*Facebook*) a 'dilynwyr' (*Twitter*) . Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol y gallai unrhyw berson y maent yn ei gynnwys fel cyswllt ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol gael eu hystyried at ddibenion y Côd Ymddygiad fel cyswllt personol agos. Dylai Aelodau fod yn ofalus nad yw eu defnydd o safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn rhoi'r argraff bod gwrthdaro o ran buddiannau. Byddai'n ddoeth i Aelodau, wrth greu eu cynnwys eu hunain ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol, geisio pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng cynnwys busnes a thudalennau sy'n cynnwys deunydd personol.

2.1.8.6. Paragraff 12 (1) Diddordebau sy'n rhagfarnu: *"… y byddai aelod o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth am y ffeithiau perthnasol yn ystyried yn rhesymol eu bod mor arwyddocaol fel y byddant yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch budd y cyhoedd".*

Dylai Aelodau fod yn ofalus nad yw eu defnydd o safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn rhoi'r argraff bod ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater.

2.1.9. Mae Aelodau Etholedig wedi eu hymrwymo i'r Côd Ymddygiad os ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynnal busnes y Cyngor neu yn cynrycholi'r Cyngor. Fodd bynnag, gallai Aelod Etholedig fod yn agored i honiadau ei fod ef/hi wedi torri'r Côd Ymddygiad os yw'r defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol yn amhriodol ac nad yw ef/hi yn cynnal busnes swyddogol, ond dim ond yn hawlio neu'n rhoi'r argraff ei fod ef/hi yn gweithredu yn swyddogol.

2.1.10. Gall defnydd dienw o'r cyfryngau cymdeithasol gan Aelodau hefyd arwain at dorri'r Côd lle gellir dangos bod Aelod wedi llwytho i fyny gynnwys y safle a'i fod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd.

**2.1.11.** Er mwyn penderfynu a yw Aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd, byddai angen ystyried cyd-destun defnydd Aelod o gyfryngau cymdeithasol, gan gymryd i ystyriaeth ffactorau megis:

a. Proffil cyhoeddus Aelod, a all arwain at dybiaeth resymol fod yr Aelod yn gweithredu fel Cynghorydd Sir;
b. Y gosodiadau preifatrwydd ar y safle cyfryngau cymdeithasol neu blog. Cyfrifoldeb yr Aelod yw sicrhau bod gosodiadau preifatrwydd priodol yn eu lle. Os gall etholwyr gael mynediad i sylwadau a wnaed gan yr Aelod, fe allant dybio'n rhesymol bod yr Aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd.

c. Dylai Aelodau geisio galluogi defnyddwyr eraill y cyfryngau cymdeithasol i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth dros statws swyddogol, neu fel arall, cyfraniadau'r Aelod.

2.1.12. Dylai Aelodau osgoi trafod busnes y Cyngor ar safle cyfryngau cymdeithasol personol, neu wneud sylwadau am eraill. Nid yw'n ddigonol i Aelodau wedyn hawlio fod unrhyw sylwadau y ceir anghydfod yn eu cylch wedi eu gwneud yn breifat.

**2.2. Y cyhoedd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd y Cyngor**

**2.2.1.** Mae'r Cyngor yn cydnabod y newid diwylliannol tuag at ganiatáu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn bywyd cyhoeddus. Bydd y Cyngor felly yn caniatáu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan y cyhoedd yn ystod ei gyfarfodydd ar yr amod nad yw'r defnydd yn tynnu sylw ac nad yw'n amharu ar y cyfarfod. Nid yw'r Protocol yn effeithio ar ddyletswyddau'r Cadeirydd i sicrhau a chynnal trefn dda'r cyfarfod busnes.

**2.2.2.** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ofyn i aelodau o'r cyhoedd roi offer digidol i ffwrdd os yw ei weithrediadau yn ymyrryd â gweithrediad offer sain-weledol neu systemau eraill y Cyngor.

**2.2.3.** Mae'r Cyngor yn goddef y defnydd o gyfryngau digidol gan y cyhoedd, megis ffonau deallus, i ffilmio ei gyfarfodydd, ar yr amod nad yw'r defnydd yn tynnu sylwl ac nad yw'n amharu ar y cyfarfod. Cyfrifoldeb unrhyw aelod o'r cyhoedd yw gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn ffordd a fydd yn cydymffurfio â'r gyfraith

**2.2.4.** Pan fydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu ffilmio gan y cyfryngau efallai y bydd hynny'n cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n tynnu sylw mwy ac sy'n tarfu mwy ar y cyfarfod a hynny oherwydd natur yr offer digidiol a ddefnyddir. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod cais gan y cyfryngau i ffilmio cyfarfodydd, ond bydd yn caniatáu ffilmio cyn i unrhyw gyfarfod ddechrau drwy drefniant ymlaen llaw.

2.2.5. Ni ddylai offer digidol gynhyrchu unrhyw sŵn amlwg a allai darfu ar gyfarfodydd. Ni ddylai'r cyhoedd ateb galwadau ffôn yn ystod cyfarfodydd, gan fod hyn yn debygol o darfu ar y cyfarfod. Rhaid i Gadeiryddion roi cyngor i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu'r cyfarfodydd ynglŷn â'r angen i sicrhau bod eu hoffer digidol yn cael ei weithredu'n dawel.

This page is intentionally left blank

RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Y PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR SIR** |
| **Dyddiad** | **22 EBRILL 2013 a 23 MAI 2013** |
| **Pwnc** | **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **SWYDDOG MONITRO** |
| **Swyddog Cyswllt** | **RHEOLWR SGRIWTINI** |

**Natur a rheswm am adrodd:**
Mae angen i'r Pwyllgor Gwaith ystyried unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad a rhaid i'r Cyngor eu cymeradwyo.

| A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw |
|---|
| I enwi'r ddau Pwyllgor Sgriwtini a nodi nifer o cyfarfodydd arferol ym mhob blwyddyn dinesig. |

| B - Ystyriaethau |
|---|
| Gofynnir am ganiatâd i ychwanegu gwerth at waith y ddau Bwyllgor Sgriwtini |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | • Ymgynghori gyda Cadeiryddion ac Is-Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini.<br>• Ymgynghori gyda'r Dirpwy Prif weithredwr Weithredwr. |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| **10** | **Economaidd** | |
| **11** | **Amgylcheddol** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **12** | **Trosedd ac Anrhefn** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **13** | **Cytundeb Canlyniadau** | |

| CH – Crynodeb |
|---|
| Ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2013:-<br>Gofyn i'r Cyngor gymeradwyo enwi'r ddau Bwyllgor Sgriwtini yn "Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol" a "Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio". Yn ogystal, gofynnir am ganiatâd i gynnal cyfarfodydd arferol y ddau Bwyllgor Sgriwtini chwe gwaith ym mhob blwyddyn dinesig. |

| D - Argymhelliad |
|---|
| • Galw'r ddau Bwyllgor Sgriwtini newydd yn "Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol" a "Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio".<br>• Cynnal cyfarfodydd arferol o'r naill Bwyllgor Sgriwtini a'r llall chwe gwaith ym mhob blwyddyn dinesig. |

**Enw awdur yr adroddiad:** **Bev Symonds**
**Teitl Swydd:** **Rheolwr Sgriwtini**
**Dyddiad:** **9 Ebrill 2013**

| Atodiadau: |
|---|
| Adroddiad ( amgaeedig) |

| Papurau Cefndirol: |
|---|
| - |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH a'r CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **22 EBRILL 2013 a 23 Mai 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD** |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD JOHN CHORLTON** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **SWYDDOG MONITRO** |
| **NATUR A RHESWM DROS ADRODD:** | **GOFYN I'R CYNGOR GYMERADWYO ENWAU'R DDAU BWYLLGOR SGRIWTINI A NIFER Y CYFARFODYDD ARFEROL YM MHOB BLWYDDYN SIROL** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**
Gofyn i'r Cyngor gymeradwyo enwi'r ddau Bwyllgor Sgriwtini yn "Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol" a "Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio". Yn ogystal, gofynnir am ganiatâd i gynnal cyfarfodydd arferol y ddau Bwyllgor Sgriwtini chwe gwaith ym mhob blwyddyn dinesig.

Gofynnir am ganiatâd i ychwanegu gwerth at waith y ddau Bwyllgor Sgriwtini. Cadarnheir na fydd y newidiadau yn cael effaith ar y gallu i alw cyfarfodydd arbennig o Bwyllgorau Sgriwtini gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol, unrhyw 5 aelod o'r Pwyllgor, neu gan y Prif Weithredwr os bydd ef/hi yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol.

**CEFNDIR**
Cyflwynwyd adroddiad yn manylu ar newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor(gan gynnwys sefydlu dau Bwyllgor Sgriwtini yn dilyn etholiadau 2 Mai 2013) i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror 2013 ac i'r Cyngor Sir ar 5 Mawrth 2013.

Ar 18 Chwefror 2013, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn newid Cyfansoddiad y Cyngor fel y nodwyd yn yr adroddiad (sef mewn perthynas â hyfforddiant i Aelodau, y strwythur pwyllgorau, Protocol ar gyfer Wardiau Amlaelod a Phrotocol Aelodau/Swyddogion) ac awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad.

Ar 5 Mawrth 2013, cytunodd y Cyngor Sir i gymeradwyo'r newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Gwaith.

Ar 21 Mawrth 2013 gofynnodd y Dirprwy Brif Weithredwr y dylid ymestyn yr enw a chylch gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth i gynnwys materion adfywio economaidd oherwydd blaenoriaethau yn y Cynllun Busnes Corfforaethol ac i gael ei enwi yn "Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio", a bod pob Pwyllgor Craffu yn cael chwe chyfarfod arferol mewn bob blwyddyn ddinesig.
Gofynnir am ganiatâd i ychwanegu gwerth at waith y ddau Bwyllgor Sgriwtini

**ARGYMHELLIAD**
- Galw'r ddau Bwyllgor Sgriwtini newydd yn "Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol" a "Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio".
- Cynnal cyfarfodydd arferol o'r naill Bwyllgor Sgriwtini a'r llall chwe gwaith ym mhob blwyddyn dinesigl.

Adoddiad Gan: Bev Symonds ( Rheolwr Sgriwtini)  Dyddiad: 9 Ebrill 2013

This page is intentionally left blank

**RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN**
**[Ddim i'w gyhoeddi oherwydd Paragraff(au) …… Rhestr 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972]**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad** | **15 Ebrill 2013** |
| **Pwnc** | **Polisi Corfforaethol Gwiriadau Troseddol** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Swyddog Monitro** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Rhys Hughes Uwch Gyfreithiwr** |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br>**Diweddaru y Polisi Corfforaethol oherwydd cyfreithiau newydd** | |

**A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

Mabwysiadwyd Polisi Corfforaethol gan y Cyngor llawn ar 12 Mai 2011. Nodwyd bryd hynny byddai rhaid diweddaru'r Polisi yng ngoleuni bwriad Llywodraeth Ganolog i ddeddfu.
Mae'r Polisi yn gweithredu'r cyfreithiau newydd gan sicrhau fod pawb sy'n gwasanaethu ar ran y Cyngor yn derbyn gwiriad troseddol ble mae'r angen.

**B - Ystyriaethau**

Rhaid diweddaru'r Polisi Corfforaethol yn unol a'r cyfreithiau newydd.

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | Dim |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Angen diweddaru'r Polisi |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | Eglurdeb i'r Adrannau hynny sy'n ymgymeryd gwiriadau |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| | | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Adran fydd angen gweithredu'r Polisi newydd |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Adran fydd angen gweithredu'r Polisi newydd |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Bu ymgynghori dwys parthed y Polisi gwreiddiol |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | |

| CH – Crynodeb |
|---|
| Mae'r Polisi Corfforaethol presenol angen ei ddiwedaru I gyd-ymffurfio gyda'r cyfreithiau newydd. |

## D - Argymhelliad

1. Mabwysiadu'r Polisi
2. Cyhoeddi'r Polisi ar wefan y Cyngor
3. Trefnu gweithdai hyfforddi

**Enw awdur yr adroddiad Rhys Hughes**
**Swydd Uwch Gyfreithiwr**
**Dyddiad 11.04.2013**

## Atodiadau:

2[il] Bolisi Gwiriadau Troseddol Corfforaethol

## Papurau Cefndirol:

# Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council

# 2IL BOLISI GWIRIADAU TROSEDDOL

DRAFT 2

Mae'r Polisi hwn yn effeithio i) staff parhaol a dros dro ii)contractwyr annibynnol iii) aelodau etholedig a chyfetholedig iv)gwirfoddolwyr. Diweddariad i'r Polisi gwreiddiol a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn ar 12.05.2011 ydi hwn /

| | |
|---|---|
| *Paratowyd gan Swyddog Monitro / Prepared by:Monitoring Officer* | *L . Ball Cyf/Ref O.R.Hughes* |
| | |
| | |
| | |
| *CyngorLlawn / Full Council:* | |
| | |
| | |
| | |
| *Gweithredwyd / Implemented:* | |

CC-014538-ORH/169031 08.04.2013

# Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council

**Cynnwys :**


| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwyniad | tud 3 |
| A | Y Gyfraith | tud 3 |
| B | Archwiliadau a diffiniadau | tud 4 |
| C | Gweithdrefnau | |
| C1 | Cyflogaeth | tud 5 |
| C2 | Troseddau | tud 5 |
| C3 | Asiantaeth | tud 6 |
| C4 | Aelodau | tud 6 |
| C5 | Gwirfoddolwyr | tud 7 |


DRAFFT 2

**POLISI GWIRIADAU TROSEDDOL**

**Cyflwyniad**

Newidiodd cyfraith ymgymeryd gwiriadau troseddol ar 20fed Medi 2012. Gweinyddir rhain gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (“GDG”).

Mae’r Cyngor yn benderfynnol i ddiogelu lles y rhai sy’n derbyn gwasanaeth ganddo. Mae dyletswydd gofal statudol arno tuag at aelodau bregus cymdeithas dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 wedi ei newid gan Ddeddf Amddiffyn Hawliau 2012 a’r Gorchymyn Eithriadau i Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1975 a deddfwriaeth perthnasol eraill.

Bydd y Polisi yma yn berthnasol i’r rhai o oedran 16 a hyn sy’n ceisio cyflgaeth neu am gyfleoedd gwirfodoli gyda’r Cyngor gwaith tymhorol neu leoliadau, gyrrwyr a ganiateir, aelodau etholedig, contractwyr ac eraill mewn swyddogaeth sy’n caniatau cyswllt heb ei oruwhwilio gyda unigolion bregus.

Mae’r Cyngor wedi’w gofrestru i ymgymeryd gwiriadau gyda’r GDG sy’n ychwanegol at wiriadau cefndir, cymeriad ac archwiliadau eraill yn unol a’r Polisi Recriwtio a Dethol Gwasanaeth Adnoddau Dynol cyfredol.

Mae pob Cyfadran yngyfrifol am weithredu’r Polisi yma a gellir ychwanegu ato gyda canllawiau mewnol – er engrhaifft ymgymeryd gwiriad gyda corff profesiynol dylai’r ymgeisydd fod yn aelod ohono.

**SYLWER:**
**Efallai y bydd gan berson a effeithir gan y Polisi hwn wiriad GDG i’r lefel angenrheidiol. Caniateir disgresiwn i’r Gyfadran dderbyn y gwiriad GDG gwreiddiol ynghyd â’r dystiolaeth angenrheidiol i gadarnhau pwy yw’r person (gweler C1d isod) ar yr amod nad yw’r gwiriad GDG fwy nag 1 oed. Nid yw hyn yn gwneud i ffwrdd â’r angen i adnewyddu gwiriad GDG o’r fath yn unol â’r polisi hwn.**

Gellir cael gwyodaeth pellach o’r Polisiau

Gwasnaaeth Datgelu a Gwahardd
Cyfeiriadau i’r GDG, Adsefydlu Troseddwyr a Hunan Ddatgu.

**A. Y GYFRAITH**

- Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a’r Gorchymyn (Eithriadau) 1975
- Deddf yr Heddlu 1997 a’u Rheoliadau
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Diogelu Plant 1999
- Deddf Safonau Gofal 2000
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 (wedi’w newid)
- Deddf Amdiffyn Rhyddid 2012
- Cod Gweithredu Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd



DRAFT 2

## B. MATHAU O WIRIADAU GDG

**1. Safonol** swyddogaeth a gynhwysir yn Gorchymyn Eithriadau 1975 i'r Ddedf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

**2. Uwch** swyddogaeth a gynhwysir yn Gorchymyn Eithriadau 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a Rheoliadau Deddf yr Heddlu.

**3. Uwch a Rhestr Gwahardd Plant a/neu Oedolion** swyddogaeth a gynhwysir yn y diffiniad o Weithgaredd a Reolir dan Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 wedi'w newid gan Deddf Amddifyn Rhyddid 2012.

**4. Oedolion Gyntaf** cais am wiriad brys GDG mewn dan amgylchiadau eithriadol am swyddogaeth gyda oedolion bregus yn unig.

**5. Diffininiadau a Prosesau**

"Pobl Fregus" – mae hyn yn cynnwys pob plentyn ac oedolyn bregus.

a) Mae'r plentyn yn rhywun sydd dan 18 oed (Deddf Plant 1989 a 105 (1)).

b) Diffinnir oedolyn bregus fel oedolyn "sydd angen neu a all fod angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oed neu salwch ac sydd ddim yn gallu neu efallai fydd ddim yn gallu gofalu amdano'i hun neu amdani ei hun neu'n methu gwarchod ei hun yn erbyn niwed sylweddol neu ecsbloetio difrifol" Comisiwn y Gyfraith (o "Who decides?; Making decisions on behalf of mentally incapacitated adults 1997" fel y cafodd ei fabwysiadu gan Bolisi a Gweithdrefn Gogledd Cymru ar gyfer diogelu Oedolion Bregus).

**Cadw'r wybodaeth o'r GDG**

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data 1998 a Chôd Ymarfer GDG ynghylch trin, defnyddio, storio, cadw a chael gwared o wiriadau a gwybodaeth a ddatgelwyd yn y modd cywir.

**6. Sut i benderfynu a oes angen Gwiriad Safonol ynteu Wiriad uwch**

a) Staff, Contractwyr Lleoliadau  Gyrrwyr a Gwirfoddolwyr:-

Bydd Cyfadrannau'n cymharu'r swydd disgrifiad gydar Atodiadau yn Polisi Recriwtio a Dethol Gwasanaeth Adnoddau Dynol er mwyn penderfynu a oes angen gwiriad GDG ac os oes st fath. Caiff hyn ei gofnodi yn yr Adain Adnoddau Dynol.

b) Ni fydd posib cychwyn unrhyw swydd y mae angen gwiriad heb dystysgrif derbyniol GDG.

c) Caiff yr holl wiriadau GDG eu hailgynnal bob 3 blynedd ar gyfer yr holl swyddi hynny y mae angen gwiriadau ar eu cyfer.

d) Efallai y bydd Cyfadrannau'n penderfynu ailgynnal gwiriad GDG yn amlach neu'n newid y math o wiriad a hynny'n unol â'u disgresiwn.



DRAFT 2

**C1 Y drefn pan fydd yr Awdurdod Lleol yn recriwtio i swydd sydd angen gwiriad GDG**

a) Bydd pob swydd y mae angen gwiriad GDG ar ei chyfer yn cael ei hysbysebu fel un sy'n amodol ar wiriad GDG boddhaol. Bydd y pecyn ymgeisio ar gyfer swydd o'r fath yn cynnwys Datganiad Polisi'r Awdurdod ar Recriwtio cyn- Droseddwyr.

b) Ar gyfer pob swydd sydd angen gwiriad GDG, bydd raid datgelu'r holl droseddau gan gynnwys collfarnau sydd wedi dod i ben, manylion am unrhyw rybuddion neu geryddau. Mae cyflogi yn amodol ar wiriad GDG boddhaol.

c) Bydd Ffurflenni Datgeliadau GDG yn cael eu hanfon unwaith y bydd cynnig o swydd wedi cael ei dderbyn gyda'r nod na fydd cyflogaeth yn cychwyn hyd oni fydd gwiriad GDG boddhaol wedi dod yn ôl. Bydd penderfyniad ynghylch a yw gwiriad GDG yn foddhaol ai peidio yn cael ei wneud gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol mewn ymgynghoriad gydag AD.

d) Bydd yr ymgeisydd ar gyfer y swydd yn cadarnhau pwy ydyw drwy ddarparu dogfennau gwreiddiol ar gyfer eu harchwilio a'u copïo. Mae'r canlynol yn hanfodol:

- Tystysgrif Geni
- Tystiolaeth o unrhyw newid enw.
- Pasport/trwydded yrru cerdyn ffotograff
- 2 ddogfen yn profi'r cyfeiriad cyfredol e.e. biliau gwasanaethau neu ddatganiadau banc/cerdyn credyd.

**C2 Cofnodiadau troseddol a ddatgelwyd gan yr ymgeisydd – Gweithwyr sy'n derbyn Cyflog**

a) Ni fydd collfarnau sydd wedi dod i ben/ rhybuddion/neu geryddau o angenrheidrwydd yn gwahardd person rhag cael swydd.

b) Rhoddir sylw i natur y materion a ddatgelwyd gan yr ymgeisydd yn ei ffurflen gais a pha mor berthnasol ydynt i'r swydd yr ymgeisiwyd amdani. Ystyrir hyn gan swyddogion dynodedig yn y Gyfadran a fyddai'n cyfweld y person ac yn asesu'r risg yn erbyn meini prawf penodol.

c) Gall methiant i ddatgelu hanes o droseddu yn y gorffennol ar adeg cyflwyno'r cais gael ei ystyried fel ymgais i gael swydd trwy dwyll ac fel arfer, bydd yn arwain at dynnu'n ôl unrhyw gynnig o waith.

d) Bydd methiant i ddychwelyd Ffurflen Datgeliad GDG wedi'i chwblhau'n gywir (ynghyd â'r dogfennau sydd eu hangen i bwrpas profi pwy yw'r person) o fewn cyfnod amser a bennwyd gan y swyddog a ddynodwyd i oruchwylio'r broses recriwtio, yn arwain at dynnu'n ôl unrhyw gynnig o waith.

e) Mae gwiriad GDG yn un rhan o broses recriwtio gadarn ac nid yw'n gwneud i ffwrdd â'r angen am broses ddethol drwyadl sy'n briodol i lefel y swydd, siecio tystlythyrau gwaith a phersonol hanes cyflogaeth ac aelodaeth o unrhyw gorf/gyrf profesiynol .

DRAFT 2

**C3 Contractwyr Annibynnol a mathau eraill o Weithwyr Asiantaeth ("y contractwr") sy'n gwneud gwaith ar ran y Cyngor**

a) Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r gwaith fydd yn cael ei wneud (yr un modd â staff cyflogediga) a bydd yr hysbyseb a'r contract gwaith yn datgan a oes angen gwiriad GDG safonol neu uwch boddhaol. Ni fydd y gwiriad GDG ragor na 1 oed.

b) Bydd y contractwr yn cyflwyno gwiriad SCT gwreiddiol ynghyd â thystiolaeth o bwy ydyw (fel a nodir uchod ) ar gyfer pob person a fydd yn gwneud y gwaith. Bydd y Gyfadran yn cadw copïau yn ddiogel.

c) Bydd contractwr gyda hanes o droseddu sy'n dymuno gweithio gyda phobl fregus yn agored i'r un broses â honno a nodir yn C.2 b uchod.

d) Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r gofynion hyn yn ychwanegol at ofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Rheoliadau sy'n berthnasol i'r Ddeddf a gofynion Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a deddfwriaeth perthnasol arall.

**C4 Aelodau Etholedig a Chyfetholedig y Cyngor**

a) Mae Aelodau yn rhan annatod o waith y Cyngor. Y nhw yw wyneb cyhoeddus y Cyngor ac maent yn gwneud penderfyniadau hollbwysig mewn perthynas â materion sensitif, gan gynnwys penderfyniadau sy'n cael effaith sylfaenol ar fywydau a budd plant ac oedolion bregus. Bydd gwaith rhai Aelodau yn golygu y byddir yn datgelu gwybodaeth bersonol a sensitif iddynt am blant ac oedolion bregus fel unigolion, ac fel grŵp, yng nghyd-destun cyflwyno gwasanaethau Addysg ac/neu Wasanaethau Cymdeithasol. Bydd y broses GDG Uwch yn sicrhau y bydd pob Aelod sy'n ymgymryd â'r dyletswyddau hyn yn medru gwneud hynny.

b) Ar hyn o bryd bydd angen gwiriad GDG Uwch ar bob Aelod sy'n gwasanaethu neu'n mynychu'r Pwyllgorau, Paneli neu'r Byrddau canlynol :

Pwyllgor Gwaith
Panel Rhiantu Corfforaethol
Pwyllgorau Sgriwtini pan fyddant yn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud ag Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig
Pwyllgor Trwyddedu
Paneli Tasgau Perthnasol
Bwrdd Lleol Diogelu Plant

c) O fewn mis o gael eu penodi i unrhyw un o'r rolau a ddisgrifir ym mharagraff C4 b) uchod bydd pob Aelod etholedig a chyfetholedig yn cwblhau ffurflen gais gwiriad GDG Uwch ac yn cyflwyno'r gwaith papur cefnogol i brofi pwy ydynt. Bydd raid gwneud hyn eto ar gychwyn pob tymor newydd mewn swydd(hynny yw, yn gyffredinol, pob 4 blynedd). Ar adeg ei benodi, os oes gan Aelod, neu Aelod cyfetholedig, wiriad GDG Uwch sy'n 12 mis oed neu lai, bydd y gwiriad hwnnw yn parhau i fod mewn grym am weddill cyfnod yr aelod yn y swydd ac ni fydd angen gwiriad GDG arall.



DRAFT 2

d) Oni fydd yr aelodau yn cymryd rhan yn y broses wirio GDG neu os yw'r wybodaeth a ddatgelwyd yn y gwiriad GDG Uwch yn codi pryderon ynglŷn â'r Aelod, yna bydd y Swyddog Monitro, yn dilyn ymgynghori gyda'r Arweinydd Grŵp perthnasol (neu bob Arweinydd Grwp yn achos unrhyw aelod digysylltiad neu gyfetholedig):-

i) Yn penderfynu a yw Aelod Etholedig neu Gyfetholedig yn addas i gael ei benodi i unrhyw swydd fewnol neu gorff allanol.

ii) Yn rhoi gwybod i'r Aelod am hynny ac os ydyw'r aelod eisoes mewn swydd neu'n gwasanaethu ar gorff allanol, yn gwahodd yr aelod i dynnu'n ôl o wasanaethu arnynt.

iii) Bydd methiant i gydymffurfio gyda phenderfyniad o'r fath yn gyfystyr â thorri polisi'r Cyngor a gall fod yn destun cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac/neu hysbysiad am y pryder i unrhyw gorff allanol priodol. Gall y mater hefyd fod yn fater disgyblu o fewn unrhyw grwp gwleidyddol perthnasol.

e) Y Swyddog Monitro fydd yn dal yr holl wybodaeth ynghylch datgeliadau gwiriadau a hynny'n gwbl ddiogel.

**C5 Gwirfoddolwyr ar ran y Cyngor neu Ymgymerwyr Annibynnol**

a) Diffinnir gwirfoddolwr fel person sy'n ymgymeryd gweithgaredd sy'n golygu treilio amser di-dal (oni bai am dreuliadau) yn gwneud rhywbeth er budd arall (unigolion neu grwpiau) oni bai am neu yn cynnwys perthnasau agos.

Bydd Cyfadrannau'n penderfynu a oes angen gwiriadau GDG, ar be lefel a pha mor aml a chan bwy.

DRAFT 2

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | CYNGOR |
| **DYDDIAD:** | 23 MAI 2013 AM 11:00 YB |
| **TEITL AR ADRODDIAD:** | MABWYSIADU PROTOCOL DATRYS LLEOL NEWYDD I DDISODLI'R PROTOCOL CYFREDOL AR GYFER HUNANREOLEIDDIO |
| **ADRODDIAD GAN:** | CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | GWELLA'R TREFNIADAU CYFREDOL AR GYFER DELIO GYDA RHAI CWYNION CÒD YMDDYGIAD |

## CEFNDIR

1. Ym mis Gorffennaf 2009, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad bod y Cyngor yn wael am reoleiddio ei ymddygiad eu hun a bod angen gwneud gwelliannau.

2. I ymateb i'r pryder hwnnw, ar 4 Mawrth 2010, mabwysiadodd y Cyngor brotocol ar gyfer hunanreoleiddio a ddyfeisiwyd gan Arweinyddion Grwpiau'r Cyngor. Mae copi o'r Protocol ynghlwm yn **Atodiad 1**.

3. Mabwysiadwyd y Protocol yn unfrydol gan y Cyngor ac adolygwyd ei weithrediad, gan y Pwyllgor Safonau, fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor hwnnw.

4. Yn ystod ei adolygiad cyntaf o'r Protocol, penderfynodd y Pwyllgor Safonau beidio ag argymell unrhyw newidiadau oherwydd ei bod yn ymddangos (ar y pryd), y byddai Protocol enghreifftiol Cenedlaethol yn debygol o gael ei lunio o ganlyniad i'w waith gan Gymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ac ACSeS (Grŵp Swyddogion Monitro Cymru).

5. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn y Llywodraeth ar hyrwyddo democratiaeth leol, eglurodd y Pwyllgor Safonau hefyd i Lywodraeth Cymru a byddai'n dymuno gweld model cenedlaethol. Mae copi o'r ymateb hwnnw ynghlwm yn **Atodiad 2**.

6. Beth bynnag, pan ddaeth yn amser i'r Pwyllgor Safonau adolygu'r Protocol eto, roedd yn glir nad oedd unrhyw gynnydd sylweddol wedi ei wneud ar sail genedlaethol, ac eithriol dogfen grynhoi a oedd yn amlinellu arferion yr wyth Cyngor Sir yng Nghymru a oedd wedi mabwysiadu rhyw fath o ddatrysiad lleol. Mae copi o'r crynodeb hwnnw ynghlwm yn **Atodiad 3**.

7. O gofio'r diffyg cynnydd ar sail genedlaethol, er gwaethaf y disgwyliadau a fynegwyd gan OGGC ym mis Medi 2012 (**Atodiad 4**), sefydlodd y Pwyllgor Safonau Banel i edrych ar Brotocol cyfredol y Cyngor ac i gyflwyno argymhellion ar gyfer gwelliannau.

## CYD-DESTUN CYFREDOL

8. Yn gyffredinol, daeth y Panel i'r casgliad bod y Protocol a fabwysiadwyd yn 2010 yn rhy araf, yn rhy fiwrocrataidd, ac yn rhy anhylaw, oherwydd bod rhaid bwrw ‘mlaen â chwynion trwy’r Arweinyddion Grwpiau (neu Gadeirydd y Cyngor ar gyfer Aelodau digyswllt). Roedd y Pwyllgor Safonau hefyd yn dymuno dadwleidyddoli rôl y Cadeirydd y Cyngor.

9. Yn erbyn y casgliadau hynny, cynlluniodd y Panel gyfres o un ar bymtheg o egwyddorion cyffredinol ar gyfer Protocol Datrysiad Lleol newydd. Cyflwynwyd yr egwyddorion hyn i’r Arweinyddion Grwpiau gan y Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2013.

10. Cymeradwywyd yr egwyddorion cyffredinol gan yr Arweinyddion Grwpiau ac, ar 26 Chwefror 2013, fe’u cylchredwyd i bob Aelod a phob Uwch Swyddog, i bwrpas ymgynghori arnynt. Mae copi o'r ymgynghoriad ynghlwm yn **Atodiad 5.**

11. Yn ystod y cyfnod pan oedd y Protocol yn cael ei ddiwygio, dylai Aelodau fod yn ymwybodol fod y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cylchredeg llythyr i Arweinyddion pob Cyngor Sir yn gofyn i’r Cynghorau hynny nad oedd ganddynt brotocolau o'r fath eu mabwysiadu cyn gynted ag y bo modd. Mae copi o lythyr y Gweinidog ynghlwm yn **Atodiad 6** ac mae’r rhannau perthnasol wedi eu hamlygu.

12. O ganlyniad i lythyr y Gweinidog, mae’r drafodaeth o gwmpas gweithredu protocol model cenedlaethol sengl wedi ei adfywio, ond, hyd yma, ni welwyd unrhyw gynnydd pendant nac amserlen. Wrth gwrs, os bydd y sefyllfa yn newid, rhoddwn yr Adroddiad pellach i'r Cyngor ei ystyried.

## ARGYMHELLIAD

13. Yn y cyfamser, o gofio’r ansicrwydd ynghylch datblygu protocol cenedlaethol, a phryderon y Pwyllgor Safonau am y trefniadau lleol cyfredol, Argymhellir bod y Cyngor yn diddymu'r Protocol a fabwysiadwyd ar y 4 Mawrth 2010, a mabwysiadu’r Protocol newydd sydd ynghlwm yn **Atodiad 7** yn ei le.

## DATRYSIAD

14. “Mae'r Cyngor yn penderfynu diddymu'r Protocol Hunanreoleiddio a fabwysiadwyd ar 4ydd Mawrth 2010 ac yn mabwysiadu i ddod i rym ar unwaith, Protocol Datrysiad Lleol newydd yn unol â'r ddogfen sydd ynghlwm yn **Atodiad 7** i'r Adroddiad hwn”.

PAPUR / ENCLOSURE
1

# CYNGOR SIR YNYS MON

# PROTOCOL HUNANREOLI

## Egwyddorion Cyffredinol

- Hyrwyddo ymddygiad o safon uchel er mwyn hybu parch ac ymddiriedaeth ymhlith aelodau a rhwng aelodau a swyddogion

- Onid yw'r haeriad o gamymddwyn ymhlith aelodau yn un difrifol* cymerir pob cam rhesymol i ddatrys unrhyw anghydfod trwy broses fewnol y cytunir arni

- Y cam diwethaf fydd troi at reoleiddwyr allanol

- Bydd yr Aelodau yn osgoi pob gwrthdrawiad personol mewn fforwm gyhoeddus, ac yn arbennig yn y Cyngor llawn a thrwy'r cyfryngau

- Ni fydd yr ymrwymiadau hyn yn rhwystro unrhyw drafodaeth na sgriwtini wleidyddol ddilys

- Disgyblaeth ymhlith y grŵp fydd conglfaen yr hunanreoli a bydd yr Arweinyddion Grwpiau yn cymryd y cyfrifoldeb am aelodau'r Grwpiau

- Bydd Arweinyddion y Grwpiau yn gweithio, fel unigolion a chyda'i gilydd, i sicrhau cydymffurfiad gyda'r protocol hwn

- Bydd yr Aelodau yn ymrwymo i hyfforddiant a datblygiad er mwyn cefnogi'r protocol

*tystiolaeth o ddifrod troseddol neu wirioneddol i drydydd parti nad oes modd ei ddatrys, neu ymddygiad lle mae tystiolaeth sylweddol o dorri'r Cod Ymddygiad mewn modd difrifol a phetai hynny'n cael ei brofi yn gallu arwain at gosb gan y Pwyllgor Safonau neu gan Bwyllgor Dyfarnu.

## Osgoi problemau

Er mwyn cyfyngu cymaint ag y bo'n bosib ar nifer yr achosion o haeriadau o dorri'r rheolau mae Arweinyddion yr holl Grwpiau wedi ymrwymo i:-

- **Cynllun Datblygu Aelodau** – byddant yn sicrhau ymrwymiad aelodau eu grwpiau i'r cynllun hwn. Gwneir popeth o fewn rheswm i sicrhau bod y Cynllun Datblygu yn addas i anghenion yr aelodau a hefyd i sicrhau y bydd yr hyfforddiant yn fyr, yn bwrpasol ac yn fywiog – nid hyfforddiant maith, technegol a diflas a hwnnw'n atgoffa rhai aelodau o hyfforddiant y buont arno yn y gorffennol. Sefydlir gweithgor ar y cyd o aelodau, a chan gynnwys y Pencampwr Datblygu Aelodau, aelod o'r Pwyllgor Safonau, Swyddogion a chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i yrru'r Cynllun yn ei flaen, i fesur ei lwyddiant a hefyd i gyflwyno unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r cyfryw Gynllun wrth i hwnnw dyfu ac esblygu.

- **Disgrifiadau Swydd ac Adroddiadau Blynyddol** - Mae Arweinyddion y Grwpiau wedi ymrwymo i sicrhau bod holl aelodau'r grŵp unigol, gan gynnwys y rheini ar y fainc gefn, yn cytuno ac yn llofnodi "Disgrifiadau Swydd" a manyleb unigolyn fel ffordd o atgyfnerthu'r egwyddorion uchod a thaflu mwy o oleuni ar swyddogaeth a chyfrifoldeb yr aelodau.

- **Siartr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** - Bydd y Cyngor yn llofnodi'r Siartr, yn rhoddi pob cefnogaeth i'w amcanion, ac mae hynny'n cynnwys mynd ati i benodi Pencampwr Datblygu Aelodau. Arweinyddion y Grwpiau fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr aelodau unigol yn gwbl ymrwymedig i hyfforddiant ac i gadw'r hyfforddiant hwnnw dan arolwg.

## Swyddogaeth Arweinydd y Grwp mewn Achosion Difrifol

Hwn yw'r diffiniad o achos difrifol:

> ***tystiolaeth o ddifrod troseddol neu wirioneddol i drydydd parti nad oes modd ei ddatrys, neu ymddygiad lle mae tystiolaeth sylweddol o dorri'r Cod Ymddygiad mewn modd difrifol a phetai hynny'n cael ei brofi yn gallu arwain at gosb gan y Pwyllgor Safonau neu gan Bwyllgor Dyfarnu.**

Bydd cwyn gan aelod yn erbyn aelod o'r un grŵp yn cael ei throsglwyddo i Arweinydd y Grŵp. Bydd cwyn gan aelod ynghylch gweithgaredd aelod o grŵp gwleidyddol gwahanol yn cael ei thrafod gydag Arweinydd Grŵp yr achwynydd, ac wedyn bydd hwnnw yn trosglwyddo'r mater i'r Arweinydd Grŵp sydd â chyfrifoldeb am yr aelod hwnnw y ceir cwyn yn ei erbyn.

Bydd Arweinydd y Grŵp hwnnw sydd gyda'r cyfrifoldeb am yr aelod y cyflwynir y gŵyn yn ei erbyn yn trosglwyddo'r mater i'r awdurdod priodol. Ond cyn trosglwyddo efallai y bydd Arweinydd y Grŵp eisiau sylwadau Arweinyddion y Grwpiau eraill. Mae modd cael cyngor technegol am ffeilio cwynion trwy gysylltu gyda'r Rheolwr-gyfarwyddwr neu'r Swyddog Monitro.

## Swyddogaeth Arweinyddion y Grwpiau a Chwynion Llai Difrifol

Bydd cwyn gan aelod yn erbyn aelod o'r un grŵp yn cael ei throsglwyddo i Arweinydd y Grŵp. Bydd cwyn gan aelod ynghylch gweithgaredd aelod o grŵp gwleidyddol gwahanol yn cael ei thrafod gydag Arweinydd Grŵp yr achwynydd, ac wedyn bydd hwnnw yn trosglwyddo'r mater i'r Arweinydd Grŵp sydd â chyfrifoldeb am yr aelod hwnnw y ceir cwyn yn ei erbyn.

Ar ôl derbyn cwyn, swyddogaeth Arweinyddion y Grwpiau yw cymryd cyfrifoldeb am ddisgyblaeth y tu mewn i'r grwpiau. Bydd y drefn o sicrhau disgyblaeth yn y grwpiau yn anelu at fod yn anffurfiol, a sicrhau atebion mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd raid i Arweinyddion y Grwpiau gadw rhai cofnodion ond ni fydd y broses yn cael ei gorlwytho gan ddogfennau. Rhaid i'r pwyslais fod ar hyfforddi, ar addysgu, cymodi a chyflafareddu.

Mewn achosion eithriadol, neu pan fo torri cyson ar reolau, yna bydd modd defnyddio, pan fo'n briodol, gosb megis tynnu'r unigolyn oddi ar bwyllgor neu oddi ar gorff allanol.

Cyn ystyried yr un gosb neu hyfforddiant gall Arweinydd y Grwp priodol ymgynghori gyda phanel anffurfiol (cyfarfod yn breifat) ac arno unrhyw ddau aelod o'r Pwyllgor Safonau. Bydd y Pwyllgor Safonau yn ceisio bod yn deg a bod yn gyson gyda'r ddisgyblaeth honno a orfodir ym mhob grwp.

Yng nghyfarfod arferol nesaf yr Arweinyddion Grwpiau trafodir unrhyw fater disgyblaethol a gyfeiriwyd i Arweinydd Grwp gyda'r Grwp, a chyda'r nod o sicrhau bod cosb deg a chyson yn cael eu defnyddio.

**Aelodau Rhydd**

Yn achos aelodau rhydd bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflawni swyddogaeth Arweinydd Grwp. Bydd pryderon ynghylch ymddygiad unrhyw aelod rhydd yn cael eu trosglwyddo i'r Cadeirydd a bydd ef wedyn yn defnyddio'r un egwyddorion a'r un safonau â'r rheini y bydd yr Arweinyddion Grwpiau yn eu defnyddio o ran hyfforddi, cymodi, cyflafareddu.

Onid yw aelod rhydd yn cytuno i gydweithio yn rhesymol gyda Chadeirydd y Cyngor, neu os ydyw'r torri yn un sylweddol, neu os ydi'r rheolau'n cael eu torri'n gyson, yna gall y Cyngor dynnu'r aelod rhydd oddi ar unrhyw bwyllgor a neilltuwyd iddo gan y Cyngor llawn Bydd cynnig o'r fath yn cael ei gyflwyno gan Arweinyddion y Grwpiau ar y Cyd i'r Cyngor.

Unwaith eto, gall y Cadeirydd neu'r Arweinyddion Grwpiau ofyn i Banel anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau gynnig cyngor ar y gosb briodol i'w defnyddio.

**Torri Rheolaidd**

Pan fo'r rheolau'n cael eu torri'n rheolaidd neu pan fo Arweinyddion y Grwpiau yn pryderu bod ymddygiad aelod neu aelodau yn gwneud drwg i'r berthynas rhwng y grwpiau gwleidyddol neu i enw da'r Cyngor, yna bydd Arweinyddion y Grwpiau'n cyfarfod gyda'r Rheolwr-gyfarwyddwr a'r Swyddog Monitro i gytuno ar ffordd ymlaen. Rhoddir sylw i drosglwyddo materion ar y cyd gan yr Arweinyddion Grwpiau i'r Ombwdsmon, yng nghyswllt torri rheolau lefel isel yn gyson. Yn ogystal, bydd yr Arweinyddion Grwpiau, gyda'i gilydd, yn cymryd y cyfrifoldeb hwn yng nghyswllt aelodau rhydd.

**Gweithredu y tu allan i'r Protocol**

Pan fo aelod yn cymryd camau y tu allan i'r Protocol hwn (fel enghraifft cyfeirio mater yn uniongyrchol i'r Ombwdsmon, i'r Archwilwyr neu'r cyfryngau etc) yna bydd yr Arweinyddion Grwpiau yn trin peth o'r fath fel torri'r ddisgyblaeth mewn modd difrifol. Y dull hwn y bydd y Cadeirydd yn ei ddilyn hefyd yng nghyswllt ymddygiad aelodau rhydd.

**Ymchwiliadau**

Os bydd angen gwneud rhywfaint o ymchwiliadau mewnol ynghylch cwyn yna bydd Arweinydd y Grwp y mae'r aelod y cyflwynwyd y gŵyn yn ei gylch yn rhan ohono, yn rhydd i ofyn i'r Rheolwr-gyfarwyddwr drefnu i'r ymchwiliadau ddigwydd. Gan fod raid gwneud defnydd priodol bob amser o adnoddau'r Cyngor bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn llwyr y Rheolwr-gyfarwyddwr – yn gyntaf bydd raid iddo ef fod yn berffaith fodlon bod yr ymchwiliadau yn angenrheidiol ac yn briodol a hynny ar ôl ystyried yr egwyddor o ymateb yn gymesur.

**Pwyllgor Safonau**

- Oherwydd materion o wrthdaro a allai godi bydd yr ymwneud â'r Pwyllgor Safonau bob amser wedi'i gyfyngu i ddim rhagor na dau aelod. Bydd y ddau aelod yn cyfrannu yn ôl rota ac yn ôl pwy fydd ar gael.

- Bydd Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn chwarae rhan gefnogol / cynnig cyngor i Arweinyddion y Grwpiau a chychwynnir y broses hon yn ôl dymuniad Arweinydd y Grwp mewn unrhyw achos penodol.

- Bydd cyfarfodydd o'r fath yn rhai preifat ac anffurfiol.

- Bydd yr holl ddogfennau, nodiadau mynychu, nodiadau ffeil neu nodiadau cynghori sy'n cael eu cyfnewid rhwng Arweinydd y Grwp (neu Gadeirydd y Cyngor yn ôl yr angen) ac aelodau'r Pwyllgor Safonau bob amser yn breifat ac yn gyfrinachol.

- Pryd bynnag y bydd y Pwyllgor Safonau yn gweithredu fel corff sy'n cynnig cyngor i Arweinyddion y Grwpiau/Cadeirydd y Cyngor, ni fydd ganddo hawl i gosbi. Ond mater i Arweinydd y Grwp fydd gofyn i'r Pwyllgor Safonau, fel y cam diwethaf un, ryddhau cosb gyhoeddus yn erbyn aelod o grwp. Pan fo sylw yn cael ei roddi i gamau o'r fath, bydd yr aelod a all fod yn destun cerydd neu gosb, yn cael cyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau i aelodau'r Pwyllgor Safonau, un ai yn bersonol neu'n ysgrifenedig.

- Un o'r argymhellion y gall y Pwyllgor Safonau ei wneud yw argymhelliad bod Arweinydd Grwp yn cymryd camau yn erbyn un o aelodau'r Grwp a all olygu ei dynnu oddi ar Bwyllgor neu gorff allanol neu hyd yn oed roi gwybod am yr aelod i'r Ombwdsmon neu i reolydd priodol arall.

**Cwynion gan Swyddogion**

- Bydd yr egwyddorion a'r trefniadau sydd yn y Protocol hwn, hefyd yn berthnasol i gwynion gan swyddogion ac eithrio:-

    - y bydd unrhyw gŵyn ganddynt hwy yn cael ei chyfeirio yn y lle cyntaf, trwy'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol, i'r Rheolwr-gyfarwyddwr. Wedyn bydd y Rheolwr-gyfarwyddwr, os ydyw'n briodol, yn trosglwyddo'r mater i Arweinydd y Grwp priodol neu i Gadeirydd y Cyngor.

    - Ni fydd y Protocol hwn yn amharu dim ar hawliau contract unrhyw swyddog i gyflwyno cwynion dan drefniadau neu'r weithdrefnau Adnoddau Dynol.

PAPUR / ENCLOSURE
2

**RESPONSE OF THE STANDARDS COMMITTEE IN RESPECT OF THE WELSH GOVERNMENT'S WHITE PAPER ON PROMOTING LOCAL DEMOCRACY**

**Question 29**: **Should the Panel be empowered to require local authorities to publish information relating to all remuneration received by individual councillors in connection with the performance of public duties?**

Yes √ No

But it should include expenses and there should be clarity around the definitions of key elements like "publish", "remuneration", "public duties"; to ensure consistency and comparability.

**Question 38**: **What are the practical barriers to extending the local resolution process to community and town councils and how might they be overcome?**

Any process / mechanism for local resolution needs to remain within the relevant Town / Community Council as there are significant resource implications if Standards Committees and Monitoring Officers are required to support the process.

**Question 39**: **To what extent is it desirable or necessary to modify the current statutory framework or model code of conduct to facilitate local resolution of complaints?**

- To achieve consistency, the first sift, currently required by statute, should remain. However, matters referred to the PSOW, which fail to meet his threshold test, should be referred back for a decision to be taken at local level as to whether or not the matter is suitable for local resolution. As things stand, that decision will be discretionary falling outside the statutory framework.

- However there is no statutory requirement for authorities to adopt a local resolution procedure, much less a requirement for consistency in local protocols. We consider that a model local resolution protocol would be desirable to ensure consistency, transparency and to avoid duplication. At the very least, guidance should be issued setting out the general principles, which would need to address key issues, such as :-

  - Local resolution protocols should relate only to Member / Member complaints;

  - Having completed the first sift, and failing to reach the PSOW's threshold,a matter referred back for local resolution must be capable of early rejection if spurious, trivial or time wasting. There needs to be clarity about who exercises that discretion, as well as how it is exercised, as the process may attract controversy. Our view is that the decision should be taken by an independent member of the Standards Committee, in consultation with the Monitoring Officer. We appreciate that there are other options.

  - There needs to be clarity around the role of the Standards Committee in any local resolution process.

  - There needs to be clarity around potential outcomes from such a process.

**Question 40**: **Should the ethical framework in Wales be more radically modified (e.g. to introduce local assessment and investigation of all alleged breaches of the code of conduct) and, if so, how?**

Yes No √

A first sift at national level is still desirable for fairness and consistency, and to avoid "tit for tat" complaints.

**Question 41: Are the "call-in" arrangements sufficient, or should cases which fall just short of the Ombudsman's current criteria be routinely referred for local investigation and determination?**

Yes No √

All cases of Member / Member complaints, which fall short of PSOW's current threshold, should be referred for local resolution but there must be a discretion at a local level about whether or not to pursue local resolution, or reject the complaint; a kind of informal second sift. Please see the response to question 39.

**Question 42: Is the voluntary cap on indemnities provided for this purpose appropriate and sufficient?**

Yes No √

**Question 43: Should the Welsh Government introduce a statutory limit on indemnities through subordinate legislation?**

Yes √ No

We suggest there should be different caps for hearings before Standards Committees, Adjudication Panel for Wales or High Court, with an overall cap of 20k.

**Question 44: What are the perceived barriers, if any, to the establishment of regional standards committees?**

We favour maintaining local Standards Committees but providing power to "share" independent members, if and when required, on a sub-regional basis

PAPUR / ENCLOSURE
3

**Informal Local Resolution – ACSeS Update**
**November 2011**

## Background

1. A number of authorities have developed or are considering local protocols and processes around managing 'low level' member-on-member complaints. A number of authorities also have similar protocols to manage officer-on-member complaints.

2. The Ombudsman is keen to see a common, national approach implemented and the issue been discussed at the recent Standards Conference, ACSeS meeting and a WLGA-convened working group including ACSeS members, Ombudsman, Chair of the Adjudication Panel and WLGA and WG officials.

3. The working group agreed to refer key issues back to ACSeS for consideration.

## Why have an informal local approach to resolution?

4. A significant number of member-on-member complaints referred to the Ombudsman relate to low-level, behavioural issues, typically during the 'cut and thrust' of council debates. Most, if investigated, would not result in sanction.

5. Such complaints could therefore be more appropriately resolved informally and locally in order to:
   - Speed up the 'complaints' process
   - Avoid unnecessary escalation
     - of the situation which might impact on personal relationships and potential wider damage to corporate governance or wider reputational damage
     - of the formal complaints process and involvement of Ombudsman

6. Such an approach would also complement a new approach that the Ombudsman is planning to introduce in the near future, where low-level complaints, where there is evidence of a breach of the Code but which the Ombudsman considers to be unlikely to attract a sanction, will be referred back for local consideration/investigation.

## Protocol: What might be the key features of any local Members' Protocol?

7. For any local approach to be successful, it would need to be based on consistent principles and features and therefore agreed nationally (via WLGA, ACSeS and Ombudsman). National agreement would ensure consistency around principles and features of both a <u>local protocol</u> and features of a <u>local resolution process</u>.

8. There has been some discussion about the definition or interpretation of a 'low level complaint'. Consensus suggests that it fundamentally relates to behaviour

and conduct, rather than more significant breaches of the code and broadly relates to Paragraph 4 of the Code:

> ***4***. *You must —*
> *(a) carry out your duties and responsibilities with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people, regardless of their gender, race, disability, sexual orientation, age or religion;*
> *(b) show respect and consideration for others;*
> *(c) not use bullying behaviour or harass any person; and*
> *(d) not do anything which compromises, or which is likely to compromise, the impartiality of those who work for, or on behalf of, your authority.*

9. It could possibly also cover Paragraph 6 (1) d:

> *6.—(1) You must —*
> *….*
> *(d) not make vexatious, malicious or frivolous complaints against other members or anyone who works for, or on behalf of, your authority.*

10. The local protocol could therefore reasonably cover a complaint from a member about a member or an officer about a member

11. Should there be agreement (nationally and locally) to introduce informal local protocols, the Ombudsman should revise his guidance to clarify that:

- Although the Code of Conduct states that members have a duty to refer any breach of the Code to the Ombudsman, the Ombudsman would regard any such referral of an alleged breach of the Code to an agreed local resolution process as satisfying this requirement of the Code
- Whilst, members could not and would not be precluded from referring any complaint to the Ombudsman if they so wished, the Ombudsman expects that members would commit to instigate the local resolution process in the first instance.
- Any repeated breach of a local protocol would be referred to Ombudsman.

12. A local Member Protocol would need to complement the Code of Conduct, and might specifically state that it covered Paragraph 4 and 6 (1) d of the code and any local officer-member protocols.

13. The protocol would need to outline the local resolution process (see below).

14. Although the Protocol and resolution process is designed to promote speedy redress and resolution rather than sanction per se, the protocol would need to specify potential 'outcomes'. These could include:
    - Awareness raising about appropriate and acceptable future behaviour or conduct, which might be supported by relevant training (where appropriate)
    - Apology (public nature of apology would be dependent on public nature and/or severity of the complaint)

    - Group discipline were relevant and appropriate, including temporary removal from committee or outside body
    - Referral to Ombudsman for persistent breaches

## Process: What might be the key features of any local resolution process?

15. Although a local approach aims to speed up the complaints process and reduce bureaucracy (in particular in terms of escalation to the Ombudsman), there would need to be a clear and consistent set of stages within which matters could be resolved locally:

**Stage 1**

- Complaint raised with Monitoring Officer (or other designated person) and he/she determines whether complaint relates to Paragraph 4 and 6 (1) d breaches of the Code of Conduct.
- Complainant is advised of the options available to him/her in resolving the complaint:
    - Mutual Resolution – where the Monitoring Officer/designated person meets with individual members to resolve informally
    - Group Leaders' Resolution (i.e. complainant's Group Leader and subject member's Group Leader) – used where breach/complaint is clear i.e. behaviour witnessed in council or public meeting (This option will not be appropriate in some councils)
    - Local Resolution Panel
    - Ombudsman

**Stage 2a – Mutual Resolution**

- Monitoring Officer/designated person manages a meeting of key parties and seeks informal resolution
- If this is not successful members will then have a choice as to which one of the following resolution processes to follow – either 2(b) or (c)

**Stage 2b – Group Leaders' Resolution**

- Monitoring Officer refers complaint to relevant Group Leaders (Council Chair and/or Chair of Democratic Services could be involved for unaffiliated members)
- Group Leaders liaise with complainant/member subject to complaint and Deputy Monitoring Officer/Head of Legal Services (in order to avoid potential future conflict of interest for Monitoring Officer should complaint progress).
- Group Leaders agree and record appropriate sanction which would be actioned immediately and reported to next relevant committee meeting (should committee membership be temporarily suspended) and to next full Council meeting. A public apology (if appropriate) would take place at the next relevant meeting of the council i.e. full council or the committee meeting in which the original breach occurred.

**Stage 2c – Local Resolution Panel**

- Monitoring Officer convenes Local Resolution Panel within **x** days and asks complainant to submit nature of complaint in writing, with the member (subject of complaint) providing a written response.
- Member Resolution Panel should include Group Leaders and Council Chair/Chair of Democratic Services Committee
- Local Resolution Panel meets with complainant and member subject to complaint. The Panel is supported by Deputy Monitoring Officer/Head of Legal Services to avoid future potential conflict of interest should a complaint escalate.
- Contempt and/or unreasonable non-participation at process from member (subject of complaint) would be regarded as escalation and complaint would then be referred to Ombudsman.
- Local Resolution Panel determines whether there is basis to allegation. Unanimity is necessary.
- Local Resolution Panel agree appropriate sanction which would be actioned immediately and reported to next relevant committee meeting (should committee membership be temporarily suspended) and to next full Council meeting. A public apology (if appropriate) would take place at the next relevant meeting of the council i.e. full council or the committee meeting in which the original breach occurred.

**Stage 2d - Ombudsman**

- The complainant can refer matter directly to Ombudsman, and can do throughout process if not content with the process or outcome.

## Issues to consider

16. One person's 'low-level' is another's 'serious breach' - some aspects of Paragraph 4 are serious e.g. bullying, sexism, racism etc. The authority needs to be seen to be dealing with such breaches consistently, proportionately and publicly. It is likely that any conduct in breach of the equality duties will be serious enough to refer to the Ombudsman.

17. Are all stages appropriate? In particular

- During discussions at the working group, some monitoring officers were keen to maintain an informal role to seek mutual resolution. Is this necessary if a consistent informal process is introduced, and also does this risk compromising the Monitoring Officer's role should a complaint escalate? Does this need to be included in a written protocol at all, could it not still be an option to deal with low-level misunderstandings etc.
- Stage 2c – Local resolution Panel is more bureaucratic and requires some organising e.g. getting together a range of Group Leaders within an appropriately short space of time. Although low-level complaints are a rarity currently, if a formal process is introduced, might more members seek to use this process (and therefore consequent implications on Monitoring Officers and Group Leaders time) where they may not have taken an issue further previously as they realised it was perhaps not severe enough to warrant raised a formal complaint to the Ombudsman?

18. What happens where Group Leader/s are the subject of a complaint? Should this automatically be a Stage 2c Local Resolution Panel issue, whereby colleague Group Leaders together with the Council Chair/Chair of Democratic Services considers the issue?

19. What is the appropriate role for the Chair and members of the Standards Committee in this process?

---

**Daniel Hurford, Welsh Local Government Association**
**17th November 2011**

PAPUR / ENCLOSURE
4

Ombwdsmon

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Y Cod Ymddygiad

ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru

## Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

ar gyfer aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol

Fodd bynnag, os wyf yn gwybod am gwynion blaenorol ynghylch yr un aelod ac yn credu y gallai hyn fod yn dangos patrwm o dorri'r Cod, byddaf wedyn yn aml yn dewis ymchwilio. Os oes tystiolaeth prima facie o dorri'r Cod, ac nid wyf yn penderfynu ymchwilio, byddaf bob amser bron yn ysgrifennu at yr aelod dan sylw yn egluro na ddylid ystyried fy mhenderfyniad mewn unrhyw ffordd fel cymeradwyaeth ar gyfer torri'r Cod ac egluro y byddaf yn ei ystyried os ceir rhagor o honiadau o dorri'r Cod.

Mae'r broses byddaf yn ei defnyddio ar gyfer ymchwilio i gwynion ar gael ar fy ngwefan yn www.ombwdsmon-cymru.org.uk. Os byddaf yn canfod bod cyfiawnhad dros gŵyn, gallaf ei chyfeirio at eich Pwyllgor Safonau neu at dribiwnlys a fydd wedi'i gynnull gan Banel Dyfarnu Cymru. Os byddant wedyn yn profi'r gŵyn, gallant roi ystod o gosbau.

**Proses Datrys yn Lleol**

Yn ystod oes y canllawiau hyn rwyf yn disgwyl i awdurdodau lleol ledled Cymru weithredu gweithdrefnau datrys yn lleol i ddelio â chwynion lefel isel sy'n cael eu gwneud gan un aelod yn erbyn aelod arall. Fel rheol bydd y cwynion hyn yn ymwneud â honiadau o fethu â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill fel sy'n ofynnol gan baragraff 4(b) y Cod neu'r ddyletswydd i beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus na gwamal yn erbyn aelodau eraill o dan baragraff 6(1)(d) o'r Cod. Er bod rhyddid i aelod gwyno'n uniongyrchol wrthyf i am gyd-aelod, os bydd y mater o dan sylw yn ymwneud â pharagraffau 4b a 6(1)(d) rwyf yn debyg o gyfeirio'r mater yn ôl at Swyddog Monitro'r Cyngor i'w ystyried o dan y broses hon.

Yn fy marn i mae'n fwy priodol datrys cwynion o'r fath yn anffurfiol ac yn lleol er mwyn cyflymu'r broses ac i sicrhau bod fy adnoddau'n cael eu cyfeirio at ymchwilio i gwynion difrifol. Nod datrys yn lleol yw datrys materion yn gynnar er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu'n ddiangen. Mae hynny'n gallu difrodi'r berthynas a geir rhwng pobl yn yr awdurdod ac enw da'r awdurdod. Gall y broses arwain at ofyn i'r aelod dan sylw ymddiheuro. Fodd bynnag, pan fydd aelod wedi torri protocol lleol ei awdurdod droeon, byddwn yn disgwyl i'r Swyddog Monitro gyfeirio'r mater yn ôl ataf i.

Ar ôl i mi ymchwilio i gŵyn, gallaf gyfeirio'r mater i Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru sydd â'r swyddogaethau canlynol:

**Pwyllgor Safonau**

Pan fydd Pwyllgor Safonau'n penderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu cydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol, caiff benderfynu:

1. nad oes angen cymryd camau yng nghyswllt y methiant hwnnw;
2. dylid ceryddu'r aelod neu'r aelod cyfetholedig; neu
3. dylid gwahardd neu wahardd yn rhannol yr aelod neu'r aelod cyfetholedig rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod na chaiff fod yn fwy na chwe mis.

Mae cerydd o'r aelod dan sylw yn cymryd ffurf gyhoeddus.

PAPUR / ENCLOSURE
5

## Medwen Jones

| | |
|---|---|
| **From:** | Medwen Jones |
| **Sent:** | 26 February 2013 10:11 |
| **To:** | RPJED@anglesey.gov.uk; Bethan Jones; Gwynne Jones; Arthur Owen; Gwen Carrington; Mike Barton; Anwen Davies; Carys Edwards; Carys Emyr Edwards; John Fidoe; Anwen M. Hughes; 'J Huw. Jones (JHJCE@anglesey.gov.uk)'; 'J Huw. Jones (JHJCE@anglesey.gov.uk)'; Gwyn Parry (GXPED@anglesey.gov.uk); Einir W. Thomas; John Rees. Thomas; Dewi R. Williams; Dylan Williams; Shan Lloyd. Williams; Jim Woodcock; Gill Lewis; Lynn Ball; Clare J. Williams; John Chorlton; EufrynDavies; Lewis Davies; Jim Evans; Richard Dew; Cliff Everett; Fflur Hughes; Kenneth Hughes; Robert Ll Hughes; Trefor Lloyd Hughes; R Vaughan Hughes; William I Hughes; Aled M. Jones; Dylan Jones; Eric Jones; Gwilym Jones; Hywel Eifion Jones; O Glyn Jones; Raymon Jones; Robert Llewelyn Jones; Thomas H jones; Clive McGregor; Rhian Medi; Bryan Owen; John Victor Owen; Richard Owen; Bob Parry; Goronwy Parry; ARWEL ROBERTS; Eric Roberts; Gareth Winston Roberts; Peter Rogers; Elwyn Schofield; Ieuan Williams; Selwyn williams; Alun W. Mummery; Vaughan Hughes |
| **Cc:** | Michael Wilson; Islwyn Jones; Leslie Lord; Denise-Harris Edwards; Dilys Shaw; williamevansandsonsltd@hotmail.co.uk; drharrisedwards@yahoo.co.uk; John Roberts; 'hsb1@btinternet.com'; 'shw127@hotmail.co.uk' |
| **Subject:** | PROTOCOL HUNAN REOLEIDDIO / SELF REGULATION PROTOCOL |
| **Attachments:** | 165338 - PDF COPY CYM - Revised Protocol for Self Regulation - Suggested Principles.pdf; 165337 - PDF COPY ENG - Revised Protocol for Self Regulation - Suggested Principles.pdf |

Fel yr ydych yn gwybod, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu Protocol Hunan Reoleiddio i ddatrys anghydfodau bychan sy'n ymwneud ag Aelodau, gyda golwg ar osgoi iddynt gael eu cyfeirio i'r Ombwdsmon.

Fel rhan o'i Raglen Waith ar gyfer 2012/13 mae'r Pwyllgor Safonau wedi adolygu'r Protocol cyfredol, ac wedi rhoi argymhellion ymlaen ar gyfer newid.

Mae'r newidiadau a awgrymir wedi eu hymgorffori mewn cyfres o egwyddorion cyffredinol, ac y mae copi ohonynt ynghlwm.

Mae'r rhain wedi derbyn cytundeb yr Arweinyddion Grwpiau ond cyn i'r Pwyllgor Safonau ddechrau drafftio protocol newydd, byddent yn falch o dderbyn eich barn a'ch sylwadau, yn cynnwys unrhyw gynigion eraill.

Os bydd gennych unrhyw sylwadau, byddwn yn ddiolchgar o'u derbyn, yn ysgrifenedig, erbyn diwedd mis Mawrth.

Llawer o ddiolch,

---

As you know, the County Council adopted a Self Regulation Protocol to resolve minor disputes involving Members, with a view to avoiding escalation of complaints to the Ombudsman.

As part of its Work Programme for 2012/13 the Standards Committee has reviewed the current Protocol, and put forward recommendations for change.

The suggested changes are embodied in a set of general principles, a copy of which is attached.

These have the agreement of the Group Leaders but, before the Standards Committee embarks on drafting a revised Protocol, they would be grateful for your comments and observations, including any alternative proposals.

If you have any comments, I would be glad to receive them, in writing, by the end of March.

Many thanks

Lynn
Pennaeth Adnoddau Cyfreithiol a Gweinyddol/Swyddog Monitro
Head of Function Legal and Administration/Monitoring Officer
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council
Ffôn / Phone: 01248 752586
E-bost / E-mail: LBXCS@anglesey.gov.uk
Document: CC-016592-LB/165334

**Protocol Diwygiedig Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Hunanreoleiddiad**

**Egwyddorion a awgrymir:**

1. Newid yr enw i Protocol Datrysiad Lleol.

2. Cyfyngu'r Protocol i ddelio gyda pharagraffau (4)(b) a (6)(1) (d) y Côd, sef methiant honedig i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill a pheidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn Aelodau neu Swyddogion (copi o'r dyfyniadau ynghlwm).

3. Pwrpas y Protocol yw datrys materion a chymodi yn gyflym yn hytrach na chosbi.

4. Gall unrhyw Aelod wneud cwyn yn erbyn unrhyw Aelod arall neu gall unrhyw Swyddog wneud cwyn yn erbyn unrhyw Aelod.

5. Bydd unrhyw Aelod neu Swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Protocol yn cyflwyno eu cwyn yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro ar ffurflen fer, safonol.

6. Rhaid cyflwyno unrhyw gŵyn o fewn 7 niwrnod gwaith o ddyddiad y digwyddiad neu o fewn 7 niwrnod gwaith o'r dyddiad y daeth y digwyddiad yn hysbys i'r achwynydd.

7. Bydd y Swyddog Monitro yn anfon copi o'r gwyn i'r Aelod y mae a wnelo'r cais ag ef/hi.

8. Bydd gan yr Aelod y mae a wnelo'r gŵyn ag ef/hi 7 niwrnod i anfon ateb i'r Swyddog Monitro.

9. Wedi derbyn unrhyw ateb, neu wedi i'r 7 niwrnod gwaith ar gyfer ateb fynd heibio, bydd y Swyddog Monitro'n trefnu Panel anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau i ystyried y gwyn ar y dyddiad cyntaf sy'n gyfleus.

10. Bydd y Panel yn cynnwys dau Aelod o'r Pwyllgor Safonau (yn eu tro, ac ni fydd yn cynnwys Cynghorwyr Cymuned).

11. Bydd y cyfarfod o'r Panel yn cael ei gynnal yn breifat a bydd unrhyw waith papur y bydd yn ei dderbyn neu'n ei greu yn cael ei gadw'n gyfrinachol (oni bai y bydd unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i'w ddatgelu, e.e. i'r Ombwdsmon; neu os bydd y mater yn dwysau).

12. Bydd y partïon dan sylw yn cael gwahoddiad i fynychu'r Panel a gallant ddod ag unrhyw dystion i'r cyfarfod y maent yn bwriadu dibynnu arnynt.

13. Bydd yr Arweinyddion Grŵp yn cael gwahoddiad a gallant fynychu os ydynt yn dymuno.

14. Bydd y Swyddog Monitro neu ei chynrychiolydd yn mynychu i gynghori'r Panel.

15. Ar ôl clywed gan y partïon ac unrhyw dystion, bydd y Panel yn mynegi barn ac yn gwneud argymhellion ar gyfer datrys y mater. Gall argymhellion o'r fath gynnwys cais i'r Arweinyddion Grŵp gymryd camau, a hynny mewn perthynas hefyd ag Aelodau nad ydynt yn perthyn i unrhyw Grŵp.

16. Cyflwynir adroddiadau ar ganlyniad pob Panel, ar ffurf ddienw, i gyfarfodydd chwarterol o'r Pwyllgor Safonau.

CC-016592-LB/164069

DRAFT

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

3. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu —

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo god sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

4. Rhaid i chi —

(a) cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) dangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) peidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a

(ch) peidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran.

5. Rhaid i chi —

(a) peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) peidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

6. (1) Rhaid i chi —

(a) peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan

unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) adrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac i swyddog monitro eich awdurdod ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r cod ymddygiad hwn;
(ch) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

7. Rhaid i chi —

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) peidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio—

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

8. Rhaid i chi —

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan—

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) prif swyddog cyllid yr awdurdod;

PAPUR / ENCLOSURE
6

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**
**Minister for Llywodraeth Leol and Communities**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
At:
Arweinwyr, Cynghorau Sir a
Chynghorau Bwrdeistref Sirol

Cadeiryddion, Awdurdodau Tân ac
Achub

Cadeiryddion, Awdurdodau
Parciau Cenedlaethol

15 Ionawr 2013

**FFRAMWAITH MOESEGOL LLYWODRAETH LEOL**

Ysgrifennaf i fynd ar drywydd agweddau ar Bapur Gwyn y llynedd sef 'Promoting Lleol Democracy' sy'n ymdrin â materion yn ymwneud â gweithredu'r fframwaith moesegol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000").

Roedd y 'Rhaglen Lywodraethu', a gyhoeddwyd ym Medi 2011, yn cynnwys ymrwymiad i adolygu'r broses ar gyfer gwneud cwyn o dan god ymddygiad aelodau llywodraeth leol i sicrhau na chaiff ei defnyddio ond at y diben y'i bwriadwyd ar ei gyfer.

Cyfleodd Papur Gwyn y llynedd ein barn bod y fframwaith presennol yng Nghymru, a seiliwyd ar set gyffredin o egwyddorion arweiniol a chod ymddygiad enghreifftiol statudol, yn darparu cydbwysedd priodol rhwng rhoi arweiniad i aelodau ar safonau ymddygiad a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd yr ymdrinnir â chamymddygiad yn gyson ac yn briodol. Er hynny, credaf fod lle i arddel dull mwy lleol o ddatrys cwynion lefel isel, heb orfod troi yn syth at you rôl ymchwilio lawn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rôl a allai fod yn gostus o dan rai amgylchiadau.

Gyda hyn mewn golwg, croesawodd y Papur Gwyn y trafodaethau a oedd eisoes wedi digwydd ar yr egwyddor bod awdurdodau lleol yn mynd ati'n wirfoddol i fabwysiadu ymagwedd genedlaethol, gyffredin, at brosesau lleol anffurfiol ar gyfer ymdrin â chwynion aelod yn erbyn aelod a swyddog yn erbyn aelod. Nododd y Papur Gwyn fod Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld y prosesau hynny'n cael eu rhoi ar waith gan bob cyngor sirol a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@Cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

phob cyngor bwrdeistref sirol, gan awdurdodau'r parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub cyn gynted ag y byddai'n ymarferol yn dilyn etholiadau lleol y llynedd.

Croesawodd y Papur Gwyn hefyd drafodaethau sydd wedi digwydd ar gyflwyno cap gwirfoddol o £20,000 ar lefel yr indemniad a gynigir gan awdurdodau i aelodau sy'n destun achos camymddygiad o dan Ddeddf 2000. Mae pwerau'r Awdurdodau i ddarparu indemniadau yn deillio o Orchymyn 'Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006'. Byddai'r pwerau hyn yn eu galluogi i osod terfyn o'r fath ac, unwaith eto, nododd y Papur Gwyn fod Llywodraeth Cymru'n dymuno gweld hwn yn cael ei roi ar waith yn fuan ar ôl etholiadau'r llynedd.

Caf ar ddeall bod rhai awdurdodau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion hyn. Er hynny, rwyf yn pryderu nad yw pob awdurdod o bosibl wedi gwneud cynnydd a thrwy'r llythyr hwn, hoffwn bwysleisio i'r rhai sydd heb wneud hynny eto faint o bwys yr wyf yn ei roi ar fwrw ymlaen â hyn.

Er mwyn i mi gael darlun cyflawn o'r sefyllfa bresennol ledled Cymru, hoffwn ofyn i chi adrodd yn ôl i mi ar ba gamau y mae eich awdurdod wedi'u cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd (gydag amserlenni) i gyflwyno proses ddatrys leol ac i fabwysiadu'r cap gwirfoddol ar indemniadau ar gyfer achosion cod ymddygiad aelodau. Dylid anfon yr wybodaeth hon trwy e-bost erbyn diwedd Chwefror at: CorrespondenceMail-CS@Cymru.GSI.Gov.UK.

I hwyluso cyflwyno prosesau datrys lleol, rwyf yn bwriadu dileu'r rhwymedigaeth ar aelodau a gynhwysir ym mharagraff 6(1)(c) o'r cod ymddygiad enghreifftiol i roi gwybod am achosion posibl o dorri'r cod i'r Ombwdsmon. Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi canllawiau ar sut y bydd yn delio ag achosion lefel isel o dorri'r cod a wneir i'w swyddfa ac ni fydd y rhwymedigaeth hon, o reidrwydd, yn peri oedi o ran cyflwyno prosesau ddatrys lleol lle mae hyn heb gael ei wneud eto.

Yn ogystal â dileu'r rhwymedigaeth i roi gwybod am dorri'r cod i'r Ombwdsmon, rwyf yn bwriadu mynd i'r afael â phryderon sy'n deillio o ddehongli paragraff 10(2)(b) trwy ddileu hyn o'r cod enghreifftiol. Byddai angen o hyd i aelodau sy'n gwneud penderfyniadau, p'un ai trwy weithredu ar y cyd neu yn unigol, yn ôl paragraff 8 o'r cod, weithredu yn wrthrychol ac er lles y cyhoedd wrth wneud hynny. Rwyf o'r farn, felly, y gellir dileu paragraff 10(2)(b) heb amharu ar y cod.

Hefyd, mewn perthynas â'r cod, byddwch yn ymwybodol o ddyfarniad yr Uchel Lys y llynedd - *'R (Calver) v Panel Arfarnu Cymru'* - mewn perthynas â'r gofyniad ym mharagraff 4(b) o'r cod i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth i eraill. Mae'r Ombwdsmon wedi diwygio ei ganllawiau i gymryd y dyfarniad i ystyriaeth, ond rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried a oes angen unrhyw i'r cod gael ei addasu.

Wrth ysgrifennu, nodaf gyda phryder fod yr Ombwdsmon wedi barnu unwaith eto bod angen cyfeirio unwaith eto yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf at nifer y cwynion aelod yn erbyn aelod y gellid barnu eu bod yn flinderus. Ni allai paragraff 6(1)(d) o'r cod fod yn gliriach wrth fynnu bod rhaid i aelodau beidio â gwneud cwynion gwacsaw, maleisus neu flinderus yn erbyn aelodau eraill neu yn erbyn unrhyw un sy'n gweithio i'w hawdurdod. Os nad eir i'r afael â'r gweithredoedd hynny, mae ganddynt y potensial i gronni yn y system ac i wyro adnoddau i ffwrdd o faterion pwysicach. Hoffwn ofyn bod lle blaenllaw yn cael ei roi i'r mater hwn pan drefnir hyfforddiant gloywi ar y cod ar gyfer aelodau.

Hefyd, byddwch wed gweld adroddiadau diweddar yn y cyfryngau am ddigwyddiadau anffodus sy'n deillio o'r defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y cod yn ei gwneud yn glir o dan ba amgylchiadau y cwmpesir defnyddio cyfryngau electronig a chymdeithasol gan y cod. Maes sy'n datblygu'n barhaus yw hwn ac

unwaith eto, credaf ei bod yn amserol annog yr aelodau i fanteisio ar yr hyfforddiant y mae'r awdurdodau'n ei ddarparu ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a'r anfanteision posibl i'w hosgoi.

Câi unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r agweddau hyn neu agweddau eraill ar y cod wrth ymateb yn unol â'r cais uchod eu croesawu yn fawr.

Yn olaf, hoffwn achub y cyfle hwn i grybwyll mater a godwyd gyda mi yn ddiweddar ynghylch cyhoeddi cofrestri o fuddiannau aelodau a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf 2000. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i gofrestri fod ar gael yn swyddfa'r awdurdod i'w harchwilio gan aelodau'r cyhoedd ar bob awr resymol. Er hynny, mae dinasyddion yn disgwyl yn gynyddol gallu cael gafael ar wybodaeth am gynghorau a'u haelodau etholedig trwy'r rhyngrwyd. O ganlyniad, mae gennyf gydymdeimlad â'r farn a fynegwyd i mi y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau gyhoeddi'r cofrestri hyn ar eu gwefannau yn ogystal er mwyn hwyluso mynediad iddynt ac i wella tryloywder. Rwy, felly, yn bwriadu cyflwyno gwelliant i Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) i roi effaith i hyn. Mae cyfle'n bodoli - a hynny o fewn amser cyfyngedig - i gyflwyno gwelliant o'r fath ond cyn gwneud hynny hoffwn groesawu unrhyw safbwyntiau sydd gennych ar y mater hwn.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Llywodraeth Leol and Communities

PAPUR / ENCLOSURE
7

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

**Cyffredinol**

1. Pwrpas y Protocol yw hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad, gyda golwg ar feithrin perthnasau gweithio cadarnhaol ymysg Aelodau, a rhwng Aelodau a Swyddogion, i osgoi cwynion annilys i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ac i ddiogelu enw da'r Cyngor.

2. Ni fydd y Protocol yn berthnasol ond mewn achosion o gamymddwyn gan Aelodau yn erbyn ei gilydd dan baragraffau 4(b) a 6(1)(d) y Côd Ymddygiad. Hynny yw, honiadau o fethu â dangos parch neu fod yn ystyriol o eraill, neu honiadau bod Aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu ddisylwedd yn erbyn Aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran.

3. Mae'r Protocol yn ceisio sicrhau cyfryngu a chymodi cyflym. Nid yw'n gosbol ond fe all fod yn berthnasol i gosbi os gwneir cwyn ffurfiol i'r OGCC mewn achos lle ceir patrwm o ymddygiad o'r fath.

4. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli nac ymyrryd â disgyblaeth grŵp neu blaid.

5. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli nac ymyrryd ag unrhyw hawliau statudol neu gontractyddol all fod gan Swyddogion.

6. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli Awdurdod yr OGCC ond, yn hytrach i ddelio â chategori cyfyngedig o achosion, lle gallai paragraffau 4(b) neu 6(1)(d) y Côd fod wedi eu torri, ond lle na fyddai casgliad o'r fath mae'n debyg yn golygu y byddai camau disgyblu'n cael eu cymryd. Ni fyddai achosion o'r fath, yn unigol o leiaf, yn bodloni prawf trothwy'r OGCC ar gyfer ymchwilio iddynt.

**Gweithdrefn**

7. Rhaid i Aelod neu Swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Protocol roi eu cwyn yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro, gan egluro pryd a lle yr honnwyd bod y côd wedi ei dorri, sut a phaham y torrwyd paragraff 4(b) ac / neu 6(1)(d) ynghyd â manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

8. Rhaid anfon unrhyw gwyn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro cyn pen 7 niwrnod gwaith o ddyddiad y digwyddiad sy'n destun y gŵyn, neu 7 niwrnod gwaith o'r dyddiad pan ddaeth yr achwynydd i wybod am y digwyddiad.

9. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei g / chynrychiolydd, yn anfon copi o'r gŵyn, ac unrhyw dystiolaeth gefnogol, i'r Aelod sy'n destun y gwyn. Bydd gan yr Aelod 7 niwrnod gwaith o'i dderbyn, ar gyfer anfon ateb ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro yn egluro eu hymateb ac yn rhoi manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

10. Yn dilyn derbyn ateb gan yr Aelod y gwneir y gŵyn amdano/amdani, neu pan fo'r amser ar gyfer derbyn ateb wedi mynd heibio, bydd y Swyddog Monitro yn :-

- rhoi copi o’r ymateb llawn i'r achwynydd;
- yn trefnu cyfarfod o Banel anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau i ystyried y gŵyn ar y dyddiad cyntaf hwylus sydd ar gael i bawb sydd yn ymwneud â’r mater.

11. Bydd cyfarfod o Banel y Pwyllgor Safonau yn cael ei gynnal yn breifat a bydd unrhyw waith papur y bydd yn ei dderbyn, neu y bydd yn ei gynhyrchu, yn parhau i fod yn gyfrinachol i'r Panel, ei ymgynghorwyr, ac i’r partïon. Mae hyn, fodd bynnag, yn amodol ar unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ddatgelu e.e. i'r OGCC pe bai materion yn dwysau/datblygu ymhellach.

12. Bydd unrhyw Banel anffurfiol o'r Bwyllgor Safonau yn cynnwys dau Aelod o'r Pwyllgor, yn eu tro, ond ni fydd yn cynnwys Aelod Cyngor Cymuned.

13. Gofynnir i’r partïon fynychu'r Panel a byddant yn gyfrifol am ddod gyda hwy unrhyw dystion y maent yn bwriadu dibynnu arnynt.

14. Os na fydd unrhyw barti neu dyst yn bresennol, mater i’r Panel fydd penderfynu a fyddant yn symud ymlaen â’r mater, neu’n aildrefnu.

15. Pe bai’r achwynydd, neu’r Aelod y gwneir cwyn amdano/amdani yn Aelod o grŵp gwleidyddol, yna fe all wahodd eu Harweinydd Grŵp i fynychu'r Panel. Nid oes rhaid i unrhyw Arweinydd Grŵp perthnasol fynychu, ond anogir hwy i wneud hynny.

16. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei g / chynrychiolydd, yn mynychu i gynghori'r Panel.

17. Bydd gweithdrefn unrhyw Banel yn un anffurfiol. Bydd y Panel yn gwneud pob ymdrech i fod yn deg a diduedd gyda’r ddau barti. Ni fydd unrhyw reolau tystiolaeth fel y cyfryw, ond ni fydd unrhyw dystion fydd yn cael eu galw ond yn mynychu i rannu eu gwybodaeth gyda’r Panel; ni fyddant yn 'eistedd i mewn' yn ystod y cyfarfod.

18. Ar ôl clywed gan y partïon, ac unrhyw dystion, ynghyd â'r Arweinyddion Grŵp (pe bai Arweinyddion Grŵp yn bresennol, a phe baent yn dymuno siarad gerbron y Panel,) bydd y Panel wedyn yn ymneilltuo i sesiwn breifat, ac yn dychwelyd i fynegi eu safbwynt a rhoi gerbron unrhyw argymhellion all fod ganddo ar gyfer datrys y sefyllfa. Nid oes gan y Panel unrhyw bwerau disgyblaethol ond fe all wneud argymhellion i'r Arweinyddion Grwpiau yn unigol, mewn perthynas ag Aelodau o'u grŵp ac, i'r Arweinyddion Grŵp gyda'i gilydd mewn perthynas ag unrhyw Aelod digyswllt.

19. Ni fydd unrhyw hawl i apelio dan y broses hon.

20. Bydd y partïon yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o gasgliadau'r Panel ac adroddir ar ganlyniad pob Panel, ond heb gynnwys enwau, i bob cyfarfod chwarterol o’r Pwyllgor Safonau.

21. Bydd canlyniad unrhyw Banel yn cael ei drafod hefyd fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd yr Arweinyddion Grŵp.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 23 Mai 2013 am 11am |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar Weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2012-13 a gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor ar gyfer 2013-14 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth Cyfreithiol a Gweinyddol/Swyddog Monitro (est 2568) |

1. Yn ei gyfarfod ar 10 Mai 2012, penderfynodd y Cyngor Sir gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2012/13. Yn y Rhaglen wreiddiol, nodwyd meysydd gwaith arfaethedig ynghyd ag amserlen ac adnoddau. Caiff y ddogfen hon ei hatgynhyrchu yn **ATODIAD A** yr Adroddiad hwn ac mae'r ddogfen wedi cael ei diweddaru i gynnwys y gwaith sydd wedi cael ei wneud ers hynny.

2. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Adroddiad ym mis Gorffennaf 2009 a oedd, ymysg pethau eraill, yn argymell y dylai'r Pwyllgor Safonau gymryd rôl fwy gweithredol o ran codi safon ymddygiad Aelodau yn hytrach na chyfyngu ei hun i gyflawni gofynion statudol llym. I bob pwrpas, mwy o waith atal a llai o waith gweithredu ar ôl i rywbeth ddigwydd.

3. I gyflawni'r nod hwn, dyluniwyd y Rhaglen gyfredol a'r rhai a'i rhagflaenodd, i gefnogi'r Cyngor yn ystod ei adferiad gyda phwyslais ar hunanreoleiddiad drwy ddatblygu Aelodau ac ar y Pwyllgor Safonau drwy ddarparu cyngor / arweiniad ar gyfer datrys anghydfodau lle yr oedd hynny'n bosibl ac yn briodol o fewn y Cyngor ei hun yn hytrach na thrwy rheoleiddwyr allanol.

4. Yr elfen bwysicaf ar gyfer cyflawni'r nod hwn oedd llunio Cynllun Datblygu Blynyddol cynhwysfawr i Aelodau wedi ei deilwrio'n arbennig i gwrdd ag anghenion y Cyngor a'i Aelodau. Roedd y Gweithgor Datblygu Aelodau (GDA) ac arno Aelodau, Swyddogion a chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Safonau yn allweddol yn hyn o beth. Yn ychwanegol at hyn, cyflwynodd y GDA adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Safonau ar ei gynnydd a'i ganlyniadau.

5. At ei gilydd, roedd yr Aelodau'n cefnogi'r Cynllun gwreiddiol. Daeth yn amlwg fodd bynnag, fod y gefnogaeth wedi lleihau wrth i dymor y Cyngor diwethaf ddod i ben.

6. Mae gwaith y GDA ynghyd â'r rôl sicrwydd yr ymgymerwyd â hi gan y Pwyllgor Safonau, bellach wedi trosglwyddo i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Ar 18 Chwefror 2013, cefais gyfarfod gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ynghyd â Swyddogion, i rannu pryderon y Pwyllgor Safonau ynghylch diffyg ymrwymiad rhai Aelodau i'w datblygiad personol eu hunain gan ofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adolygu, ac oes oedd angen, roi sylw i'r mater hwn yn rheolaidd ar ôl Mai 2013.

7. Mae eitem arall ar y Rhaglen hon yn nodi'r Cynllun Datblygu Aelodau arfaethedig ar gyfer 2013/14. Mae'r Pwyllgor Safonau'n llwyr gefnogi'r Cynllun hwn a byddwn yn annog Aelodau nid yn unig i fabwysiadu'r Cynllun ond hefyd i'w gefnogi drwy fynychu hyfforddiant, rhoi atborth a gwerthuso a rhoi sylw i fater eu datblygiad a'u hyfforddiant personol eu hunain drwy gyhoeddi eu Hadroddiadau Blynyddol unigol.

8. Roedd y GDA hefyd yn gyfrifol am gyhoeddi disgrifiadau swyddi a manylebau personol i'r holl Aelodau a sefydlu cynllun peilot mewn perthynas â chynnal adolygiadau datblygu ar gyfer yr holl Aelodau. Cafodd y fenter hon, fel rhan o'r broses o ennill statws Siarter Aelodau ei chefnogi'n dda a bydd hyn yn parhau yn awr dan adain y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Hoffai'r Pwyllgor Safonau yn awr achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Uwch Swyddog Datblygu Adran AD y Cyngor am y gwaith sylweddol a wnaeth o ran cefnogi Aelodau drwy'r broses ac am roi gwybod i'r Pwyllgor Safonau am y datblygiadau. Yr un modd, mae'r Pwyllgor Safonau yn ddiolchgar am y cyngor a gafodd gan yr Ymgynghorydd Datblygu Sefydliadau ac Unigolion yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

9. Yn ychwanegol at ganolbwyntio ar ddatblygu Aelodau, mae'r Pwyllgor Safonau wedi cymryd rôl ymgynghorol yn unol â Phrotocol y Cyngor ar gyfer Hunanreoleiddiad; sef y drefn sy'n golygu y gellir datrys yn lleol yr anghydfodau mewnol hynny nad ydynt o fewn trothwy'r Ombwdsmon ar gyfer ymchwilio iddynt. Wedi adolygu'r Protocol cyfredol, mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyflwyno argymhellion ar gyfer gwelliant, yn arbennig drwy sicrhau bod modd i unrhyw Aelod yn hytrach nag Arweinyddion Grwpiau yn unig, ddefnyddio'r protocol. Mae'r Protocol newydd arfaethedig yn ymddangos mewn man arall ar y Rhaglen hon. Lle bynnag y mae hynny'n bosibl, gofynnir i'r Aelodau ddibynnu ar y Protocol newydd fel dull anffurfiol o ddatrys problemau ac osgoi eu cyfeirio i fyny.

10. Er y cafodd pedwar aelod eu gwahardd ac un ei anghymwyso yn ystod oes y Cyngor diwethaf, derbyniodd y Pwyllgor Safonau Adroddiad ar 31 Hydref 2012 a oedd yn dweud bod nifer y cwynion a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon ynghylch ymddygiad yn lleihau. Mewn ymdrech i sicrhau fod hyn yn parhau, mae'r Pwyllgor Safonau yn annog Aelodau newydd a'r Aelodau sy'n dychwelyd i gefnogi'n egnïol y cysyniadau sy'n ymwneud â'u datblygiad personol eu hunain a datrysiad lleol fel y dulliau mwyaf effeithiol o gynnal y gwelliant.

**ARGYMHELLIAD:-**

1. Nodi'r Rhaglen a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau rhwng Ebrill 2012 a Mai 2013, a

2. Chymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2013/14 a amlinellir yn **ATODIAD B**

ATODIAD / ENCLOSURE
A

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – EBRILL 2012 I MAI 2013

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn cyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir cyfeiriadau | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | • **15/5/2012**<br>Tribiwnlys Achos Panel Dyfarnu Cymru'n cychwyn gwrandawiad yn arwain at wahardd Cynghorydd Sir am 12 mis. Dim apêl. Dirymu'r indemniad.<br><br>• **12/6/2012**<br>Gwrandawiad Pwyllgor Safonau yn arwain at ddyfarniad o dorri'r côd a gwahardd Cynghorydd Sir am 6 mis.<br><br>• **16/8/2012**<br>Pwyllgor Safonau'n cychwyn gwrandawiad ac yn gwrthod y y gŵyn. Cyngor yn gorfod talu'r costau yn unol ag indemniad a ganiatawyd gan yr Is-bwyllgor Indemniadau.<br><br>• **11/10/2012** - Gwrandawiad gerbron Tribiwnlys Apêl Panel Dyfarnu Cymru yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau ar **12/6/2012**. Gwrthodwyd yr apêl. Y gwaharddiad yn sefyll. Dim cais am indemniad. |

CC-015794-LB/172208

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • **11/12/2012** Gwrandawiad cychwynol o gŵyn yn erbyn Cynghorydd Cymuned. Cyfeiriwyd y mater i wrandawiad llawn.<br><br>• **7/3/2013** Gwrandawiad y Pwyllgor Safonau i gŵyn yn erbyn Cynghorydd Cymuned. Fe'i cadarnhawyd yn rhannol. Rhoddwyd cerydd. Cyhoeddiad statudol wedi'i ohirio oherwydd yr etholiad. |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig. | • Fel a phryd y derbynnir cyfeiriadau | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | • **25/7/2012** Panel Caniatâd Arbennig y Pwyllgor Safonau. Caniatawyd saith o geisiadau (rhai'n amodol) i Aelodau Cyngor Tref Biwmares.<br><br>• **31/10/2012** Y Panel Caniatâd Arbennig yn caniatáu cais am ganiatâd arbennig i Gynghorydd Sir. |
| 3. | Cymryd swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion a gyfyd dan Brotocol y Cyngor ar gyfer Hunanreoleiddio neu unrhyw gynllun olynol. | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | • **1/10/2012** Cynhaliwyd Panel anffurfiol dan y Protocol Hunanreoleiddio. Gwrthodwyd y gŵyn. Rhai argymhellion i'r partïon.<br><br>• **29/10/2012** Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n cynnal proses anffurfiol i ddatrys anghydfod (y tu allan i'r Protocol). Cwblhawyd ar **25/1/2013**. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • **31/1/2013**<br>Yn dilyn dau adolygiad o'r Protocol Hunanreoleiddio, cyfarfu Panel o'r Pwyllgor Safonau i ddrafftio Protocol Datrysiad Lleol newydd.<br><br>• **14/2/2013**<br>Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau'n cwrdd â'r Arweinyddion Grwpiau i gytuno ar y Protocol Datrysiad Lleol newydd.<br><br>• **30/3/2013**<br>Ymgynghori gyda'r holl aelodau ar y Protocol Datrysiad Lleol.<br><br>• **23/5/2013**<br>Y Protocol Datrysiad Lleol yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn. |
| 4. | Goruchwylio'r Cynllun Datblygu Aelodau, gan gynnwys:-<br><br>• Hyfforddiant parhaus ar gyfer y Pwyllgor Safonau | • Yn ôl yr angen | • Rheolydd AD<br>• CLILC<br>• Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol | • Adolygu penderfyniadau a gyhoeddwyd - Holl benderfyniadau'r Pwyllgor Safonau a Phanel Dyfarnu Cymru ar:<br>**25/7/12**<br>**31/10/12**<br>**10/12/12**<br>**13/3/13**<br><br>• Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ar:<br>**17/7/2012** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **4/10/2012**<br>**7/1/2013**<br>**20/5/2013**<br>• Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan 19/4/13<br>• Hyrwyddo safonau'n rhagweithiol<br>• Cynnal gwrandawiadau a chosbau<br>• Cofrestr o ddiddordebau a chaniatadau arbennig<br>• Gweithdrefnau lleol ar gyfer datrys materion<br>• Materion safonau mewn perthynas â chynghorau tref a chymuned |
| | • Ystyried a pharatoi cwrs cynefino a hyfforddiant ar gyfer y Cynghorwyr a gânt eu hethol yn 2013 | • Cyn Mai 2013 | • Rheolydd AD<br>• CLlLC<br>• Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro<br>• Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol | • Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd<br>• Mae'r Pwyllgor Safonau yn un o'r cyrff yr ymgynghorir ag ef ar Gynllun 2013/14 a fydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor ar **23/5/2013** |
| | • Hyfforddiant i dargedu anghenion penodol y rheiny sy'n cael eu cosbi gan Banel Dyfarnu Cymru (PDC) neu'r Pwyllgor Safonau | • Yn ôl yr angen | • Rheolydd AD<br>• CLlLC<br>• Swyddog Monitro<br>• Dirprwy Swyddog Monitro | • Dim angen yn ystod y cyfnod hwn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol | |
| 5. | Bod yn rhan o'r Gweithgor Datblygu Aelodau a derbyn adroddiadau ganddo. | • Chwarterol | • Rheolydd AD<br>• CLILC<br>• Swyddog Monitro | • Derbyniwyd adroddiadau ar:<br>• **25/7/2012**<br>• **31/10/2012**<br>• **11/12/2012**<br>• **13/3/2013**<br><br>• Diddymwyd y Gweithgor Datblygu Aelodau. Cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. |
| 6. | Goruchwylio'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau drwy eu hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chanllawiau wedyn os yw hynny'n briodol. | • Erbyn diwedd 2012 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | • **31/10/2012**<br><br>• Ymgynghori gyda'r holl Aelodau ar y ffurflen ddiwygiedig ar gyfer datgan diddordebau mewn cyfarfodydd yn cychwyn ar **24/1/2013** ac yn dod i ben ar **15/2/2013**<br><br>• Ffurflen ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno ar argymhelliad y Pwyllgor Safonau ar **18/2/2013**<br><br>• Adroddiad ar y broses a'r canlyniadau i Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan ar **19/4/2013** |

CC-015794-LB/172208

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7. | Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch drwy ei hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chanllawiau wedyn os yw hynny'n briodol. | • Erbyn diwedd 2012 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | • 31/10/2012<br><br>• Adroddiad ar y broses a'r canlyniadau i'r Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan ar **19/4/2013** |
| 8. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad a fyddai'n rhagfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro<br>• Prif Weithredwr | • Prosiect Rheoli Cwynion (gan gynnwys cyfeirio aelodau)<br><br>• **25/7/2012**<br>• **31/10/2012**<br>• **13/3/2013**<br><br>• **31/10/2012**<br>Protocol Drafft ar gyfer Wardiau Amlaelod<br><br>• **11/12/2012**<br>• Polisi Gosod Tai a rôl Aelodau<br><br>• **11/12/2012**<br>• Rheolau Gweithdrefn Cynllunio – canlyniad cynllun peilot 12 mis<br><br>• **13/3/2012**<br>• Newidiadau Cyfansoddiadol<br>• Polisi Indemniadau<br>• Protocol Datrysiad Lleol newydd – cymeradwyo ymgynghoriad<br>• Rheolau Gweithdrefn Cynllunio – Wardiau Amlaelod<br>• Protocol ar gyfer Cyfryngau |

CC-015794-LB/172208

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cymdeithasol mewn Cyfarfodydd |
| 9. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas â fersiynau drafft unrhyw ganllawiau/protocolau ac ati a gyhoeddir gan OGCC o ran y Côd Ymddygiad i Aelodau/Protocol Datrysiad Lleol ac ati. | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro | • **25/7/2012** Ymgynghorai ar Bapur Gwyn y Llywodraeth ar Hyrwyddo Democratiaeth Leol (Materion yn ymwneud â'r Pwyllgor Safonau)<br><br>• **31/10/2012** Adolygiad o'r Côd Ymddygiad ac argymhelliad ar gyfer hyfforddiant gorfodol (cytunwyd gan y Pwyllgor Gwaith **18/2/2013** a chymeradwywyd gan y Cyngor **5/3/2013)**<br><br>• **1/10/2012** Cynhaliwyd Panel Anffurfiol dan y Protocol Hunanreoleiddo. Gwrthodwyd y gŵyn. Rhai argymhellion i'r partïon.<br><br>• **29/10/2012** Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cynnal proses anffurfiol i ddatrys anghydfod (y tu allan i'r Protocol). Daeth i ben **25/1/2013**.<br><br>• **31/10/2012** Adolygiad o'r Côd Ymddygiad. Cyhoeddwyd canllawiau gan OGCC ym mis Medi 2012 – Cylchredwyd i Aelodau a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned. |

CC-015794-LB/172208

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • **31/1/2013**<br>Yn dilyn dau adolygiad o'r Protocol Hunanreoleiddo, Panel o'r Pwyllgor Safonau yn cyfarfod i ddrafftio'r Protocol Datrysiad Lleol newydd.<br><br>• **14/2/2013**<br>Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau'n cyfarfod gydag Arweinyddion Grwpiau i gytuno ar Brotocol Datrysiad Lleol.<br><br>• **30/3/2013**<br>Ymgynghoriad gyda'r holl aelodau ar y Protocol Datrysiad Lleol yn cau.<br><br>• **23/5/2013**<br>Y Protocol Datrysiad Lleol yn cael ei gyflwyno ar gyfer ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn. |
| 10. | Yn dilyn ymgynghori gydag Aelodau, goruchwylio'r broses o gyhoeddi holl Ffurflenni Datgan Diddordeb yr Aelodau ar wefan y Cyngor a sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r cyfleuster. | • Dyddiadau i'w cytuno gyda TGCh | • Pennaeth Gwasanaeth (TGCh)<br>• Swyddog Monitro | Derbyniwyd adroddiadau cynnydd<br><br>• Y tair cofrestr i fod ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor o fis **Mehefin 2013**<br><br>• Cofrestr Adran 81 (cyn cofrestru) i fod ar gael yn |

CC-015794-LB/172208

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | rhyngweithiol i Aelodau o fis Mehefin 2013<br><br>• **25/7/2012**<br>• **31/10/2012**<br>• **13/3/2013** |
| 11. | Yn amodol ar ymgynghori gydag Aelodau, gwneud argymhellion i fwy o wybodaeth gael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor (gan gynnwys gwybodaeth ynghylch lwfansau, treuliau, cofnod mynychu ac oriau hyfforddiant). | • Cyn Mai 2013 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | • Trosglwyddo'r cyfrifoldeb, yn amodol ar rai rheoliadau statudol gweddilliol, i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dan y pennawd Adroddiadau Blynyddol i Aelodau. |
| 12. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn yn amlinellu gwaith y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn flaenorol. | • Mai 2013 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | • **23 Mai 2013** |
| 13. | Argymell Protocol newydd ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau / Swyddogion. | • Cyn Mai 2013 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | • Ymgynghori gydag Aelodau a Swyddogion ar y fersiwn ddrafft rhwng **10 Hydref 2012** a **27 Tachwedd 2012**<br>• Argymhellwyd gan y Pwyllgor Gwaith **18 Chwefror 2012**<br>• Cymeradwywyd gan y Cyngor **5 Mawrth 2013**<br>• Gweithredu **3 Mai 2013** |
| 14 | Amrywiol | • Cyn Mai 2013 | • Swyddog Monitro<br>• Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro | • Adolygu statws cwynion ynghylch ymddygiad i OGCC<br>• Adolygu penderfyniadau'r OGCC<br>• Adolygu penderfyniadau'r Panel Dyfarnu |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td>• 13/03/2012<br>• 25/07/2012<br>• 31/10/2012<br>• 11/12/2012<br><br>• 31/10/2012<br>Ystyried Adroddiad Blynyddol OGCC a dadansoddi perfformiad Aelodau Ynys Môn<br><br>• Cyfarfodydd gydag Arweinyddion Grwpiau ar 20/12/2012 14/2/2013<br><br>• Cyfarfod gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 18/2/2013<br><br>• Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol<br>• 19/7/2012<br>• 30/10/2012<br>• 10/1/13<br>• 25/4/13<br><br>• Y berthynas rhwng yr Aelodau a grwpiau gwleidyddol<br><br>a) Y Cyngor llawn i ystyried Cydymffurfiaeth gyda threfniadau cyfansoddiadol</td></tr>
</table>



CC-015794-LB/172208

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | newydd ar 10 Mai 2012: yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog<br><br>• **Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor**<br><br>a) Cynnal gwrandawiad rhagarweiniol o fewn 6 wythnos yn dilyn cyfeiriad gan OGCC neu'n dilyn penderfyniad gan yr Is-bwyllgor Indemniadau<br><br>b) Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig o fewn mis o'u derbyn<br><br>c) Adolygu'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau Aelodau gan roddi cyngor ac arweiniad wedyn os yn briodol<br><br>d) Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch gan roddi cyngor ac arweiniad wedyn os yn briodol<br><br>e) Sefydlu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau<br><br>f) Adolygu'r Cynllun Hyfforddi Aelodau, eu presenoldeb mewn hyfforddiant ac ati. Y Pwyllgor i adolygu'r polisïau |

CC-015794-LB/172208

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | sy'n berthnasol i'w gylch gorchwyl<br><br>• **Safonau ymddygiad Aelodau a Swyddogion**<br><br>a) Cydymffurfiaeth gyda'r Protocol ar gyfer Hunanreoleiddio a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 4.3.10 neu gynllun olynol, y drefn datrysiad lleol unwaith y bydd wedi'i chyhoeddi gan OGCC<br><br>b) Adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Safonau<br><br>c) Y Swyddog Monitro wedi derbyn disgrifiadau swydd a manylebau personol wedi eu llofnodi<br><br>d) AD wedi derbyn ffurflenni SCT wedi eu cwblhau<br><br>e) Cyfweliadau ADP wedi eu cynnal a'r ffurflenni wedi eu derbyn gan AD<br><br>f) Mabwysiadu a chydymffurfio gydag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan LIC/OGCC gan gynnwys y cap a argymhellir. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | g) Cydweithredu'n llawn gydag ymchwiliadau lleol gan y Swyddog Monitro a hynny'n unol â chanllawiau cyfeirio newydd OGCC. |

CC-015794-LB/172208

# ATODIAD / ENCLOSURE B

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2013 I EBRILL 2014

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am ganiatâd arbennig gan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref/Cymuned | Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 3. | Cymryd swyddogaeth ymgynghorol mewn perthynas â materion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor neu unrhyw gynllun olynol os bydd model cenedlaethol yn cael ei ddatblygu. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.4(e) y Côd; gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. | | | |

DRAFT

CC-015794-LB/172207

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 5. | Goruchwylio'r ddwy Gofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau drwy eu hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | Erbyn diwedd Ebrill 2013 | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 6. | Goruchwylio'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch drwy ei hadolygu bob blwyddyn gan roi cyngor a chyfarwyddyd wedyn os yw hynny'n briodol. | Erbyn diwedd Ebrill 2013 | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 7. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau neu ddiddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | Fel a phryd y derbynnir cais | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8. | Cymryd rôl corff yr ymgynghorir ag ef mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol/polisi arfaethedig sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | Fel a phryd y derbynnir cais | Swyddog Monitro<br>Dirprwy Swyddog Monitro | |
| 9. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | | | |
| 10 | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | | | |
| 11. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy:<br><br>- Adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt<br>- o awdurdodau perthnasol<br>- Panel Dyfarnu Cymru<br><br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru<br>- Cymryd rhan a gwneud cyfraniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan | | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 12. . | Monitro cynnydd o ran cwynion am Aelodau a gafodd eu ffeilio gydag OGCC a dadansoddi'n flynyddol y wybodaeth ynglŷn â'r cwynion sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu sy'n dangos fod angen hyfforddiant. | | | |
| 13. | Cynnal cyswllt gydag Arweinyddion Grwpiau drwy gyfrwng cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd er mwyn trafod materion sydd o bryder/diddordeb cyffredin. | | | |
| 14. | Adroddiad ar ddangosyddion perfformiad chwarterol<br>1. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol<br>2. Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor<br>3. Safonau ymddygiad Aelodau | | | |

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **23 Mai 2013** |
| **TEITL:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – Adroddiad Blynyddol 2012/13** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y Pwyllgor yn ystod 2012/13** |

1) **Rhagarweiniad**

Mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a phenodi un o'i swyddogion fel y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Yn ei gyfarfod blynyddol ar 10 Mai 2012, penderfynodd y Cyngor Sir sefydlu Pwyllgor o'r fath fel rhan o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, ac fe wnaed darpariaeth briodol yn ei gyfansoddiad i sicrhau bod y Pwyllgor yn gweithredu yn effeithiol gan gynnwys penodi ei Gadeirydd.

Prif bwrpas y Pwyllgor hwn yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth sydd gan yr Awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gwrdd â dyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau democrataidd ac adrodd yn ôl i'r Cyngor ar faterion o'r fath.

2) **Cylch gorchwyl a rhaglen waith y Pwyllgor**

Yn ei gyfarfod cyntaf llawn ar 18 Hydref 2012 adroddwyd y gallai'r Pwyllgor, ar gyfer gweddill oes gyfredol y Cyngor, ystyried rhai o'r materion isod:

a) Datblygiad ac effeithiolrwydd gwefan y Cyngor i hyrwyddo democratiaeth;

b) Digonolrwydd gwasanaeth cyfieithu i gefnogi'r broses ddemocrataidd;

c) Y rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer aelodau, gan gynnwys adolygiadau perfformiad blynyddol yn seiliedig ar ddisgrifiadau swydd;

d) Cyflwyno cais i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Statws Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau;

e) Datblygu strategaeth ar gyfer datblygu sgiliau TGCH yr aelodau;

f) Ystyried goblygiadau cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2013/14 i'r Gwasanaethau Democrataidd;

g) Ystyried goblygiadau adolygiad cyfansoddiad y Cyngor i'r swyddogaethau democrataidd;

h) Ystyried rôl a chyfrifoldebau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Derbyniwyd y materion hyn gan y Pwyllgor a gwnaed argymhelliad pellach a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir ym mis Rhagfyr 2012 fel a ganlyn:

- "ei fod yn estyn cylch gorchwyl y Pwyllgor i gynnwys cyfrifoldebau ar gyfer y rhaglen hyfforddi a datblygu aelodau , gan gynnwys sgiliau a chefnogaeth yn y maes technoleg gwybodaeth;

- Bod y Pwyllgor yn cynnal tri cyfarfod cyffredinol yn ogystal â'i gyfarfod blynyddol ym mhob blwyddyn sirol gyda'r hawl i drefnu cyfarfodydd pellach fel y cyfyd yr angen";

Cymeradwyodd y Pwyllgor hefyd benodi'r Pennaeth Polisi fel y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro hyd nes byddair mater wedi ei adolygu gan y Cyngor newydd yn dilyn etholiadau Mai 2013.

3) **Crynodeb o'r materion a drafodwyd a'r statws cyfredol**

Ar wahân i'r cyfarfod llawn cyntaf ym mis Hydref 2012 cyfarfu'r Pwyllgor ar dri achlysur arall. Mae crynodeb o'r materion a gafodd sylw a'r statws cyfredol i'w weld isod:

| **Dyddiad y Pwyllgor** | **Pwnc** | **Statws Cyfredol** |
|---|---|---|
| 17/12/12 | Trosolwg o'r Cynllun Gwaith ar Gyfer Datblygu Aelodau a Gwaith y Gweithgor Datblygu Aelodau | Mae gwaith y Grŵp Datblygu Aelodau wedi ei ymgorffori bellach fel rhan o'r cylch-gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi ei ddynodi fel y Pencamwr Aelodau.<br><br>Cyflwynir adroddiad ar wahân i'r Cyngor Sir ar 23 Mai yn cynnwys manylion am y Rhaglen Datblygu Aelodau ar gyfer 2013/14. |
| | Siarter Cymru ar Gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau | Adroddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Pwyllgor ar ofynion y Siarter ac mae gwybodaeth wedi ei gyflwyno ar gyfer Statws Marc Siarter.<br><br>Cynhaliwyd Adolygiad Cymheiriaid o'r Gwasanaethau Democrataidd mis Ionawr 2013 gan CLILC i gefnogi |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwaith o safbwynt cwrdd â gofynion y Siarter, paratoi ar gyfer y Cyngor newydd a siapio'r rhaglen drawsnewid.<br><br>Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor fel rhan o'i rhaglen waith ar gyfer 2013/14. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo darlledu cyfarfodydd a mynychu o bell. Mae'r agweddau hyn yn rhan o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. |
| 4/2/13 | Goblygiadau cynigion cyllideb 2013/14 i'r Gwasanaethau Democrataidd | Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror 2013 fel a ganlyn:<br><br>1) Cefnogi'r arbedion mewn perthynas ag amlenni rhagdaledig;<br><br>2) Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar ôl etholiadau Mai 2013 a darparu cysylltiad band eang a diogelwch data ar gyfer aelodau.<br><br>Bydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2013/14. |
| | Adroddiad Blynyddol gan Aelodau | Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Aelodau gynhyrchu adroddiadau blynyddol erbyn Mehefin 2013. O gofio y cynhaliwyd etholiadau'r Cyngor Sir ym Mai 2013, nid oes rhaid i'r Aelodau bellach gynhyrchu'r adroddiadau blynyddol tan Fehefin 2014. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro yn adrodd i'r Pwyllgor hwn ar y templed ar gyfer Aelodau i baratoi adroddiadau blynyddol. |
| | E-ddemocratiaeth ar gyfer Aelodau<br><br>Mabwysiadu system rheoli pwyllgorau Modern Gov i | Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu y bydd iPad yn cael ei roi i bob Aelod o'r Cyngor newydd yn dilyn etholiadau Mai 2013. Bellach |

| | | |
|---|---|---|
| | foderneiddio arferion gweithio a chyflwyno iPad ar gyfer yr holl Aelodau ar ôl etholiadau Mai 2013. | darparwyd Ipads i bob aelod fel rhan o'r rhaglen anwytho er mwyn moderneiddio arferion gwaith.<br><br>Y bwriad yw cyflwyno'r trefniadau yn raddol o fis Mai 2013 hyd at ddiwedd Medi 2013 i sicrhau bod y Cyngor yn gweithio'n fwyfwy mewn modd ddi-bapur, gan gydnabod yr angen i gael cyfnod pontio a fydd yn hwyluso trawsnewid i ddefnyddio'r dechnoleg newydd.<br><br>Bydd y Pwyllgor yn monitro cynnydd fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2013/14. |
| 24/04/13 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor | Adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir 23/05/13. |

## 4) Argymhelliad

Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a fu'n rhan o raglan waith y Pwyllgor ar gyfer 2012/13.

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
**15/04/13**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I :** | **Y CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **23 MAI 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU SGRIWTINI AM 2012-2013** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT :** | **Rheolydd Sgriwtini** |
| **ARGYMHELLIAD:** | **1. Nodi a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini am 2012-2013.**<br>**2. Penodi Eiriolydd Sgriwtini am y cyfnod Mai 2013 i Mai 2014.** |

## 1.0 RHAGARWEINIAD

1.1 Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor rhaid i'r Pwyllgorau Sgriwtini adrodd yn flynyddol i'r Cyngor llawn. Oherwydd bod etholiad wedi ei gynnal ar 2 Mai 2013, gofynnir i'r Cyngor nodi a chymeradwyo'r adroddiad heb gyflwyniad llafar ffurfiol gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini (am y cyfnod Mai 2012 i Mai 2013).

1.2 Penodi aelod fel "Eiriolydd Sgriwtini" am y cyfnod Mai 2013 i Mai 2014.

## 2.0 CEFNDIR

2.1 Mae'r Adroddiad Blynyddol ar Sgriwtini am y cyfnod 2012-2013 yn cynnwys y gwaith a wnaed gan y pum Pwyllgor Sgriwtini rhwng Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 10 Mai 2012 a 23 Mai 2013. Drwy gydol y cyfnod hwn mae'r Pwyllgorau Sgriwtini wedi bod yn ddigon ffodus i gael cyfraniadau gan amryfal aelodau a swyddogion.

2.2 Arweiniwyd y gwaith yn ystod y cyfnod hwn gan Gadeiryddion y pum Pwyllgor Sgriwtini ac mae manylion wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol sydd ynghlwm am y cyfnod 2012-2013 (gweler yr atodiad sydd ynghlwm).

2.3 Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 10 Mai 2012, penderfynwyd penodi'r Cynghorydd Ieuan Williams i wasanaethu fel yr Eiriolydd Sgriwtini am y cyfnod Mai 2012 i Mai 2013. Gofynnir yn awr i'r Cyngor benodi Eiriolydd Sgriwtini am y cyfnod Mai 2013 i Mai 2014. Nid oes tâl ar gyfer y rôl Eiriolydd Sgriwtini a gall ef/hi fod yn Aelod sydd ar y Pwyllgor Gwaith neu'n Aelod arall. Rôl yr Eiriolydd Sgriwtini yw:

- Hyrwyddo'r swyddogaeth Sgriwtini y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor
- Cefnogi datblygiad parhaus Sgriwtini yn y Cyngor.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Nodi a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Sgriwtini 2012-2013.
4.2 Penodi Eiriolydd Sgriwtini am y cyfnod Mai 2013 i Mai 2014.

| **Atodiad:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Sgriwtini 2012-2013 |

Adroddiad gan: Rheolydd Sgriwtini — Dyddiad: 10 Mai 2013



# ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI

# 2012/13



# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| | Rhagair | Tudalen 3 |
| 1. | Beth yw Trosolwg a Sgriwtini | Tudalen 4 |
| 2. | Perfformiad Sgriwtini | Tudalen 5 |
| 3. | Pwyllgorau Sgriwtini | Tudalen 7 |
| 3.1 | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Tudalen 7 |
| *3.1.1* | *Aelodaeth y Pwyllgor 2012-13* | *Tudalen 7* |
| *3.1.2* | *Rhaglen Waith y Pwyllgor (2012-13)* | *Tudalen 8* |
| 3.2 | Datblygu Economaidd Twristiaeth ac Eiddo | Tudalen 12 |
| *3.2.1* | *Aelodaeth y Pwyllgor 2012-13* | *Tudalen 12* |
| *3.2.2* | *Rhaglen Waith y Pwyllgor (2012-13)* | *Tudalen 13* |
| 3.3 | Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden | Tudalen 16 |
| *3.3.1* | *Aelodaeth y Pwyllgor 2012-13* | *Tudalen 16* |
| *3.3.2* | *Rhaglen Waith y Pwyllgor (2012-13)* | *Tudalen 17* |
| 3.4 | Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol | Tudalen 23 |
| *3.4.1* | *Aelodaeth y Pwyllgor 2012-13* | *Tudalen 23* |
| *3.4.2* | *Rhaglen Waith y Pwyllgor (2012-13)* | *Tudalen 24* |
| 3.5 | Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | Tudalen 26 |
| *3.5.1* | *Aelodaeth y Pwyllgor 2012-13* | *Tudalen 26* |
| *3.5.2* | *Rhaglen Waith y Pwyllgor (2012-13)* | *Tudalen 27* |
| 4. | Panelau Canlyniad Sgriwtini | Tudalen 32 |
| 5. | Ymgysylltiad Sgriwtini | Tudalen 34 |

Atodiadau:

*Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Pwyllgorau Sgriwtini* Tudalen 35

# Rhagair



**Y Cynghorydd Ieuan Williams (Eiriolwr Sgriwtini 2012-13)**

Gyda thymor y Cyngor Sir cyfredol yn dod i ben, felly hefyd strwythur y pum Pwyllgor Sgriwtini a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2012. Yn dilyn argymhelliad y Comisiwn Ffiniau i ailstrwythuro ffiniau'r wardiau etholiadol ar yr ynys a'r penderfyniad a wnaed o ganlyniad i ostwng nifer yr aelodau lleol ar Ynys Môn o 40 i 30, bydd Cyngor Sir Ynys Môn, o fis Mai 2013 ymlaen, â 2 Bwyllgor Sgriwtini - y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Yn yr adroddiad hwn, ceir trosolwg o flwyddyn olaf y pum Pwyllgor Sgriwtini a dygir sylw at lwyddiant yr Aelodau etholedig o ran ymgymryd â'u swyddogaethau sgriwtini. Yn dilyn cyfnod o ymyrraeth o du Llywodraeth Cymru a phenodi Comisiynwyr i gymryd y cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau gweithredol yn yr Awdurdod, cafodd y pwerau eu dychwelyd yn ôl i Bwyllgor Gwaith yr Awdurdod ym mis Hydref 2012.

Gyda hynny mewn golwg, rhoddwyd mwy o rôl i sgriwtineiddio ymlaen llaw ac oherwydd y pwyslais a roddwyd ar gynnal arferion llywodraethu da, roedd angen lefel uchel o ymrwymiad ac ymroddiad gan yr Aelodau Sgriwtini. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd cynnydd ym maich gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini gyda newid yn strwythur y Tîm Uwch Arweinyddiaeth a chyhoeddi adroddiadau pwysig gan reoleiddwyr allanol megis yr Adroddiad ar Arolwg Estyn ym mis Awst 2012. Er gwaethaf y cynnydd hwn yn y baich gwaith, gwelwyd gostyngiad yn yr adnoddau i gefnogi sgriwtini (nifer swyddogion) a hynny oherwydd yr arbedion effeithlonrwydd y bu'n rhaid eu gwneud ar lefel yr Awdurdod cyfan. Gan weithio gyda'i gilydd fel tîm, mae Sgriwtini wedi ymgymryd â'i ddyletswyddau'n effeithiol ac yn effeithlon yn ystod y flwyddyn a rhaid talu clod i'r aelodau etholedig a'r Uwch Swyddogion yn yr Awdurdod am sicrhau fod hynny'n digwydd.

## 1. BETH YW TROSOLWG A SGRIWTINI

1.1 Mae Pwyllgorau Sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae Llywodraeth Leol yng Nghymru yn gweithredu. Ynghyd â sefydlu Pwyllgor Gwaith a chanddo bwerau i wneud penderfyniadau, bu'n rhaid, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, sefydlu un neu ragor o Bwyllgorau Sgriwtini i ddal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol, i yrru gwelliant ac i chwarae rôl o ran cynorthwyo i ddatblygu ac adolygu polisi.

1.2 Yn 2012-13, bu 5 Pwyllgor Sgriwtini yn ymwneud â'r swyddogaeth sgriwtineiddio.

- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd Twristiaeth ac Eiddo
- Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden
- Pwyllgor Sgriwtini yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol.
- Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

1.3 Nod y Pwyllgorau Sgriwtini yw:

- Hyrwyddo dull agored a thryloyw o wneud penderfyniadau a dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol mewn modd adeiladol.
- Cefnogi'r Cyngor i wireddu ei weledigaeth ar gyfer y Cyngor ynghyd â'i nodau a'i flaenoriaethau strategol.
- Hyrwyddo gwelliant parhaus, arferion gorau ac arloesed o ran y gwasanaethau, y swyddogaethau a'r polisïau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt neu y mae ganddo ddylanwad drostynt.*

1.4 Gall y Pwyllgor Sgriwtini wneud ei waith mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- Ystyried pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol.
- Ystyried pwnc dros gyfnod hwy o amser trwy sefydlu Panel Adolygiad Sgriwtini.
- Cynnal sesiynau anffurfiol ar faes penodol.
- Ymweld â safleoedd.

## 2. PERFFORMIAD SGRIWTINI

2.1 Mae Adroddiad Blynyddol yn gofnod o stiwardiaeth am gyfnod penodol ac yn canolbwyntio ar yr hyn y llwyddwyd i'w wneud a'r hyn y mae angen ei wneud. Mae'r Cyngor wedi cytuno i symud ymlaen mewn dull modern a gweithredu mwy fel busnes trwy dderbyn gweithrediad y Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP). I'r perwyl hwn, mae gan Sgriwtini gyfres o ddangosyddion perfformiad y mae'n gwerthuso ei hun yn ei herbyn:

| Teitl y Dangosydd | **Targed** (Ch) – Chwarterol (B) – Blynyddol | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Diwedd y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % presenoldeb Aelodau Pwyllgor mewn Pwyllgorau Sgriwtini | 80% (Ch) | 66% ↓ | 87% ↑ | 74% ↓ | 75% ↑ | 75% |
| % argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini a gymeradwywyd gan y Bwrdd Comisiynwyr | 90% (Ch) | 100% ↔ | 100% ↔ | 100% ↔ | 100% ↔ | 100% |
| Nifer yr eitemau 'Ymgynghorol' ar raglenni | 5 (B) | 13 | 4 ↓ | 3 ↓ | 10 ↑ | 30 |
| Nifer yr eitemau 'Monitro' ar raglenni | 5 (B) | 9 | 5 ↓ | 16 ↑ | 6 ↓ | 36 |
| Nifer yr eitemau 'Ymchwiliol' ar raglenni | 5 (B) | 1 | 0 ↓ | 1 ↑ | 1 ↔ | 3 |
| Nifer yr eitemau 'Cyn-Sgriwtini' ar raglenni | 5 (B) | 4 | 0 ↓ | 11 ↑ | 6 ↓ | 21 |
| Nifer yr eitemau 'Datblygu Aelodau' ar raglenni | 5 (B) | 4 | 2 ↓ | 7 ↑ | 9 ↑ | 22 |
| Alinio Pwyllgorau gyda rhyddhau Data Perfformiad | 20 (B) | 5 ↑ | 4 ↓ | 0 ↓ | 0 ↔ | 9 |
| Adroddiad gwaith 6 misol gan bob Pwyllgor | 10 (B) | 0 | 5 | 0 | 5 | 10 |
| Nifer yr ymweliadau i Dudalennau Gwe Sgriwtini | 10,782 | 2,306 | 2,526 | 3,388 | 3,413 | 11,633 |

2.2 O'r Dangosyddion Perfformiad uchod, gallwn nodi bod dau faes yn peri pryder; nifer yr eitemau 'ymchwiliol' ar y rhaglenni Sgriwtini ac aliniad y Pwyllgor Sgriwtini gyda rhyddhau data perfformiad.

2.3 Mae perfformiad gwael o ran nifer yr eitemau 'ymchwiliol' ar y rhaglenni wedi cael ei wrthbwyso gan nifer y mathau eraill o eitemau a ystyriwyd gan y Pwyllgorau h.y. Ymgynghorol (30), Monitro (36), Cyn-Sgriwtini (21), a Datblygu Aelodau (22).

2.4 Un canlyniad siomedig oedd y perfformiad yn erbyn alinio Pwyllgorau gyda rhyddhau data perfformiad a gafodd gychwyn gadarnhaol gyda'r 5 Pwyllgor yn cyrraedd ei darged yn ystod y chwarter cyntaf ac 80% yn cyrraedd y targed yn ystod chwarter 2 ond ni welwyd unrhyw ddata perfformiad yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgorau Sgriwtini yn chwarteri 3 a 4. Fodd bynnag, yr un modd ag unrhyw ddata perfformiad meintiol, dylid cymryd data ansoddol pellach i ystyriaeth er mwyn deall y wybodaeth. Gyda'r fframwaith rheoli perfformiad newydd yn cael ei sefydlu a'i newid hanner ffordd trwy'r flwyddyn, cafodd hynny effaith ar y broses ac ni chafodd y templedi adrodd eu sefydlu'n llawn er mwyn sicrhau adroddiadau cyson yn ystod cyfnod adrodd 2012/13.

2.5 Mae ymgysylltiad Aelodau gyda'r Pwyllgorau Sgriwtini ac yn wir gyda'r swyddogaeth yn amrywio yn ystod y flwyddyn fel y gwelir o'r canlyniadau perfformiad. Gellir priodoli hyn i nifer o ffactorau gan gynnwys yr adeg o'r flwyddyn, amseriad y Pwyllgorau h.y. eu cynnal yr un pryd â gwyliau'r ysgol ynghyd â'r pwnc sy'n cael ei sgriwtineiddio a lefel ei flaenoriaeth neu a ydyw'n gynhennus ai peidio.

2.6 Mae'r Dangosyddion Perfformio Sgriwtini hefyd yn dangos bod gan y Pwyllgorau Sgriwtini ormod o eitemau yn dod o'r cyfadrannau y gellir eu hystyried yn eitemau 'datblygu aelodau'. Y flwyddyn nesaf, wedi gostwng nifer y Pwyllgorau Sgriwtini o 5 i 2, bydd y Pwyllgorau'n llawer mwy strategol eu hymagwedd gyda'r naill yn sgriwtineiddio agweddau mewnol (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) a'r llall yr agweddau allanol (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio). Mae'n bwysig bod Rhaglenni Gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini yn cael ei halinio gyda:


- Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith
- Blaenoriaethau Gwella Corfforaethol
- Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn/Gwynedd.

## 3. PWYLLGORAU SGRIWTINI

### 3.1 Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn gyfrifol am feysydd gwaith sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chanol corfforaethol yr Awdurdod gyda chylch gorchwyl eang (gweler Adran X). Y meysydd nodweddiadol y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried yw'r defnydd gorau o staff, cyllid ac eiddo, materion AD, TGCh ac ati ac mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am ystyried unrhyw faterion y mae'r trefniadau galw i mewn yn berthnasol iddynt.

#### 3.1.1 Aelodaeth y Pwyllgor 2012-13

| | Enw | Ward | Plaid Wleidyddol |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. Selwyn Williams (Cadair) | Tysilio | Llais i Fôn |
|  | Cyng. Eurfryn Davies | Cwm Cadnant | Plaid Cymru |
|  | Cyng William Hughes | Bodffordd | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Dylan Jones | Porth Amlwch | Llafur |
|  | Cyng. Elwyn Schofield | Llannerch-y-medd | Dim cysylltiad ag unrhyw blaid |
|  | Cyng. Vaughan Hughes | Llanbedrgoch | Plaid Cymru |

| | Enw | Ward | Plaid Wleidyddol |
|---|---|---|---|
|  | Cyng. Ieuan Williams (Is-Gadeirydd) | Brynteg | Dim cysylltiad ag unrhyw grŵp |
|  | Cyng. Derlwyn Hughes | Moelfre | Annibynnwyr Gwreiddiol |
|  | Cyng. William T Hughes | Llanbadrig | Annibynnwyr Gwreiddiol |
|  | Cyng Eric Jones | Llanfihangel Ysgeifiog | Annibynnwyr Gwreiddiol |
|  | Cyng. Hywel Eifion Jones | Llanidan | Dim cysylltiad ag unrhyw blaid |
|  | Cyng. Gareth Winston Roberts OBE | Amlwch Rural | Original Independents |

### 3.1.2 Rhaglen Waith y Pwyllgor (2012/13)

Cyfarfu'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 7 achlysur yn ystod y flwyddyn gan roddi sylw i 30 o faterion.

| Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2012/13 | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad y Pwyllgor** | **Eitem a Ystyriwyd** | **Canlyniad/Argymhelliad** |
| 7 Mehefin, 2012 | System Gyflogau/Adnoddau Dynol Integredig – Adroddiad Gwaith | Cyflwyno adroddiad diweddaru i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar fanteision y system a'r budd ariannol yn y dyfodol mewn perthynas â'r cyfleusterau hunanwasanaeth.<br>Bod adroddiad diweddaru hefyd yn cael ei gyflwyno ar y system absenoldeb salwch a gwahodd cynrychiolwyr o Wasanaeth Adnoddau Dynol yr Awdurdod i'r cyfarfod. |
| | Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarterol – Chwarter 4 2011/2012 | Penderfynwyd nodi'r adroddiad |
| | Siarter gyda Chynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a gofyn i'r Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini lunio adroddiad byr yn ymgorffori'r materion a godwyd gan y Pwyllgor hwn pan fydd y Siarter yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwyr ar ddiwedd y mis hwn. |
| | Adroddiad Monitro ar y Cynllun Iaith Gymraeg | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a gofyn i'r Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini lunio adroddiad byr yn ymgorffori'r materion a godwyd gan y Pwyllgor hwn pan fydd y siarter yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwyr ar ddiwedd y mis hwn. |
| | Adolygiad y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o Broses Gosod Cyllideb 2012/13 | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'r argymhellion a nodir uchod. |
| | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer 2012/13 | Penderfynwyd nodi'r adroddiad a bod yr eitemau uchod yn cael eu rhoi ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor hwn ar gyfer trafodaeth a sgriwtini manwl. |

| | | |
|---|---|---|
| 8 Hydref, 2012 | Cyflwyniad gan Medrwn Môn | Penderfynwyd –<br>- Nodi'r wybodaeth a'r safbwyntiau a gyflwynwyd a diolch i Brif Swyddog Medrwn Môn am ei gyflwyniad.<br>- Bod angen adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd gydag adolygu Compact Lleol Ynys Môn. |
| | Monitro Perfformiad Chwarterol – Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin) 2012/13 | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth. |
| | Cynllun Gwella Drafft (Adolygiad Perfformiad 2011/12) | Penderfynwyd –<br>- Derbyn y Cynllun Gwella a nodi ei gynnwys.<br>- Bod rhestr o'r holl DP hynny sy'n dirywio yn cael ei llunio ar gyfer pob pwyllgor sgriwtini penodol ynghyd â'u heffaith ar y maes gwasanaeth unigol dan sylw; ar lywodraethu corfforaethol ac ar ddinasyddion Ynys Môn yn cael eu hasesu fel y gall pob pwyllgor sgriwtini benderfynu ar gamau gweithredu priodol mewn perthynas â'r DP. |
| | Gorwariant Cyllidebol | Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a gyflwynwyd. |
| | Gohebiaeth – Gwasanaeth Cyfieithu'r Cyngor | Penderfynwyd cynnwys y Gwasanaethau Cyfieithu ar raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. |
| | Blaenraglen Waith | Penderfynwyd –<br>- Nodi'r Rhaglen Waith a chynnwys Cynllun Gweithredu Absenoldeb Salwch, Cofrestr Risg Gorfforaethol, Gwasanaethau Cyfieithu a Gorwariant Cyllideb fel eitemau ychwanegol ar gyfer cyfarfod 26 Tachwedd.<br>- Gohirio ystyried Compact Llywodraeth Cymru hyd gyfarfod diweddarach. |
| 26 Tachwedd, 2012 | Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf 2012/13 – Chwarter 2 2012/13 | Penderfynwyd nodi'r sefyllfa gyda'r gyllideb gyfalaf fel yr oedd ar ddiwedd Chwarter 2 blwyddyn ariannol 2012/13. |



| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf 2012/13 – Chwarter 2 2012/13 | Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd nodi'r sefyllfa yng nghyswllt y gyllideb refeniw ar ddiwedd Chwarter 2 ym mlwyddyn ariannol 2012/13. |
| | Adolygu Rhesymoli Partneriaethau | Penderfynwyd –<br>- Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd ar ddatblygiadau mewn perthynas â'r gwaith rhesymoli partneriaethau gyda Gwynedd.<br>- Argymell bod blaenoriaeth i ran amser a sylw swyddogion yn cael ei roi i feysydd risg uchel y Cyngor yn hytrach nag i'r gweithgareddau rhesymoli partneriaethau cyfredol gyda Gwynedd. |
| | Cynllun Integredig Sengl | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. |
| | Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol | Penderfynwyd derbyn y Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol a nodi ei gynnwys gyda'r argymhelliad y dylid adolygu'r ffotograffau a ddefnyddiwyd o fewn y Strategaeth er mwyn sicrhau ymdriniaeth deg. |
| | Blaenraglen Waith | Penderfynwyd nodi'r Flaenraglen Waith. |
| | Gweithgor Absenoldeb Salwch | Penderfynwyd derbyn yr arddodiad a nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chyflwyno ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr Aelodau ar yr adroddiad. |
| 10 Rhagfyr, 2012 | Rhesymoli Partneriaeth | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys gyda chais ar i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol mewn perthynas â'r mater. |
| | Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarterol – Chwarter 2 2012/13 | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. |
| 21 Rhagfyr, 2012 (Galw i mewn) | Y Stad Mân-ddaliadau | Cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Aelodau Portffolio ar gyfer Eiddo, Mân-ddaliadau a Rheoli Asedau a Chyllid a TGCh i'w ailystyried a hynny am y rhesymau a ganlyn -<br>- Er mwyn cydymffurfio gyda pholisi<br>- Er mwyn ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r polisi<br>- Sefydlu Panel o 5 aelod gyda chydbwysedd gwleidyddol i adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â'r stad mân-ddaliadau o ran incwm a gwariant a'r blaenoriaethau ar gyfer y stad yn y dyfodol. |
| 28 Ionawr, 2013 | Ymgynghori ar Gyllideb 2013/14 | Penderfynwyd –<br>- Nodi cynigion Cyllideb drafft 2013/14 fel yr oeddynt wedi eu cyflwyno.<br>- Awdurdodi'r Cadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Sgriwtini a'r Grŵp Llywio |

| | | |
|---|---|---|
| | | Sgriwtini i ffurfio ymateb sgriwtini ffurfiol i Gynigion Cyllidebol y Pwyllgor **Gwaith.** |
| 4th March, 2013 | Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2012/13 – Chwarter 2 2012/13 | Penderfynwyd nodi’r adroddiad a’r wybodaeth a gyflwynwyd. |
| | Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2012/13 – Chwarter 3 2012/13 | Penderfynwyd nodi’r adroddiad a’r wybodaeth a gyflwynwyd. |
| | Budget 2013/14 and Medium Term Revenue Strategy | Penderfynwyd nodi’r adroddiad a’r wybodaeth a gyflwynwyd. |
| | Newidiadau i’r Cyfansoddiad | Penderfynwyd nodi’r adroddiad a’r wybodaeth a gyflwynwyd. |
| | Cytuno Compact Ynys Môn a’r Polisi Gwirfoddoli | Penderfynwyd nodi’r adroddiad a’r wybodaeth a gyflwynwyd. |
| | Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2011/12 | Penderfynwyd –<br>- Nodi’r adroddiad a’r wybodaeth a gyflwynwyd.<br>- Argymell i’r Pwyllgor Gwaith bod rhaglen hyfforddi ar ofynion y ddeddfwriaeth cydraddoldebau a materion cysylltiedig yn cael ei threfnu ar gyfer Aelodau newydd y Cyngor ar ôl Mai 2013. |
| | Rheoli Risg | Penderfynwyd nodi’r adroddiad a chofnodi barn y Pwyllgor Sgriwtini, sef er ei fod yn derbyn bod cynnydd wedi ei wneud mewn perthynas â materion rheoli risg, nid yw graddfa’r cynnydd a wnaed yn ddigonol nac yn amserol ac, o’r herwydd mae'n argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn gweithredu ar y mater hwn ar fyrder. |

## 3.2 Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo

Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo yn gyfrifol am yr holl feysydd gwaith hynny sy'n ymwneud ag adfywiad economaidd yr ynys; gan gynnwys busnesau cynhenid a lleol, eiddo a rheoli asedau, twristiaeth a mewnfuddsoddiad. Mae ar y Pwyllgor 10 o Aelodau Etholedig ynghyd ag un Aelod cyfetholedig, sef Is-gadeirydd Grŵp Adfywio Economaidd Ynys Môn.

### 3.2.1 Aelodau'r Pwyllgor 2011-12

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng. John V Owen (Cadeirydd) | Parc A'r Mynydd | Annibynnwyr Gwreiddiol |  | Cyng. Elwyn Schofield | Llannerch-y-Medd | Dim cysylltiad ag unrhyw grŵp |
|  | Cyng. Richard Dew (Is-gadeirydd) | Rhosneigr | Llais i Fôn |  | Cyng. William Hughes | Bodffordd | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Clifford Everett | Tref Caergybi | Llafur |  | Cyng. Aled Morris Jones | Llaneilian | Annibynnwyr Gwreiddiol |
|  | Cyng. Rhian Medi | Cyngar | Plaid Cymru |  | Cyng. Gareth Winston Roberts OBE | Rural Amlwch | Annibynnwyr Gwreiddiol |
|  | Cyng. Alun Mummery | Gwyngyll | Dim cysylltiad ag unrhyw grŵp |  | Cyng. Selwyn Williams | Tysilio | Llais i Fôn |

### 3.2.2 Rhaglen Waith y Pwyllgor (2012/13)

Yn ystod 2012/13, cyfarfu'r Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo ar 5 achlysur ac ystyriwyd 11 eitem.

| Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo 2012/13 | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad y Pwyllgor** | **Eitem a Ystyriwyd** | **Canlyniad/Argymhelliad** |
| 30 Mai, 2012 | Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol – Gorsaf Niwclear newydd yn Wylfa | Penderfynwyd nodi'r adroddiad ac y bydd y Swyddogion perthnasol yn ymateb trwy lythyr gan egluro'r materion a godwyd yn y cyfarfod. |
| | Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarterol – Chwarter 4 – 2011/12 | Penderfynwyd nodi'r adroddiad. |
| | Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo – Blaenraglen Waith 2012/2013 | Penderfynwyd nodi'r adroddiad a disgwyl am ymateb gan Aelodau eraill y Pwyllgor hwn ynglŷn ag eitemau i'w rhoi ar Raglen Waith 2012/13. |
| 11 Medi, 2012 | Cynllunio Rheoli Cyrchfan ar Ynys Môn 2012 - 2016 | Penderfynwyd<br>1. Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn cytuno bod y Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC) drafft yn briodol ac yn argymell i'r Comisiynwyr :<br>a) Cefnogi a chymeradwyo'r strategaeth CRhC a'r Cynllun Darparu fel dogfennau byw i ddatblygu twristiaeth ar yr Ynys;<br>b) Cydnabod fod twristiaeth yn hanfodol bwysig i economi'r Ynys a chymunedau gwledig mwy anghysbell a phwysigrwydd y CRhC o ran gwireddu'r potensial hwn;<br>c) Cydnabod twristiaeth a marchnata fel maes pwysig ar gyfer gwariant craidd yn yr Awdurdod ond ymchwilio i ffynonellau cyllido eraill (gan gynnwys cyllid gan Gynghorau lleol/Cymuned) ynghyd â chydnabod pwysigrwydd gweithredu'r argymhellion a'r amcanion strategol yn y CRhC;<br>d) Cefnogi ymgysylltiad cydranddeiliaid sector preifat drwy Bartneriaeth Cyrchfan Ynys Môn;<br>e) Annog Cynghorau Tref/Cymuned i fod yn rhan o'r prosiect. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 2. Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini i ystyried dyfodol Glanfa Llongau Gwyliau Caergybi, y camau y gellir eu cymryd i annog Llongau Gwyliau i wneud mwy o ddefnydd o'r lanfa ac i annog ymwelwyr oddi ar y llongau i ymweld ag atyniadau ar yr Ynys. Bydd y Swyddog Sgriwtini yn ysgrifennu at holl Aelodau'r Pwyllgor i sefydlu Aelodaeth y Panel hwn cyn gynted ag sy'n bosibl. |
| | Rhaglen waith y Pwyllgor | Penderfynwyd nodi'r Rhaglen Waith. |
| 20 Tachwedd, 2012 | Rhaglen Ariannu Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd ôl-2013 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) | Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r materion a godwyd. |
| | Y Polisi Amaethyddol Cyffredinol a'r Cynllun Datblygu Gwledig ôl-2013. | Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r materion a godwyd. |
| 22 Ionawr, 2013 | Ymgynghori ar y Gyllideb 2013/14 | Penderfynwyd:-<br>- Derbyn cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb ddrafft sef y dylai'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd o £86k yn 2013/14 a chymeradwyo bid dwf y gwasanaeth am £300,000 (i gyfrannu at y Rhaglen Ynys Ynni);<br>- Cytuno y dylai'r Gwasanaethau Eiddo ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd o £239,000 yn 2013/14 ac na ddylid cymeradwyo'r bidiau twf ar gyfer y gwasanaeth;<br>- Y dylai'r Pwyllgor Gwaith ailasesu'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus a phreifat ym Môn. |
| 26 Chwefror, 2013 | Gorsaf Niwclear Arfaethedig newydd yn Wylfa | Penderfynwyd:<br>- Cydnabod y gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud mewn nifer o feysydd;<br>- Argymell i'r Pwyllgor Gwaith a'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol :-<br>- Eu bod yn ystyried sut y bydd yr effeithiau, yr heriau a'r cyfleoedd yn cael eu hintegreiddio i weithgareddau Cynllunio Corfforaethol yn y dyfodol;<br>- Eu bod yn ystyried sut y gellir gwella'r cydweithio rhwng Aelodau a Swyddogion yn y dyfodol ar nifer o feysydd cysylltiedig.<br>- Sefydlu Panel mewn perthynas â Manteision Cymunedol ar gyfer yr ardal leol mewn perthynas â'r adeilad newydd yn Wylfa.<br>- |

| | | |
|---|---|---|
| | Parthed Menter Ynys Môn | Penderfynwyd:-<br>- Cydnabod y manteision tymor hir a ddeuai yn sgil Statws Menter;<br>- Argymell bod yr Uned Datblygu Economaidd yn parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau'r manteision mwyaf cadarnhaol posibl o'r statws Parc Menter;<br>- Argymell y dylid rhoi blaenoriaeth i wella'r isadeiledd, (er mwyn cefnogi datblygiad economaidd)<br>- Bod cofnodion y Pwyllgorau Parc Menter ar gael i'r Pwyllgor hwn. |
| | Panel Canlyniad Sgriwtini | Penderfynwyd<br>- Cymeradwyo argymhellion y Panel Canlyniadau, yn amodol ar y newid i'r argymhelliad o ran gofyn i'r ymddiriedolaeth elusennol ystyried ei feini prawf cymhwysedd ar gyfer cyllid;<br>- Cysylltu gyda pherchnogion Anglesey Aluminium Metals Cyf i sicrhau etifeddiaeth ar gyfer Ynys Môn oni fedrir dod o hyd i ddatblygwr ar gyfer y safle.<br>- |

## 3.3 Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden

Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden yn gyfrifol am bob agwedd o waith Adran Dysgu Gydol Oes yr Awdurdod a hefyd yn ystyried agweddau o waith yr Adran Cymunedau, sef Llyfrgelloedd a Chyfleusterau Chwaraeon a Hamdden. Mae ar y Pwyllgor 10 Aelod Etholedig ynghyd â 3 Aelod cyfetholedig (Yr Eglwys yng Nghymru; Yr Eglwys Babyddol yng Nghymru ac Is-gadeirydd Pwyllgor Adfywio Economaidd Ynys Môn). Cynyddodd baich gwaith y Pwyllgor yn sylweddol yn ystod y flwyddyn yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Arolygu Estyn ar Wasanaeth Addysg yr Awdurdod; adlewyrchir hyn yn Rhaglen Waith y Pwyllgor yn rhan 6.4.2.

### 3.3.1 Aelodau'r Pwyllgor 2011-12

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng. Derlwyn Hughes (Chair) | Moelfre | Annibynwyr Gwreiddiol |  | Cyng. Jim Evans (Vice Chair) | Braint | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Cyng. Dylan Jones | Porth Amlwch | Llafur |  | Cyng. Eric Roberts | Trearddur | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Cyng. Ieuan Williams | Brynteg | Dim cysylltiad ag unrhyw grŵp |  | Cyng. Clive McGregor | Llanddyfnan | Llais i Fôn |
|  | Cyng. Lewis Davies | Llangoed | Plaid Cymru |  | Cyng. Gwilym O Jones | Llanfair yn Neubwll | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Cyng. Robert Ll. Jones | Porthyfelin | Dim cysylltiad ag unrhyw grŵp |  | Cyng. Fflur Hughes | Cefni | Plaid Cymru |

### 3.3.2 Rhaglen Waith y Pwyllgor (2012/13)

Yn ystod 2012/13, cyfarfu'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden ar 8 achlysur gan ystyried 36 o eitemau.

| Rhaglen Waith Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden 2012/13 | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad y Pwyllgor** | **Eitem a Ystyriwyd** | **Canlyniad/Argymhelliad** |
| 29 Mai, 2012 | Gwasanaeth Prydau Ysgol | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.<br>Argymell i Fwrdd y Comisiynwyr :<br>– Bod pris cinio ysgol (cynradd) yn cynyddu o £1.85 i £1.90, a bod pris cinio ysgol (uwchradd) yn cynyddu o £2.05 i £2.10 gyda'r codiadau i ddod i rym o 1 Medi, 2012.<br>– Bod y broses dendro yn mynd rhagddi fel y cytunwyd ac y dylid dyfarnu'r cytundeb mor fuan ag y bo modd yn 2013, er mwyn i'r cytundeb newydd ddod i rym ar 1 Medi, 2013. |
| | Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarterol – Chwarter 4 2011-12 | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r sefyllfa o du perfformiad yn erbyn y prif flaenoriaethau ar ddiwedd Chwarter 4 2011/12. |
| | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden 2012-13 ac awgrymiadau ar gyfer Byrddau Canlyniad Sgriwtini | Penderfynwyd nodi fersiwn gyfredol y flaenraglen waith fel y'i cyflwynwyd gan ofyn i'r Swyddog Cyswllt a Chefnogi Sgriwtini ddatblygu'r rhaglen ymhellach ar y llinellau a awgrymwyd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Addysg a swyddogion eraill fel bo'n briodol. |
| 21 Medi, 2012 | Adroddiad Arolygiad Estyn | PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn cytuno bod ansawdd y cynllunio fel y cafodd ei amlinellu yn Atodiadau 2 a 3 yr adroddiad yn briodol ac yn ddigon manwl i lunio cynllun gweithredu cadarn a fydd yn bodloni'n llwyr yr argymhellion a wnaed gan Estyn. |
| | Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad diwedd Cyfnod Allweddol | Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Bynyddol ar berfformiad diwedd cyfnod allweddol a nodi ei gynnwys. |

| | | |
|---|---|---|
| | Disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Lleoedd Gweigion mewn Ysgolion | Nododd yr Aelodau y llythyr. |
| 26 Hydref, 2012 | Panel Adolygiad Sgriwtini: Y Gwasanaeth Llyfrgelloedd | Penderfynwyd –<br>- Gofyn i'r Panel Adolygiad Sgriwtini Llyfrgelloedd a Gwybodaeth gwblhau ei dasg o lunio argymhellion cadarn ynghylch ffurf a chyfeiriad y Gwasanaeth gyda dyddiad cau terfynol y dylid glynu wrtho'n gaeth ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef Ionawr 2013<br>Bod y Panel Adolygiad Sgriwtini yn cynnwys yr elfennau canlynol yn ei Raglen Waith –<br>- Cynllunio ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus manwl ac Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol<br>- Cynnal seminar ar gyfer Aelodau'r Panel a'r Aelod Portffolio wedi ei hwyluso gan CyMAL (Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau Cymru) ar ddyfodol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus gan wahodd Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden ac Aelodau'r Pwyllgor Gwaith i fynychu hefyd.<br>- Bod adroddiad terfynol y Panel Sgriwtini Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i'w drafod mewn cyfarfod o Gyngor Sir Ynys Môn. |
| | Moderneiddio Ysgolion Cynradd Ynys Môn - Caergybi | – Argymell Opsiwn 10 (cytuno 3 ysgol sef Ysgol Y Parc, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Parch Thomas Ellis mewn ysgol newydd) i'r Pwyllgor Gwaith fel yr opsiwn a ffafrir gan y Pwyllgor ar gyfer ymgynghori ffurfiol yn amodol ar fforddiadwyedd ac yr amod y bydd materion o ran rheoli traffig a diogelwch ar y ffyrdd yn cael sylw boddhaol.<br>– Argymell y dylai'r ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi gael ei lleoli ar safle Cybi. |
| | Moderneiddio Ysgolion Cynradd Ynys Môn - Llangefni | Penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith –<br>- Yn wyneb y sefyllfa gyfredol o ran niferoedd disgyblion yn y tair ysgol yng nghanol Môn, cadw pethau fel y maent ar hyn o bryd.<br>- Yn amodol ar gyflwyno a gweithredu'r ddeddfwriaeth berthnasol, rhoi awdurdod i'r Swyddogion Addysg adolygu dalgylch Llangefni a,<br>- Ailystyried y ddarpariaeth o addysg gynradd yng nghanol Môn yn nes ymlaen yn y rhaglen moderneiddio ysgolion hyd oni cheir eglurhad ar y sefyllfa o ran argaeledd adnoddau, adolygu'r dalgylchoedd, cyflwr adeiladau'r ysgolion a chanlyniad y rhaglen foderneiddio mewn rhannau eraill o'r Ynys. |
| | Cludiant Ysgol | Penderfynwyd –<br>– Derbyn y Polisi diwygiedig ar gyfer Cludiant Ysgol fel y cafodd ei gyflwyno a'i argymell i'r Pwyllgor Gwaith.<br>– Cefnogi'r argymhellion canlynol o ran taliadau/ffioedd –<br><br>O fis Medi 2013: |

| | | |
|---|---|---|
| | | – Codi'r ffi flynyddol o 20c i 40c yn achos disgyblion sy'n byw llai na 2 filltir o'r ysgol gynradd (Cynllun Taliadau Dewisol). Un taliad blynyddol o £60.<br>– Bod y ffi o 40c/diwrnod ar gyfer disgyblion sy'n byw llai na 3 milltir o ysgol uwchradd yn parhau (Cynllun Taliadau Dewisol). Un taliad blynyddol o £60.<br>– Bod y ffi flynyddol o £60 (neu 2 randaliad o £30) ar gyfer myfyrwyr ôl-16 yn parhau.<br>– Bod y ffi gyfredol o £150 ar gyfer y Cynllun Seddi Gweigion (i ysgolion all-dalgylch) yn codi i £180 (yn daladwy mewn 3 rhandaliad o £60 neu daliad llawn ym mis Medi am bris gostyngol o £120). |
| 21 Tachwedd, 2012 | Effeithiolrwydd Sgriwtini Addysg | Penderfynwyd gwneud yr hunan arfarniad ar ddiwedd pob cyfarfod o'r Pwyllgor hwn er mwyn sefydlu a oedd y Pwyllgor wedi cyflawni'r rôl a ddiffiniwyd iddo ar gyfer pob eitem a ystyriwyd, trwy gwblhau'r ffurflen arfarnu oedd wedi cael ei pharatoi. |
| | Moderneiddio Ysgolion Cynradd Ynys Môn – De-ddwyrain Môn | Argymell Opsiwn 3 (cau Ysgol Llanddona a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Llangoed) i'r Pwyllgor Gwaith fel hoff ddewis y Pwyllgor ar gyfer ymgynghori ffurfiol ar yr adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Môn, gyda'r amodau a ganlyn -<br>- Bod materion cludiant yn yr ardal yn cael sylw a'u hateb yn foddhaol, a hefyd<br>- Ymweld eto â'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne-ddwyrain Môn maes o law, yn y Rhaglen Foderneiddio Ysgolion, gyda golwg ar sefydlu strategaeth tymor hir i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn yr ardal. |
| | Egwyddorion Moderneiddio Ysgolion | Penderfynwyd derbyn yr egwyddorion fel y cyflwynwyd hwy, ac ychwanegu'r egwyddorion roedd y Pwyllgor wedi'u hawgrymu, uchod. |
| | Rôl y Pwyllgor yn y broses o ddal Ysgolion a Phenaethiaid i gyfrif | Penderfynwyd –<br>• Sefydlu Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion Unigol o'r Pwyllgor hwn ar y llinellau oedd yn cael eu cynnig yn yr adroddiad.<br>• Penodi'r Cynghorwyr Lewis Davies, Gwilym O Jones ac Eric Roberts i'r grŵp/rota o dri aelod gydag un aelod yn gwasanaethu ar unrhyw adeg benodol ar y Grŵp Adolygu Cynnydd.<br>• Os na allai Cadeirydd nac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu fynd i gyfarfod o'r Grŵp Adolygu Cynnydd, gofyn i ail aelod o'r grŵp o dri a ddynodwyd uchod fynd yno yn hytrach. |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad Cyllid Chwarterol (Chwarter 2) | Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd –<br>– Sefydlu Panel Deilliant Sgriwtini o'r Pwyllgor hwn i edrych yn ddyfnach ar y Gyllideb Integreiddio (sectorau cynradd ac uwchradd) ac ymchwilio i'r rhesymau am y gorwariant ar y penawdau hyn o'r gyllideb.<br>– Penodi Cynghorwyr Mrs Fflur Hughes, R. Dylan Jones, Clive McGregor ac Ieuan Williams i wasanaethu ar y Panel Deilliant Sgriwtini uchod. |
| | Individual School's Financial Situation | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. |
| | Cyfraddau Presenoldeb a Pherfformiad Hanner Tymor | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. |
| | Strategaeth Llythrennedd Ddiwygiedig | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi cynnwys y Strategaeth Llythrennedd a'r arweiniad cysylltiedig ar gyfer ysgolion cynradd. |
| | Cytundeb Partneriaeth Diwygiedig | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi cynnwys y Cytundeb Partneriaeth. |
| | Cynllun Datblygu Achredu'r Gwasanaeth Ieuenctid | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. |
| | Gweithdrefnau Ysgol ar gyfer Dysgwyr mwy Abl a Thalentog | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad. |
| | Targedau a osodir gan Ysgolion Cynradd ac Uwchradd | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad. |
| 15 Ionawr, 2013 | Panel Adolygu Sgriwtini – Y Gwasanaeth Llyfrgell | Penderfynwyd:<br>- Nodi'r pryderon a fynegwyd gan gynrychiolwyr CyMAL a'u cyfeirio yn ôl i sylw'r Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Uwch Arweinyddiaeth.<br>- Aildrefnu tasg y Panel Adolygu Sgriwtini ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth o lunio argymhellion pendant ar gyfluniad a chyfeiriad y gwasanaeth i'r dyfodol i amserlen adrodd derfynol ym mis Mawrth 2013.<br>- Bod y Panel Adolygu Sgriwtini yn cynnwys yn ei raglenni gwaith yr elfennau a nodwyd yn rhan 4 yr adroddiad, yn ogystal â chynllunio ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â chyfeiriad y Gwasanaeth i'r dyfodol fel y cytunwyd eisoes. |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhesymoli Ysgolion Cynradd Ynys Môn – Y Llannau | Argymell Opsiwn 5 (ysgol ardal newydd i Lanfachraeth, Llanfaethlu a Llanrhuddlad) i'r Pwyllgor Gwaith fel yr opsiwn yr oedd y Pwyllgor yn ei ffafrio ar gyfer ymgynghori ffurfiol ar yr adolygiad o'r ddarpariaeth addysg gynradd yng Ngogledd Orllewin Ynys Môn yn amodol ar nodi cyllid a safle addas i'r datblygiad cyn dechrau'r broses ymgynghori ffurfiol. |
| | Diogelu Plant mewn Ysgolion | Penderfynwyd:<br>- Nodi a chefnogi'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Addysg mewn perthynas â monitro diogelwch plant mewn ysgolion ac o ran darparu hyfforddiant ar y lefel gywir i staff.<br>- Derbyn yr adroddiad blynyddol i'r Corff Llywodraethu ar Ddiogelwch yn y ffurf y cyflwynwyd ef. |
| | Bandiau Ysgolion Uwchradd 2012 | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth. |
| | Diweddariad ar Berfformiad Diwedd Cyfnod Allweddol 2012 | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth. |
| | Categorïau Cytundeb Partneriaeth | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth. |
| | Llythrennedd a Darllen mewn Ysgolion | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth. |
| | Cynllun Datblygu Achrediad y Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer 2012-14 | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'r Cynllun Datblygu Achrediad Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer 2012-14 |
| | Adroddiad Diweddaru:<br>Lleihau Ôl-troed Ysgolion<br>Datblygu ac addasu'r Cynllun Strategol AAA a dirprwyo cyllid<br>Cyfraddau Presenoldeb a Gwaharddiadau | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth. |
| 24 Ionawr, 2013 | Ymgynghori ar Gyllideb 2013/14 | Penderfynwyd –<br>- Nodi gydag anfodlonrwydd, y cynigion arbed a gyflwynwyd gan yr Adran Dysgu Gydol Oes a'r Gwasanaeth Hamdden a Diwylliant yn yr Adran Gymunedol fel oedd i'w weld yn y Ddogfen Ymgynghori ar Gyllideb 2013/14 Wynebu'r Heriau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | - Cyfleu i'r Pwyllgor Gwaith bryderon difrifol y Pwyllgor ynglŷn ag effaith y toriadau cyllidebol o 7% ar y Gwasanaethau Llyfrgell ac Ieuenctid gyda'r argymhelliad cryf nad oes raid i'r gwasanaethau hynny weithredu arbedion ar y 7% yn 2013/14 a'u bod yn cael diogelwch cyllidebol yn 2014/15.<br>- Yng ngoleuni'r pwysau ariannol ar gyllidebau awdurdod lleol, gofyn i'r Pwyllgor Gwaith roi cefnogaeth a chyfarwyddyd clir i'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes barhau gyda'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ac ehangu arni i'r blynyddoedd i ddod gyda golwg ar sefydlu, yn amodol ar i adnoddau fod ar gael, strategaeth addysgol i Ynys Môn yn seiliedig ar nifer lai o ysgolion a phatrwm o ysgolion ardal modern. |
| 27Chwefror, 2013 | Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae | Penderfynwyd yn unfrydol i gefnogi egwyddorion a chynnwys Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Ynys Môn a'r Cynllun Gweithredu |
| | Diffygion mewn Cyllidebau Ysgolion | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi bod gan ysgolion sydd mewn sefyllfa o ddiffyg gynlluniau adfer clir i gael gwared ar y diffyg a bod yr Awdurdod yn ymyrryd fel bo'r angen. |
| | Cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a derbyn ei gynnwys. |
| 21 Mawrth, 2013 | Panel Canlyniad Sgriwtini: Cyllideb Integreiddio Addysg | Penderfynwyd yn unfrydol i dderbyn adroddiad y Panel Canlyniad Sgriwtini yn dilyn ei adolygiad o'r Gyllideb Integreiddio Addysg ynghyd ag argymhellion yr adroddiad yn eu cyfanrwydd. |

## 3.4 Pwyllgor Sgriwtini Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol

Mae Pwyllgor Sgriwtini Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol yn gyfrifol am feysydd gwaith yn y Gwasanaeth Priffyrdd a Rheoli Gwastraff a’r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd megis priffyrdd (gan gynnwys lonydd, meysydd parcio ac ati); rheoli gwastraff ac ailgylchu; safonau masnach ac ati. Mae gan y Pwyllgor hefyd gyfrifoldebau penodol o ran materion Trosedd ac Anhrefn y mae’n rhaid iddo roi sylw iddynt o leiaf unwaith y flwyddyn.

### 3.4.1 Aelodau’r Pwyllgor 2011-12

Mae ar y Pwyllgor 10 o Aelodau etholedig..

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng. Keith Evans (Cadeirydd) | Cadnant | Dim cysylltiad ag unrhyw grŵp |  | Cyng. Richard L Owen (Is-gadeirydd) | Biwmares | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Cyng. William T Hughes | Llanbadrig | Annibynwyr Gwreiddiol |  | Cyng. Richard Dew | Rhosneigr | Llais i Fôn |
|  | Cyng. Rhian Medi | Cyngar | Plaid Cymru |  | Cyng. Raymond Jones | Lôn Llundain | Llafur |
|  | Cyng. Lewis Davies | Llangoed | Plaid Cymru |  | Cyng. J Arwel Roberts | Morawelon | Llafur |
|  | Cyng. John V Owen | Parc a’r Mynydd | Annibynwyr Gwreiddiol |  | Cyng. Hefin Thomas | Pentraeth | Dim cysylltiad ag unrhyw grŵp |

### 3.4.2 Rhaglen Waith y Pwyllgor (2012/13)

Yn ystod 2012/13, cyfarfu'r Pwyllgor Sgriwtini yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol ar 7 achlysur gan roi sylw i 11 eitem.

| Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgrwtini yr Amgylchedd a GwasanaethauTechnegol 2012/13 | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad y Pwyllgor** | **Eitem a Ystyriwyd** | **Canlyniad/Argymhelliad** |
| 28 Mai, 2012 | Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor. |
| | Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarterol – Chwarter 4 2011 / 2012 | Penderfynwyd nodi'r adroddiad. |
| | Blaenraglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol ar gyfer 2012/2013 ac awgrymiadau ar gyfer Byrddau Canlyniad Sgriwtini | Penderfynwyd nodi'r adroddiad a bod yr eitemau uchod yn cael eu rhoi ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer trafodaeth a sgriwtini manwl. |
| 26 Gorffennaf, 2012 | Canllawiau Cynllunio Atodol – Drafft Diwygiedig: Tyrbinau Gwynt ar y Tir | Penderfynwyd:<br>- Cefnogi'r pwyntiau y tynnwyd sylw atynt ym mharagraff 4.1(i),(ii),(iv) a (v) yn yr adroddiad.<br>- Diwygio'r CCA drafft i ymgorffori 'graddfa symudol' o bellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau gwynt o wahanol faint ac anheddau.<br>- Dirprwyo grym i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ymgorffori mân newidiadau i'r CCA yng ngoleuni'r gwaith Gwerthuso Cynaliadwyedd Amgylcheddol/Asesu Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd os oes angen.<br>- Dirprwyo grym i Bennaeth yr Adran Reoleiddio wneud mân newidiadau i'r CCA diwygiedig i gywiro camgymeriadau teipograffyddol cyn y cyfnod ymgynghori.<br>- Cyhoeddi'r CCA drafft diwygiedig i bwrpas ymgynghori cyhoeddus am gyfnod o 8 wythnos ar ôl gwneud y newidiadau y gofynnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | | amdanynt yn y cyfarfod hwn. |
| 10 Medi, 2012 | Taith – cyflwyniad | Penderfynwyd diolch i Mr. Iwan Prys-Jones am ei gyflwyniad i'r Pwyllgor. |
| 25 Hydref, 2012 | Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol – Ynni Gwynt ar y Tir | Penderfynwyd nodi'r adroddiad. |
| | Strategaeth Ddewisol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn gefnogol i ddatblygu'r Ddogfen Strategaeth Ddewisol. |
| 22 Tachwedd, 2012 | Fframwaith ar gyfer Gwarchod a Gwella Ardaloedd Cadwraeth | Penderfynwyd nodi'r adroddiad a chefnogi cyhoeddi'r cynigion ar gyfer gwarchod a gwella'r Ardaloedd Cadwraeth. |
| | Rheoli'r Perygl o Lifogydd – Strategaeth Leol ar gyfer rheoli'r Perygl o Lifogydd | Penderfynwyd:-<br>Derbyn yr adroddiad a'r materion a gofiwyd.<br>*Argymell i'r Pwyllgor Gwaith :-*<br>- Bod y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli'r Perygl o Lifogydd yn risg gorfforaethol a bydd angen clustnodi grant LIC ar gyfer rheoli llifogydd yn ystod unrhyw drafodaethau ar gynigon yn ymwneud â'r gyllideb.<br>- Anfon llythyr at LIC yn mynegi pryderon fod grantiau amaethyddol tuag at reoli llifogydd ar ffermydd lleol wedi cael eu torri. Gall problemau llifogydd godi ar y priffyrdd lleol oherwydd bod y grantiau hyn wedi cael eu tynnu'n ôl. |
| 12 Rhagfyr, 2012 | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd | Penderfynwyd<br>- Bod y Swyddogion yn rhoi sylw dyledus i'r materion a godwyd gan y Pwyllgor.<br>- Yn amodol ar y sylwadau uchod, cefnogi datblygu'r ddogfen ar y Strategaeth sy'n cael ei ffafrio. |
| 25 Ionawr, 2013 | Ymgynghori ar Gyllideb 2013/14 | Penderfynwyd:-<br>- Derbyn y cynigion drafft mewn perthynas â chyllideb 2013/14 ond mynegwyd pryderon ynglŷn â'r gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd;<br>- Dylid ailasesu'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus ar yr Ynys gan annog Cynghorau Tref/Cymuned, ynghyd â sefydliadau lleol i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y toiledau a'u rheoli. Dylai busnesau preifat hefyd gael eu hannog i gymryd rhan yn y cynllun i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'r toiledau yn eu sefydliadau. |

## 3.5 Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am holl swyddogaethau a gwasanaethau'r Adran Gymuned ac eithrio'r Gwasanaeth Hamdden a Llyfrgelloedd.

### 3.5.1 Aelodau'r Pwyllgor 2011-12

Mae ar y Pwyllgor 10 o Aelodau etholedig.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng. Lewis Davies (Cadeirydd) | Llangoed | Plaid Cymru |  | Cyng. Dylan Jones (Is-gadeirydd) | Porth Amlwch | Llafur |
|  | Cyng. William T Hughes | Llanbadrig | Annibynwyr Gwreiddiol |  | Cyng. Eric Jones | Llanfihangel Ysgeifiog | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Cyng. J V Owen | Parc a'r Mynydd | Annibynwyr Gwreiddiol |  | Cyng. R L Owen | Beaumaris | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Cyng. Fflur Hughes | Cefni | Plaid Cymru |  | Cyng. Thomas H Jones | Llanfechell | Llais i Fon |
|  | Cyng. Elwyn Schofield | LLannerch –y-medd | Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp |  | Cyng. Peter Rogers | Rhosyr | Heb gysylltiad ag unrhyw grŵp |

### 3.5.2 Rhaglen Waith y Pwyllgor (2012/13)

Yn ystod 2012/13, cyfarfu’r Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 7 achlysur a rhoddwyd sylw i 11 o eitemau.

| Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol 2012/13 | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad y Pwyllgor** | **Eitem a ystyriwyd** | **Canlyniad/Argymhelliad** |
| 31 Mai, 2012 | Enwebiadau Pwyllgor | Penderfynwyd enwebu’r Aelodau canlynol i wasanaethu ar y panelau ac/neu grwpiau fel a ganlyn:<br>- Panel Rhiant Corfforaethol – Y Cynghorydd J.V.Owen.<br>- Panel Gofal y Cwsmer a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol – Y Cynghorydd Lewis Davies<br>- Bwrdd Gwella Gwasanaethau Oedolion a Grŵp Mentora Gwasanaethau Oedolion – Y Cynghorwyr R.L.Owen a Mrs Fflur Hughes.<br>- Bwrdd Gwella Gwasanaethau Plant – Y Cynghorwyr Lewis Davies ac R.Dylan Jones<br>- Panel ar gyfer paratoi Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol – er mwyn sicrhau parhad, i gadw’r aelodaeth bresennol sef y Cynghorwyr Mrs Fflur Hughes, Eric Roberts, R.Dylan Jones, Lewis Davies, Selwyn Williams, a Trefor Lloyd Hughes. |
| | Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarterol - Chwarter 4 2011-12 | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad i nodi’r sefyllfa o safbwynt perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau allweddol ar ddiwedd Chwarter 4 2011/12. |
| | Comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a Phobl Ifanc | Penderfynwyd derbyn a chefnogi’r cyfeiriad strategol a’r bwriadau comisiynu yn y Strategaeth Gomisiynu Gwasanaethau Plant 2012 i 2015. |

| | | |
|---|---|---|
| | Strategaeth Recriwtio ar gyfer Staff Gwaith Cymdeithasol o fewn y Gwasanaethau Plant | Penderfynwyd –<br>• Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r camau a gynigiwyd yn Adran 3 yr adroddiad a bod yr adroddiad yn cael ei anfon ymlaen i'r Bwrdd Comisiynwyr am benderfyniad.<br>• Bod pryderon parhaol y Pwyllgor ynglŷn â methu cwblhau'r broses Arfarnu Swyddi ac effaith bosibl hynny ar recriwtio staff yn y Gwasanaethau Plant yn cael eu cyfleu i'r Prif Weithredwr. |
| | Adborth o Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)o'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau | Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad a'r cynigion ar gyfer gwella ac i gefnogi'r argymhellion oedd i'w gweld yn Adran 4 yr adroddiad. |
| | Datganiad Darparu Tai Fforddiadwy – Adolygiad Cynnydd 01-04-2011 to 31-03-2012 | Penderfynwyd –<br>- Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd a wnaed fel yr oedd wedi'i nodi a hefyd diolch i'r Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai) a'i staff am yr adroddiad a'r ymdrechion yr oedd yn ei adlewyrchu.<br>- Argymell bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod cytundebau cyfreithiol yn cael eu paratoi a'u trefnu fel eu bod yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd â'r caniatâd cynllunio. |
| | Diweddariad - Blaenraglen Waith | Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r rhestr oedd ynghlwm ac i awdurdodi'r Cadeirydd i symud ymlaen i gwblhau Rhaglen Waith y Pwyllgor mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Sgriwtini a swyddogion perthnasol eraill. |
| 10 Gorffennaf, 2012 | Adroddiad Blynyddol gan y Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | Penderfynwyd –<br>- Derbyn a nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol gan y Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol am 2011/12, a<br>- Cyflwyno adroddiadau cynnydd chwarterol i'r Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol gan y Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| | Trefniadau Diogelu ar gyfer Oedolion Bregus | Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad a diolch i'r Swyddog am y wybodaeth a'r cyflwyniad. |
| 24 Medi, 2012 | Trawsnewid Gwasanaethau i Oedolion | Penderfynwyd –<br>- Derbyn yr adroddiad.<br>- Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gwireddu'r bwriadau |

| | | |
|---|---|---|
| | | comisiynu sy'n sail ar gyfer Strategaeth yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn fel y cafodd ei grynhoi yn yr adroddiad, gan gynnwys lansio proses ymgynghori ynghylch trawsnewid gwasanaethau preswyl ar yr ynys.<br>- Mewn perthynas â darparu Prydau Cymunedol yn y dyfodol, yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y Pwyllgor yw Opsiwn 5, ar yr amod bod y potensial i ddefnyddio'r stadau tai gwarchod i'r pwrpas hwn yn cael sylw.<br>- Cefnogi rhoi sylw i ddull amgen o ddarparu offer/cymhorthion i fywyd pob dydd ar y llinellau a amlinellir ym mharagraff 5.3 yr adroddiad. |
| | Cynllun Gweithredu'r Gwasanaethau Plant - Diweddariad | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys. |
| | Gweithdrefn Gwyniona Chanmoliaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol: Adroddiad Blynyddol 2011/12 | Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2011/12 a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2012/13 ar gyfer datblygu trefniadau i ddelio'n effeithiol gyda sylwadau a chwynion a dderbynnir gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr. |
| | Polisi Gorfodi Gwerthu Cartrefi Gweigion | Penderfynwyd argymell i'r Bwrdd Comisiynwyr –<br>– Bod y Polisi Gorfodi Gwerthu Tai Gweigion yn cael ei fabwysiadu.<br>– Bod y Pennaeth Gwasanaeth (Eiddo) a'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) yn cael eu hychwanegu at y cynllun dirprwyo i gychwyn camau cyfreithiol ar gyfer sicrhau meddiant eiddo y mae gan y Cyngor bridiant tir cyfreithiol yn eu herbyn wrth ymarfer unrhyw un o'i bwerau statudol ac i ddelio gyda gwerthu'r eiddo. |
| | Blaenraglen waith y Pwyllgor | Gwybodaeth yn unig |
| | Arolwg Anghenion Tai Tref Biwmares | Gwybodaeth yn unig. |
| 19 Tachwedd, 2012 | Cymunedau'n Gyntaf Môn | Penderfynwyd -<br>- Nodi cynnwys yr adroddiad.<br>- Nodi'r elfennau y bwriedir eu cynnwys yn y Cytundeb Canlyniad rhwng y Cyngor a Bwrdd Cymunedau'n Gyntaf Môn fel ag yr oedd yn yr adroddiad ynghyd â'r sylwadau a wnaed ynglŷn â'r angen i'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cytundeb gynnwys peth diogelwch.<br>- Argymell bod argymhellion yr ymchwiliad annibynnol ynglŷn â materion llywodraethu yn cael eu gweithredu gan Fwrdd Cymunedau'n Gyntaf Môn a swyddogion y Cyngor gydag adroddiad am hynny yn dod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini yn Ionawr / Chwefror.<br>- Argymell bod Bwrdd Cymunedau'n Gyntaf Môn yn ceisio cael cyngor arbenigol ac yn mabwysiadu arfer dda yn ei drefniadau llywodraethu.<br>- Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) gyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor fyddai'n egluro'r sefyllfa staffio yn Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf. |
| | Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad Perfformiad 2011-12 gan AGGCC | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. |
| | Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion : Bwriadau Comisiynu Strategol – Trawsnewid / Ailddylunio Gwasanaeth | Penderfynwyd -<br>– Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gwireddu bwriadau comisiynu'r Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Pobl Hŷn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r adolygiad o'r trefniadau darparu cyfredol mewn perthynas â'r Gwasanaeth Prydau Cymunedol.<br>– Nodi a chefnogi'r cynnydd a wnaed hyd yma ynghylch ymgynghori ar ddarparu gofal preswyl i'r dyfodol(darpariaeth fewnol).<br>– Cefnogi'r cynllun gwella ar gyfer Technoleg Gynorthwyol(Teleofal) fel yr amlinellir yn rhan 5.3.5 yr adroddiad. |
| | Taith i Waith | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. |
| | Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaeth | Penderfynwyd nodi'r adroddiad ynghyd â'r adolygiad o'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer 2013. |
| 21 Ionawr, 2013 | Ymgynghori ar y Gyllideb 2013/14 | Penderfynwyd –<br>– Derbyn cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2013/14 fel yr oedd wedi ei gyflwyno yn y ddogfen ymgynghori ar y |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gyllideb.<br>– Nodi a derbyn cynigion y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer nodi arbedion o £812k ar gyfer 2013/14.<br>– Nodi a derbyn cynigion y Gwasanaethau Tai ar gyfer nodi arbedion o £66k ar gyfer 2013/14.<br>– Derbyn a chefnogi cynigion twf y Gwasanaethau Plant ar gyfer 2013/14 fel oedd wedi ei nodi yn y ddogfen Ymgynghori ar y Gyllideb. |
| 25th February, 2013 | Cymunedau'n Gyntaf Môn | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. |
| | Cael gwared ar dir CRT ar gyfer Cartrefi Fforddiadwy | Penderfynwyd derbyn a chefnogi'r polisi diwygiedig drafft ar gael gwared ar dir CRT i bwrpas codi Tai Fforddiadwy ac argymell y polisi drafft i'r Pwyllgor Gwaith. |
| | Prosiect Gwella'r Sector Rhent Preifat | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'r Cynllun Gweithredu a oedd ynghlwm. |
| | Archwiliad Diogelu Plant – Adroddiad Gwaith | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. |
| | Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori Gofalwyr Gogledd Cymru | Penderfynwyd cefnogi argymhellion yr adroddiad a'u hargymell i'r Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo. |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru (Mesur) | Penderfynwyd nodi'r wybodaeth fel y cafodd ei chyflwyno. |

## 4. PANELI DEILLIANT SGRIWTINI

### 4.1 Cyllideb Integreiddio Addysg - Pwyllgor Addysg a Hamdden



Yn ei gyfarfod ar 21 Tachwedd, 2012 rhoes y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden sylw i sefyllfa ariannol y Gwasanaeth Addysg fel yr adroddwyd arno ar ddiwedd Chwarter 2. Ar ddiwedd Chwarter 2, roedd gorwariant o £494k yng nghyllideb y Gwasanaeth Addysg. Er bod rhai penawdau cyllidebol yn dangos gorwariant ac eraill yn dangos tanwariant, nodwyd bod gorwariant mewn tri o brif benawdau cyllidebol:

- Integreiddio (Uwchradd) - £320k
- Integreiddio (Cynradd) - £79k
- Gwasanaeth Lles Addysg - £44k (blwyddyn lawn).

Yn dilyn cais gan y Pennaeth Gwasanaeth Addysg, cytunwyd i sefydlu Panel Deilliant Sgriwtini i gynnal ymchwiliad manwl i'r Gyllideb Integreiddio Addysg a darparu cyfres gadarn o argymhellion ar gyfer rheoli'r gyllideb yn y dyfodol.

Amcanion y Panel oedd:

- Goruchwylio dadansoddiad o gyllidebau mewn perthynas â darparu Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) – Nodi gwariant dan wahanol benawdau cyllidebol ac ystyried yr achosion am lefel y gwariant.
- Llunio argymhellion ynghylch sut y gellir ailfodelu'r ddarpariaeth AAA er mwyn gostwng gorwariant a ragwelir a gwella mesurau rheoli ar wariant yn y dyfodol.
- Ystyried effaith unrhyw argymhellion a wneir ar y gwasanaethau yn y dyfodol a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag AAA.

Wedi dwyn i ben ei ymchwiliadau, gwnaeth y Panel Deilliant Sgriwtini ar y gyllideb integreiddio addysg y 10 argymhelliad a ganlyn:

- <u>Argymhellir</u> bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn cynnal adolygiad o Uned Eilian (Ysgol Moelfre) i weld a yw'r uned yn darparu gwerth am arian a chwilio am ffyrdd o ailfodelu'r gwasanaeth a ddarparwyd.

- <u>Argymhellir</u> bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn rhoi'r gorau i gyllido unrhyw ddarpariaeth AAA ychwanegol dan y pennawd 'Gwybyddiaeth a Dysgu' – GLD ar gyfer disgyblion yn y cyfnod sylfaen (dan 7 oed).

- Argymhellir bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn sicrhau fod gweithdrefnau priodol yn eu lle i ddatganoli i'r ysgolion cynradd yr holl gyllid a nodwyd ar gyfer disgyblion sydd angen darpariaeth AAA anstatudol (3*) mewn perthynas â 'Gwybyddiaeth a Dysgu' ac 'Anawsterau Iaith a Chyfathrebu'.

- Argymhellir bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn parhau i weithio ar ddatblygu strategaeth mewn ymgynghoriad gyda'r ysgolion ar gyfer delio gydag anawsterau ymddygiadol. Dylid ystyried sefydlu tîm o weithwyr cefnogol arbenigol i weithio yn ysgolion priflif yr Awdurdod.

- Argymhellir bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn ymgymryd ag ymarfer ymgynghori gyda Fforwm Ysgolion Ynys Môn (Cyllid) o ran y fformiwlâu cyllido amgen a nodwyd yn Rhan 8 yr adroddiad hwn.

- Argymhellir bod unrhyw arbedion ariannol a wnaed ar y gyllideb integreiddio drwy'r flwyddyn yn cael eu neilltuo'n benodol ar gyfer gwella ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth AAA ar yr ynys.

- Argymhellir bod grŵp o Aelodau Etholedig yn cael eu penodi i barhau gyda'r gwaith o adolygu'r gyllideb integreiddio a gweithio mewn capasiti ymgynghorol gyda'r Adran Dysgu Gydol Oes wrth iddynt barhau gyda'u hymdrechion i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

- Argymhellir bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn ymgymryd ag adolygiad o wariant ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gyda chyflyrau meddygol ac yn trafod y modd y cyllidir y ddarpariaeth gyda phartneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

- Argymhellir bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn cael yr awdurdod i ddatblygu strategaeth tymor hir ar gyfer ailfodelu'r gwasanaeth AAA gyda gweledigaeth strategol o sefydlu darpariaeth arbenigol ar gyfer y gwahanol anghenion a nodwyd mewn ysgolion penodol yn yr ardaloedd dalgylch fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

- Argymhellir bod yr Adran Dysgu Gydol Oes yn adolygu rôl Ysgol y Bont o ran yr Unedau Asesu Cyn-Ysgol a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a chanddynt anghenion dysgu dwys mewn ysgolion priflif.

## 5. YMGYSYLLTIAD SGRIWTINI

5.1 Mae sylwadau a syniadau sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn pwnc dan sylw yn werthfawr i sicrhau sgriwtini effeithiol.

5.2 Mae arferion gorau o ran Sgriwtini fel arfer yn golygu bod rhaid i Aelodau weithio gyda phobl a sefydliadau lleol er mwyn darparu gwasanaethau sy'n effeithiol ac yn ymatebol.

5.3 Bydd Pwyllgorau Sgriwtini yn cyfarfod yn gyhoeddus ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae angen trafod materion cyfrinachol a bydd dyddiadau lleoliad y cyfarfodydd a'r blaenraglenni gwaith ar gael ar wefan y Cyngor yn <http://www.ynysmon.gov.uk>

5.4 Yn ogystal, gellir gwahodd partneriaid ac asiantaethau allanol i fynychu Pwyllgorau Sgriwtini fel y gall y Pwyllgor mofyn eu sylwadau a'u barn ar faterion sy'n cael effaith ar y modd y darperir yr amcanion corfforaethol.

5.5 I ddysgu mwy am Sgriwtini yn Ynys Môn neu i roi eich sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'r Tîm Sgriwtini yn:

Tîm Sgriwtini
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni.
Ynys Môn.
LL77 7TW
Sgriwtini@ynysmon.gov.uk

| | | |
|---|---|---|
| Bev Symonds | Rheolydd Sgriwtini yn gyfrifol am:<br>- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | (01248) 752078 |
| Geraint Wyn Roberts | Swyddog Sgriwtini yn gyfrifol am:<br>- Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol; a<br>- Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo | (01248) 752039 |
| Gareth Bayley-Hughes | Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini yn gyfrifol am:<br>- Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden<br>- Pwyllgor Sgriwtini yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol. | (01248) 752079 |

**ATODIAD 1- CYLCH GORCHWYL PWYLLGORAU SGRIWTINI**

| ENW'R PWYLLGOR | CYLCH GORCHWYL |
|---|---|
| 1) PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL<br>( 12 Aelod)<br><br>Ynghyd ag aelodau cyfetholedig (gyda hawl i bleidleisio) pan yn delio gyda materion addysg | Defnydd gorau o staff, cyllid ac eiddo<br>– Polisi Corfforaethol<br>– Strategaeth Gymunedol<br>– Cwynion<br>– Proses y gyllideb gorfforaethol a'i monitro<br>– Systemau ariannol a gweinyddol<br>– Iechyd a Diogelwch<br>– TGCh<br>– Cynllun Gwella a'i fonitro<br>– Gwasanaethau cefnogi mewnol<br>– Cynllun Iaith<br>– Cytundebau canlyniadau<br>– Monitro perfformiad<br>– Pŵer galw-i-mewn<br>– Arloesedd gwasanaethau a chydweithredu<br>– Llywodraethu partneriaeth strategol<br>– Sgiliau'r gweithlu |
| 2) PWYLLGOR SGRIWTINI TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL<br>( 10 Aelod) | – Gwrthdlodi<br>– Budd-daliadau<br>– Gwasanaeth gofal a chefnogaeth bersonol<br>– Adfywio cymunedol<br>– Rhai difreintiedig<br>– Cyfleoedd cyfartal<br>– Byw'n Iach<br>– Tai<br>– Canolfan J E O'Toole<br>– Ystafell Fonitro (Gofal Môn a Chamerâu Gorchwylio)<br>– Diogelu pobl fregus<br>– Ansawdd bywyd<br>– Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 3) PWYLLGOR ADDYSG A HAMDDEN<br>( 10 Aelod)<br><br>YNGHYD Â<br>Cynrychiolwyr yr eglwys a rhieni sy'n llywodraethwyr yn unol â pharagraffau 8-11 Atodlen 1 Deddf Llywodraeth Leol 2000 | – Archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd<br>– Diwylliant<br>– Addysg<br>– Dysgu Gydol Oes<br>– Hyfforddiant Môn<br>– Cyfleusterau chwaraeon a |

| | |
|---|---|
| | hamdden<br>– Gwasanaethau Ieuenctid a Chymunedol |
| 4) PWYLLGOR SGRIWTINI YR AMGYLCHEDD A GWASANAETHAU TECHNEGOL (10 Aelod) | – Atal Trosedd a'r Pwyllgor Sgriwtini Trosedd ac Anhrefn Statudol<br>– Cynllunio mewn Argyfwng<br>– Iechyd Amgylcheddol<br>– Stiwardiaeth amgylcheddol<br>– Priffyrdd (yn cynnwys ffyrdd, strydoedd, pontydd, meysydd parcio, mynediad i'r cyhoedd<br>– Cynllunio Defnydd Tir<br>– Trwyddedu<br>– Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau<br>– Amddiffynfeydd Môr a Morwrol<br>– Cynaliadwyaeth<br>– Safonau Masnach<br>– Cludiant<br>– Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu |
| 5) PWYLLGOR SGRIWTINI DATBLYGU ECONOMAIDD, TWRISTIAETH AC EIDDO (10 Aelod) | – Busnesau lleol a chynhenid<br>– Isadeiledd par: cyllido adfywio economaidd<br>– Buddsoddi o'r tu allan<br>– Hyrwyddo adfywio economaidd<br>– Rheoli eiddo ac asedau<br>– Twristiaeth<br>– Sgiliau'r gweithlu (trwy'r Ynys) |

**O fewn eu cylch gorchwyl, bydd Pwyllgorau Sgriwtini a Throsolwg yn**:

- Adolygu a/neu sgriwtineiddio penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor;
- Cyflwyno adroddiadau a/neu argymhellion i'r Cyngor llawn a/neu'r Pwyllgor Gwaith a/neu unrhyw Bwyllgor ar y Cyd neu Bwyllgor ardal mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau;
- Ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion;
- Ymarfer yr hawl i alw i mewn, er mwyn ailystyried penderfyniadau a wnaed ond nad ydynt eto wedi eu gweithredu gan y Pwyllgor Gwaith a/neu unrhyw Bwyllgorau Ardal [O.N. Nodwch os gwelwch yn dda bod y grym i alw penderfyniad i mewn wedi ei gyfyngu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac ni ddylid ond ei ddefnyddio'n gynnil oherwydd y gallai olygu oedi gyda gweithredu polisi]; a
- Cynnal adolygiadau dan Raglen Cymru ar gyfer Gwelliant ar y swyddogaethau sydd y tu mewn i'w faes priodol a chyflwyno adroddiadau ar y materion trwy'r Pwyllgor Gwaith i'r Cyngor.

**O safbwynt eu swyddogaeth mewn perthynas â datblygu ac adolygu polisïau, gall Pwyllgorau Sgriwtini:**

- Gynorthwyo'r Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu ei gyllideb a'i fframwaith polisi drwy ddadansoddiad manwl o faterion polisi;
- Gwneud ymchwil, ymgynghori gyda'r gymuned ac ymgynghori gydag eraill i ddadansoddi materion polisi a dewisiadau posibl;
- Ystyried a gweithredu mecanweithiau i annog a gwella cyfranogiad cymunedol yn y gwaith o ddatblygu a dewisiadau posib;
- Holi aelodau'r Pwyllgor Gwaith a/neu bwyllgorau a Phrif Swyddogion am eu barn ar faterion ac argymhellion sy'n effeithio ar yr ardal; a
- Cysylltu â chyrff allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, bônt yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, i hyrwyddo lles y bobl leol drwy weithio ar y cyd.

**O safbwynt eu rôl sgriwtini, gall Pwyllgorau Sgriwtini**

- Adolygu a sgriwtineiddio penderfyniadau a pherfformiad y Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgorau a Swyddogion y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau unigol a thros gyfnod o amser;
- Adolygu a sgriwtineiddio perfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig;
- Holi aelodau'r Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion am eu penderfyniadau a'u perfformiad, p'un ai yn gyffredinol o gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu mewn perthynas â phenderfyniadau, cynlluniau neu brosiectau neilltuol;
- Gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgor priodol a/neu'r Cyngor yn deillio o ganlyniadau'r broses sgriwtini;
- Adolygu a sgriwtineiddio perfformiad cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal;
- Holi a chasglu tystiolaeth

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **23 MAI 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYNLLUN DATBLYGU AELODAU – MAI 2013– MAWRTH 2014** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **GOFYN I'R CYNGOR GYMERADWYO'R CYNLLUN DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MIRIAM WILLIAMS, UWCH SWYDDOG DATBLYGU ADNODDAU DYNOL** |

Mae dyletswydd ar yr Awdurdod i ddarparu cyfleon hyfforddi a datblygu ar gyfer ei Aelodau a threfnu bod gwybodaeth yn cael ei adrodd i'r Cyngor yn flynyddol.

Yn ystod 2012/13 sefydlodd y Cyngor Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unol â Mesur Llywodraeth Leol(Cymru) 2011. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â hyfforddi a datblygu Aelodau ac fe gymerodd drosodd swyddogaeth y Gweithgor Datblygu Aelodau a sefydlwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i wella'r cyfleon hyfforddi a datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig.

Yn y cyfnod diwethaf darparwyd rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant a gafodd ei llywio gan anghenion yr Aelodau a'r sefydliad ac a gefnogwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Datblygwyd Strategaeth Datblygu Aelodau gan y Gweithgor ac fe wnaeth yr Awdurdod ymrwymiad i weithio tuag at ennill Statws Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Datblygu Aelodau. Mae'r Strategaeth yn rhan allweddol o ennill Statws Siarter sy'n canolbwyntio ar gefnogi a datblygu Aelodau yn barhaus.

Yn ei hanfod, mae'r Strategaeth yn ymwneud â deall anghenion Aelodau fel bod modd eu cefnogi'n well trwy ddarparu cyfleon datblygu priodol sy'n cael eu monitro, eu gwerthuso a'u hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas ac o'r safon iawn.

Ers yr etholiad mae pob Aelod o'r Cyngor wedi cael disgrifiad swydd a manyleb person generig sy'n cynnwys cyfeiriad at gyfleon a gynigir gan yr Awdurdod ar gyfer datblygiad personol yr Aelodau a datblygu eu rôl.

Mae symud ymlaen gyda'r rhaglen ddatblygu a chynefino ar gyfer Aelodau yn hollbwysig. Mae'r Cynllun Hyfforddi sydd ynghlwm am y cyfnod Mai 2013 i Fawrth 2014 wedi ei baratoi gyda chymorth CLILC i ddwyn sylw at y prif feysydd datblygu a gynigir yn ystod y cyfnod. Mabwysiadwyd dull o symud ymlaen fesul cam er mwyn sicrhau y gellir darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynlluniau cynefino ar gyfer yr Aelodau Etholedig wrth iddynt ddechrau ymgymryd â'u swyddogaethau. Bydd y rhaglen, cyn belled â phosib yn ceisio cwrdd â gofynion Aelodau h.y. cyfuniad o sesiynau dydd a nos a hefyd amrywiaeth o ran hyfforddiant h.y. gweithdai, mentora, e-ddysgu ac un i un a.y.y.b.

Bydd y ddogfen yn "rhaglen dreigl" o sesiynau yn seiliedig ar anghenion unigol yr Aelodau, ynghyd ag anghenion y Cyngor/cydranddeiliaid eraill, ond gan adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael. Fe fydd yr adolygiadau datblygiad personol a wneir gan Aelodau yn ystod y flwyddyn yn rhan bwysig o'r broses hon.

Bwriedir y bydd y cynllun yn gwneud cynnydd cadarnhaol pellach tuag at gefnogi Aelodau yn eu swyddogaethau, gwella safonau, datblygu arferion da ac ennill y Siarter Datblygu Aelodau. Bwriedir adolygu'r rhaglen datblygu ar ôl tri mis.

Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cadw llygad ar gynnydd yn rheolaidd ac yn adolygu/diweddaru'r cynllun yn seiliedig ar anghenion yr Aelodau a'r sefydliad. Bydd y Pwyllgor Safonau hefyd yn cael adroddiadau fel sy'n briodol.

**ARGYMHELLIAD:**

Mabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Hyfforddi ar gyfer Aelodau fel sydd wedi ei nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.**
**13.05.13**

# Rhaglen Datblygu a Chynefino ar gyfer Aelodau ar ôl Mai 2013

**CAM 1**

| Amserlen | **Cyswllt gyda Siarter Aelodau CLILC** | **Pwnc** | **I bwy?** |
|---|---|---|---|
| **MAI 2013** | **09.05.2013**<br><br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | • Croeso i'r Cyngor a throsolwg cychwynnol o'r rhaglen waith allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Uwch Reolwyr<br><br>• Cyfarfod â Chyfarch Penaethiaid Gwasanaeth/cynrychiolwyr Adrannol | Pob Aelod Etholedig |
| | **8-10/5/2013**<br>Moderneiddio Arferion Gweithio | • Hyfforddiant Ipad cyffredinol<br>• Hyfforddiant Modern Gov.<br>• Taith o amgylch yr adeilad | Pob Aelod Etholedig |
| | **15.05.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Y Fframwaith Moesegol – Cyflwyniad i Reolau a Safonau Ymddygiad | Pob Aelod Etholedig |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **20.05.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | • Diogelu Data<br>• Y Cynllun Iaith Gymraeg<br>• Protocolau delio gyda'r Wasg/Cyfryngau | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| | **29.05.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Modern Gov. – Datganiad Diddordeb ar lein | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |

**CAM 2**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **MEHEFIN 2013** | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth | Panel Penodi | Aelodau Etholedig ar y Panel Penodi<br><br>Mewnol |
| | **03.06.2013**<br>Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth | Hyfforddiant ar y Pwyllgor Cynllunio | Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio<br><br>Mewnol |
| | **04.06.2013**<br>Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth | Asesu Anghenion Datblygu | Pwyllgor Gwaith<br><br>CLILC |
| | **06.06.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Trosolwg o'r Swyddogaeth Sgriwtini | Pob Aelod Etholedig<br>Mewnol |
| | **07.06.2013**<br>Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth | Sesiwn Ddatblygu ar gyfer y Pwyllgor Gwaith | Pwyllgor Gwaith<br>CLILC |
| | **11.06.2013**<br>Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth - Yr holl Gadeiryddion/Is-Gadeiryddion Pwyllgor | Sesiwn/Sesiynau Sgiliau Cadeirio | Cadeiryddion/Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini<br>Mewnol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **13.06.2013**<br>Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth – Yr holl Gadeiryddion/Is-Gadeiryddion Pwyllgor | Sgiliau Holi mewn cyfarfodydd Sgriwtini | Pob Aelod o Bwyllgorau Sgriwtini<br><br>Mewnol |
| | **24.06.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Cynllun Corfforaethol/Rhaglen Trawsnewid a Chynllunio Ariannol | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| | **26.06.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Gweithdy Sgiliau Cadeirio cyffredinol | Pob Aelod Etholedig<br><br>CLILC /Mewnol |
| | **27.06.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Derbyn yr her Sgriwtini | Pob Aelod Etholedig<br><br>CLILC |
| **GORFFENNAF 2013** | **02.07.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Sgriwtineiddio Data Perfformiad | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| | **03.07.2013/05.07.2013/16.07.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Cyfrifoldebau Corfforaethol e.e. Rhiantu Corfforaethol/Diogelu Oedolion Bregus a Phlant | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| | **08.07.2013**<br>Mwy o fanylion am sut mae'r Cyngor yn gweithio | Swyddogaethau Archwilio<br><br>Adroddiad Cyfrifon/Rheolaeth Trysorlys | Pob Aelod Etholedig<br><br>Pwyllgor Archwilio<br><br>Mewnol/SAC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **12.07.2013**<br>Mwy o fanylion am sut mae'r Cyngor yn gweithio | Cynnal adolygiad manwl (Panel Canlyniad Sgriwtini) | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| **AWST 2013** | **TORIAD DROS YR HAF** | **DIM HYFFORDDIANT WEDI EI GYNLLUNIO** | |
| **MEDI 2013** | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Mwy o fanylion am sut mae'r Cyngor yn gweithio | Iechyd a Diogelwch | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| | **05.09.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Cyfryngau Cymdeithasol | Pob Aelod Etholedig<br><br>CLILC |
| | **11.09.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Cydraddoldebau | Pob Aelod Etholedig<br><br>CLILC |
| | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Y Datganiad Cyfrifon | Pwyllgor Archwilio<br><br>Mewnol |
| | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Rheoli'r Trysorlys | Pwyllgor Archwilio<br><br>Mewnol |
| **HYDREF 2013** | **09.10.2013**<br>Gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas â swyddogaethau a gweithgareddau penodol | Hyfforddiant Adolygiad Datblygiad Personol | Pob Aelod Etholedig<br><br>CLILC |
| | **14.10.2013**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Sgriwtineiddio'r Gyllideb | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Rheoli Risg | Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini<br><br>Mewnol |
| **TACHWEDD 2013** | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Gosod y Gyllideb | Pob Aelod Etholedig<br><br>Mewnol |
| **RHAGFYR 2013** | **Dyddiad i'w gadarnhau**<br>Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a'r Trefniadau Atal Twyll | Pwyllgor Archwilio<br><br>Mewnol |

**Sesiynau Datblygu ychwanegol a pharhaus i'w trefnu:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyn y Pwyllgorau Trwyddedu cyntaf | Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth - Trwyddedu (cyn y cyfarfodydd cyntaf) | Hyfforddiant i'r Pwyllgor Trwyddedu | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu |
| Cyn y Toriad dros yr Haf | Y disgwyliadau ar yr holl aelodau etholedig a'u swyddogaethau | Sesiynau Briffio cyffredinol ar faterion allweddol yn y gwasanaethau megis sesiynau trosolwg DVD/dosbarth | Pob Aelod Etholedig |
| Cyfredol fel bo'r angen | Gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas â swyddogaethau a gweithgareddau penodol | Sgiliau Cadeirio | Pob Aelod Etholedig |
| Anghenion Hyfforddi a godwyd yn sgil yr Adolygiadau Datblygiad | Sgiliau Personol Cyffredinol | Sgiliau TGCh e.e. Ipad/Outlook Explorer ac ati | Fel y byddant yn codi/ar gais |
| | | Sgiliau Iaith Gymraeg (Llafar/Ysgrifenedig) | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Personol/ceisiadau unigol ar sail ad-hoc | | Pecynnau E-Ddysgu | |
| Parhaus | Hyfforddiant sy'n benodol i'r swyddogaeth - | Diweddariadau Cynllunio | Pob Aelod Etholedig ar y Pwyllgor Cynllunio |
| Fel y byddant yn codi | Digwyddiadau Cydweithredol/rhanbarthol | Fel y ceir gwybod | Pob Aelod Etholedig |
| Dyddiad i'w gadarnhau | Gwybodaeth a sgiliau mewn perthynas â swyddogaethau a gweithgareddau penodol | Cyfrifon terfynol | Pob Aelod Etholedig |

**O.N. Bwriedir diwygio'r cynllun fel sy'n briodol wrth i flaenoriaethau newid ac fe gaiff ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion y sefydliad.**

This page is intentionally left blank